# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/03/2013

Cynnwys Contents

[Datganiad Personol](#)
[Personal Statement](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Questions to the Minister for Natural Resources and Food

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio
Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio—Parhad
Questions to the Minister for Housing and Regeneration—Continued

Pwynt o Drefn
Point of Order

Cynnig i Ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes
Motion to Elect a Member to the Business Committee

Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013
The Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013

Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12
The Estyn Annual Report 2011-12

Llais y Cleifion—Cryfhau Rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned
The Patients' Voice—Strengthening the Role of Community Health Councils

Dadl Cyfnod 1 ar Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
Stage 1 Debate on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
Financial Resolution on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.00 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.00 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:00

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

13:00

## Datganiad Personol

## Personal Statement

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Yn gyntaf, datganiad personol gan Bethan Jenkins.

First, a personal statement from Bethan Jenkins.

13:00 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, for allowing me to address the Senedd. I would like to thank the Standards of Conduct Committee for the work that it has done and for the report that was laid last week. I realised that I was likely to face criticism for my decision to go to London, but I was prepared to face that in order to support the Visteon pensioners, who I have been supporting for years. I would like thank the Visteon pensioners, members of the public, and those Assembly Members of all parties who have been supportive and understanding during these past few months. I would like it put on record the apologies I have made to the public already, and to the Assembly through my statements to the Standards of Conduct Committee. Diolch yn fawr.

Diolch i chi, Lywydd, am ganiatáu imi annerch y Senedd. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad am y gwaith y mae wedi'i wneud ac am yr adroddiad a osodwyd yr wythnos diwethaf. Sylweddolais fy mod yn debygol o wynebu beirniadaeth am fy mhenderfyniad i fynd i Lundain, ond yr oeddwn yn barod i wynebu hynny er mwyn cefnogi pensiynwyr Visteon, yr wyf wedi bod yn eu cefnogi ers blynyddoedd. Hoffwn ddiolch i bensiynwyr Visteon, aelodau o'r cyhoedd, a'r Aelodau Cynulliad hynny o bob plaid sydd wedi bod yn gefnogol a goddefgar yn ystod y misoedd diwethaf. Hoffwn roi ar gof a chadw yr ymddiheuriadau yr wyf eisoes wedi eu gwneud i'r cyhoedd, ac i'r Cynulliad drwy fy natganiadau i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Diolch yn fawr.

13:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr.

Thank you very much.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Undebau Credyd

### Credit Unions

13:01 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i undebau credyd. OAQ(4)0978(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on Welsh Government support for credit unions. OAQ(4)0978(FM)*

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol. OAQ(4)0970(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the future sustainability of credit unions in Wales. OAQ(4)0970(FM)*

**David Rees** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn adroddiad interim terfynol y 'Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd' a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth. OAQ(4)0985(FM)*

*11. Will the First Minister make a statement on what actions the Welsh Government will take following the final interim report 'An Evaluation of the Access to Financial Products through Credit Unions Project' published on 12 March. OAQ(4)0985(FM)*

13:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Since 2010, funding in excess of £4 million has been provided to credit unions in Wales to help more than 12,000 people have access to affordable loans and savings. We will continue to build on this success as part of our efforts to tackle poverty and financial exclusion.

Ers 2010, mae mwy na £4 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu i undebau credyd yng Nghymru i helpu mwy na 12,000 o bobl i gael mynediad at fenthyciadau a chynilion fforddiadwy. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn yn rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu ariannol.

13:02 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, your Government published a report into credit unions, which included a warning that, unless financial support continues from Government and Europe, some credit unions could close. Those who run credit unions suggest that they also require help in defeating the stereotype that they are a poor person's bank. What lessons have you learned as a Government from that report?

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd eich Llywodraeth adroddiad ar undebau credyd, a oedd yn cynnwys rhybudd y gallai rhai undebau credyd gau oni bai bod cymorth ariannol yn parhau gan y Llywodraeth ac o Ewrop. Mae'r rhai hynny sy'n rhedeg undebau credyd yn awgrymu eu bod hwythau hefyd angen cymorth i drechu'r stereoteip mai banc i bobl dlawd ydynt. Pa wersi yr ydych wedi eu dysgu fel Llywodraeth o'r adroddiad hwnnw?

13:02

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I know that the previous Minister for Local Government and Communities, Carl Sargeant, and the new Minister for Communities and Tackling Poverty, Huw Lewis, are looking at this closely with a view as to what may be possible after September 2013. We do not think that credit unions will be forced to close if funding is not extended beyond September, but, nevertheless, we want to continue with the good work that has already been taken forward over the past few years.

Gwn fod y Gweinidog blaenorol dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, a'r Gweinidog newydd dros Gymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis, yn edrych ar hyn yn ofalus gan ystyried beth fydd yn bosibl ar ôl mis Medi 2013. Nid ydym yn credu y bydd undebau credyd yn cael eu gorfodi i gau os nad yw'r ariannu yn cael ei ymestyn y tu hwnt i fis Medi, ond, serch hynny, rydym am barhau â'r gwaith da sydd eisoes wedi ei ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

13:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there was a request to group questions 1, 2 and 11.

Brif Weinidog, roedd cais i grwpio cwestiynau 1, 2 a 11.

13:02

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I beg your pardon, Llywydd. I understand that you have given permission for questions 1, 2 and 11 to be grouped.

Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd. Deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i grwpio cwestiynau 1, 2 a 11.

13:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is fine. So, we will have them as a group rather than individually. I call Peter Black.

Mae hynny'n iawn. Felly, byddwn yn eu cael fel grŵp yn hytrach nag yn unigol. Galwaf ar Peter Black.

13:03

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, given the content of the report that Jocelyn Davies has just referred to, what objectives does the Welsh Government intend to include in the next credit union action plan from September 2013, to try to make sure that we get sustainability for credit unions in Wales?

Brif Weinidog, o gofio cynnwys yr adroddiad y mae Jocelyn Davies newydd gyfeirio ato, pa amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynnwys yn y cynllun gweithredu nesaf ar gyfer undebau credyd o fis Medi 2013 ymlaen, i geisio gwneud yn siŵr ein bod yn cael cynaliadwyedd ar gyfer undebau credyd yng Nghymru?

13:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, it stands to reason that credit unions should all, eventually, become freestanding financially. Many have done so, and that has been achieved through improved business planning, risk management, governance and training, and it has been supported through our access to financial services through credit unions project. We will be seeking to work with the credit unions with a view to improving their viability over the next few months and years.

Yn amlwg, mae'n sefyll i reswm y dylai bob undeb credyd, yn y pen draw, fod yn annibynnol yn ariannol. Mae llawer wedi gwneud hynny, ac mae hynny wedi cael ei gyflawni drwy gynllunio busnes, rheoli risg, llywodraethu a hyfforddiant gwell, ac mae wedi cael ei gefnogi trwy ein prosiect mynediad i wasanaethau ariannol trwy undebau credyd. Byddwn yn ceisio gweithio gyda'r undebau credyd gyda golwg ar wella eu hyfywedd yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

13:03

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have already pointed out, the report last week had its concerns. Credit unions provide valuable help to many of our vulnerable people who are normally excluded, and they shelter them from the pay-day loan companies and the loan sharks. We also saw that the junior savers have been a very beneficial aspect of this. What is the Welsh Government going to do to ensure that those junior savers can continue to use credit unions, particularly as, in my credit union, they are looking at having to do some cutting in that area because of the funding loss?

Fel yr ydym wedi nodi eisoes, roedd pryderon yn adroddiad yr wythnos diwethaf. Mae undebau credyd yn darparu cymorth gwerthfawr i lawer o'n pobl agored i niwed sy'n cael eu heithrio fel arfer, ac yn eu gwarchod rhag y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog a benthycwyr arian didrwydded. Rydym hefyd yn gweld bod y cynilwyr iau wedi bod yn agwedd fuddiol iawn ar hyn. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i sicrhau y gall y cynilwyr iau hynny barhau i ddefnyddio undebau credyd, yn enwedig gan eu bod, fel yn fy undeb credyd i, yn ystyried gorfod gwneud rhai toriadau yn y maes hwnnw oherwydd y golled ariannol?

13:04

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As the Member will be aware, we are examining the report, 'An Evaluation of the Access to Financial Services through Credit Unions Project', which was published last week. The report contains recommendations and they are now being considered. We want to see credit unions that are robust and are attractive to all savers, particularly junior savers.

Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rydym yn edrych ar yr adroddiad, 'Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd', a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ac maent bellach yn cael eu hystyried. Rydym am weld undebau credyd sy'n gadarn ac yn ddeniadol i'r holl gynilwyr, cynilwyr iau yn arbennig.

Senedd.tv
Fideo Video

13:04

**Russell George** Bywgraffiad Biography

I know the valuable contribution that credit unions make in our communities, and I appreciate that they also need to be financially self-sufficient. How do you envisage credit lending models being developed over the next five years to enable credit unions to anchor themselves in their respective communities?

Rwy'n gwybod y cyfraniad gwerthfawr y mae undebau credyd yn ei wneud yn ein cymunedau, ac yr wyf yn gwerthfawrogi bod angen iddynt hefyd fod yn hunan-gynhaliol yn ariannol. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd y modelau benthyca credyd yn cael eu datblygu dros y pum mlynedd nesaf i alluogi undebau credyd i angori eu hunain yn eu cymunedau eu hunain?

Senedd.tv
Fideo Video

13:05

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The first thing to do is to ensure that credit unions are viable and are able to stand by themselves. I have already mentioned the report that was published last week, which we will be considering the full implications of. Of course, some credit unions will take different approaches, according to the areas in which they are based; nevertheless, it is important that we move towards a situation in which all credit unions are viable and strong.

Y peth cyntaf i'w wneud yw sicrhau bod undebau credyd yn hyfyw ac yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain. Rwyf eisoes wedi sôn am yr adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, a byddwn yn ystyried ei oblygiadau yn llawn. Wrth gwrs, bydd rhai undebau credyd yn mynd ati mewn ffordd wahanol, yn ôl y meysydd y maent yn gweithio ynddynt; serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn symud tuag at sefyllfa lle mae'r holl undebau credyd yn hyfyw ac yn gryf.

Senedd.tv
Fideo Video

13:05

**Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, in Ireland, credit unions currently have assets of €8 billion and there is an inquiry into whether the regulator there will allow them to invest in small to medium-sized enterprises. With just 22 credit unions in Wales, the lowest percentage pro rata of any country in Britain, what lessons can we learn from our Celtic cousins? Will you encourage local authorities to actively promote credit unions?

Brif Weinidog, yn Iwerddon, mae gan undebau credyd asedau o €8 biliwn ar hyn o bryd ac mae ymchwiliad ar y gweill i weld a fydd y rheoleiddiwr yno yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn mentrau bach i ganolig eu maint. Gyda dim ond 22 o undebau credyd yng Nghymru, y ganran isaf pro rata o unrhyw wlad ym Mhrydain, pa wersi y gallwn ni eu dysgu gan ein cefndryd Celtaidd? A wnewch chi annog awdurdodau lleol i fynd ati i hyrwyddo undebau credyd?

Senedd.tv
Fideo Video

13:05

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Local authorities do actively promote credit unions. Ireland had an enormous head start on us, given the fact that credit unions were present in Ireland from at least the 1980s onwards, in a way that they were not in Wales. The Member is right to say that the assets of Irish credit unions are large, and they are able to offer more financial services to their customers as well. It is an ambition for Welsh credit unions to be able to grow to the level of Irish credit unions, because we know that credit unions have been phenomenally successful in Ireland and are building on successes in Wales.

Mae awdurdodau lleol yn mynd ati i hyrwyddo undebau credyd. Mae Iwerddon wedi cael blaen enfawr arnom ni, gan ystyried y ffaith fod undebau credyd yn bresennol yn Iwerddon o leiaf o'r 1980au ymlaen, mewn ffordd nad oeddent yng Nghymru. Mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod asedau undebau credyd Iwerddon yn fawr, a'u bod yn gallu cynnig mwy o wasanaethau ariannol i'w cwsmeriaid, yn ogystal. Mae'n uchelgais i undebau credyd Cymru i allu tyfu i lefel undebau credyd Iwerddon, oherwydd ein bod yn gwybod bod undebau credyd wedi bod yn aruthrol o lwyddiannus yn Iwerddon ac yn adeiladu ar lwyddiannau yng Nghymru.

Senedd.tv
Fideo Video

13:06 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am sure that you are aware of the U.S. Small Business Administration, which is a United States Government agency that provides support to entrepreneurs and small businesses. The U.S. Small Business Administration loans are made through credit unions. In our Welsh Conservative 'Invest Wales' policy, we suggested that small business loans and support could easily operate through credit unions. Will you explore this option as a form of sustainable support for our credit unions, please?

Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r cynllun Gweinyddu Busnesau Bach yn yr Unol Daleithiau, sef asiantaeth Llywodraeth yr Unol Daleithiau sy'n darparu cefnogaeth i entrepreneuriaid a busnesau bach. Mae benthyciadau Gweinyddu Busnesau Bach yr Unol Daleithiau yn cael eu gwneud drwy undebau credyd. Ym mholisi 'Buddsoddi Cymru' Ceidwadwyr Cymru, awgrymwyd gennym y gellid gweithredu benthyciadau a chefnogaeth i fusnesau bach yn hawdd drwy undebau credyd. A wnewch chi ystyried y dewis hwn fel math o gefnogaeth gynaliadwy ar gyfer ein hundebau credyd, os gwelwch yn dda?

13:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Some do already, but, of course, we will do all that we can to ensure that credit unions are able to offer finance to businesses, working alongside such schemes as Finance Wales.

Mae rhai yn gwneud yn barod, ond, wrth gwrs, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod undebau credyd yn gallu cynnig cyllid i fusnesau, gan weithio ochr yn ochr â chynlluniau megis Cyllid Cymru.

13:07 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o argymhellion adroddiad yr wythnos diwethaf yw ailystyried y ffordd y mae undebau credyd yn cael eu marchnata er mwyn canolbwyntio ar godi dealltwriaeth pobl ohonynt a denu sylfaen aelodaeth ehangach i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. A allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i wella dealltwriaeth pobl o undebau credyd yng Nghymru?

One of the recommendations of last week's report is to reconsider how credit unions are marketed in order to concentrate on raising people's understanding of them and to acquire a broader member base for the credit union movement in Wales. Can you tell us what the Welsh Government is doing to assist in improving people's understanding of credit unions in Wales?

13:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn ystyried pob argymhelliad yn yr adroddiad, a bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad maes o law.

As I said earlier, we are considering every recommendation in the report, and the Minister will make a statement in due course.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 2 was grouped with question 1, so we now move to questions from the party leaders. First this afternoon we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Cafodd cwestiwn 2 ei grwpio gyda chwestiwn 1, felly symudwn yn awr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:07 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, Plaid Cymru Member of the European Parliament Jill Evans was the only Welsh MEP to vote against the cut to the European Union budget that will be disastrous for Wales. You know that a cut to the EU budget will be damaging for Welsh workers and you also know that it is not in the Welsh national interest. Do you intend to give your Welsh Members of Parliament and your Welsh MEP a roasting?

Brif Weinidog, Jill Evans ASE, Aelod Plaid Cymru o Senedd Ewrop oedd yr unig ASE o Gymru i bleidleisio yn erbyn y toriad yng nghyllideb yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn drychinebus i Gymru. Rydych yn gwybod y bydd toriad yng nghyllideb yr UE yn niweidiol i weithwyr Cymru a byddwch hefyd yn gwybod nad yw er budd cenedlaethol Cymru. A ydych yn bwriadu dweud y drefn wrth eich Aelodau Seneddol o Gymru a'ch ASE o Gymru?

13:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

From our point of view, we know that the budget that has been agreed is not in Wales's interest. I have said that many times in the past.

O'n safbwynt ni, rydym yn gwybod nad oedd y gyllideb y cytunwyd arni er budd Cymru. Yr wyf wedi dweud hynny lawer gwaith yn y gorffennol.

Senedd.tv Fideo Video

13:08 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for your answer. I asked you a question last week about the more than £70 million paid by council house tenants to the Treasury under the housing revenue account subsidy scheme. That is money that could be ring-fenced and spent on energy efficient social housing or on a housebuilding programme, perhaps, which could create or safeguard jobs in Wales. You did not give me an answer last week, and I wonder whether I will get one this week. Can you tell us, please, what progress has been made on persuading the Treasury that this money should be retained in Wales, and can we expect an announcement in the budget tomorrow?

Diolch, Brif Weinidog, am eich ateb. Gofynnais gwestiwn i chi yr wythnos diwethaf am y mwy na £70 miliwn a dalwyd gan denantiaid tai cyngor i'r Trysorlys o dan gynllun Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Dyna arian a allai gael ei neilltuo a'i wario ar dai cymdeithasol ynni-effeithlon, neu ar raglen adeiladu tai, efallai, a allai greu neu ddiogelu swyddi yng Nghymru. Ni roesoch ateb imi yr wythnos diwethaf, ac yr wyf yn meddwl tybed a fyddaf yn cael un yr wythnos hon. A allwch ddweud wrthym, os gwelwch yn dda, pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar ddwyn perswâd ar y Trysorlys y dylai'r arian hwn gael ei gadw yng Nghymru, ac a allwn ni ddisgwyl cyhoeddiad yn y gyllideb yfory?

Senedd.tv Fideo Video

13:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is still a matter of discussion with the Treasury. Given the fact that I am not the one writing or announcing the budget, I cannot give you any guarantees as to what will be in it.

Mae'n dal i fod yn fater o drafodaeth gyda'r Trysorlys. O ystyried y ffaith nad fi yw'r un sy'n ysgrifennu nac yn cyhoeddi'r gyllideb, ni allaf roi unrhyw sicrwydd ynglŷn â beth fydd ynddi.

Senedd.tv Fideo Video

13:09 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

When I accused you of u-turning over police powers, you came to the Chamber on 19 February and said:

Pan wnes i eich cyhuddo o newid eich meddwl dros bwerau'r heddlu, daethoch i'r Siambr ar 19 Chwefror a dweud:

'We have believed for a long time that it is possible for policing to be separated from the rest of the system.'

Rydym wedi credu ers amser maith ei bod yn bosibl i blismona gael ei wahanu oddi wrth weddill y system.

Following the reported roasting that you got last week from your MEP, there was a 'Western Mail' article on devolution that did not mention policing at all. Whose position stands, First Minister? Is Labour in favour or against the devolution of policing? Who leads your party in Wales?

Yn dilyn y dwrdio a gawsoch yr wythnos diwethaf gan eich ASE, yn ôl adroddiadau, roedd erthygl yn y 'Western Mail' ar ddatganoli nad oedd yn sôn am blismona o gwbl. Safbwynt pwy sy'n cyfrif, Brif Weinidog? A yw Llafur o blaid neu yn erbyn datganoli plismona? Pwy sy'n arwain eich plaid yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Look at the Welsh Government evidence. That evidence still stands.

Edrychwch ar dystiolaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth honno'n dal i sefyll.

Senedd.tv Fideo Video

13:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, we are in the middle of the largest reconfiguration of health services in a generation. Your Government has embarked on a crucial review into the future of emergency ambulance services, and there are two pieces of landmark health and social care legislation being taken through the Assembly at the moment. Why have you chosen this time to move your Minister for Health?

Brif Weinidog, rydym yng nghanol yr ad-drefnu mwyaf o wasanaethau iechyd a welwyd mewn cenhedlaeth. Mae eich Llywodraeth wedi cychwyn ar adolygiad hanfodol i ddyfodol gwasanaethau ambiwlans brys, ac mae dau ddarn o ddeddfwriaeth iechyd gofal cymdeithasol pwysig yn cael eu dwyn drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Pam rydych chi wedi dewis yr adeg hon i symud eich Gweinidog Iechyd?

Senedd.tv Fideo Video

13:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is always work to be done in all portfolios, and there is never a time when all the work is done. Nevertheless, Ministers need new challenges.

Mae gwaith i'w wneud bob amser ym mhob portffolio, ac nid oes byth amser pan fydd yr holl waith wedi ei wneud. Serch hynny, mae Gweinidogion angen heriau newydd.

13:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps the timing relates to the imminent end of the financial year. Your previous Minister for Health and Social Services said that if the health boards failed to come in on budget, the boards would have to be removed. Based on the detailed financial monitoring that I know that you, personally, and your Government will be undertaking, how many health boards do you expect to come in on budget this financial year?

Efallai bod yr amseru yn ymwneud â diwedd y flwyddyn ariannol sydd ar fin dod. Dywedodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol os na fyddai'r byrddau iechyd yn cadw o fewn y gyllideb, y byddai'n rhaid cael gwared ar y byrddau. Yn seiliedig ar y monitro ariannol manwl y gwn y byddwch chi, yn bersonol, a'ch Llywodraeth yn ymgymryd ag ef, faint o fyrddau iechyd ydych chi'n disgwyl iddynt gadw o fewn eu cyllideb yn y flwyddyn ariannol hon?

13:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Health boards are expected to come in on budget.

Disgwylir i fyrddau iechyd gadw o fewn eu cyllideb.

13:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take it then that you believe that all of them will come in on budget. First Minister, under your Government we have the longest ambulance response times in any part of mainland UK; urgent treatment for cancer waiting times have not been met since 2008; your Government has never met its own accident and emergency targets; and all the evidence suggests that local health boards are likely to fail to come in on their individual budgets. Is it not the reality, First Minister, that you had a choice to make between sacking boards, as your Minister for health promised, or sacking the Minister for health?

Yr wyf yn cymryd yn ganiataol felly eich bod yn credu y bydd pob un ohonynt yn cadw o fewn y gyllideb. Brif Weinidog, o dan eich Llywodraeth, mae gennym yr amseroedd ymateb ambiwlansys hiraf o unrhyw ran o dir mawr y DU; amseroedd aros am driniaeth frys ar gyfer canser heb eu cyflawni ers 2008, ac nid yw eich Llywodraeth erioed wedi bodloni ei thargedau damwain ac achosion brys ei hun; a'r mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod byrddau iechyd lleol yn debygol o fethu â chadw at eu cyllidebau unigol. Onid y gwirionedd, Brif Weinidog, yw eich bod wedi gorfod dewis rhwng cael gwared ar fyrddau iechyd, fel yr addawodd eich Gweinidog iechyd, neu ddiswyddo'r Gweinidog iechyd?

13:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no evidence to back up what the leader of the Liberal Democrats has said. We have been nothing but honest with the people of Wales. I noticed last week that she said, live on the BBC, that she was in favour of the bedroom tax, which drives the coach and horses through her suggestion that the Welsh Lib Dems are somehow a separate entity to the Lib Dems at UK level. We will continue to deliver good health services for the people of Wales. Where there are problems, we will address them.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i ddweud. Rydym wedi bod yn gwbl onest â phobl Cymru. Sylwais yr wythnos diwethaf ei bod yn dweud, yn fyw ar y BBC, ei bod o blaid y dreth ystafell wely sy'n gwbl groes i'w hawgrym bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru rywsut yn endid ar wahân i'r Democratiaid Rhyddfrydol ar lefel y DU. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd da ar gyfer pobl Cymru. Pan fo problemau, byddwn yn ymdrin â nhw.

13:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn yn awr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Ed Miliband, leader of Welsh Labour endorsed our banking policy last week when he identified the need for regional banks and a greater understanding of localised economies, similar to what we had in 'Invest Wales'. As you have told us time and again, you also have a Conservative leading your banking review. Also, your MPs do not back your policy of devolving police powers; they endorse our policy of keeping police powers at Westminster. With your Twitter reshuffle last week, is it not now time that, instead of reshuffling the pack, you reshuffled many of your policies so that they could start delivering for the people of Wales?

Cymeradwyodd Ed Miliband, arweinydd Llafur Cymru ein polisi bancio yr wythnos diwethaf wrth iddo nodi'r angen am fanciau rhanbarthol a gwell dealltwriaeth o economïau lleol, yn debyg i'r hyn a oedd gennym ni yn 'Buddsoddi Cymru'. Fel yr ydych wedi dweud wrthym dro ar ôl tro, mae gennych hefyd Geidwadwr yn arwain eich adolygiad bancio. Hefyd, nid yw eich ASau yn cefnogi eich polisi datganoli pwerau'r heddlu, maent yn cefnogi ein polisi ni o gadw pwerau'r heddlu yn San Steffan. Gyda'ch ad-drefnu ar trydar yr wythnos diwethaf, onid yw hi bellach yn bryd i chi, yn hytrach nag ad-drefnu eich pobl, ad-drefnu llawer o'ch polisïau er mwyn iddynt ddechrau cyflawni dros bobl Cymru?

13:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He claims to know what the views of my party actually are better than I do. However, I did notice that when it came to the announcement that his party made about devolving powers, one of his own MPs—Glyn Davies—was on Twitter condemning him. That is something that he seems to have forgotten. That is not the way that we conduct business within the Welsh Labour Party. I take what he says about his plans with 'Invest Wales'. He will be aware, of course, of Finance Wales and the good work that it is doing.

Mae'n honni ei fod yn gwybod yn well na fi beth yw safbwyntiau fy mhlaid mewn gwirionedd. Fodd bynnag, sylwais, o glywed y cyhoeddiad a wnaeth ei blaid am ddatganoli pwerau, bod un o'i Aelodau Seneddol ei hun—Glyn Davies—yn ei gondemnio ar Twitter. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n ymddangos ei fod wedi'i anghofio. Nid dyna'r ffordd yr ydym yn cynnal busnes o fewn Plaid Lafur Cymru. Derbyniaf yr hyn a ddywed am ei gynlluniau gyda 'Buddsoddi Cymru'. Bydd yn ymwybodol, wrth gwrs, o Gyllid Cymru a'r gwaith da y mae'n ei wneud.

13:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are all aware of the confidence that the MPs show in your leadership, First Minister. Last week, you also renamed the business, enterprise, technology and science portfolio as the economy, science and transport portfolio. When the Assembly reconvened for the fourth Assembly, you said that it was vitally important that transport stayed with local government. When did this revelation occur that transport is intrinsically linked to the economy and the affairs of the Minister for the economy? Talking of the Minister for the economy, is it not absurd that we have a Minister for the economy who regrets the capitalist system? How can business have confidence when the ideology of the Government is set so firmly against the interests of business and wants to support Marxism? [Assembly Members: 'Oh'.]

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r hyder sydd gan yr ASau yn eich arweinyddiaeth, Brif Weinidog. Yr wythnos diwethaf, fe wnaethoch hefyd ailenwi'r portffolio busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth gan ei alw'n bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth. Pan wnaeth y Cynulliad ail ymgynnull ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, dywedasoch ei bod yn hanfodol bwysig bod trafnidiaeth yn aros gyda llywodraeth leol. Pryd ddigwyddodd y datgeliad hwn bod trafnidiaeth yn gysylltiedig yn y bôn â'r economi a materion yn ymwneud â Gweinidog yr economi? O sôn am Weinidog yr economi, onid yw'n hurt bod gennym Weinidog yr economi sydd yn gresynu at y system gyfalafol? Sut y gall busnesau fod yn hyderus pan fo ideoleg y Llywodraeth yn gadarn yn erbyn buddiannau busnes ac yn awyddus i gefnogi Marcsiaeth? [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.]

13:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do wonder sometimes at the awareness of the leader of the opposition when it comes to the perception of him out there. One thing that I can promise him is that businesses have far more faith in the Minister for Economy, Science and Transport than ever they have in him.

Byddaf yn synnu weithiau am ymwybyddiaeth arweinydd yr wrthblaid o'r canfyddiad ohono ymhlith y cyhoedd. Un peth y gallaf ei addo iddo yw bod gan fusnesau lawer mwy o ffydd yng Ngweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth nag a fydd ganddynt fyth ynddo ef.

13:14 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was hardly a ringing endorsement, to be honest with you. [Laughter.] When you look at the unemployment figures—[Interruption.]

Prin fod honno'n gefnogaeth atseiniol, i fod yn onest â chi. [Chwerthin.] Pan fyddwch yn edrych ar y ffigyrau diweithdra—[Torri ar draws.]

13:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

13:15 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When you look at the unemployment figures for last month, with 7,000 more unemployed in Wales, in contrast to the 14,000 more jobs created across the United Kingdom, is it not the case that your economic policies are failing to deliver for the people of Wales?

Pan fyddwch yn edrych ar y ffigyrau diweithdra ar gyfer mis diwethaf, gyda 7,000 yn fwy yn ddi-waith yng Nghymru, yn wahanol iawn i'r 14,000 mwy o swyddi a gafodd eu creu ar draws y Deyrnas Unedig, onid yw'n wir bod eich polisïau economaidd yn methu â chyflawni dros bobl Cymru?

Presiding Officer, is it not the case that he has failed to deliver on the health budget, he has failed to deliver on the reconfiguration of the health service, and he has failed to stand up for local services? Is it not the case, Presiding Officer, that he has failed to deliver for the people of Wales, and that he has just kept his old gang together? [Assembly Members: 'Oh.']

Llywydd, onid yw'n wir ei fod wedi methu â chyflawni ar y gyllideb iechyd, ei fod wedi methu â chyflawni ar ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, a'i fod wedi methu â sefyll i fyny dros wasanaethau lleol? Onid yw'n wir, Llywydd, ei fod wedi methu â chyflawni dros bobl Cymru, ac mai'r cwbl y mae wedi'i wneud yw cadw ei hen griw ynghyd? [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.]

13:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I would just inform the leader of the opposition that you are not here to question me; you are here to question the First Minister. So, can you refer your questions to him in future? I call the First Minister.

Trefn. Dylwn ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid nad ydych yma i fy holi i; rydych yma i holi'r Prif Weinidog. Felly, a wnewch chi gyfeirio eich cwestiynau ato ef yn y dyfodol? Galwaf ar y Prif Weinidog.

13:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That was quite astonishing. The one thing that he does not seem to understand is how discredited his party is in terms of his economic policy—three years of nothing. We still do not see a change of plan, just the same old lazy policies shovelled out year after year as people suffer across the UK. What is his answer? It is to make those who are worst off in society suffer even more. We see it with the bedroom tax, we see it with their view on the economy, we see it with their view on health and safety, and we see it with their view on the Agricultural Wages Board. Is not the reality this, Llywydd—[Interruption.]

Roedd hynna'n dra syfrdanol. Yr un peth nad yw'n ymddangos ei fod yn ei ddeall yw cymaint mewn anfri y mae ei blaid o ran ei bolisi economaidd—tair blynedd o ddim byd. Rydym eto i weld newid cynllun, dim ond yr un hen bolisïau diog yn cael eu hailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i bobl ddioddef ar draws y DU. Beth yw ei ateb? Ei ateb yw gwneud i'r rhai tlotaf mewn cymdeithas ddioddef hyd yn oed mwy. Rydym yn gweld hyn gyda'r dreth ystafell wely, rydym yn ei weld drwy eu safbwynt ar yr economi, rydym yn ei weld drwy eu safbwynt ar iechyd a diogelwch, ac rydym yn ei weld drwy eu safbwynt ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Onid dyma'r gwirionedd, Llywydd—[Torri ar draws.]

13:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The reality of the situation is that the leader of the opposition said that running the economy was like playing a game of rugby. That is what he said this morning—it is as simple as that, apparently. However, the reality of the situation is this: in rugby, Wales wins. Under the Tories, Wales loses.

Gwirionedd y sefyllfa yw bod arweinydd yr wrthblaid wedi dweud bod rhedeg yr economi fel chwarae gêm o rygbi. Dyna a ddywedodd y bore yma—mae mor syml â hynny, mae'n debyg. Fodd bynnag, gwirionedd y sefyllfa yw hyn: yn y byd rygbi, mae Cymru yn ennill. O dan y Torïaid, mae Cymru yn colli.

### Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc

### Youth Unemployment

13:16 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yn etholaeth Pontypridd. OAQ(4)0981(FM)*

*3. Will the First Minister outline the steps taken by the Welsh Government in tackling youth unemployment in the Pontypridd constituency. OAQ(4)0981(FM)*

13:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes. It clearly remains at a level of concern across Wales and the rest of the UK, but, of course, we are delivering on our programme for government, including extending apprenticeships, following the agreement with Plaid Cymru, and there are the 4,000 jobs created each year for young people through our Jobs Growth Wales programme.

Gwnaf. Mae'n amlwg yn parhau ar lefel o bryder ar draws Cymru a gweddill y DU, ond, wrth gwrs, yr ydym yn cyflawni ein rhaglen ar gyfer llywodraeth, gan gynnwys ymestyn prentisiaethau, yn dilyn y cytundeb â Phlaid Cymru, ac mae 4,000 o swyddi yn cael eu creu bob blwyddyn ar gyfer pobl ifanc trwy ein rhaglen Twf Swyddi Cymru.

13:17 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that answer, First Minister. The Jobs Growth Wales programme has been very advantageous in the Rhondda Cynon Taf area, where, so far, over 360 jobs have been created. The scale of the problem, however, is very large, and, for that reason, I welcome very much the £40 million commitment in respect of apprenticeships. What I am wondering is this: how will the Government address those areas where we have the highest levels of youth unemployment to ensure that the investment goes to support the areas that are in most need?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru wedi bod o fantais fawr i ardal Rhondda Cynon Taf, lle, hyd yn hyn, mae dros 360 o swyddi wedi'u creu. Mae maint y broblem, fodd bynnag, yn fawr iawn, ac, am y rheswm hwnnw, yr wyf yn croesawu'n fawr iawn yr ymrwymiad o £40 miliwn ar gyfer prentisiaethau. Yr hyn yr wyf yn meddwl amdano yw hyn: sut y bydd y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r meysydd lle mae gennym y lefelau uchaf o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn rhoi cymorth i'r ardaloedd lle y mae mwyaf o angen?

13:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We will be increasing the number and variety of higher apprenticeships available, and enhancing the support available under the Young Recruits programme by increasing the first 26 weekly payments from £50 to £100. We will be looking to offer a one-off payment of £500 to small and micro businesses to assist with the cost of recruiting an apprentice, and we will be looking to develop bespoke projects, such as encouraging more young women into science, technology, engineering and mathematics apprenticeships and also increasing the delivery of apprenticeships through the medium of Welsh. That will apply across the whole of Wales, of course, but will apply particularly in constituencies such as yours.

Byddwn yn cynyddu nifer ac amrywiaeth y prentisiaethau uwch sydd ar gael, a gwella'r cymorth sydd ar gael o dan y rhaglen Recriwtiaid Ifanc drwy gynyddu'r 26 taliad wythnosol cyntaf o £50 i £100. Ein bwriad yw cynnig taliad un-tro o £500 i fusnesau bach a micro i gynorthwyo gyda'r gost o recriwtio prentis, a byddwn yn edrych i ddatblygu prosiectau pwrpasol, megis annog mwy o ferched ifanc i mewn i brentisiaethau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a hefyd yn cynyddu nifer y prentisiaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hynny'n berthnasol ar draws Cymru gyfan, wrth gwrs, ond bydd yn arbennig o berthnasol mewn etholaethau fel eich un chi.

13:18 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

In respect of unemployment in Pontypridd, First Minister, I did offer you, in leaders' questions, the opportunity to explain why your economic policies are creating more unemployed people here in Wales, when more jobs are being created across the rest of the United Kingdom. Can you now answer that question? Some 14,000 more jobs were created across the United Kingdom, whereas nearly 7,000 people were made unemployed in the last month in Wales. That is letting the people of Pontypridd and the people of Wales down.

O ran diweithdra ym Mhontypridd, Brif Weinidog, cynigais y cyfle i chi, yn ystod cwestiynau arweinwyr y pleidiau, esbonio pam mae eich polisïau economaidd yn creu mwy o bobl ddi-waith yma yng Nghymru, pan fo mwy o swyddi yn cael eu creu ar draws gweddill y Deyrnas Unedig . A allwch chi ateb y cwestiwn hwnnw nawr? Crëwyd tua 14,000 mwy o swyddi ar draws y Deyrnas Unedig, tra bod bron i 7,000 o bobl wedi eu gwneud yn ddi-waith yn y mis diwethaf yng Nghymru. Mae hynny'n gadael pobl Pontypridd a phobl Cymru i lawr.

13:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely not. Just look at the successes that we have had in creating jobs. Jobs Growth Wales is one example of that. I have to say to him that his own Government asked that it be judged on whether the UK kept its AAA rating. His own party has lost the AAA rating. He accuses us of being some kind of Marxist cabal here on these benches. Is 'The Economist' part of that, because 'The Economist' was last week calling on the Government to change direction in London? Are his own party's MPs who call on the UK Government to change direction—and, indeed, some MPs in the Liberal Democrats—part of a Marxist plot? I think that we should be told. The reality is that there is a wide swathe of society that is calling on his party to change direction, even those whom I would never regard as supporters of my party, 'The Economist' being one example. Is it not time that he and his party listened to the people of Wales?

Dim o gwbl. Edrychwch ar y llwyddiannau yr ydym wedi eu cael wrth greu swyddi. Mae Twf Swyddi Cymru yn un enghraifft o hynny. Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho fod ei Lywodraeth ei hun wedi gofyn am gael ei barnu ar ba un a fyddai'r DU yn cadw ei statws AAA. Mae ei blaid ei hun wedi colli'r statws AAA. Mae'n ein cyhuddo o fod yn rhyw fath o gabál Marcsaidd yma ar y meinciau hyn. A yw 'The Economist' yn rhan o hynny, oherwydd roedd 'The Economist' yr wythnos diwethaf yn galw ar y Llywodraeth i newid cyfeiriad yn Llundain? A yw ASau ei blaid ei hun sy'n galw ar Lywodraeth y DU i newid cyfeiriad—ac, yn wir, rhai Aelodau Seneddol o blith y Democratiaid Rhyddfrydol—yn rhan o gynllwyn Marcsaidd? Credaf y dylem gael gwybod. Y gwirionedd yw bod rhan helaeth o gymdeithas yn galw ar ei blaid i newid cyfeiriad, hyd yn oed y rhai hynny na fyddwn fyth yn eu hystyried yn gefnogol i'm plaid, 'The Economist' yn un enghraifft. Onid yw'n bryd iddo fe a'i blaid wrando ar bobl Cymru?

13:19 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last year, youth unemployment reached a 15-year high. In the constituency where I live, the Rhondda, which is next door to the Pontypridd constituency, the percentage of 16 to 24-year-olds out of work is 31%, whereas it is 24% in the rest of Wales. The apprenticeship deal that you referred to earlier, negotiated by Plaid Cymru, was a major step in the right direction, but the scale is still large. Can you tell us what else you intend to do to offer hope to the many 16 to 24-year-olds, particularly those who are not in education, employment or training, in the Rhondda and, indeed, elsewhere?

Brif Weinidog, y llynedd, cyrhaeddodd diweithdra ymhlith pobl ifanc ei bwynt uchaf ers 15 mlynedd. Yn yr etholaeth lle rydw i'n byw, y Rhondda, sydd y drws nesaf i etholaeth Pontypridd, mae canran y rhai rhwng 16 a 24 mlwydd oed sydd allan o waith yn 31%, tra ei fod yn 24% yng ngweddill Cymru. Mae'r cytundeb prentisiaeth y cyfeiriasoch ato yn gynharach, a negodwyd gan Blaid Cymru, yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir, ond mae'r raddfa yn dal yn fawr. A allwch chi ddweud wrthym beth arall yr ydych yn bwriadu ei wneud i gynnig gobaith i'r rhai rhwng 16 a 24 mlwydd oed, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn y Rhondda ac, yn wir, mewn mannau eraill?

13:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I have mentioned Jobs Growth Wales many times in the Chamber. The latest figures on youth unemployment show a fall of 1,500 over the quarter, which is in the right direction, but it is just one quarter, and there is still much to do, as I am sure the leader of Plaid Cymru will know. To give other examples of what we are doing, we are working to encourage employers to recruit new apprentices via the pathways to apprenticeships programme and the Young Recruits programme, and we are working with anchor companies and regionally important companies via the apprenticeship-matching service. We believe that this will create thousands of additional apprenticeship places, which will of course be important, because we know that, if you look at the figures across Wales, having skills makes you far more likely to be employed. Providing people with as much opportunity as possible to get those skills, therefore, is crucial to Government policy.

Gallaf. Yr wyf wedi sôn am Twf Swyddi Cymru lawer gwaith yn y Siambr. Mae'r ffigurau diweddaraf ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yn dangos gostyngiad o 1,500 dros y chwarter, sydd yn mynd i'r cyfeiriad iawn, ond un chwarter yn unig yw hyn, ac mae llawer eto i'w wneud, fel yr wyf yn siŵr y bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwybod. I roi enghreifftiau eraill o'r hyn yr ydym yn ei wneud, rydym yn gweithio i annog cyflogwyr i recriwtio prentisiaid newydd drwy'r llwybrau i'r rhaglen brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïau sefydledig a chwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol drwy'r gwasanaeth paru prentisiaethau. Rydym yn credu y bydd hyn yn creu miloedd o leoedd prentisiaeth ychwanegol, a fydd wrth gwrs yn bwysig, oherwydd y gwyddom fod, os edrychwch ar y ffigurau ar draws Cymru, meddu ar sgiliau yn eich gwneud yn llawer mwy tebygol o gael eich cyflogi. Mae rhoi cymaint o gyfle ag y bo modd i bobl gael y sgiliau hynny, felly'n hanfodol i bolisi'r Llywodraeth.

### Y GIG yng Ngogledd Cymru

### The NHS in North Wales

13:21 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0969(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the future of NHS services in north Wales. OAQ(4)0969(FM)*

13:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As the Member knows, Betsi Cadwaladr University Local Health Board is developing its plans for delivering sustainable services across north Wales. He will know that some aspects have been referred by the community health council, and I will take a decision as to the next steps over the course of the next week.

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy ar draws gogledd Cymru. Bydd yn gwybod bod rhai agweddau wedi cael eu hatgyfeirio gan y cyngor iechyd cymuned, a byddaf yn gwneud penderfyniad ynghylch y camau nesaf yn ystod yr wythnos i ddod.

13:21 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have made reference to the referral by the Betsi Cadwaladr Community Health Council. Can you clarify, as you seem to suggest that you would still take the decision in respect of the north Wales reorganisation, as opposed to your newly appointed Minister for Health? Can you clarify what the timetable will be, and whether you will be taking that decision, as opposed to your Minister for Health?

Yr ydych wedi cyfeirio at yr atgyfeiriad gan Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr. A allwch chi egluro, gan ei bod yn ymddangos eich bod yn awgrymu mai chi fyddai'n dal i gymryd y penderfyniad o ran yr ad-drefnu yng ngogledd Cymru, yn hytrach na'ch Gweinidog Iechyd sydd newydd ei benodi? A allwch chi egluro beth fydd yr amserlen, ac ai chi fydd yn cymryd y penderfyniad hwnnw, yn hytrach na'ch Gweinidog Iechyd?

13:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would hope to be in a position to take a final decision over the course of the next week. There are some factors that might intervene with that, but clarity is important in these things. I will take the decision over what should be decided by the Welsh Government. That was a decision that was taken when the previous Minister was in place and I see no reason to change that at this stage.

Byddwn yn gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol yn ystod yr wythnos nesaf. Mae rhai ffactorau a allai darfu ar hynny, ond mae eglurder yn bwysig yn y pethau hyn. Byddaf yn gwneud y penderfyniad dros yr hyn a ddylai gael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru. Yr oedd hwnnw'n benderfyniad a gymerwyd pan oedd y Gweinidog blaenorol yn y swyddogaeth ac ni welaf unrhyw reswm i newid hynny ar hyn o bryd.

13:22 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau y mae BILl Betsi Cadwaladr wedi eu hargymell, roedd addewid y byddai ysbytai cymunedol ond yn cau ar ôl gosod gwasanaethau iechyd cymunedol eraill yn eu lle. Yn achos Llangollen, lle mae 18 o welyau wedi diflannu gyda chau’r ysbyty cymunedol wythnos diwethaf, addawyd y byddai gwelyau ar gael yn Ysbyty Cymuned y Waun neu mewn cartrefi preswyl preifat. Rwyf wedi gwneud rhai ymholiadau, ac mae’n ymddangos nad oes gwelyau yn y Waun nac ychwaith o fewn y cartrefi preifat hynny. Yn waeth byth, dywedir wrthyf nad oes neb o’r byrddau iechyd hyd yn oed wedi cysylltu i weld a oes capasiti ar gael. A ydych yn cytuno, felly, y dylai’r bwrdd iechyd fod wedi gwneud ei waith cartref llawer yn fwy trylwyr cyn mynd ar ôl y math o addewidion hyn, a’u bod, mewn gwirionedd, yn ddim byd ond addewidion gwag?

In the consultation on the reconfigurations that Betsi Cadwaladr LHB has recommended, there was a pledge that community hospitals would close only when other community health services were in place. In the case of Llangollen, where 18 beds have disappeared as a result of the closure of the community hospital last week, there was a pledge that beds would be available in Chirk Community Hospital or in private residential homes. I have made some inquiries and it appears that those beds are not available in Chirk and there are no beds available within these private homes. Worse, I am told that no-one from the health boards have even been in touch to see whether the capacity is available. Do you agree, therefore, that the health board should have done its homework far more thoroughly before pursuing such pledges, and that, in reality, they are nothing but empty promises?

13:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae’n anodd ateb cwestiwn manwl fel hynny yma, felly rwy’n gofyn i’r Aelod ysgrifennu ataf gyda’r manylion er mwyn imi edrych ar y cwynion. O ran unrhyw benderfyniadau ynglŷn ag ysbytai cymunedol, mae hwnnw’n rhywbeth sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

It is difficult to answer such a detailed question here, so I would invite the Member to write to me with the details so that I can look at the complaints. In terms of any decision regarding community hospitals, that is under consideration at present.

13:23 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, nid wyf yn disgwyl ichi fynegi barn ar yr ad-drefnu, ond, yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 7 Mawrth, yng nghanol yr ad-drefnu gwasanaethau ar gyfer y newydd-enedig, clywodd y pwyllgor nad oedd data wedi eu casglu ynglŷn â'r niferoedd yn y gogledd yn 2011, ac nad yw'r data ar gyfer y llynedd yn barod ychwaith. A yw'n dderbyniol bod bwrdd iechyd yn ad-drefnu ar sail y diffyg gwybodaeth hwn?

First Minister, I do not expect you to express an opinion on the reconfiguration, but, during a meeting of the Children and Young People Committee on 7 March, as the changes to neonatal services were going ahead, the committee heard that no data had been gathered on the numbers in north Wales in 2011, and that the data for last year are not ready either. Is it acceptable that a health board should reorganise on the basis of this lack of information?

13:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn cael y wybodaeth fanylaf posibl cyn cymryd penderfyniadau. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth sy'n hollol glir. Nid wyf yn gwybod pam mae'r sefyllfa fel ag y mae, ond mae'r rhain yn ffactorau y bydd yn rhaid imi eu hystyried wrth gymryd penderfyniad ynglŷn â'r dyfodol dros y diwrnodau ac wythnosau nesaf.

It is important that health boards get the most detailed data available before taking decisions. I believe that is completely clear. I do not know what lies behind this situation, but these are factors that I will have to consider in taking a decision on the future over the next few days and weeks.

**Babanod Newydd-Anedig**

**Newborn Babies**

13:24 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0973(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on intensive care services for newborn babies in North Wales. OAQ(4)0973(FM)*

**Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch gofal dwys i fabanod yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0983(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement about Betsi Cadwaladr University Local Health Board's decision regarding intensive care for babies in north Wales. OAQ(4)0983(FM)*

13:24 Mae hwn yn rhywbeth pwysig dros ben i bobl y gogledd. Rwy'n deall hynny a bydd yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried yn ystod y broses o benderfynu beth ddylai gael ei ystyried gan y Llywodraeth.

Senedd.tv Fideo Video

This is an exceptionally important issue for the people of north Wales. I understand that, and it is something that I will be considering during the process of deciding what should be decided by the Government.

13:25 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. A ydych yn rhannu, felly, ofid y BMA, a nifer o gyrff tebyg, os bydd y cynlluniau i symud lefel uchaf y gofal dwys yn bwrw ymlaen, mai mater o amser fydd hi nes, neu y bydd hi'n fwy tebygol, y bydd holl wasanaethau gofal dwys i fabanod y gogledd yn drifftio, yn y pen draw, ar draws y ffin i Loegr?

Thank you, First Minister. Do you, therefore, share the concerns of the BMA, and a number of similar organisations, that, if the plans to move the highest level of intensive care go ahead, it will only be a matter of time before all intensive care services for babies in north Wales drift over the border to England—or that that will become more likely?

13:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae barn meddygon yn bwysig dros ben. Byddaf yn ystyried eu barn fel rhan o'r broses.

The views of doctors are, of course, very important. I will consider their views as part of the process.

13:25 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i anfon babanod ag arnynt angen gofal dwys i Arrowe Park yn seiliedig ar ffigurau o 30 i 40 o fabanod y flwyddyn. Fodd bynnag, os edrychwch ar ffigurau ardal Hywel Dda, sydd â thua hanner poblogaeth y gogledd, gwelwch fod 79 o fabanod yn 2011 wedi cael eu hanfon i uned gofal dwys Treforys. Os edrychwch ar ffigurau Gwent, sydd â llai o enedigaethau na gogledd Cymru o gryn dipyn, rydych yn edrych ar ffigur o tua 130 i 140 o fabanod ag arnynt angen gofal dwys, hyd y gwelaf. Oherwydd yr ansicrwydd hwnnw ynglŷn â'r ffigurau, a wnewch chi ddod â'r penderfyniad hwn i mewn, i gael edrych yn fanwl ar sail y penderfyniad?

The Betsi Cadwaladr University Local Health Board decision to send babies in need of intensive care to Arrowe Park is based on figures of 30 to 40 babies per year. However, if you look at figure for the Hywel Dda area, which has about half the population of north Wales, you see that 79 babies were sent in 2011 to the Morriston intensive care unit. If you look at the figures for Gwent, which has a significantly lower birth rate than north Wales, some 130 to 140 babies, as far as I can see, needed intensive care. Given that uncertainty about the figures, will you call in this decision, to allow detailed consideration of the basis on which it was made?

13:26 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ni allaf roi ateb yn awr, fel bydd yr Aelod yn deall, ond rwy'n clywed yr hyn mae Aelodau'n ddweud a'r pwyntiau maent yn eu gwneud yn y Siambr heddiw, a byddaf yn ystyried yn fanwl iawn beth ddylid ei wneud ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd.

I cannot give an answer now, as the Member will understand, but I hear what Members say and the points that they are making in the Chamber today, and I will consider very carefully what should be done about the health service in north Wales.

13:26 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the BMA has stated categorically:

'We do not see that transfer of patients and resources to another English district general hospital represents improved care or value for the people of Wales'.

It believes that the number of transfers quoted is likely to be a significant underestimate and it also believes, on the advice given by the British Association of Perinatal Medicine to the health board, that the health board is being blinkered in the presentation of the evidence and the advice it has received. On the issue of consultation, it is also very worried that the health board is dismissive of so many of its professional workforce and of an open public consultation that clearly supported that neonatal intensive care should remain in north Wales.

First Minister, will you acknowledge these clear statements from the most professional organisation and reverse this outrageous proposal?

Brif Weinidog, mae'r BMA wedi dweud yn bendant:

Nid ydym yn gweld bod trosglwyddo cleifion ac adnoddau i ysbyty cyffredinol dosbarth arall yn Lloegr yn cynrychioli gwell gofal neu werth i bobl Cymru.

Mae'n credu bod y nifer o drosglwyddiadau a ddyfynnir yn debygol o fod yn amcangyfrif sy'n sylweddol rhy isel ac mae hefyd yn credu, o'r cyngor a roddwyd gan y Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain i'r bwrdd iechyd, fod y bwrdd iechyd yn cael cau ei lygaid yng nghyflwyniad y dystiolaeth a'r cyngor y mae wedi'i dderbyn. Ar fater ymgynghori, mae hefyd yn bryderus iawn bod y bwrdd iechyd yn ddiystyriol o gynifer o'i weithlu proffesiynol ac o ymgynghoriad cyhoeddus agored a gefnogodd yn glir y dylai gofal dwys newyddenedigol aros yng ngogledd Cymru.

Brif Weinidog, a wnewch chi gydnabod y datganiadau clir hyn gan y sefydliad mwyaf proffesiynol a gwrthdroi'r cynnig cywilyddus hwn?

13:27 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I acknowledge that those statements have been made.

Rwy'n cydnabod bod y datganiadau hynny wedi eu gwneud.

13:27 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, one of the reasons cited for moving the service from north Wales to the north of England has been the difficulties in recruiting neonatologists. You have a general recruitment campaign in the Welsh NHS. Will you consider a targeted campaign to attract the very best neonatologists in the UK to come to work in north Wales to ensure that the service can survive?

Brif Weinidog, un o'r rhesymau a nodwyd ar gyfer symud y gwasanaeth o ogledd Cymru i ogledd Lloegr oedd yr anawsterau o ran recriwtio neonatolegyddion. Mae gennych ymgyrch recriwtio cyffredinol yn y GIG yng Nghymru. A wnewch chi ystyried ymgyrch wedi'i thargedu i ddenu'r neonatolegyddion gorau yn y DU i ddod i weithio i ogledd Cymru er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth oroesi?

13:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are a number of issues that I need to consider. I have said in the Chamber before that we have to consider the issue of what it means in the long term to be reliant on a hospital that is across the border and may change in years to come. That is clearly a factor that I will need to consider. One word of caution that I will use, and Members will understand this, is that it is not easy to recruit specialists in particular areas—accident and emergency is the most difficult. Developing a service takes years in order to build up the right level of expertise. This is something that clearly will be a factor that will be looked at during the course of the decision-making process.

Mae nifer o faterion y mae angen i mi eu hystyried. Yr wyf wedi dweud yn y Siambr o'r blaen fod yn rhaid i ni ystyried y mater o beth mae'n ei olygu yn y tymor hir i fod yn ddibynnol ar ysbyty sydd ar draws y ffin ac a allai newid yn y blynyddoedd i ddod. Mae hynny'n amlwg yn ffactor y bydd angen i mi ei ystyried. Mae gair o rybudd y byddaf yn ei ddefnyddio, a bydd yr Aelodau yn deall hyn, sef nad yw'n hawdd recriwtio arbenigwyr mewn meysydd penodol—damweiniau ac achosion brys yw'r mwyaf anodd. Mae datblygu gwasanaeth yn cymryd blynyddoedd er mwyn datblygu'r lefel gywir o arbenigedd. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn amlwg yn ffactor yr edrychir arno yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

13:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6 was grouped with question 5, so we move to question 7.

Cafodd cwestiwn 6 ei grwpio gyda chwestiwn 5, felly rydym yn symud i gwestiwn 7.

### Biwrocratiaeth i Fusnesau

### Red Tape for Businesses

13:28 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau biwrocratiaeth i fusnesau yng Nghymru. OAQ(4)0979(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to reduce red tape for businesses in Wales. OAQ(4)0979(FM)*

13:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We always review the impact of our policies as part of the policy development process.

Rydym bob amser yn adolygu effaith ein polisïau yn rhan o'r broses o ddatblygu polisïau.

13:29 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. You will be aware that, in July 2010, the UK coalition Government introduced a one-in, one-out policy for new regulation on businesses. New analysis has shown that it has saved £919 million for businesses in the UK. What assessments have you made of the opportunity to streamline and clarify Welsh law with regard to business in your legislative programme?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth glymblaid y DU, ym mis Gorffennaf 2010, wedi cyflwyno polisi un i mewn, un allan ar gyfer rheoleiddio newydd ar fusnesau. Mae dadansoddiad newydd wedi dangos bod hyn wedi arbed £919 miliwn i fusnesau yn y DU. Pa asesiadau ydych chi wedi'u gwneud ar y cyfle i symleiddio ac egluro deddfau Cymru ar gyfer busnes yn eich rhaglen ddeddfwriaethol?

13:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What that policy has not done is create more jobs or growth. That is the thing. It may have saved money, but I cannot see a greater growth in the economy as a result of that. Most of the regulation facing business is either UK or EU based and we routinely make representations to Whitehall on its reviews of regulation. It is right to say that some regulation is made in Wales, but, when it comes to much business regulation, really, it is to do with the UK or the EU.

Yr hyn nad yw'r polisi hwnnw wedi ei wneud yw creu mwy o swyddi neu dwf. Dyna'r peth. Efallai ei fod wedi arbed arian, ond ni allaf weld mwy o dwf yn yr economi o ganlyniad i hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r rheoleiddio sy'n wynebu busnes naill ai'n seiliedig yn y DU neu'r UE ac rydym yn gwneud sylwadau rheolaidd i Whitehall ar ei adolygiadau rheoleiddio. Mae'n iawn i ddweud bod rhywfaint o reoleiddio yn cael ei wneud yng Nghymru, ond, o ran llawer iawn o reoleiddio busnes, mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â'r DU neu'r UE.

13:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is clearly no one-in, one-out policy in the Cabinet, is there, First Minister? There are big problems, as we all know, with red tape and reducing bureaucracy in rural business. Your Welsh Government commissioned the 'Working Smarter' report by Gareth Williams, which made 74 recommendations. Rural business needs help at this time. What immediate steps are you taking to make sure that the challenges they face are surmountable and the situation facing rural areas is turned around as quickly as possible?

Mae'n amlwg nad oes polisi un i mewn, un allan yn y Cabinet, nac oes, Brif Weinidog? Mae problemau mawr, fel y gwyddom ni i gyd, gyda biwrocratiaeth a lleihau biwrocratiaeth mewn busnes gwledig. Comisiynodd eich Llywodraeth Cymru 'Hwyluso'r Drefn' gan Gareth Williams, a wnaeth 74 o argymhellion. Mae busnes gwledig angen cymorth ar hyn o bryd. Pa gamau di-oed y byddwch yn eu cymryd i wneud yn siŵr y gellir goresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu a bod y sefyllfa sy'n wynebu ardaloedd gwledig yn cael ei gwrthdroi cyn gynted ag y bo modd?

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I suspect it will not be a one-in, one-out policy for the Conservatives at the 2016 election. When it comes to rural regulation, I have met with Gareth Williams, and we will now, of course, be examining closely his recommendations.

Rwyf yn amau na fydd polisi un i mewn, un allan ar gyfer y Ceidwadwyr yn etholiad 2016. O ystyried rheoleiddio gwledig, yr wyf wedi cyfarfod â Gareth Williams, a byddwn yn awr, wrth gwrs, yn edrych yn fanwl ar ei argymhellion.

13:30 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, wrth gwrs, mae llawer iawn o'r rheoliadau hyn yn dod o San Steffan. Ydych chi'n gwneud asesiad o beth ellir ei wneud yng Nghymru er mwyn rhyddhau busnesau o ormodedd o waith papur a hybu'r cyfleoedd iddynt greu swyddi newydd? Un o'r pethau sy'n atal busnesau, yn enwedig rhai bach, rhag creu swyddi yw'r pwysau mawr hwn o ran gwaith papur.

First Minister, of course, many of these regulations emerge from Westminster. Have you carried out an assessment of what could be done in Wales to release businesses from burdensome bureaucracy and promote opportunities for them to create new jobs? One of the things that prevent businesses, particularly small businesses, from creating jobs is the huge pressure in terms of paperwork.

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn ceisio sicrhau bod gwaith papur yn cael ei leihau. Yr enghraifft byddwn yn ei roi yw'r gwaith papur sydd wedi lleihau dros y blynyddoedd o ran taliadau amaethyddol. Ar un adeg, roedd llawer o gynlluniau a llawer o bapur i'w lenwi. Mae hynny wedi newid. Lle bo'r grym gennym, rydym wastad yn edrych i sicrhau bod y gwaith papur yn cael ei leihau yn y dyfodol.

We are trying to ensure that paperwork is reduced. The example that we would give is the paperwork that has been reduced over the years with regard to agricultural payments. At one time, there were many schemes and a great deal of paperwork to be filled in. That has changed. Where we do have the power, we always try to ensure that paperwork is reduced in the future.

### Economi De Cymru

### The South Wales Economy

13:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi de Cymru. OAQ(4)0984(FM)*

*8. What measures is the Welsh Government taking to support the south Wales economy. OAQ(4)0984(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware of all that we are doing in terms of Jobs Growth Wales, the grants and loan schemes that we have made available. There is much there to provide support to businesses.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o bopeth rydym yn ei wneud o ran Twf Swyddi Cymru, y grantiau a'r cynlluniau benthyca yr ydym wedi'u darparu. Mae llawer yma sy'n rhoi cymorth i fusnesau.

13:32 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that answer. I hope, like me, you regret the demise of the Cardiff to Zurich route that was announced last week. The Welsh Government had put in over £0.5 million into supporting this route through marketing purposes. Will you outline to me today why consideration was not given to put a similar amount of money into a North American route that could, by now, be up and running and far more attractive to airport users than the route that you chose to support with this £0.5 million of expenditure for Cardiff to Zurich?

Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Yr wyf yn gobeithio eich bod, fel finnau, yn gresynu oherwydd terfynu'r llwybr Caerdydd i Zurich a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dros £0.5 miliwn i gefnogi'r llwybr hwn trwy ddibenion marchnata. A wnewch chi amlinellu i mi heddiw pam na roddwyd ystyriaeth i roi swm tebyg o arian i mewn i lwybr ar gyfer Gogledd America a allai, erbyn hyn, fod yn weithredol ac yn llawer mwy deniadol i ddefnyddwyr maes awyr na'r llwybr y dewisoch chi ei gefnogi gyda'r £0.5 miliwn hwn o wariant ar gyfer Caerdydd i Zurich?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I draw the leader of the opposition's attention to the fact that Vueling has increased its flights this summer, as has Air Malta. Aer Lingus has announced, just this morning, that it is also doing so. He will know of Lufthansa's plans in terms of the Düsseldorf service and the money that we are putting in to look at marketing Wales in Germany and in Spain. The North Atlantic route is certainly feasible in time. It is not a cheap option, and we would have to look at it very carefully. However, the immediate priority for the airport has to be to increase footfall at this stage in order to provide a greater income for the airport and to ensure greater sustainability for the shops at the airport. Certainly, in time, a North Atlantic route is something that we would very much want to examine.

Tynnaf sylw arweinydd yr wrthblaid at y ffaith bod Vueling wedi cynyddu ei deithiau yn ystod yr haf, fel y mae Air Malta. Mae Aer Lingus wedi cyhoeddi, dim ond y bore yma, ei fod hefyd yn gwneud hynny. Bydd yn gwybod am gynlluniau Lufthansa ar gyfer y gwasanaeth Düssseldorf a'r arian yr ydym yn ei wario i edrych ar farchnata Cymru yn yr Almaen ac yn Sbaen. Mae'r llwybr Gogledd Iwerydd yn sicr yn ymarferol mewn amser. Nid yw'n ddewis rhad, a byddai'n rhaid inni edrych arno yn ofalus iawn. Fodd bynnag, y flaenoriaeth ar hyn o bryd, o reidrwydd, yw cynyddu nifer yr ymwelwyr er mwyn darparu mwy o incwm ar gyfer y maes awyr a sicrhau mwy o gynaliadwyedd ar gyfer y siopau yn y maes awyr. Yn sicr, mewn amser, mae llwybr Gogledd Iwerydd yn rhywbeth y byddem yn awyddus iawn i'w archwilio.

13:33 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the news of the new life science tie-in with Sweden that the Minister for Economy, Science and Transport announced this week. I visited DTR Medical Ltd in Swansea with Leanne Wood just over a week ago, and was delighted at the work that it is doing with life science business in the area. With tie-ins of the kind that have been announced this week, does the Welsh Government have any ideas as to how companies such as DTR Medical Ltd, which are bucking the trend in Swansea, can find out about this initiative, and how their business could potentially grow, so that they can utilise this new opportunity?

Yr wyf yn croesawu'r newyddion am y cysylltiad gwyddorau bywyd newydd â Sweden a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi Gwyddoniaeth, a Thrafnidiaeth yr wythnos hon. Ymwelais â DTR Medical Ltd yn Abertawe gyda Leanne Wood ychydig dros wythnos yn ôl, ac roeddwn wrth fy modd â'r gwaith y mae'n ei wneud gyda busnes gwyddor bywyd yn yr ardal. Gyda chysylltiadau o'r math a gyhoeddwyd yr wythnos hon, a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw syniadau ynghylch sut y gall cwmnïau megis DTR Medical Ltd, sy'n mynd yn groes i'r duedd yn Abertawe, gael gwybod am y fenter hon, a sut y gallai eu busnes dyfu o bosibl, fel y gallant fanteisio ar y cyfle newydd hwn?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have the life sciences fund, and we know that the life sciences are important to the Welsh economy and will continue to grow in the future. If companies want more information, they are more than welcome, through you, to contact the Minister, and be provided with the help that they need.

Mae gennym y gronfa gwyddorau bywyd, a gwyddom fod y gwyddorau bywyd yn bwysig i economi Cymru ac y byddant yn parhau i dyfu yn y dyfodol. Os bydd cwmnïau eisiau mwy o wybodaeth, mae croeso iddynt, drwoch chi, i gysylltu â'r Gweinidog, a chael y cymorth sydd ei angen arnynt.

13:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tomorrow marks 18 months since the first tranche of enterprise zones were announced by your Government, but you have not yet clarified what criteria will be used to judge the success of those zones. Can you clarify that for us now, please?

Mae yfory yn nodi 18 mis ers cyhoeddi'r gyfran gyntaf o barthau menter gan eich Llywodraeth, ond nid ydych wedi egluro hyd yn hyn beth fydd y meini prawf a ddefnyddir i farnu llwyddiant y parthau hynny. A allwch chi egluro hynny inni yn awr, os gwelwch yn dda?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They are attracting jobs and businesses. I can say, for example, that progress has been made in that time in Cardiff. We have recently completed the acquisition of a site in Callaghan Square, which provides an opportunity to develop significant grade-A office space, which is a priority for Cardiff. There is a great deal of commercial interest in St Athan and Cardiff Airport, and the Member will be aware that work is due to start in April to improve access between the airport and St Athan. We are also investing £400,000 to enable the blister hangars at St Athan to be used as a potential base in terms of helicopter and light aircraft inquiries. She will also be aware of what is being done in Deeside, in terms of making it an attractive area.

Maent yn denu swyddi a busnesau. Gallaf ddweud, er enghraifft, bod cynnydd wedi ei wneud yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nghaerdydd. Rydym wedi cwblhau caffael safle yn Sgwâr Callaghan, sy'n rhoi cyfle i ddatblygu swyddfeydd gradd-A sylweddol, sydd yn flaenoriaeth ar gyfer Caerdydd. Mae llawer iawn o ddiddordeb masnachol yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, a bydd yr Aelod yn ymwybodol bod gwaith i fod i ddechrau ym mis Ebrill er mwyn gwella mynediad rhwng y maes awyr a Sain Tathan. Rydym hefyd yn buddsoddi £400,000 i alluogi'r awyrendai swigen yn Sain Tathan i gael eu defnyddio fel canolfan bosibl o ran ymholiadau yn ymwneud â hofrennyddion ac awyrennau ysgafn. Bydd hi hefyd yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei wneud yng Nglannau Dyfrdwy, o ran ei gwneud yn ardal ddeniadol.

### Pris Alcohol

### The Price of Alcohol

13:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch y pwer dros bris alcohol yng Nghymru. OAQ(4)0980(FM)*

*9. What discussions has the First Minister had regarding the power over the price of alcohol in Wales. OAQ(4)0980(FM)*

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig droeon i ddadlau'n gryf o blaid isafswm o 50c fesul uned. Mae ein hymateb diweddar i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar droseddu ac ymddygiad yn ymwneud â'r mater hwn wedi pwysleisio'r safbwynt hwn unwaith eto.

Welsh Ministers have written to the United Kingdom Government on a number of occasions to strongly advocate a minimum unit price of 50p per unit. Our recent response to the UK Government consultation on alcohol-fuelled crime and anti-social behaviour emphasised this position once again.

13:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae tystiolaeth gredadwy ar gael bod lleiafswm pris alcohol yn help wrth ddelio â gor-yfed, a'i fod hefyd yn help wrth hyrwyddo diwylliant yfed mwy cymesur mewn tafarndai a chlybiau. Os nad yw Llywodraeth San Steffan yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer lleiafswm pris alcohol, a bod y cynlluniau yn mynd yn eu blaenau yn yr Alban, sut allwch chi fel Prif Weinidog sefyll cornel Cymru, a sicrhau bod hyn yn digwydd yng Nghymru?

Thank you for that response, First Westminster. There is credible evidence that a minimum alcohol price does help in dealing with drinking too much, and that it also encourages a more balanced drinking culture in pubs and clubs. If the Westminster Government does not proceed with plans for a minimum alcohol price, and that the plans do proceed in Scotland, how can you as First Minister stand up for Wales and ensure that this does happen here in Wales?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yr ydym yn dal i bwysleisio'r pwynt hwn. Yr ydym wedi dweud o'r blaen y dylai Llywodraeth Cymru gael y cyfrifoldeb am y mater hwn. Yr ydym yn edrych â diddordeb ar yr hyn a fydd yn digwydd yn yr Alban. Ni fyddwn yn cefnogi'r sefyllfa pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud nad yw am symud ymlaen â'r mater hwn.

We continue to reiterate this point. We have said previously that this is something that should become the responsibility of the Welsh Government. We look with interest at what happens in Scotland. We will not support the United Kingdom Government's stance if it says that it does not wish to move forward on this.

13:36 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How do you respond to concern in the populous border areas, such as where I—and some of your colleagues—live in north-east Wales, that Wales having a higher minimum price than England would impact adversely on pubs and restaurants in north-east Wales, as well as on places such as the major shopping centres in Broughton and in the borderland areas?

Sut yr ydych chi'n ymateb i bryder yn ardaloedd poblog y ffin, megis y lle rwyf fi—a rhai o'ch cydweithwyr—yn byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru, y byddai pris isaf uwch ar gyfer Cymru nag ar gyfer Lloegr yn cael effaith andwyol ar dafarndai a bwytai yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag ar leoedd megis y prif ganolfannau siopa ym Mrychdyn ac yn ardaloedd y gororau?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a valid point. Undoubtedly, if there is a significant difference in the price of alcohol between England and Wales, it will lead to smuggling. However, I do not believe that a price increase, if it was small or reasonable, would necessarily lead to widespread smuggling—as I sense it would be put—across the border. We will watch with interest what happens in Scotland, which is different in terms of its geography. I remember a similar argument being put forward about the smoking ban, as to how that would affect trade between Wales and England. However, it is right to say that, if there were to be a significant difference, and if the level was significantly higher in Wales, the effect on Wales of any movement back and forth across the border would have to be taken into account.

Mae hwnna'n bwynt dilys. Yn ddiau, os oes gwahaniaeth sylweddol ym mhris alcohol rhwng Cymru a Lloegr, bydd yn arwain at smyglo. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai codiad mewn pris, pe byddai'n fach neu'n rhesymol, o angenrheidrwydd yn arwain at smyglo ar raddfa eang—fel yr wyf yn meddwl y byddai'n cael ei ddweud—ar draws y ffin. Byddwn yn gwylio gyda diddordeb yr hyn a fydd yn digwydd yn yr Alban, sy'n wahanol o ran ei daearyddiaeth. Rwy'n cofio dadl debyg yn cael ei chyflwyno am y gwaharddiad ar ysmygu, o ran sut y byddai hynny'n effeithio ar fasnach rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'n iawn i ddweud, pe byddai gwahaniaeth sylweddol, a phe byddai'r lefel yn sylweddol uwch yng Nghymru, byddai'n rhaid ystyried effaith unrhyw symud yn ôl ac ymlaen ar draws y ffin ar Gymru.

## Cynllun Adfywio Môn a Menai

## Môn a Menai Regeneration Plan

13:37 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun adfywio Môn a Menai. OAQ(4)0974(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the Môn a Menai regeneration plan. OAQ(4)0974(FM)*

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae ardal adfywio strategol Môn a Menai wedi ariannu nifer o brosiectau’n llwyddiannus ers 2008, ac rydym eisiau sicrhau bod hynny’n bwrw ymlaen tan fis Mawrth 2014. Mae ein fframwaith ‘Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid’ wedi cael ei lansio, ac mae’n atgyfnerthu’r ymrwymiad i adfywio cymunedau ledled Cymru.

The Môn a Menai strategic regeneration area has successfully funded a range of projects since 2008, and we are committed to fulfilling our obligations, which are scheduled to end in March 2014. Our framework ‘Vibrant and Viable Places’ has been launched, and it reinforces our commitment to regenerating communities across Wales.

13:38 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol i ardal adfywio strategol Môn a Menai—fel yr eglurodd—gael ei sefydlu yn 2008, fel ymateb i’r heriau sylweddol a oedd yn wynebu economi’r ynys, ac economi gogledd-orllewin Cymru. Ers hynny, mae Alwminiwm Môn wedi cau yn llwyr, ac mae bygythiad i swyddi yn lladd-dy’r Gaerwen. Gydag economi’r ynys yn gwegian—ac rwy’n siŵr y byddai’r Prif Weinidog yn cydnabod hynny—a all egluro i bobl Môn beth yw’r rhesymeg y tu ôl i’r penderfyniad i ddiddymu’r cynllun hwn yn 2014?

The First Minister will be very much aware that, as he explained, the Môn a Menai was established in 2008, as a response to the significant challenges facing the island’s economy, and the rest of north-west Wales’s economy. Since then, Anglesey Aluminium has closed entirely, and there is a threat to jobs in the abattoir in Gaerwen. With the island’s economy under such pressure—and I am sure that the First Minister would recognise that—will he explain to the people of Anglesey the rationale behind the decision to abolish the scheme in 2014?

13:39

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Y rhesymeg yw er mwyn rhoi rhywbeth gwell yn lle yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r prosiect wedi gweithio'n dda dros ben, ond mae'n rhaid i ni ystyried yn awr sut y gallwn helpu'r ynys ymhellach. Er enghraifft, rwyf wedi sôn am y ddogfen ei hunan, a lansiwyd heddiw, ac yn awr bydd swyddogion y Llywodraeth yn gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â gyda swyddogion Môn a Menai, er mwyn edrych ar gyfleoedd newydd i'r ynys. Mae hyn yn cynnwys cynllun yr ynys ynni, er enghraifft, yn ogystal â defnyddio'r parth menter, i sicrhau bod mwy o fudd i'r ynys yn y dyfodol, ac i dynnu buddsoddiad i mewn i'r ynys. Felly, mae'r prosiect wedi gweithio, ond dyma'r amser i edrych ar sut y gallwn gryfhau'r cymorth sydd ar gael i'r ynys.

It is in order to put something better in place. The project has worked extremely well, but we must now consider how we can help the island further. For example, I have mentioned the document itself, which was launched today, and Government officials will now work with the Isle of Anglesey County Council, as well as with Môn a Menai officials, to look at new opportunities for the island. This includes the energy island programme, for example, as well as using the enterprise zone, to ensure that there will be greater benefit to the island in future, and to draw investment into the island. So, the project has worked, but now is the time to look at how we can strengthen the support that is available for the island.

13:39

## Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

In your initial response, you referred to 'Vibrant and Viable Places', on which a statement was made in the Chamber on this day last week, I believe. The statement detailed the Welsh Government's regeneration framework. It was said that instead of selecting particular areas, all of Wales will be able to take part in the process, although only a small number of places will receive investment at any one time. How will this impact on the Môn a Menai and north Wales coast regeneration areas?

Yn eich ymateb cyntaf, cyfeiriasoch at 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' y gwnaethpwyd datganiad yn y Siambr arno ar y diwrnod hwn yr wythnos diwethaf, yr wyf yn credu. Roedd y datganiad yn rhoi manylion fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru. Dywedwyd y bydd Cymru gyfan yn gallu cymryd rhan yn y broses, yn hytrach na dewis ardaloedd penodol, er mai dim ond nifer fechan o leoedd a fydd yn derbyn buddsoddiad ar unrhyw un adeg. Sut y bydd hyn yn effeithio ar ardaloedd adfywio Môn a Menai ac arfordir gogledd Cymru?

13:40

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I expect any new project to be targeted. Our budgets are being reduced, therefore we have to target those areas that are most in need. I hear what the Member for Ynys Môn has said about the difficulties that the island has experienced both in the past year and due to decisions that were taken some years ago. We will ensure that sufficient assistance is in place to develop the island's capacity as fully as possible, for example by developing the concept of the energy island.

Yr wyf yn disgwyl i unrhyw brosiect newydd gael ei dargedu. Mae ein cyllidebau yn cael eu lleihau, felly mae'n rhaid i ni dargedu'r ardaloedd hynny sydd mewn mwyaf o angen. Clywaf yr hyn y mae'r Aelod dros Ynys Môn wedi'i ddweud am yr anawsterau y mae'r ynys wedi'u profi yn y flwyddyn ddiwethaf a hynny oherwydd penderfyniadau a gymerwyd rai blynyddoedd yn ôl. Byddwn yn sicrhau bod cymorth digonol ar waith i ddatblygu gallu'r ynys cymaint ag y bo modd, drwy ddatblygu'r cysyniad o'r ynys ynni er enghraifft.

13:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Question 11 was grouped with questions 1 and 2, so we move to question 12.

Mae cwestiwn 11 wedi ei grwpio gyda chwestiynau 1 a 2, ac felly rydym yn symud i gwestiwn 12.

### Adfywio Canol ein Trefi a'n Dinasoedd

### Regeneration of Town and City Centres

13:41

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*12. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i adfywio canol ein trefi a'n dinasoedd. OAQ(4)0971(FM)*

*12. What action will the Welsh Government take during 2013 to regenerate our town and city centres. OAQ(4)0971(FM)*

13:41

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

As I mentioned in my earlier answer, we have launched 'Vibrant and Viable Places', which highlights our continued commitment to supporting town-centre regeneration.

Fel y crybwyllais yn fy ateb cynharach, rydym wedi lansio 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', sy'n amlygu ein hymrwymiad parhaus i gefnogi adfywio canol trefi.

13:41 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, First Minister. A recent report revealed that almost a quarter of shops in Newport city centre are empty. In Lower Dock Street, 42% of shops are now shut. Does the First Minister agree that good transport, free parking, a mix of businesses and housing and exempting small firms from business rates would provide the boost that Newport and other town and city centres desperately need?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Dangosodd adroddiad diweddar bod bron i chwarter y siopau yng nghanol dinas Casnewydd yn wag. Yn Lower Dock Street, mae 42% o siopau wedi cau erbyn hyn. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai cludiant da, parcio am ddim, cymysgedd o fusnesau a thai ac eithrio cwmnïau bach rhag talu ardrethi busnes yn darparu'r hwb y mae Casnewydd a chanol trefi a dinasoedd eraill ei angen yn ddirfawr?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What would provide a boost is people having money in their pockets to spend; that is something with which the UK Government has to deal. You can reduce business overheads as much as you want, but if there is not a sufficient customer base, businesses will not be successful. Newport has a particular problem in being sandwiched between Cardiff and Bristol; it has had difficulties in that regard. However, last week, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science announced the establishment of a business development project in Newport to explore the business growth potential of the city centre. On 8 February, there was a positive meeting between officials and representatives of the council to look at starting the business improvement district process.

Beth fyddai'n rhoi hwb yw bod gan bobl arian yn eu pocedi i'w wario; mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ymdrin ag ef. Gallwch leihau gorbenion busnes gymaint ag y dymunwch, ond os nad oes sylfaen cwsmeriaid digonol, ni fydd busnesau yn llwyddiannus. Mae gan Gasnewydd broblem benodol gan ei bod wedi'i gwasgu rhwng Caerdydd a Bryste; mae wedi cael anawsterau yn hynny o beth. Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y byddai prosiect datblygu busnes yn cael ei sefydlu yng Nghasnewydd i edrych ar y twf posibl o ran busnes yng nghanol y ddinas. Ar 8 Chwefror, cafwyd cyfarfod cadarnhaol rhwng swyddogion a chynrychiolwyr y cyngor i edrych ar gychwyn y broses ardal gwella busnes.

13:42 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am delighted that Llanelli is included in the bid being prepared for Swansea bay to be named city of culture in 2017. This presents an excellent opportunity, if achieved, to attract tourists, as well as local people, to our town and city centres, and gives a renewed dimension to their regeneration. Do you join me in welcoming this bid, and what discussions, if any, have you had about it?

Rwyf wrth fy modd bod Llanelli wedi ei gynnwys yn y cais sy'n cael ei baratoi i fae Abertawe gael ei enwi'n ddinas diwylliant yn 2017. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych, os y'i cyflawnir, i ddenu twristiaid, yn ogystal â phobl leol, i ganol ein trefi a dinasoedd, gan roi dimensiwn newydd i'w hadfywio. A ydych chi'n ymuno â mi i groesawu'r cynnig hwn, a pha drafodaethau, os o gwbl, ydych chi wedi'u cael ynglŷn ag ef?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I never thought that I would see the day when somebody from Llanelli would welcome the fact that it is included as part of Swansea bay. [Laughter.] As somebody born in Swansea of a father from Carmarthenshire, I know that, sometimes, the Loughor can be as wide as the Amazon in cultural terms. Nevertheless, it is important that Llanelli is included in the preparations. I am delighted, of course, that Wales is being considered in this way. Officials are in touch with colleagues in Swansea—I should say in Swansea bay more widely—and I am happy to discuss any aspects of the development of the bid, including the wider area that is part of it.

Wnes i erioed feddwl y byddwn i'n gweld y dydd pan fyddai rhywun o Lanelli yn croesawu'r ffaith ei fod yn cael ei gynnwys fel rhan o fae Abertawe. [Chwerthin.] Fel rhywun a anwyd yn Abertawe i dad o Sir Gaerfyrddin, gwn y gall yr afon Llwchwr weithiau fod mor llydan â'r Amazon mewn termau diwylliannol. Serch hynny, mae'n bwysig bod Llanelli yn cael ei gynnwys yn y paratoadau. Rwyf wrth fy modd, wrth gwrs, fod Cymru yn cael ei hystyried yn y modd hwn. Mae swyddogion mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Abertawe—dylwn ddweud ym mae Abertawe yn fwy eang—ac yr wyf yn hapus i drafod unrhyw agweddau ar ddatblygiad y cais, gan gynnwys yr ardal ehangach sy'n rhan ohono.

13:43 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Welsh Government's plans for the creation of Powys local growth zones have been warmly welcomed by the business community there, notably in Newtown, Llandrindod Wells and Brecon. What measures will be put in place to monitor the success of those initiatives? What level of expectation does the Government have of active co-operation from both local authorities in Powys?

Brif Weinidog, mae cynlluniau llywodraeth Cymru ar gyfer creu parthau twf lleol Powys wedi cael croeso cynnes gan y gymuned fusnes yno, yn enwedig yn y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu. Pa fesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i fonitro llwyddiant y mentrau hynny? Pa lefel o ddisgwyliad sydd gan y Llywodraeth o gydweithrediad gan y ddau awdurdod lleol ym Mhowys?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do not anticipate any difficulties in working with local authorities. We all share the same goal, which is to create vibrant town centres in those towns that are being assisted to provide people with a satisfactory retail and employment experience.

Nid ydym yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran gweithio gydag awdurdodau lleol. Rydym i gyd yn rhannu'r un nod, sef creu canol trefi bywiog yn y trefi hynny sy'n cael eu cynorthwyo i roi profiad boddhaol i bobl o ran adwerthu a gwaith.

## Contract Cenedlaethol ar gyfer Staff sy'n Gweithio mewn Addysg Bellach

## National Contract for Staff Working in Further Education

13:44 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y contract cenedlaethol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn addysg bellach. OAQ(4)0975(FM)*

*13. Will the First Minister provide an update on the national contract for staff working in further education. OAQ(4)0975(FM)*

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are committed to the introduction of a common contract across all institutions. Discussions between the joint trade unions and the employers are ongoing and I would hope that agreement will be reached on this important matter.

Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno contract cyffredin ar draws pob sefydliad. Mae trafodaethau rhwng yr undebau llafur ar y cyd a'r cyflogwyr yn parhau a byddwn yn gobeithio y ceir cytundeb ar y mater pwysig hwn.

13:44 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I recently met with staff at Gower College Swansea, via the University and College Union, where I was painted a worrying picture of staff on a variety of contracts. These include zero-hour contracts where the college will not guarantee staff work throughout the summer. Some staff members work in fast-food outlets after college hours, and they enjoy steady incomes as a means of making up their money. I note what you said, First Minister, but what can your Government do to ensure that our students are getting the best from their lecturers because, at the moment, these members of staff do not feel as if they are on a par with other members of staff? I would urge you to look at this with some urgency.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Cyfarfûm yn ddiweddar â staff yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, drwy'r Undeb Prifysgol a Choleg, lle y cefais ddarlun a oedd yn achosi pryder o staff ar amrywiaeth o gontractau. Mae'r rhain yn cynnwys contractau sero awr lle na fydd y coleg yn gwarantu gwaith i staff drwy gydol yr haf. Mae rhai aelodau staff yn gweithio mewn siopau bwyd cyflym ar ôl oriau coleg, ac maent yn mwynhau incwm cyson fel ffordd o ennill yr arian y maent ei angen. Nodaf yr hyn a ddywedasoch, Brif Weinidog, ond beth all eich Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael y gorau gan eu darlithwyr oherwydd, ar hyn o bryd, nid yw'r aelodau hyn o staff yn teimlo fel pe baent yn cael eu trin yn gyfwerth ag aelodau eraill o staff? Byddwn yn eich annog i edrych ar hyn ar fyrder.

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will monitor closely the progress of the discussions that are taking place, but we hope that there will be a conclusion that is fair to all.

Byddwn yn monitro'r cynnydd yn y trafodaethau sy'n cael eu cynnal yn ofalus, ond rydym yn gobeithio y deuir i gasgliad a fydd yn deg i bawb.

13:45 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last Friday, I joined pupils from across Denbighshire to see at first hand how the success of the local 14-19 learning pathways network is impacting on the lives of young people. It was an inspiring event and one that showed that, with the right level of support, troubled teenagers can be transformed into confident students. Will you look at the tremendous work being done in Denbighshire, and work with your officials to ensure that the 14-19 networks in the county have the support necessary to ensure that the good work continues?

Brif Weinidog, ddydd Gwener diwethaf, ymunais â disgyblion o bob rhan o Sir Ddinbych i weld drosof fy hun sut y mae llwyddiant y rhwydwaith llwybrau dysgu 14-19 lleol yn effeithio ar fywydau pobl ifanc. Roedd yn ddigwyddiad ysbrydoledig ac yn un a oedd yn dangos, gyda'r lefel gywir o gymorth, y gellir trawsnewid pobl ifanc cythryblus yn eu harddegau i fyfyrwyr hyderus. A wnewch chi edrych ar y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud yn Sir Ddinbych, a gweithio gyda'ch swyddogion i sicrhau bod y rhwydweithiau 14-19 yn y sir yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith da hwn yn parhau?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. I recognise the excellent work being undertaken in Denbighshire and the positive impact that that is having on learners. The Minister for Education and Skills has committed a further £16.6 million to the 14-19 regional consortia to take forward 14-19 learning pathways in the next financial year.

Gwnaf, wrth gwrs. Rwy'n cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn Sir Ddinbych a'r effaith gadarnhaol mae hynny'n ei chael ar ddysgwyr. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ymrwymo £16.6 miliwn ychwanegol i'r consortia rhanbarthol 14-19 er mwyn datblygu llwybrau dysgu 14-19 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

13:46 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i driniaeth gyfartal i staff locwm wrth gynllunio contract cenedlaethol newydd i staff addysg bellach?

What consideration is your Government giving to equal treatment for locum staff in drawing up a new national contract for further education staff?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, ond byddwn yn erfyn gweld tegwch ynglŷn ag unrhyw gytundeb sy'n cael ei wneud rhwng y cyflogwyr a'r staff.

This is not the responsibility of Welsh Government, but I would expect to see equity in any agreement reached between the employers and staff members.

## Tlodi

## Poverty

13:46 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau tlodi yn Nhor-faen. OAQ(4)0982(FM)*

*14. Will the First Minister outline what steps the Welsh Government is taking to alleviate poverty in Torfaen. OAQ(4)0982(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have awarded £2.88 million to Communities First in Torfaen, including a community employability programme and a schools family link project. We have also awarded £970,000 for the Pontypool settlement area to support economic and social growth and to create a sense of place.

Rydym wedi dyfarnu £2.88 miliwn i Gymunedau yn Gyntaf yn Nhorfaen, gan gynnwys rhaglen cyflogadwyedd gymunedol a phrosiect cyswllt teulu ar gyfer ysgolion. Rydym hefyd wedi rhoi £970,000 ar gyfer ardal anheddiad Pont-y-pŵl i gefnogi twf economaidd a chymdeithasol ac i greu ymdeimlad o le.

13:47 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware that the direct payments pilot project in Torfaen led to a massive sevenfold increase in rent arrears. I am sure that we all live in hope that the UK Government will listen to the results of its own demonstration project and change course. I am sure I am not the only one in this Chamber who believes that the Government will plough on anyway with these reckless and ideologically driven reforms. I know that the Welsh Government has previously requested an exemption for Wales from the direct payments scheme, as in the case of Northern Ireland, but the Department for Work and Pensions has said 'no'. What further steps will you take in the light of the Torfaen pilot project to get the UK Government to change course?

Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod y prosiect taliadau uniongyrchol arbrofol yn Nhorfaen wedi arwain at gynnydd seithplyg enfawr mewn ôl-ddyledion rhent. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn byw mewn gobaith y bydd Llywodraeth y DU yn gwrando ar ganlyniadau ei phrosiect arddangos ei hun a newid cwrs. Yr wyf yn siŵr nad wyf fi'r unig un yn y Siambr hon sy'n credu y bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen beth bynnag gyda'r diwygiadau diofal hyn sy'n cael eu sbarduno gan ideoleg. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn o'r blaen am eithriad ar gyfer Cymru o'r cynllun taliadau uniongyrchol, fel yn achos Gogledd Iwerddon, ond mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dweud 'na'. Pa gamau pellach y byddwch chi'n eu cymryd yng ngoleuni prosiect arbrofol Torfaen i gael Llywodraeth y DU i newid cwrs?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Northern Ireland is able to do as it wants in terms of direct payments. The matter is devolved there, although the budget is not particularly useful for them. As far as we are concerned, we have made a request that direct payments should not be used in Wales. This is being taken forward not because of practicality or to help people, or even to help landlords, but it is simply driven by ideology over humanity.

Mae Gogledd Iwerddon yn gallu gwneud fel y myn o ran taliadau uniongyrchol. Mae'r mater wedi'i ddatganoli yno, er nad yw'r gyllideb yn arbennig o ddefnyddiol ar eu cyfer. Cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, rydym wedi gwneud cais na ddylai taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei ddwyn ymlaen, nid oherwydd ymarferoldeb neu i helpu pobl, na hyd yn oed i helpu landlordiaid, ond mae'n cael ei sbarduno, yn syml, gan ideoleg yn hytrach na dyngarwch.

13:48 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, help me with this one: your party in power in Westminster introduced the system that you are now condemning for private landlords. Why was it so wrong there, and why do you now believe that the system is incorrect?

Brif Weinidog, a wnewch chi fy helpu gyda hyn: eich plaid chi, pan oedd hi mewn grym yn San Steffan, gyflwynodd y system yr ydych yn awr yn ei chondemnio ar gyfer landlordiaid preifat. Pam yr oedd hi mor anghywir yno, a pham yr ydych yn awr yn credu bod y system yn anghywir?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to assist the Member. The simple answer is that it does not work. Looking at the evidence from Torfaen, we can see that it does not work and it should be abandoned by the UK Government.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gynorthwyo'r Aelod. Yr ateb syml yw nad yw'n gweithio. O edrych ar y dystiolaeth o Dorfaen, gallwn weld nad yw'n gweithio a dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau iddo.

## Ffigurau Cyfrifiad 2011

## 2011 Census Figures

13:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ffigurau Cyfrifiad 2011 ynghylch yr iaith Gymraeg. OAQ(4)0972(FM)*

*15. Will the First Minister make a statement on the 2011 Census figures in relation to the Welsh language. OAQ(4)0972(FM)*

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They show that we still face a challenge. We need to build on the plans that are already in progress and which were put in place by the previous Government, and to work together to ensure that we increase the use of the language.

Maent yn dangos ein bod yn dal i wynebu her. Mae angen i ni adeiladu ar y cynlluniau sydd eisoes ar y gweill ac a sefydlwyd gan y Llywodraeth flaenorol, ac i weithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cynyddu'r defnydd o'r iaith.

13:49 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for that response, and for the support for 'mentrau iaith', 'papurau bro', such as 'Wilia' in my constituency, and the Urdd national eisteddfod in order to promote the use of the Welsh language. What more can be done to promote the use of Welsh in social circumstances? Also, a number of people have badges that say that they are Welsh speakers. Would such a badge for Welsh learners be of use?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna, ac am y gefnogaeth ar gyfer 'mentrau iaith', 'papurau bro', megis 'Wilia' yn fy etholaeth i, ac eisteddfod genedlaethol yr Urdd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Beth arall y gellir ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau cymdeithasol? Hefyd, mae gan nifer o bobl fathodynnau sy'n dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg. A fyddai bathodyn o'r fath ar gyfer dysgwyr y Gymraeg o ddefnydd?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is difficult with fluency in any language, because it is self-defined by people. I know of people who are fluent in Welsh but who regard themselves as not fluent even though they are perfectly able to conduct a conversation. I think that it also depends on where people live. If people live in Carmarthenshire or Ceredigion, for example, and they feel that their Welsh is not sufficiently fluent, they tend to mark themselves down, whereas if they live in the eastern part of Wales, they tend, sometimes, to mark themselves up. It is natural that people do that. Nevertheless, it is quite right to say that promoting Welsh in a social context is critical, and that is why we have provided financial funding to organisations such as the 'mentrau iaith', Merched y Wawr, the Urdd and the young farmers clubs.

Mae'n anodd gyda rhuglder mewn unrhyw iaith, gan ei fod yn cael ei hunan-ddiffinio gan bobl. Gwn am bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg ond sy'n ystyried eu hunain fel heb fod yn rhugl er eu bod yn gallu cynnal sgwrs yn ddidrafferth. Credaf ei fod hefyd yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw. Os yw pobl yn byw yn Sir Gaerfyrddin neu Geredigion, er enghraifft, a'u bod yn teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon rhugl, maent yn tueddu i roi marciau isel iddynt eu hunain, ond os ydynt yn byw yn y rhan ddwyreiniol o Gymru, maent yn tueddu, weithiau, i roi marciau uwch iddynt eu hunain. Mae'n naturiol bod pobl yn gwneud hynny. Serch hynny, mae'n hollol iawn i ddweud bod hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol yn hanfodol, a dyna pam yr ydym wedi darparu arian cyllid i sefydliadau megis y mentrau iaith, Merched y Wawr, yr Urdd a'r clybiau ffermwyr ifanc.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

## Questions to the Minister for Natural Resources and Food

### Gorllewin Coedwig Brechfa

### Brechfa Forest West

13:50 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gymeradwyo'r cais ar gyfer fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio Cymru a pholisïau cynllunio lleol. OAQ(4)0242(ESD)*

*1. What assessment has the Minister made of how the UK Government's decision to approve the wind farm application for Brechfa Forest West complies with Welsh and local planning policies. OAQ(4)0242(ESD)*

13:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r ceisiadau prosiectau ynni mawr sy'n cael eu penderfynu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel y nododd Rhodri Glyn Thomas. Mae llythyr y penderfyniad diwethaf yn cyfeirio at y polisi cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Y Gweinidog Tai ac Adfywio sy'n gyfrifol, erbyn hyn, am unrhyw fater sy'n ymwneud â pholisi cynllunio.

This question deals with the large energy project applications for which decisions are made by the UK Government, as Rhodri Glyn Thomas said. The letter for the last decision refers to the planning policy for renewable energy in Wales. Responsibility for planning decisions now lies with the Minister for Housing and Regeneration.

13:51 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy’n llongyfarch y Gweinidog ar ei ddyrchafiad i’r swydd newydd, ond dylwn hefyd gydymdeimlo ag ef, oherwydd mae nifer o’r penderfyniadau sy’n ymwneud ag ynni allan o’i ddwylo ac yn cael eu penderfynu yn San Steffan. Yn y cyd-destun hwn, ers dwy flynedd bellach, mae gan Gyngor Sir Gâr ganllaw polisi sydd yn dweud na ddylid adeiladu tyrbinau ynni gwynt o fewn 1.5 km i anhedd-dai. A ydych chi’n credu bod y penderfyniad hwn gan Lywodraeth San Steffan sy’n dweud nad oes dim gwerth o gwbl i’r canllaw hwnnw, gan anwybyddu polisi lleol, yn iawn? Os bydd y pwerau hyn yn cael eu datganoli, a fydd Llywodraeth Cymru yn parchu penderfyniadau lleol?

I congratulate the Minister on his promotion to the new post, but I should also commiserate with him, because many of the decisions on energy are not his to make, as they are made in Westminster. In this context, Carmarthenshire County Council has, for the last two years, had policy guidance that says that wind turbines should not be constructed within 1.5 km of dwellings. Do you believe that the decision of the Westminster Government that this guidance has no value, thereby ignoring a local policy, is right? If these powers are to be devolved, will the Welsh Government respect local decisions?

13:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar ddatganoli rhai o’r penderfyniadau hyn yn un clir, ac mae cytundeb yn ei gylch ar draws y Siambr. Fodd bynnag, mae’r Aelod wedi cyffwrdd â sawl peth sydd erbyn hyn yn faterion i’r Gweinidog Tai ac Adfywio. Mae’r Gweinidog yn eistedd yn y Siambr y prynhawn yma, ac rwy’n siŵr y bydd wedi clywed yr hyn a ddywedoch.

Welsh Government policy on devolving some of these decisions is clear, and there is agreement on it across the Chamber. However, the Member has touched upon a number of things that are now matters for the Minister for Housing and Regeneration. The Minister is in the Chamber this afternoon, and I am sure that he will have heard what you said.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the opposition spokesperson, Russell George.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Russell George.

13:52 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also welcome the Minister to his new position.

Yr wyf finnau hefyd yn croesawu'r Gweinidog i'w swydd newydd.

What local communities want, Minister, is a greater say is the determination of large-scale plans that affect them. If you can make the case that energy consenting powers are devolved, how would you ensure that local communities, and local decision making, is taken into account? Would you be prepared to delegate further consent powers directly to local planning authorities?

Yr hyn y mae cymunedau lleol ei eisiau, Weinidog, yw mwy o lais yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â chynlluniau ar raddfa fawr sy'n effeithio arnynt. Os gallwch chi ddadlau bod pwerau caniatâd ynni yn cael eu datganoli, sut y byddech chi'n sicrhau bod cymunedau lleol, a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn cael ei gymryd i ystyriaeth? A fyddech chi’n barod i ddirprwyo pwerau caniatâd ychwanegol yn uniongyrchol i awdurdodau cynllunio lleol?

13:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member, and other Members, for their kind wishes during the past few days. However, it does not enable me to answer his question. The matters that he is discussing are now in the portfolio of the new Minister for planning. He is in the Chamber and he is listening intently to all the questions on planning this afternoon. I am sure that, in his own time and in his own way, he will answer all the questions that will be asked this afternoon.

Diolch i'r Aelod, ac Aelodau eraill, am eu dymuniadau caredig yn ystod y dyddiau diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'n fy ngalluogi i ateb ei gwestiwn. Mae'r materion y mae’n eu trafod ym mhortffolio’r Gweinidog cynllunio newydd erbyn hyn. Mae ef yn y Siambr ac mae’n gwrando’n astud ar yr holl gwestiynau ar gynllunio y prynhawn yma. Yr wyf yn siŵr, yn ei amser ei hun ac yn ei ffordd ei hun, y bydd yn ateb yr holl gwestiynau a gaiff eu gofyn y prynhawn yma.

13:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In that case, I hope that the Minister will also listen to my next question. A case should and could be made to the UK Government for powers to be directly devolved to local planning authorities. That was a case that I made last week to John Hayes the Minister for energy. He went on to publicly say that it is clear that local people and their councils should not feel bullied into accepting proposals that they do not want. It is critical to listen to local communities. Do you agree with the Minister on that? If powers were devolved centrally, would you ensure that that would happen?

Os felly, yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwrando ar fy nghwestiwn nesaf hefyd. Gellid a dylid dadlau'r achos gyda Llywodraeth y DU i bwerau gael eu datganoli'n uniongyrchol i awdurdodau cynllunio lleol. Dyna oedd y ddadl a roddais gerbron John Hayes y Gweinidog dros ynni yr wythnos diwethaf. Aeth ymlaen i ddweud yn gyhoeddus ei bod yn glir na ddylai pobl leol a'u cynghorau deimlo eu bod yn cael eu bwlio i dderbyn cynigion nad ydynt eu heisiau. Mae'n hanfodol i wrando ar gymunedau lleol. A ydych chi'n cytuno â'r Gweinidog ar hynny? Pe byddai pwerau'n cael eu datganoli'n ganolog, a fyddech chi'n sicrhau y byddai hynny'n digwydd?

13:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The approach that the Welsh Government has taken is outlined in its response to the Silk commission. I do not wish to be churlish this afternoon, at my first oral question session, but I will not be drawn any further, although, I have to say, he occasionally tempts me.

Mae'r ffordd o weithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi ei dewis wedi'i hamlinellu yn ei hymateb i gomisiwn Silk. Nid wyf yn dymuno bod yn anfoesgar y prynhawn yma, yn fy sesiwn cwestiynau llafar cyntaf, ond nid wyf am ddweud mwy, er, mae'n rhaid i mi ddweud, mae'n fy nhemtio weithiau.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Welsh Liberal Democrats spokesperson, William Powell.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to add my warm congratulations to the Minister on his promotion to his new position.

Hoffwn ychwanegu fy llongyfarchiadau cynnes i'r Gweinidog ar ei ddyrchafiad i'w swydd newydd.

The Brechfa Forest windfarm has been the source of considerable local controversy, as the Minister will know, particularly in the nearby village of Gwyddgrug. This resulted in a petition on turbine noise, which, in turn, led to a series of site visits and a subsequent report by the Petitions Committee. Given the contentious debates that continue in this community on this particular topic, Minister, will you commit to working with your Cabinet colleagues to revisit the Welsh Government's response to that report, particularly with regard to the World Health Organization's guidance on infrasound levels?

Mae fferm wynt Coedwig Brechfa wedi bod yn destun cryn ddadlau yn lleol, fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, yn enwedig ym mhentref cyfagos Gwyddgrug. Arweiniodd hyn at ddeiseb ar sŵn tyrbinau a arweiniodd, yn ei dro, at gyfres o ymweliadau safle ac adroddiad dilynol gan y Pwyllgor Deisebau. O ystyried y dadleuon cynhennus sy'n parhau yn y gymuned hon ar y pwnc penodol hwn, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet i ailedrych ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw, yn enwedig o ran canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar lefelau is-sain?

13:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Interruption.] Yes, I noticed the irony.

[Torri ar draws.] Do, sylwais ar yr eironi.

I thank the Member for his kind wishes and I undertake to work with all of my Cabinet colleagues on all matters.

Diolchaf i'r Aelod am ei ddymuniadau caredig ac rwyf yn addo gweithio gyda fy holl gydweithwyr yn y Cabinet ar bob mater.

13:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that reassurance. Linked to this, Minister, those in the forestry industry in Wales frequently raise concerns about land that is being lost and is due to be lost to windfarm developments in the future and that that might not adequately be reinstated in terms of habitat conservation and, indeed, might jeopardise the future of the timber sector in Wales. What moves are you willing to make now that natural resources Wales's forestry functions sit fully under your control to ensure that forestry land is extended and that concerns regarding the future of the industry are proved to be unfounded?

Diolch yn fawr iawn am y cadarnhad yna. Yn gysylltiedig â hyn, Weinidog, mae'r rhai sydd yn y diwydiant coedwigaeth yng Nghymru yn aml yn codi pryderon am dir sy'n cael ei golli ac sydd am gael ei golli yn y dyfodol i ddatblygiadau ffermydd gwynt, ac efallai na fyddai'r tir hwnnw'n cael ei adfer yn ddigonol o ran cadwraeth cynefinoedd ac, mewn gwirionedd, a allai, beryglu dyfodol y sector pren yng Nghymru. Pa symudiadau yr ydych chi'n barod i'w gwneud gan fod swyddogaethau coedwigaeth cyfoeth naturiol Cymru yn gorwedd yn llwyr o dan eich rheolaeth, i sicrhau bod tir coedwigaeth yn cael ei ymestyn a bod pryderon ynglŷn â dyfodol y diwydiant yn cael eu profi i fod yn ddi-sail?

13:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we should congratulate the Member on managing to find a forestry angle to some of these questions on planning. That enables me to say something a wee bit more positive. I take on board the points that have been made on the forestry sector. This is something that I have already discussed with officials and it is something to which I will return.

Credaf y dylem longyfarch yr Aelod ar lwyddo i ddod o hyd i elfen goedwigaeth mewn rhai o'r cwestiynau hyn ar gynllunio. Mae hynny'n fy ngalluogi i ddweud rhywbeth ychydig bach mwy cadarnhaol. Yr wyf yn derbyn y pwyntiau sydd wedi'u gwneud ar y sector coedwigaeth. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf eisoes wedi'i drafod gyda swyddogion ac mae'n rhywbeth y byddaf yn dychwelyd ato.

**Morlyn Llanw**

**Tidal Lagoon**

13:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion i adeiladu morlyn llanw ym Mae Abertawe. OAQ(4)0229(ESD)*

*2. Will the Minister make a statement on proposals to build a tidal lagoon in Swansea Bay. OAQ(4)0229(ESD)*

13:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of a proposal from Tidal Lagoon Power, formally known as Inazin Power Ltd, which intends to develop a large tidal lagoon project in Swansea bay. This project is still in the very early scoping stages, with the size of the project yet to be determined.

Yr wyf yn ymwybodol o gynnig gan Tidal Lagoon Power, a elwir yn ffurfiol fel Inazin Power Ltd, sy'n bwriadu datblygu prosiect morlyn llanw mawr ym mae Abertawe. Mae'r prosiect hwn yn dal i fod yn y camau cwmpasu cynnar iawn, ac mae maint y prosiect eto i'w benderfynu arno.

13:57 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You will know that many people in the Swansea area find this a very attractive proposition and one that will hugely benefit the local economy. Is the Welsh Government prepared to do everything it can to help this project come to fruition and to deliver it as a means of providing alternative sources of energy that are far more sustainable than the present generation capacity?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod llawer o bobl yn ardal Abertawe yn gweld hwn yn gynnig deniadol iawn ac yn un a fydd o fudd mawr i'r economi leol. A yw Llywodraeth Cymru yn barod i wneud popeth o fewn ei gallu i helpu'r prosiect hwn i gael ei wireddu a'i gyflawni fel modd o ddarparu ffynonellau amgen o ynni sydd yn llawer mwy cynaliadwy na'r capasiti cynhyrchu presennol?

13:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware that the Liberal Democrat Member for South Wales West has been a strong supporter of this project. Clearly, the project is, at the moment, going through its initial stages of discussion and debate. The Welsh Government is happy to work with developers to maximise the economic potential for Wales. I will be keeping a very close eye on the way that this proposal develops.

Yr wyf yn ymwybodol bod Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Orllewin De Cymru wedi bod yn gefnogwr cryf o'r prosiect hwn. Yn amlwg, mae'r prosiect, ar hyn o bryd, yn mynd drwy ei gamau cychwynnol o drafod a dadlau. Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i weithio gyda datblygwyr i sicrhau cymaint o botensial economaidd ag sy'n bosibl i Gymru. Byddaf yn cadw llygad barcud ar y ffordd y bydd y cynnig hwn yn datblygu.

13:58 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leading on from that last question from Peter Black, Minister, I am extremely supportive of exploiting hydro and tidal power and was impressed when I was briefed about the tidal lagoon in Swansea bay. I would like to ask you more generally about tidal and hydro power. Will you commit your Government to reviewing its energy policy and prioritising more sustainable and productive forms of renewable energy, such as hydro and tidal energy, over wind?

Gan ddirwyn ymlaen o'r cwestiwn olaf gan Peter Black, Weinidog, yr wyf yn hynod gefnogol i fanteisio ar ynni'r llanw a dŵr a gwnaed argraff arnaf wrth gael fy mriffio am y morlyn llanw ym mae Abertawe. Hoffwn ofyn i chi yn fwy cyffredinol am ynni'r llanw a dŵr. A wnewch chi ymrwymo eich Llywodraeth i adolygu ei pholisi ynni a blaenoriaethu ffurfiau mwy cynaliadwy a chynhyrchiol o ynni adnewyddadwy, megis ynni'r llanw a dŵr, yn hytrach na gwynt?

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The responsibility for those large-scale energy projects, as the Member will know, rests with the First Minister. Within my brief, I have some responsibility for developing small-scale renewables, particularly within the brief of the new rural development plan that we are consulting on at the moment. I will be looking to see how that new rural development plan can support sustainable, renewable energy projects across the face of rural Wales.

Mae'r cyfrifoldeb am y prosiectau ynni ar raddfa fawr, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, yn gorwedd gyda'r Prif Weinidog. O fewn fy mriff, mae gennyf rywfaint o gyfrifoldeb am ddatblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, yn enwedig o fewn briff y cynllun datblygu gwledig newydd yr ydym yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Byddaf yn edrych i weld sut y gall y cynllun datblygu gwledig newydd gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy, cynaliadwy, ar draws arwyneb Cymru wledig.

13:59 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A yw'r Gweinidog yn croesawu'r newyddion, fel yr wyf i, fod y tîm sy'n gyfrifol am y prosiect hwn yn ystyried sut y bydd pobl o ardal bae Abertawe yn medru cael budd o elfen o'r prosiect hwn drwy fod yn berchen arno drwy gynllun rhannu lleol a'u bod yn gallu edrych ar sut i gynnig tariffiau trydan rhatach i bobl yr ardal honno?

Does the Minister welcome the news, as I do, that the team behind this project is considering how people from the Swansea bay area will be able to benefit from an element of this project by taking ownership through a local share scheme and that they will be able to look at how they can offer cheaper electricity tariffs for people living in that area?

13:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf bob amser yn croesawu unrhyw fudd i gymunedau lleol o unrhyw brosiect sy'n digwydd yn eu cymunedau.

I always welcome any benefits for local communities from any projects that take place within those communities.

**Nodyn Cyngor Technegol 21**

**Technical Advice Note 21**

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiweddaru Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff. OAQ(4)0234(ESD)*

*3. Will the Minister make a statement on updating Technical Advice Note (TAN) 21: Waste. OAQ(4)0234(ESD)*

13:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Er bod hyn hefyd yn fater sy'n ymwneud â chynllunio, rwy'n falch iawn bod yr Aelod wedi gofyn y cwestiwn oherwydd rwy'n gallu dweud ybydd drafft newydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno ddydd Iau.

Although this is also a matter that is related to planning, I am very pleased that the Member has asked the question because I can say that a new draft will be published on Thursday.

14:00 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am ateb mwy cynhwysfawr na'r disgwyl. Mae'n debyg y bydd y cwestiwn atodol yn fater o daro'r postyn er mwyn i'r glwyd glywed. Mae gan nifer o drigolion a phobl leol o gwmpas Brooklands—cartref henoed ger Dinbych-y-pysgod sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl gydag Alzheimer's—ddiddordeb mawr yn y diweddariad, gan eu bod am wybod sut mae datblygiadau o'r fath, yn enwedig o ran prosesu gwastraff, yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr effaith ar y gymdogaeth a chymdogion. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Gweinidogion, wrth edrych ar y cynlluniau hyn, yn rhoi ystyriaeth lawn i hynny.

I thank the Minister for an answer that was more comprehensive than expected. I suppose that the supplementary question will be a matter of making a point so that others may listen. A number of residents and local people around Brooklands—an older people's home near Tenby that specialises in caring for people with Alzheimer's—have a great interest in the update, because they want to know how such developments, especially on waste processing, are considered in the context of the effect on communities and neighbours. I very much hope that Ministers, in looking at these plans, take that fully into account.

14:00 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae gan bawb y cyfle i gyfrannu eu barn yn ystod y broses ymgynghori, a byddwn yn ymuno gyda'r Aelod i ofyn i bawb ar draws y wlad wneud hynny.

Everyone has the opportunity to contribute their views during the consultation process, and I would join the Member in asking everyone across the country to partake of that opportunity.

14:01 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last year, the Wales Audit Office found that, although the rate of public participation in recycling is increasing, which, of course, we all welcome, there remain substantial barriers to the implementation of the national strategy and the measurement of performance that will hinder further long-term improvements. Are the local variations of recycling waste collections going to be an obstacle to achieving the Government's 70% target?

Y llynedd, canfu Swyddfa Archwilio Cymru, er bod cyfradd cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu yn cynyddu, ac rydym i gyd, wrth gwrs, yn croesawu hynny, erys rhwystrau sylweddol i weithredu'r strategaeth genedlaethol a mesur perfformiad, a bydd hyn yn rhwystr i fwy o welliannau hirdymor. A yw'r amrywiadau lleol mewn casgliadau gwastraff ailgylchu yn mynd i fod yn rhwystr i gyflawni targed y Llywodraeth o 70%?

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly hope not.

Gobeithio'n wir na fydd hynny'n digwydd.

### Cronfa Ddŵr Llanisien

### Llanishen Reservoir

14:01 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran pryd y bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar apêl ddiweddaraf Western Power Distribution i ddatblygu Cronfa Ddŵr Llanisien fel ystad o dai. OAQ(4)0238(ESD)*

*4. Will the Minister provide an update on when he will be announcing the decision in relation to the latest appeal by Western Power Distribution to develop Llanishen Reservoir as a housing estate. OAQ(4)0238(ESD)*

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As far as I understand, this is also a matter that will come before the Minister for Housing and Regeneration. He is in the Chamber this afternoon and will have heard the question.

Cyn belled ag yr wyf yn deall, mae hwn hefyd yn fater a fydd yn dod gerbron y Gweinidog Tai ac Adfywio. Mae ef yn y Siambr y prynhawn yma a bydd wedi clywed y cwestiwn.

14:02 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that he will have heard the question, but your answer will not be much of a consolation to the people of Cardiff North and Cardiff Central, who have had experienced two decades of uncertainty over this particular application and its predecessors. What discussions have you had with natural resources Wales regarding the ability to protect our built waterscapes in any future planning processes in new legislation?

Yr wyf yn siŵr y bydd wedi clywed y cwestiwn, ond ni fydd eich ateb yn rhoi fawr o gysur i bobl Gogledd Caerdydd a Chaerdydd Canolog, sydd wedi dioddef dau ddegawd o ansicrwydd ynghylch y cais penodol hwn a'i ragflaenwyr. Pa drafodaethau a gawsoch gydag adnoddau naturiol Cymru ynghylch y gallu i ddiogelu ein nodweddion dŵr adeiledig mewn unrhyw brosesau cynllunio yn y dyfodol mewn deddfwriaeth newydd?

14:02 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware that no Minister will answer questions on live planning issues in this Chamber; that is something that has been understood by Members on all sides of the Chamber for some years. On general policy issues, as Ministers, we will always talk to each other about how our roles complement each other and how we can ensure that the portfolios that we hold work in a joined-up function.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol na fydd yr un Gweinidog yn ateb cwestiynau ar faterion cynllunio sy'n gyfredol agored yn y Siambr hon; mae hynny'n rhywbeth sydd wedi ei ddeall gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr ers rhai blynyddoedd. Ar faterion polisi cyffredinol, fel Gweinidogion, byddwn bob amser yn siarad â'n gilydd am sut mae ein swyddogaethau'n ategu ei gilydd a sut y gallwn sicrhau bod y portffolios yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn gweithio mewn modd cydgysylltiedig.

14:03 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate that the main question is outside the scope of your portfolio, Minister, but one aspect of planning with which you can assist is land classification. Given that the issue of food security is of paramount importance, with a growing population, do you intend to engage in the discussion about land classification when invited to do so for the planning process, because high-quality agricultural land is, at the moment, in many parts of Wales, taken for development, when it could be better used for the growing of crops and helping with the food security debate?

Yr wyf yn gwerthfawrogi bod y prif gwestiwn y tu allan i gwmpas eich portffolio, Weinidog, ond un agwedd ar gynllunio y gallwch gynorthwyo ynglŷn ag ef yw dosbarthiad tir. O ystyried bod y mater diogelwch bwyd o'r pwys mwyaf, gyda phoblogaeth sy'n tyfu, a ydych chi'n bwriadu cymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch dosbarthiad tir pan eich gwahoddir i wneud hynny ar gyfer y broses gynllunio, oherwydd mae tir amaethyddol o ansawdd uchel, ar hyn o bryd, mewn sawl rhan o Gymru, yn cael ei gymryd ar gyfer datblygu, pan y gellid ei ddefnyddio'n well ar gyfer tyfu cnydau ac i helpu gyda'r ddadl diogelwch bwyd?

14:03 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There will be matters on which we will need to take decisions, particularly when we have final agreement on the new architecture of the common agricultural policy. Discussions are taking place this afternoon in Brussels, which we expect to reach conclusion later this evening; we have Welsh Government officials representing us there today. A consultation is taking place at the moment and, when that consultation is complete, I will be taking a number of different decisions that will impact on the distribution of the financial framework of the new CAP and its impact on agricultural land.

Bydd materion y bydd angen i ni wneud penderfyniadau ar eu cyfer, yn enwedig pan fydd gennym gytundeb terfynol ar bensaernïaeth newydd y polisi amaethyddol cyffredin. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal y prynhawn yma ym Mrwsel, ac rydym yn disgwyl iddynt ddod i gasgliad yn ddiweddarach heno; mae gennym swyddogion Llywodraeth Cymru yn ein cynrychioli ni yno heddiw. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a phan fydd yr ymgynghoriad hwnnw wedi'i gwblhau, byddaf yn cymryd nifer o wahanol benderfyniadau a fydd yn effeithio ar ddosbarthiad fframwaith ariannol y PAC newydd a'i effaith ar dir amaethyddol.

### Datblygiad Anghyfreithlon ar Dir Comin

### Unlawful Developments on Common Land

14:04 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw opsiynau ar gyfer gorfodi os ceir datblygiad anghyfreithlon ar dir comin. OAQ(4)0230(ESD)*

*5. Does the Welsh Government have any options for enforcement if there is unlawful development on common land. OAQ(4)0230(ESD)*

14:04 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Where restricted works on common land are carried out without consent, any person affected by the development, including Welsh Ministers, may apply to the courts to rectify the situation. Such action should, in our view, be taken by those whose rights have been directly affected by the development.

Pan fo gwaith cyfyngedig yn cael ei gynnal ar dir comin heb ganiatâd, caiff unrhyw berson a effeithir gan y datblygiad, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wneud cais i'r llysoedd i unioni'r sefyllfa. Dylai camau o'r fath, yn ein barn ni, gael eu cymryd gan y rhai yr effeithwyd yn uniongyrchol ar eu hawliau gan y datblygiad.

14:04 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. It is my understanding that, under the Commons Act 2006, anyone wishing to develop common land has to apply to the Welsh Government for permission. Has an application for development at common unit number CL25A, known as East Pit, been made to your Government?

Diolch ichi am yr ateb yna, Weinidog. Yr wyf ar ddeall, o dan Ddeddf Tir Comin 2006, bod yn rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i ddatblygu tir comin, wneud cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd. A oes cais ar gyfer datblygiad yn uned gyffredin rhif CL25A a elwir yn East Pit, wedi'i wneud i'ch Llywodraeth?

14:05 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand the Member's interest in East Pit. I know that you have spoken about that on other occasions and that you met with my predecessor to discuss these issues. I will write to you on the specific points that you have raised.

Yr wyf yn deall diddordeb yr Aelod yn East Pit. Gwn eich bod wedi siarad am hynny ar adegau eraill a'ch bod wedi cwrdd â fy rhagflaenydd i drafod y materion hyn. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar y pwyntiau penodol a godwyd gennych.

14:05 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, under section 38, paragraph 1 of the Commons Act 2006, consent is required for development on our common land, and, under section 41, local authorities and county courts have enforcement powers to counteract unlawful development in these areas. Local authorities also have powers over unauthorised development on unclaimed land under section 45. I am sure that the Minister will join me in stating that common land is important to many people in our communities, for enhancing communities' social wellbeing and social interests. What steps is the Welsh Government taking to ensure that local authorities use their statutory powers wisely and effectively in order to protect the vested interests of our local communities?

Weinidog, o dan adran 38, paragraff 1 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, mae angen caniatâd ar gyfer datblygiad ar ein tir comin, ac, o dan adran 41, mae gan awdurdodau lleol a llysoedd sirol bwerau gorfodi i wrthweithio datblygiadau anghyfreithlon yn yr ardaloedd hyn. Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau dros ddatblygiad anawdurdodedig ar dir heb ei hawlio o dan adran 45. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymuno â mi i ddatgan bod tir comin yn bwysig i lawer o bobl yn ein cymunedau, ar gyfer gwella lles cymdeithasol a buddiannau cymdeithasol cymunedau. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau statudol yn ddoeth ac yn effeithiol er mwyn diogelu buddiannau ein cymunedau lleol?

14:06 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the point about common land. The Member will be aware that section 41 of that Act provides sufficient enforcement powers, where they are needed.

Cytunaf â'r pwynt ynglŷn â thir comin. Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod adran 41 o'r Ddeddf yn darparu pwerau gorfodi digonol, pan fo'u hangen.

## Gwarchod yr Amgylchedd

## Protecting the Environment

14:06 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwarchod yr amgylchedd. OAQ(4)0232(ESD)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policies for protecting the environment. OAQ(4)0232(ESD)*

14:06 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae gwarchod yr amgylchedd yn elfen allweddol o'n rhaglen lywodraethu. Ein nod yw sicrhau ein bod, fel cenedl, yn gwneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau, a hynny er lles y gymuned ehangach.

Protection of the environment is a key element of our programme for government. Our goal is to ensure that we make the best possible use, in the wider public interest, of our ultimate resources as a nation.

14:06 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ymateb. Rwyf wedi derbyn sylwadau ynglŷn â gweithfeydd trin carffosiaeth yng nghanol pentref Dale yn fy etholaeth i, lle mae nifer o ddigwyddiadau wedi arwain at ollwng gwastraff yn y pentref. Nid yw digwyddiadau o'r fath yn helpu i annog twristiaid i ddychwelyd i'r ardal ac maent yn achosi problemau parhaus i drigolion lleol. Pa ganllawiau mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar gyfer problemau o'r fath, er mwyn sicrhau nad ydynt yn digwydd, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n ddibynnol iawn ar dwristiaeth?

I am grateful to the Minister for that response. I have received comments on sewage treatment plants in the middle of the village of Dale in my constituency, where a number of incidents have led to leaks into the village. Such events do not help in encouraging tourists back to the area and create a continuing problem for residents. What guidance is the Welsh Government providing on problems such as this, to ensure that they do not occur, especially in areas that are very dependent on tourism?

14:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae canllawiau yn rheoli digwyddiadau o'r fath, ynghyd â'r math o weithio mae'r Aelod wedi ei ddisgrifio. Pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda manylion yr hyn y mae'n sôn amdano, efallai y gallaf ysgrifennu ato gydag ymateb llawnach.

There are guidelines to control such events, and the kind of work to which the Member has alluded. If the Member was to write to me with the details, I could perhaps write to him with a fuller reply.

14:07 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pa arweiniad y byddech yn ei roi i gyfoeth naturiol Cymru ar fod yn lladmerydd cryf dros warchod yr amgylchedd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle nad yw hynny, o reidrwydd, er budd pobl a'r economi?

What guidance would you provide to natural resources Wales on being a strong advocate for environmental protection, particularly in situations where that is not necessarily for the benefit of the people or the economy?

14:08 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y mae'n digwydd, dydd Mawrth diwethaf cefais gyfarfod ag Emyr Roberts. Cawsom sgwrs fuddiol iawn ynghylch sut yr oeddem yn rhagweld cyfoeth naturiol Cymru yn gweithio. Rwy'n gobeithio y cawn gyfle'n fuan iawn i barhau â'r sgwrs honno. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried 'remit letter' cyfoeth naturiol Cymru, ac rwy'n disgwyl i'r mater rydych chi wedi'i godi fod yn rhan ohono.

As it happens, I had a meeting last Tuesday with Emyr Roberts. We had a very useful conversation on how we anticipated that natural resources Wales would work. I hope that we will have an opportunity very soon to continue that conversation. At the moment, I am considering the remit letter that will be issued to natural resources Wales and I expect the kind of issue that you mention to be part of that letter.

14:08 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. Byddwch yn ymwybodol bod Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad i 'flow splitting' a'r diwydiant hydro yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig pedwar opsiwn, â phob un ohonynt, yn ôl yr asiantaeth, yn cynnig lefel ddigonol o amddiffyniad amgylcheddol. Fodd bynnag, byddai tri o'r opsiynau yn arwain at doriad sylweddol yn yr incwm posibl o gynlluniau ynni dŵr i gymunedau a ffermydd yn yr ucheldir, yn enwedig. Byddent hefyd yn lleihau arbedion carbon. A ydych yn cytuno bod cyfle yn y fan hon, o wneud y penderfyniad iawn, i ddangos datblygu cynaliadwy ar waith gyda'i holl fanteision, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd?

Thank you for that response. You will be aware that the Environment Agency at present is holding a consultation into the issue of flow splitting and the hydro industry in Wales. The consultation offers four options, each of which, according to the agency, provides adequate environmental protections. However, three of the options would lead to a significant decline in possible income from hydro energy schemes for upland farms and communities in particular. They would also reduce carbon savings. Do you agree that there is an opportunity here, if the right decision is made, to show sustainable development in action, with all its benefits—environmentally, socially and economically?

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ydw; rwy'n cytuno â chi. Mae hefyd gyfle i chi gymryd rhan yn y broses ymgynghori a dylanwadu arni.

Yes; I agree. There is also an opportunity for you to participate in the consultation process and to influence it.

14:09 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn i hefyd longyfarch y Gweinidog ar ei ddyrchafiad haeddiannol i'r Cabinet. Gan fod ganddo gyfrifoldeb dros gyllideb cyfoeth naturiol Cymru, a yw'n gwbl fodlon y bydd y gyllideb honno'n ddigonol i'r corff hwn wynebu'r heriau a fydd ganddo ar ôl 1 Ebrill?

I, too, would like to congratulate the Minister on his deserved promotion to the Cabinet. Now that he has responsibility for the budget of natural resources Wales, is he entirely content that that budget is going to be adequate for that body in facing its challenges after 1 April?

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gobeithio y bydd gan gyfoeth naturiol Cymru digonedd o adnoddau er mwyn cyflawni'r hyn rwy'n gofyn iddo wneud drwy'r 'remit letter' rwy'n ei ystyried ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio cael cyfle i gwrdd â phrif swyddogion cyfoeth naturiol Cymru yn fuan iawn er mwyn trafod y materion hyn.

I hope that natural resources Wales will have ample resources to do what I will ask of it in the remit letter that I am currently considering. I hope that I will be able to meet with the principal officers of natural resources Wales very soon in order to discuss these issues.

### Tryloywder

### Transparency

14:10 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn hybu tryloywder yn system gynllunio Cymru. OAQ(4)0239(ESD)*

*7. Will the Minister make a statement outlining how the Welsh Government is promoting transparency within the Welsh planning system. OAQ(4)0239(ESD)*

14:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government fully supports the operation of a planning system that provides an open, fair and transparent process, through the planning framework provided by 'Planning Policy Wales' and associated advice, both when preparing development plans and taking planning decisions.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n llawn gweithredu system gynllunio sy'n darparu proses agored, deg a thryloyw, drwy'r fframwaith cynllunio a ddarperir gan 'Polisi Cynllunio Cymru' a chyngor cysylltiedig, wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

14:10 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As your constituency borders the area, you will no doubt be aware of the huge level of concern over plans for opencast mining at Varteg hill, very close to residential properties and a primary school. Following the news last month that your predecessor was minded to approve the plans, local residents and campaigners are very anxious to get sight of the planning inspector's report, and there is certainly clear precedent for its release at this stage of the planning process. Given that transparency and openness are meant to be the watch words of the Welsh Government, will you discuss this with the new Minister for Housing and Regeneration with a view to getting this report released as quickly as possible?

Gan fod eich etholaeth yn ffinio'r ardal, mae'n sicr y byddwch yn ymwybodol o lefel enfawr y pryder ynghylch cynlluniau ar gyfer cloddio glo brig ym mryn Farteg, yn agos iawn at eiddo preswyl ac ysgol gynradd. Yn dilyn y newyddion y mis diwethaf bod eich rhagflaenydd o blaid cymeradwyo'r cynlluniau, mae trigolion lleol ac ymgyrchwyr yn awyddus iawn i gael golwg ar adroddiad yr arolygydd cynllunio, ac yn sicr mae cynsail clir ar gyfer ei ryddhau ar y cam hwn o'r broses gynllunio. O gofio bod tryloywder a bod yn agored i fod yn brif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru, a wnewch chi drafod hyn gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio newydd gyda'r nod o gael cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl?

14:11 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware that, as a planning issue, it is a matter—as she points out—for the Minister for Housing and Regeneration. The Minister is here to hear her question, and I am sure that he will respond in his own way.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol mai pwnc yw hwn, fel mater cynllunio—fel y mae'n ei nodi—i'r Gweinidog Tai ac Adfywio. Mae'r Gweinidog yma i glywed ei chwestiwn, ac rwy'n siŵr y bydd yn ymateb yn ei ffordd ei hun.

14:11 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Congratulations, Minister, on your appointment—I was going to say appointment to the front bench, but you know what I mean. [Laughter]. Minister, we know that a large number of local planning decisions are overturned on appeal each year, so it is hardly surprising that many of our constituents do not have trust in the transparency of the local planning process. I appreciate that, in some cases, there is a reason for those decisions to be refused. How do you intend the new planning Bill to get the balance right so that local people can have trust in the integrity of the local planning system at community level?

Llongyfarchiadau, Weinidog, ar eich penodiad—roeddwn i'n mynd i ddweud penodiad i'r fainc flaen, ond rydych chi'n gwybod beth rwy'n ei olygu. [Chwerthin]. Weinidog, rydym yn gwybod bod nifer fawr o benderfyniadau cynllunio lleol yn cael eu gwrthdroi ar apêl bob blwyddyn, felly nid yw'n syndod nad oes gan nifer o'n hetholwyr ffydd yn nhryloywder y broses gynllunio leol. Rwy'n gwerthfawrogi, mewn rhai achosion, bod rheswm pam y gwrthodir y penderfyniadau hynny. Sut ydych chi'n bwriadu i'r Bil cynllunio newydd sicrhau'r cydbwysedd cywir fel y gall pobl leol gael ffydd yn uniondeb y system gynllunio leol ar lefel y gymuned?

14:12 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Nick Ramsay, the Member for Monmouth, for his warm words to welcome me to my new role. He, too, will not be disappointed to hear me advise him that those are questions that are best addressed to the Minister for Housing and Regeneration.

Diolch i Nick Ramsay, yr Aelod dros Fynwy, am ei eiriau gwresog i'm croesawu i'm swydd newydd. Ni fydd ef yn siomedig ychwaith, yn fy nghlywed i'n ei hysbysu y byddai'n well cyfeirio'r cwestiynnau hyn at y Gweinidog Tai ac Adfywio.

14:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 8, OAQ(4)0231(ESD), has been withdrawn.

Mae Cwestiwn 8, OAQ (4) 0231 (ADC), wedi ei dynnu'n ôl.

## Clefydau Coed

## Tree Diseases

14:12 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth fynd i'r afael â chlefydau coed yng Nghymru. OAQ(4)0237(ESD)*

*9. Will the Minister make a statement on the progress being made in tackling tree diseases in Wales. OAQ(4)0237(ESD)*

14:12 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that we are making good progress in working with the Department of Environment, Food and Rural Affairs and the Forestry Commission on measures to tackle tree diseases in Wales.

Rwy'n credu ein bod yn gwneud cynnydd da wrth weithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Comisiwn Coedwigaeth ar fesurau i fynd i'r afael â chlefydau coed yng Nghymru.

14:12 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I, too, congratulate you on your appointment to the Cabinet with the additional responsibilities of our national environmental resources. In less than two weeks, NRW will take over responsibility for forests and woodlands and will be accountable for tackling tree diseases, such as ash dieback and the Phytophthora ramorum. In my constituency, we have seen the devastation that these cause, with widespread felling of the larch in the Afan valley. I have met with officers of Forestry Commission Wales, and there is a long-term plan for dealing with these diseases in the replanting of our woodlands. What assurances can you give me and communities in the Afan valley and elsewhere that these plans and the Forestry Commission's commitment to them will be honoured and that we will see our valleys, once again, become areas of great natural beauty?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Rwyf innau, hefyd, yn eich llongyfarch ar eich penodiad i'r Cabinet gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol am ein hadnoddau amgylcheddol cenedlaethol. Mewn llai na phythefnos, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb am goedwigoedd a choetiroedd, a bydd yn atebol am fynd i'r afael â chlefydau coed fel clefyd coed ynn Phytophthora ramorum. Rydym ni wedi gweld y dinistr y mae'r rhain yn ei achosi yn fy etholaeth i, wrth i goed llarwydd gael eu torri i lawr yn eang yng Nghwm Afan. Rwyf wedi cwrdd â swyddogion Comisiwn Coedwigaeth Cymru, a cheir cynllun hirdymor ar gyfer ymdrin â'r clefydau hyn gan ailblannu ein coetiroedd. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i mi a chymunedau yng Nghwm Afan ac mewn mannau eraill y bydd y cynlluniau hyn ac ymrwymiad y Comisiwn Coedwigaeth iddynt yn cael eu hanrhydeddu ac y byddwn yn gweld ein cymoedd yn tyfu'n ardaloedd o harddwch naturiol gwych unwaith eto?

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that and for your kind remarks. I am aware that there has been considerable felling of larch woodland in the Afan valley. We are all aware of the difficulties facing many communities as a consequence of that. Members will be aware that the Welsh Government woodland's strategy, 'Woodlands for Wales', describes a clear vision for a more diverse woodland estate to improve its resilience to pest and diseases. I said in my earlier answer to the Liberal Democrat Member for Mid and West Wales that one area that I would like to focus on in this new role is that of forestry. It is an issue that I will be prioritising in the next few weeks and months.

Diolch i chi am hynna ac am eich sylwadau caredig. Rwy'n ymwybodol bod coetiroedd llarwydd wedi cael eu torri'n helaeth yng Nghwm Afan. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu llawer o gymunedau o ganlyniad i hynny. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod strategaeth coetiroedd Llywodraeth Cymru, 'Coetiroedd i Gymru', yn disgrifio gweledigaeth eglur ar gyfer ystâd goetir fwy amrywiol i wella ei gallu i wrthsefyll plâu a chlefydau. Dywedais yn fy ateb cynharach i Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru mai un maes yr hoffwn ganolbwyntio arno yn y swydd newydd hon yw coedwigaeth. Mae'n fater y byddaf yn ei flaenoriaethu yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

14:14 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Will the Minister investigate the potential to increase the market share of Japanese larch in Wales with a view to utilising increased timber production due to Phytophthora ramorum sanitation felling and to agree to replanting?

A wnaiff y Gweinidog ymchwilio i'r potensial o gynyddu cyfran y farchnad o larwydd Siapaneaidd yng Nghymru gyda'r nod o gynhyrchu mwy o bren yn sgil torri coed i lawr oherwydd glanweithdra Phytophthora ramorum, ac i gytuno i ail-blannu?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Support for the timber industry is something that we have discussed on a number of occasions, and it is a matter that I discussed with my very good friend the Minister for Economy, Science and Transport, when I was a Deputy Minister working alongside her. One area that we need to look at in the future is how we support commercial timber operations in Wales. I hope that the decisions that I took on Glastir last year will help to support some improvement of woodland planting and creation in Wales, but I recognise that we still need to look at the commercial timber operations and provide a level of support for them.

Mae cefnogaeth i'r diwydiant pren yn rhywbeth rydym wedi ei drafod ar nifer o achlysuron, ac mae'n fater a drafodais gyda fy ffrind da iawn, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, pan roeddwn yn Ddirprwy Weinidog yn gweithio ochr yn ochr â hi. Un maes y mae angen i ni ei ystyried yn y dyfodol yw sut rydym yn cefnogi gweithrediadau pren masnachol yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y penderfyniadau a wnaethpwyd gennyf yng nghyswllt Glastir y llynedd yn helpu i gefnogi rhywfaint o welliant o ran plannu a chreu coetiroedd yng Nghymru, ond rwy'n cydnabod bod yn dal i fod angen i ni edrych ar y gweithrediadau pren masnachol a darparu lefel o gefnogaeth iddynt.

Senedd.tv Fideo Video

### Llwybr Arfordir Cymru

### Wales Coast Path

14:15 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision Llwybr Arfordir Cymru. OAQ(4)0236(ESD)*

*10. Will the Minister make a statement on the benefits of the Wales Coastal Path. OAQ(4)0236(ESD)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

The opening of the Wales coast path was a world first for Wales, and it provides important recreation and economic benefits to coastal communities. Research shows that the path attracted 2.89 million visits over a 12-month period, delivering £16.1 million in gross value added to the Welsh economy. This is an opportune time to pay tribute to the work of John Griffiths, who held this portfolio until last week. One of your great triumphs, John, was the completion of the Wales coast path, and it is something that Members across the Chamber will unite to congratulate you on achieving.

Roedd agor llwybr arfordir Cymru yn fenter a oedd y gyntaf o'i bath yn y byd i Gymru, ac mae'n darparu manteision hamdden ac economaidd pwysig i gymunedau arfordirol. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod y llwybr wedi denu 2.89 miliwn o ymweliadau dros gyfnod o flwyddyn, gan ddarparu £16.1 miliwn o werth ychwanegol crynswth at economi Cymru. Mae hwn yn amser addas i dalu teyrnged i waith John Griffiths, a oedd yn gyfrifol am y portffolio hwn tan yr wythnos diwethaf. Un o'ch llwyddiannau mawr, John, oedd cwblhau llwybr arfordir Cymru, ac mae'n rhywbeth y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn ymuno â'i gilydd i'ch llongyfarch ar ei gyflawni.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. I also congratulate him for his appointment and John Griffiths for his great efforts on the coastal path, which is a triumph. Has the Minister had any discussions about the imaginative suggestion to extend the Wales coast path to Flat Holm, which is the most southerly point of Wales?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Rwyf innau'n ei longyfarch ar ei benodiad hefyd yn ogystal â John Griffiths am ei ymdrechion helaeth ar lwybr yr arfordir, sy'n llwyddiant ysgubol. A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau ar yr awgrym llawn dychymyg i ymestyn llwybr arfordir Cymru i Ynys Echni, sef pwynt mwyaf deheuol Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Goodness me. I am delighted to point out to the Member that countryside access remains a matter for John Griffiths. I am sure that he will be enthusiastic about proposals to extend the route of the coastal path to Flat Holm island in the Severn estuary.

Mawredd mawr. Rwy'n falch iawn o ddweud wrth yr Aelod mai mater i John Griffiths yw mynediad at gefn gwlad o hyd. Rwy'n siŵr y bydd yn frwdfrydig am y cynigion i ymestyn llwybr yr arfordir i Ynys Echni yn aber Afon Hafren.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Congratulations to you, Minister, from me. The coastal path is a feature that is unique to Wales and, therefore, has great potential to attract tourists, not least in my region. How do you plan to work with your predecessor to ensure that marine conservation zones complement that tourism offer, and with other Ministers to ensure that windfarm development does not compromise it?

Llongyfarchiadau i chi, Weinidog, oddi wrthyf i. Mae llwybr yr arfordir yn nodwedd sy'n unigryw i Gymru ac, felly, mae ganddo botensial mawr i ddenu twristiaid, yn enwedig yn fy rhanbarth i. Sut ydych chi'n bwriadu gweithio gyda'ch rhagflaenydd i sicrhau bod parthau cadwraeth morol yn cyd-fynd â'r cynnig hwnnw i dwristiaid, a chyda Gweinidogion eraill i sicrhau nad yw datblygiad ffermydd gwynt yn amharu arno?

14:17 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague John Griffiths established a task and finish group to look at the whole issue of marine conservation zones. We are awaiting its report.

Sefydlodd fy nghydweithiwr, John Griffiths, grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried parthau cadwraeth morol. Rydym yn aros am ei adroddiad.

### Iechyd Anifeiliaid

### Animal Health

14:17 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd anifeiliaid yng Nghwm Cynon. OAQ(4)0240(ESD)*

*11. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is working to improve animal health in the Cynon Valley. OAQ(4)0240(ESD)*

14:17 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our priorities for animal health and welfare are set out in the programme for government.I will continue the excellent work of my predecessor in raising standards of health and welfare for all animals kept in Wales.

Nodir ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.Byddaf yn parhau gwaith rhagorol fy rhagflaenydd i godi safonau iechyd a lles ar gyfer yr holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru.

14:17 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dogs Trust tells me that it has seen a rise in the number of people handing over their dogs because they cannot afford veterinary fees, and we know that people across Wales, including people in the Cynon Valley, simply have less money to spend. As promotion of welfare is a key responsibility under the Animal Welfare Act 2006, what advice would you give to Welsh families to help to meet these costs and will you consider working with veterinary regulatory bodies to ensure that people can afford their vet bills?

Mae Dogs Trust yn fy hysbysu ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael gwared â'u cŵn gan nad ydyn nhw'n gallu fforddio ffioedd milfeddyg, a gwyddom ei bod yn ffaith syml fod gan bobl ledled Cymru, gan gynnwys pobl yng Nghwm Cynon, lai o arian i'w wario. Gan fod hybu lles yn gyfrifoldeb allweddol dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i deuluoedd yng Nghymru i helpu i dalu'r costau hyn ac a wnewch chi ystyried gweithio gyda chyrff rheoleiddio milfeddygol er mwyn sicrhau y gall pobl fforddio eu biliau milfeddyg?

14:18 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be happy to do that. I discussed this matter with the chief vet yesterday, as it happens, and we welcome the work that Dogs Trust and other welfare charities are doing to promote responsible ownership, as well as the interventions of those charities to prevent unnecessary suffering. I have to say that owning a pet can be a costly business. It is a matter for all owners to take into account the full costs of purchasing a dog and maintaining the welfare of that dog throughout its life. That is something that I hope that all responsible owners will take into account when they take the decision to buy a dog or any other pet.

Byddwn yn hapus i wneud hynny. Trafodais y mater hwn gyda'r prif filfeddyg ddoe, fel mae'n digwydd, ac rydym yn croesawu'r gwaith y mae Dogs Trust ac elusennau lles eraill yn ei wneud i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol, yn ogystal ag ymyriadau'r elusennau hynny i atal dioddefaint diangen. Rhaid i mi ddweud y gall bod yn berchen ar anifail anwes fod yn fusnes costus. Mae'n fater i bob perchennog ystyried y costau llawn sy'n gysylltiedig â phrynu ci a sicrhau lles y ci hwnnw trwy gydol ei oes. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n gobeithio y bydd pob perchennog cyfrifol yn ei gymryd i ystyriaeth pan fydd yn gwneud y penderfyniad i brynu ci neu unrhyw anifail anwes arall.

14:19 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many of the farm animals in the Rhondda Cynon Taf area and, indeed, the whole of South Wales Central go through livestock collection centres. May I encourage you to look at the regulations around livestock collection centres, as I understand that, in England, they are monitored per visit by the local authority, whereas in Wales, it is a percentage of the time that the livestock collection centre is operating? There is no evidence to explain this anomaly between the two countries, and obviously it creates a greater burden and more red tape around the administration of collection centres in Wales. Therefore, may I encourage you, given your animal health responsibilities, to look into this particular aspect and, if you think that it is pertinent, to remove the regulations?

Mae llawer o'r anifeiliaid fferm yn ardal Rhondda Cynon Taf ac, yn wir, yn ardal Canol De Cymru gyfan yn mynd trwy ganolfannau casglu da byw. A gaf i eich annog i edrych ar y rheoliadau yn ymwneud â chanolfannau casglu da byw, gan fy mod yn deall eu bod yn cael eu monitro fesul ymweliad gan yr awdurdod lleol yn Lloegr, ond mai canran o'r amser y bydd y ganolfan casglu da byw yn gweithredu yw'r achos yng Nghymru? Nid oes unrhyw dystiolaeth i esbonio'r anghysondeb hwn rhwng y ddwy wlad, ac mae'n amlwg yn creu mwy o faich a rhagor o fiwrocratiaeth o ran gweinyddu canolfannau casglu yng Nghymru. A gaf i eich annog felly, o ystyried eich cyfrifoldebau am iechyd anifeiliaid, i ymchwilio i'r agwedd benodol hon ac, os ydych o'r farn bod hynny'n briodol, i gael gwared ar y rheoliadau?

14:19 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You certainly can encourage me to do so, and if you were to write to me on some of those matters, I would give that due consideration.

Gallwch fy annog i wneud hynny'n sicr, a phe byddech yn ysgrifennu ataf ar rai o'r materion hynny, byddwn yn rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt.

## 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'

## 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'

14:19 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo yn amddiffyn cymunedau yng Nghymru. OAQ(4)0241(ESD)*

*12. Will the Minister outline how Mineral Technical Advice Note 2: Coal protects communities in Wales. OAQ(4)0241(ESD)*

14:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Minerals Technical Advice Note 2: Coal' provides mineral planning authorities with clear guidance and the tools to protect communities through the local development planning system, and when deciding on planning applications.

Mae 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' yn rhoi canllawiau eglur a'r dulliau i awdurdodau cynllunio mwynau amddiffyn cymunedau drwy'r system cynllunio datblygiadau lleol, ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

14:20 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In the case of Varteg Hill, which I just raised with you, the opencast proposals are in clear breach of the 500m buffer zone set out in MTAN 2. Given that the First Minister has said in the past that the MTAN is there to be followed, and that the guidance was developed after a lengthy public debate and backed unanimously by Members in this Chamber, what steps is the Welsh Government planning to take to ensure that the MTAN does what it is supposed to do, which is to protect communities in Wales from the negative impact of opencast mining?

Yn achos Bryn Farteg, yr wyf newydd ei godi gyda chi, mae'r cynigion glo brig yn amlwg yn mynd yn groes i'r glustogfa o 500m a nodir yn MTAN 2. O ystyried bod y Prif Weinidog wedi dweud yn y gorffennol bod yr MTAN yno i'w ddilyn, ac y datblygwyd y canllawiau ar ôl trafodaeth gyhoeddus hir ac a gefnogwyd yn unfrydol gan Aelodau yn y Siambr hon, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod yr MTAN yn gwneud yr hyn y mae i fod i'w wneud, sef diogelu cymunedau yng Nghymru rhag effaith negyddol cloddio glo brig?

14:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand that the Member is tenacious on this matter, and I recognise that. The Minister responsible for planning is the Minister for Housing and Regeneration, and he was listening intently to the question and, no doubt, monitoring the answer.

Rwy'n deall bod yr Aelod yn ddygn o ran y mater hwn, ac rwy'n cydnabod hynny. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio yw'r Gweinidog Tai ac Adfywio, ac roedd yn gwrando'n astud ar y cwestiwn ac, heb os, yn monitro'r ateb.

14:21 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I also add my congratulations on your new role. Your own guidelines state that a 500m buffer zone should exist between opencast mining and any settlement. These guidelines exist to protect communities, such as Varteg Hill, from noise and dust pollution and other problems associated with coal mining. What is the point of having these guidelines on buffer zones if they can be ignored by planning inspectors? Will the Minister consider legislation on this issue, please?

Weinidog, rwyf innau hefyd yn ychwanegu fy llongyfarchiadau ar eich swydd newydd. Mae eich canllawiau eich hun yn datgan y dylai clustogfa o 500m fodoli rhwng cloddio glo brig ac unrhyw anheddiad. Mae'r canllawiau hyn yn bodoli i ddiogelu cymunedau, fel Bryn Farteg, rhag llygredd sŵn a llwch a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â chloddio glo. Beth yw'r pwynt o gael y canllawiau hyn ar glustogfeydd os gall arolygwyr cynllunio eu hanwybyddu? A wnaiff y Gweinidog ystyried deddfwriaeth ar y mater hwn, os gwelwch yn dda?

14:21 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to my earlier answer.

Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb cynharach.

14:21 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I know that this is not your area, but I asked your predecessor, John Griffiths, to consider calling in an application for further coaling at East Pit near Cwmllynfell. It is currently with Neath Port Talbot County Borough Council for decision on the grounds that it conflicts with national planning policies, specifically MTAN 2 and the 500m buffer zone. I ask you or your colleague Carl Sargeant to give further consideration to a review of the robustness and effectiveness of the buffer zone, as promised by Jane Davidson, the Minister for the environment in the last Welsh Government, before it was so roundly criticised in the Court of Appeal ruling on the Margam extension.

Weinidog, rwy’n gwybod nad yw hyn yn eich maes chi, ond gofynnais i'ch rhagflaenydd, John Griffiths, ystyried galw cais i mewn i gloddio ymhellach yn y Pwll Dwyreiniol ger Cwmllynfell. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrthi’n gwneud penderfyniad ar y mater ar hyn o bryd, ar y sail ei fod yn gwrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol, yn enwedig MTAN 2 a'r glustogfa o 500m. Gofynnaf i chi neu'ch cydweithiwr, Carl Sargeant, roi ystyriaeth bellach i adolygiad o gadernid ac effeithiolrwydd y glustogfa, fel yr addawyd gan Jane Davidson, Gweinidog yr amgylchedd yn Llywodraeth ddiwethaf Cymru, cyn iddo gael ei feirniadu mor hallt yn nyfarniad y Llys Apêl ar estyniad Margam.

14:22 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand the Member’s interest in East Pit, and I recognise that you have raised this on a number of occasions. You will, of course, have the opportunity to question the Minister for planning on these matters in due course.

Rwy’n deall diddordeb yr Aelod yn y Pwll Dwyreiniol, ac rwy’n cydnabod eich bod wedi codi'r mater hwn ar sawl achlysur. Byddwch, wrth gwrs, yn cael y cyfle i holi'r Gweinidog cynllunio ar y materion hyn maes o law.

14:22 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand that this is a planning issue, but MTAN 2 clearly has implications for the environment as well. When the planning Bill actually comes forward, will you have discussions with the Minister for planning to ensure that there is a re-think of MTAN 2 to ensure that the environment is protected?

Rwy'n deall mai mater cynllunio yw hwn, ond mae’n amlwg bod gan MTAN 2 oblygiadau i’r amgylchedd hefyd. Pan fydd y Bil cynllunio yn cael ei gyflwyno, a fyddwch chi’n cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog cynllunio i sicrhau bod MTAN 2 yn cael ei ailystyried er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu?

14:22 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I must congratulate Members on all sides of the Chamber this afternoon for their creativity in addressing planning issues in this question session. The Minister is here, listening intently to each contribution. Clearly, when he is leading re-development of the planning legislation, he will discuss all matters around that legislation with all of his ministerial colleagues, and I will be happy to join in those conversations at the appropriate time.

Rhaid i mi longyfarch Aelodau ar bob ochr i'r Siambr y prynhawn yma am eu creadigrwydd wrth fynd i'r afael â materion cynllunio yn y sesiwn gwestiynau hon. Mae’r Gweinidog yma, ac yn gwrando’n astud ar bob cyfraniad. Yn amlwg, pan fydd yn arwain ailddatblygiad y ddeddfwriaeth gynllunio, bydd yn trafod yr holl faterion yn ymwneud â’r ddeddfwriaeth honno gyda phob un o'i gydweithwyr gweinidogol, a byddaf yn hapus i ymuno yn y sgyrsiau hynny ar yr adeg briodol.

## Polisi Morol

## Marine Policy

14:23 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi morol Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0233(ESD)*

*13. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's marine policy. OAQ(4)0233(ESD)*

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Bydd ein polisi morol yn ein helpu i sicrhau bod y moroedd yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn cynhyrchu bwydydd i ni, ac yn fioamrywiol.

Our marine policy will help to achieve seas that are clean, healthy and safe, that produce food for us and are biologically diverse.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y posibilrwydd o gyflwyno parthau cadwraeth morol gwarchodedig yn fater sydd yn achosi pryder yn sir Benfro a gallai effeithio ar y diwydiant twristiaeth, pysgotwyr lleol ac, yn wir, yr economi leol yn ei chyfanrwydd. Mae teimlad, yn enwedig ymysg pysgotwyr, nad yw eu buddiannau wedi cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau a phenderfyniadau. O ystyried yr amgylchiadau a'r effaith y gallai'r parthau posibl hyn ei chael ar y diwydiant pysgota lleol, a allwch chi, Weinidog, sicrhau bydd barn y rhanddeiliaid i gyd, gan gynnwys pysgotwyr lleol, yn cael eu hystyried yn llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniad pendant yn y maes hwn?

Minister, you will be aware that the possibility of introducing protected marine conservation zones is an issue of concern in Pembrokeshire and could impact on the tourism industry, local fishermen and indeed the local economy as a whole. There is a feeling, particularly among fishermen, that their interests have not been fully taken into account in negotiations and decisions. Given the circumstances and the impact that these possible zones could have on the local fishing industry, can you ensure, Minister, that the opinions of all stakeholders, including local fishermen, will be fully taken into account before any firm decision is taken in this area?

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n gallu. Fel y mae'r Aelod yn gwybod, roedd gennyf gyfrifoldeb am bysgodfeydd cyn 'reshuffle' yr wythnos diwethaf, ac rwyf wedi trio sicrhau bod lleisiau pysgotwyr yn rhan o'r penderfyniadau hyn. Gyda'r portffolio newydd hwn, bydd gennyf gyfle i edrych ar draws yr holl randdeiliaid a holl oblygiadau'r parthau arfaethedig hyn. Rwy'n aros, fel y dywedais wrth Suzy yn gynharach, i glywed beth fydd gan y grŵp a sefydlwyd gan John Griffiths i'w ddweud ar y mater hwn. Rwy'n hapus i ddod i sir Benfro i drafod y mater â'r diwydiant pysgota ac eraill sydd â diddordeb yn y maes.

I can. As the Member is aware, I had responsibility for fisheries before last week's reshuffle, and I have endeavoured to ensure that the voices of the fishermen are part of these decisions. With this new portfolio, I will have the opportunity to look across all the stakeholders and all the implications of these proposed zones. As I told Suzy earlier, I am waiting to hear what the group established by John Griffiths will have to say on this issue. I am happy to come to Pembrokeshire to discuss the matter with the fishing industry and other interested parties.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw waith sydd wedi'i wneud i ddatblygu un gwasanaeth cyngor a hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer cynllunio yng Nghymru. OAQ(4)0235(ESD)*

*14. Will the Minister outline any work that has been done to develop a single national training and advice service for planning in Wales. OAQ(4)0235(ESD)*

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i sefydlu corff cynghori a gwella'r broses gynllunio. Ynghlwm wrth y Papur Gwyn ar gynllunio bydd manylion y cynnig, a chaiff hwnnw ei gyhoeddi gyda'r Bil diwygio cynllunio erbyn diwedd y flwyddyn hon.

The Welsh Government is considering proposals to establish a planning advisory and improvement body. The details of the proposals will form part of the planning White Paper, which will be issued with the planning reform Bill by the end of this year.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Rwy'n synnu fy mod wedi cael ateb i'r cwestiwn, ond rwy'n diolch i chi yn fawr am hynny.

I am surprised to have a received a response to that question, but I do thank you for that response.

Fe dderbyniodd y Llywodraeth welliant gennym ym mis Medi yn ystod trafodaeth ar gynllunio. A oes gennych unrhyw safbwynt fel Llywodraeth ynghylch a fydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno gan y Llywodraeth ei hun neu gan asiantaeth allanol?

The Government agreed to one of our amendments during a debate on planning in September. Do you have any view as a Government as to whether the new service will be introduced by the Government itself or by an external agency?

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i chi am eich sylwadau caredig, ond, mae'n flin gennyf, rwy'n mynd i'ch siomi chi. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y Gweinidog dros gynllunio yn ei drafod ac yn ei ystyried pan ddaw i wneud penderfyniadau yn y maes hwn.

Thank you for your kind remarks, but, I am sorry, I am going to disappoint you. This is something that the Minister for planning will discuss and consider when he comes to take a decision on this.

Senedd.tv Fideo Video

### Perygl o Lifogydd

### Flood Risk

14:26 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli'r perygl o lifogydd yng Ngorllewin Clwyd. OAQ(4)0228(ESD)*

*15. Will the Minister make a statement on flood risk management in Clwyd West. OAQ(4)0228(ESD)*

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am committed to managing the risks of flooding in line with the objectives set out in the Welsh Government's national strategy for flood and coastal erosion risk management in Wales. The Welsh Government—[Interruption.] Sorry; I still have a bad throat. The Welsh Government recently announced a further £6 million funding for the Colwyn Bay coastal defence scheme.

Rwyf wedi ymrwymo i reoli risgiau llifogydd yn unol â'r amcanion a nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gen i; mae gen i ddolur gwddf o hyd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn o gyllid ychwanegol yn ddiweddar ar gyfer cynllun amddiffyn yr arfordir Bae Colwyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:26 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed, Minister; that funding was very welcome for those businesses and properties in Colwyn Bay that will receive some protection, along with the vital infrastructure along the coast. However, there are many homes and businesses in my constituency that are very concerned about the ability to insure their properties in the future in an affordable way, given the imminent end of the current agreement between the ABPI and the UK Government for providing insurance at an affordable price for premium holders. I wonder what work you would be able to do individually, on a Wales-only basis, should an agreement not be reached by the UK Government and the ABPI in time to extend that period when it comes to an end in June.

Yn wir, Weinidog; roedd croeso mawr i'r arian hwnnw i'r busnesau a'r adeiladau hynny ym Mae Colwyn a fydd yn derbyn rhywfaint o amddiffyniad, ynghyd â'r seilwaith hanfodol ar hyd yr arfordir. Fodd bynnag, ceir nifer o gartrefi a busnesau yn fy etholaeth i sy'n poeni'n fawr am y gallu i yswirio eu heiddo mewn modd fforddiadwy yn y dyfodol, o ystyried y ffaith bod y cytundeb presennol rhwng yr ABPI a Llywodraeth y DU ar gyfer darparu yswiriant am bris fforddiadwy i ddeiliaid premiwm ar fin dod i ben. Tybed pa waith y byddech chi'n gallu ei wneud yn unigol, ar sail Cymru yn unig, pe na bai Llywodraeth y DU ac ABPI yn dod i gytundeb mewn pryd i ymestyn y cyfnod hwnnw pan ddaw i ben ym mis Mehefin.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you are aware, this is not necessarily a devolved subject. John Griffiths raised this matter with DEFRA Ministers on many occasions when we had UK ministerial team meetings. I have to say that DEFRA Ministers were very happy to listen, and they recognised the importance of the subject and the requirement to reach agreement on these matters as soon as possible. We will continue to raise these matters with DEFRA and with UK Ministers, and we will continue to press them to ensure that a solution is found in this matter.

Fel y gwyddoch, nid yw hwn yn bwnc datganoledig o reidrwydd. Cododd John Griffiths y mater hwn gyda Gweinidogion DEFRA ar sawl achlysur pan roeddem ni'n cynnal cyfarfodydd tîm gweinidogol y DU. Mae'n rhaid i mi ddweud bod Gweinidogion DEFRA yn hapus iawn i wrando, ac roedden nhw'n cydnabod pwysigrwydd y pwnc a'r gofyniad i ddod i gytundeb ar y materion hyn cyn gynted â phosibl. Byddwn yn parhau i godi'r materion hyn gyda DEFRA a chyda Gweinidogion y DU, a byddwn yn parhau i bwyso arnynt i sicrhau ein bod yn dod o hyd i ateb ar gyfer y mater hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:28

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

## Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Senedd.tv Fideo Video

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Credyd Cynhwysol*

*Universal Credit*

1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer elfen dai y credyd cynhwysol yn ei chael ar bobl sy'n byw yn Nhor-faen. OAQ(4)0241(HRH)

1. What assessment has the Minister made of the impact the UK Government's plans to introduce direct payments for the housing element of universal credit will have for people living in Torfaen. OAQ(4)0241(HRH)

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*12. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae'r prosiect peilot Credyd Cynhwysol yn Nhor-faen yn ei chael o safbwynt tai. OAQ(4)0228(HRH)*

*12. What assessment has the Minister made of the housing impact of the Universal Credit pilot project in Torfaen. OAQ(4)0228(HRH)*

14:28

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Senedd.tv Fideo Video

My assessment is based on the Department for Work and Pensions' own pilot project. My officials are working as part of the group that commissioned it and we are monitoring it closely. I am very concerned by the significant increase in rent arrears, and the fact that the tenants involved are considered best able to manage their finances gives even greater cause for concern.

Mae fy asesiad yn seiliedig ar brosiect arbrofol yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hun. Mae fy swyddogion yn gweithio fel rhan o'r grŵp a'i comisiynodd ac rydym yn ei fonitro'n ofalus. Rwy'n bryderus iawn am y cynnydd sylweddol i ôl-ddyledion rhent, ac mae'r ffaith yr ystyrir bod y tenantiaid dan sylw yn y sefyllfa orau i reoli eu harian yn achos mwy o bryder fyth.

14:28

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. As you say, as a result of the pilot project, we now know that direct payments will cause a massive increase in rent arrears in Wales and could lead to many tenants being made homeless. There is also the very real risk that the financial viability of housing associations across Wales will be threatened.

Diolch, Weinidog. Fel y dywedwch, rydym yn gwybod bellach, o ganlyniad i'r prosiect arbrofol, y bydd taliadau uniongyrchol yn achosi cynnydd enfawr i ôl-ddyledion rhent yng Nghymru a gallai arwain at wneud llawer o denantiaid yn ddigartref. Ceir perygl gwirioneddol hefyd y bydd hyfywedd ariannol cymdeithasau tai ledled Cymru dan fygythiad.

The Minister will have heard the First Minister's earlier response to me on the DWP's refusal to grant an exemption from direct payments to Wales, while allowing such an exemption for Northern Ireland. I am sure that none of us is blind to the challenges that we face in encouraging the UK Government to change course. However, will the Minister today commit to looking urgently at what steps he and Cabinet colleagues can take to secure such an exemption for Wales?

Bydd y Gweinidog wedi clywed ymateb cynharach y Prif Weinidog i mi ar wrthodiad yr Adran Gwaith a Phensiynau i ganiatáu eithriad o daliadau uniongyrchol i Gymru, ond yn caniatáu eithriad o'r fath i Ogledd Iwerddon. Rwy'n siŵr nad oes unrhyw un ohonom yn ddall i'r heriau sy'n ein hwynebu o ran annog Llywodraeth y DU i newid trywydd. Fodd bynnag, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo heddiw i ystyried ar frys pa gamau y gall ef a'i gydweithwyr yn y Cabinet eu cymryd i sicrhau eithriad o'r fath i Gymru?

14:29

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for raising this with me. I understand that the information has not officially been released by the DWP yet, but I am aware of the numbers that people are talking about within the project and that trial process. On receiving the figures, I will make further representations to the DWP on this issue.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am godi hyn gyda mi. Rwy'n deall nad yw'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi'n swyddogol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau eto, ond rwy'n ymwybodol o'r niferoedd y mae pobl yn eu crybwyll o fewn y prosiect a'r broses dreialu honno. Byddaf yn gwneud rhagor o sylwadau i Adran Gwaith a Phensiynau ar y mater hwn ar ôl derbyn y ffigurau.

14:30

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we understand that housing rent arrears have increased sevenfold in the universal credit pilot area, with more vulnerable families being placed into even greater housing insecurities. What account is the Welsh Government taking of the pilot project and the likely impact in Wales upon tenants, councils and housing associations if the UK coalition parties insist on rolling out universal credit across the UK?

Weinidog, rydym yn deall y bu cynnydd seithblyg i ôl-ddyledion rhent tai yn ardal treialu'r credyd cyffredinol, wrth i fwy o deuluoedd agored i niwed gael eu rhoi mewn sefyllfa o hyd yn oed mwy o ansicrwydd o ran tai. Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r prosiect arbrofol a'r effaith debygol yng Nghymru ar denantiaid, cynghorau a chymdeithasau tai os bydd partïon clymblaid y DU yn mynnu cyflwyno credyd cyffredinol ledled y DU?

14:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

This is only a small part and it is a UK Government pilot scheme. The figures that we are aware of, and understand are accurate, are that the pilot area has seen arrears increase from £20,000 to £140,000. On that basis, that the pilot scheme has shown that this clearly does not work, then it probably should be scrapped.

Dim ond rhan fach yw hyn a chynllun arbrofol Llywodraeth y DU yw hwn. Mae'r ffigurau yr ydym yn ymwybodol ohonynt, ac yn deall eu bod yn gywir, yn dangos bod ôl-ddyledion wedi cynyddu o £20,000 i £140,000 yn yr ardal dreialu. Ar y sail honno, sef bod y cynllun peilot wedi dangos yn eglur nad yw hyn yn gweithio, yna mae'n debyg y dylid ei ddiddymu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:30 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

First, I congratulate you on your new ministerial role, although I understand from the briefing that it excludes payment of housing benefit, but perhaps that will clarify itself in the future. Just as when direct payments were first introduced by the former UK Labour Government, they included exemptions that would allow payments to continue to be made to landlords. The UK Government has issued a universal credit local support service framework, compiled jointly with the Welsh Local Government Association, among others, which also lists the additional support available to claimants needing, for example, payment of housing costs directly to landlords. My understanding is that the pilot in Torfaen, which was designed to identify what works and what needs to be done differently, will lead to a number of tenants being moved back on to payments directly to landlords. How, therefore, working with colleagues, will you ensure that social landlords in Wales and local authorities, as well as tenants, are able to access payments to landlords whenever the alternative would cause problems for them and for the landlord?

Yn gyntaf, hoffwn eich llongyfarch ar eich swydd weinidogol newydd, er fy mod yn deall o'r nodiadau briffio nad yw'n cynnwys talu budd-dal tai, ond efallai y bydd hynny'n egluro ei hun yn y dyfodol. Yn union fel yr adeg y cyflwynwyd taliadau uniongyrchol am y tro cyntaf gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, cafodd eithriadau eu cynnwys a fyddai'n caniatáu i daliadau barhau i gael eu gwneud i landlordiaid. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fframwaith gwasanaeth cymorth credyd cyffredinol lleol, a luniwyd ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymhlith eraill, sydd hefyd yn rhestru'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i hawlwyr sydd angen, er enghraifft, i daliadau tai gael eu talu yn uniongyrchol i landlordiaid. Fy nealltwriaeth i yw y bydd y cynllun arbrofol yn Nhor-faen, a gynlluniwyd i nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae angen ei wneud yn wahanol, yn arwain at symud nifer o denantiaid yn ôl i daliadau uniongyrchol i landlordiaid. Sut, felly, gan weithio gyda chydweithwyr, y gwnewch chi sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ac awdurdodau lleol, yn ogystal â thenantiaid, yn gallu cael mynediad at daliadau i landlordiaid pan fyddai'r dewis arall yn achosi problemau iddyn nhw ac i'r landlord?

Senedd.tv
Fideo Video

14:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am grateful for the Member's comments at the start of his question. This is a pilot scheme that has been undertaken by the Department for Work and Pensions. The figures that I have just mentioned to you in terms of arrears increasing from £20,000 to £140,000 should raise concerns across the Chamber in relation to the fact that this does not work. Therefore, there is an awful lot more work to be done apart from just tweaking around the edges of this programme. This programme should be scrapped.

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelodau ar ddechrau ei gwestiwn. Cynllun arbrofol a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw hwn. Dylai'r ffigurau yr wyf newydd eu crybwyll i chi o ran ôl-ddyledion yn cynyddu o £20,000 i £140,000 godi pryderon ar draws y Siambr o ran y ffaith nad yw hyn yn gweithio. Felly, mae llawer iawn mwy o waith i'w wneud na dim ond newid ambell i beth yn y rhaglen hon. Dylai'r rhaglen hon gael ei diddymu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

With regard to the need for smaller properties, none of the major planning applications in Torfaen over the past two years have addressed or extended provision for properties with one or two bedrooms. When will you decide to direct registered social landlords to meet this challenge?

O ran yr angen am eiddo llai, nid oes unrhyw un o'r ceisiadau cynllunio mawr yn Nhor-faen yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi mynd i'r afael neu ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer eiddo ag un neu ddwy ystafell wely. Pryd wnewch chi benderfynu cyfeirio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ymateb i'r her hon?

Senedd.tv
Fideo Video

14:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am grateful for the Member's question this afternoon. As the Member is aware, I took over the portfolio on Friday, and I am seriously considering all options within my ministerial portfolio.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod y prynhawn yma. Fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, derbyniais gyfrifoldeb am y portffolio ddydd Gwener, ac rwy'n rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r holl opsiynau yn fy mhortffolio gweinidogol.

Senedd.tv
Fideo Video

## Cyfleusterau Amgueddfeydd

## Museum Facilities

14:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael ar gyfer datblygu cyfleusterau amgueddfeydd. OAQ(4)0231(HRH)*

*2. Will the Minister make a statement on support available for the development of museum facilities. OAQ(4)0231(HRH)*

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government provides direct support to the development of Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, most recently through the commitment of £7 million to the redevelopment at St Fagans: National History Museum. Local museums are supported through annual Welsh Government grant schemes such as Sharing Treasures, and advisory services operated by CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i ddatblygiad Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, trwy ymrwymiad o £7 miliwn i waith ailddatblygu yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn fwyaf diweddar. Cefnogir amgueddfeydd lleol trwy gynlluniau grant blynyddol Llywodraeth Cymru fel Cyfoeth Cymru Gyfan, a gwasanaethau cynghori a weithredir gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru.

14:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are ambitious plans to redevelop the Brecknock Museum, which will allow for the conservation of the Assize Court and the incorporation of the town's public library to create a state-of-the-art cultural hub that would bring benefits in access to the treasures of that museum, as well as providing a regenerational and economic boost to the tourism industry in the town. The project already has financial backing from the Heritage Lottery Fund, Powys County Borough Council and through the fundraising efforts of the local friends of the museum society. Will you, and your ministerial colleague with direct responsibilities for museums, meet with my constituents so that you can learn more about this project and see whether the Welsh Government would see fit to invest in what will turn out to be, I am sure, an eye-catching and very wonderful destination for locals and visitors to the Brecon area alike?

Ceir cynlluniau uchelgeisiol i ailddatblygu Amgueddfa Brycheiniog, a fydd yn caniatáu cadwraeth y Brawdlys a chynnwys llyfrgell gyhoeddus y dref i greu canolfan ddiwylliannol o'r radd flaenaf a fyddai'n dod â manteision o ran mynediad at drysorau'r amgueddfa honno, yn ogystal â rhoi hwb adfywiol ac economaidd i'r diwydiant twristiaeth yn y dref. Mae'r prosiect wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys a thrwy ymdrechion codi arian cymdeithas leol cyfeillion yr amgueddfa. A wnewch chi, a'ch cydweithiwr gweinidogol sydd â chyfrifoldebau uniongyrchol am amgueddfeydd, gyfarfod â'm hetholwyr fel y gallwch ddysgu mwy am y prosiect hwn a gweld a fyddai Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n syniad da buddsoddi yn yr hyn a fydd yn troi allan i fod, rwy'n sicr, yn fan trawiadol a hynod wych i bobl leol ac ymwelwyr i ardal Aberhonddu?

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is absolutely right to raise the local issue of the Brecknock Museum in this Chamber. I always welcome opportunities to discuss further with my colleagues benefits to local communities. I am sure the Minister directly responsible for museums has listened to your question very carefully and will consider your request to meet with your constituents.

Mae'r Aelod yn hollol gywir i godi mater lleol Amgueddfa Brycheiniog yn y Siambr hon. Rwyf bob amser yn croesawu cyfleoedd i drafod manteision i gymunedau lleol ymhellach gyda'm cydweithwyr. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog sy'n uniongyrchol gyfrifol am amgueddfeydd wedi gwrando ar eich cwestiwn yn ofalus iawn ac y bydd yn ystyried eich cais i gwrdd â'ch etholwyr.

14:35 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you clearly have nothing to do with this question about museums—although I see that you are leafing furiously through your file. However, you have mentioned St Fagans. I am sure that the Welsh Government will join me in welcoming the acquisition by St Fagans of the disused Raglan Victorian railway station, which, for many years, has been the Richard III of the railway world in Wales, having survived in a council car park for a long time. It will now be made the most of. How does the Minister—whichever Minister is responsible—plan to work with St Fagans to make sure that the very most is made of this fine example of a Victorian railway station?

Weinidog, mae'n amlwg nad oes gennych unrhyw beth i'w wneud â'r cwestiwn hwn am amgueddfeydd—er fy mod yn gweld eich bod yn prysur droi tudalennau eich ffeil. Fodd bynnag, rydych wedi crybwyll Sain Ffagan. Rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth Cymru yn ymuno â mi i groesawu caffaeliad Sain Ffagan o orsaf reilffordd Fictoraidd segur Rhaglan, sydd, ers blynyddoedd lawer, wedi cyfateb i Rhisiart III y byd rheilffyrdd yng Nghymru, ar ôl goroesi ym maes parcio'r cyngor ers amser maith. Gwneir y gorau ohoni bellach. Sut mae'r Gweinidog—pa bynnag Weinidog sy'n gyfrifol—yn bwriadu gweithio gyda Sain Ffagan i wneud yn siŵr y gwneir y gorau posibl o'r enghraifft wych hon o orsaf reilffordd Fictoraidd?

14:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As I mentioned earlier, the Welsh Government has provided direct support, through National Museum Wales, of £7 million for the redevelopment of St Fagans. I am sure that many Members also welcome your comments about the grand opportunities that St Fagans presents for the station.

Fel y soniais yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth uniongyrchol, trwy Amgueddfa Genedlaethol Cymru, o £7 miliwn ar gyfer ailddatblygu Sain Ffagan. Rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau hefyd yn croesawu eich sylwadau am y cyfleoedd mawreddog y mae Sain Ffagan yn eu cynnig i'r orsaf.

14:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Many towns, villages and volunteer groups are eager to encourage heritage and museum facilities in many of our local communities. It is of continuing concern to many people that our national museums, in Cardiff and St Fagans, as well as our so-called national gallery, still have an enormous number of pieces that are not shown to the public, but are sitting in warehouses on industrial estates. In fact, a very small percentage is shown at any given time. Will there be any progress in increasing the amount of pieces from the Welsh collections that are shown to the public, and would you agree that perhaps opening access through lending more of the collections would help improve museums across Wales?

Mae llawer o drefi, pentrefi a grwpiau gwirfoddol yn awyddus i annog cyfleusterau treftadaeth ac amgueddfa mewn llawer o'n cymunedau lleol. Mae'n parhau i beri pryder i lawer o bobl bod ein hamgueddfeydd cenedlaethol, yng Nghaerdydd a Sain Ffagan, yn ogystal â'r hyn a elwir yn oriel genedlaethol, yn dal i feddu ar nifer enfawr o ddarnau nad ydynt yn cael eu dangos i'r cyhoedd, ond sy'n segur mewn warysau ar ystadau diwydiannol. Mewn gwirionedd, dim ond canran fach iawn sy'n cael ei dangos ar unrhyw adeg benodol. A fydd unrhyw gynnydd o ran cynyddu nifer y darnau o gasgliadau Cymreig sy'n cael eu dangos i'r cyhoedd, ac a fyddech chi'n cytuno efallai y byddai ehangu mynediad trwy fenthyca mwy o'r casgliadau yn helpu i wella amgueddfeydd ledled Cymru?

14:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Local museums are supported in this by Welsh Government grants, through schemes such as Sharing Treasures, which exists for the very reason that the Member raises, to ensure access to the Welsh treasures that are held in the museum environment. The Member's question has been well posed, and it will be considered by the Minister appropriately.

Cefnogir amgueddfeydd lleol gan grantiau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, trwy gynlluniau fel Cyfoeth Cymru Gyfan, sy'n bodoli am yr union reswm y mae'r Aelod yn ei godi, er mwyn sicrhau mynediad at drysorau Cymru a gedwir mewn amgylchedd amgueddfa. Gofynnwyd cwestiwn yr Aelod yn dda, a bydd yn cael ei ystyried yn briodol gan y Gweinidog.

## Fframwaith Adfywio 'Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid'

## 'Vibrant and Viable Places' Regeneration Framework

14:37 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei Fframwaith Adfywio a lansiwyd yn ddiweddar, sef Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. OAQ(40233(HRH)*

*3. Will the Minister provide an update on his recently launched Vibrant and Viable Places Regeneration Framework. OAQ(40233(HRH)*

**Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio canol trefi ledled Cymru. OAQ(4)0227(HRH)*

*8. Will the Minister make a statement on town centre regeneration across Wales. OAQ(4)0227(HRH)*

**Russell George** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. OAQ(4)0239(HRH)*

*11. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's new regeneration framework 'Vibrant and Viable Places'. OAQ(4)0239(HRH)*

14:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for Delyn for her question. 'Vibrant and Viable Places' was launched on Monday 11 March, and a statement was made in the Chamber the following day. My officials are working on detailed guidance on how local partnerships can bid for targeted regeneration investment.

Diolchaf i'r Aelod dros Delyn am ei chwestiwn. Lansiwyd 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' ddydd Llun 11 Mawrth, a gwnaed datganiad yn y Siambr y diwrnod canlynol. Mae fy swyddogion yn gweithio ar ganllawiau manwl ar sut y gall partneriaethau lleol wneud cais am fuddsoddiad adfywio wedi'i dargedu.

14:37 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am absolutely delighted at the way that the Welsh Government is looking to regenerate town centres and coastal communities. You will not be surprised to hear that I consider that the towns of my constituency—Holywell, Mold and Flint—richly deserve such support. Can you clarify how bids to participate can be made, and how local stakeholders, including local authorities, can be encouraged to take advantage of this very good initiative?

Rwyf wrth fy modd â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio adfywio canol trefi a chymunedau arfordirol. Ni fyddwch yn synnu i glywed fy mod o'r farn bod y trefi yn fy etholaeth i—Treffynnon, yr Wyddgrug a'r Fflint—yn llawn haeddu cefnogaeth o'r fath. A allwch chi egluro sut y gellir gwneud ceisiadau i gymryd rhan, a sut y gellir annog rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i fanteisio ar y fenter dda iawn hon?

14:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right to champion her constituency, which she does very well. 'Vibrant and Viable Places', which my colleague, Huw Lewis, launched, has been received very positively in communities across Wales. Guidance is being created for local authorities, and it will be targeted around town centres, coastal communities, and Communities First clusters.

Mae'r Aelod yn iawn i hyrwyddo ei hetholaeth, ac mae'n gwneud hynny'n dda iawn. Mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', a lansiwyd gan fy nghydweithiwr, Huw Lewis, wedi cael croeso cadarnhaol iawn mewn cymunedau ledled Cymru. Mae canllawiau'n cael eu llunio i awdurdodau lleol, a bydd yn cael ei dargedu at ganol trefi, cymunedau arfordirol, a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

14:38 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In light of the Enterprise and Business Committee's report last year on town-centre regeneration, in which the committee made 21 recommendations, can you name one recommendation that has been implemented by your Government?

Yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi y llynedd, pryd y gwnaeth y pwyllgor 21 o argymhellion, a allwch chi enwi un argymhelliad a roddwyd ar waith gan eich Llywodraeth?

14:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government has delivered many things to make sure that we have vibrant communities. Many transport schemes operate in our communities that enhance opportunities for people to go about their business. It is a commitment of this Government to make sure that we concentrate on the regeneration of all our communities across Wales.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o bethau i wneud yn siŵr fod gennym gymunedau bywiog. Mae llawer o gynlluniau cludiant yn gweithredu yn ein cymunedau sy'n gwella cyfleoedd i bobl fyw eu bywydau beunyddiol. Mae'n un o ymrwymiadau'r Llywodraeth hon i wneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar adfywio ein holl gymunedau ledled Cymru.

14:39 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome you to your new role, Minister, although I will miss badgering you about the Newtown by-pass. I was interested in what your predecessor said last week regarding geographically targeted programmes, and the need to be joined up. Where do you see synergies emerging in relation to Powys growth zones, and how do you see towns such as Llanidloes and Newtown benefitting from this new framework approach?

Rwyf yn eich croesawu i'ch swydd newydd, Weinidog, er y byddaf hiraeth ar ôl eich holi'n dwll am ffordd osgoi'r Drenewydd. Roedd gen i ddiddordeb yn yr hyn a ddywedodd eich rhagflaenydd yr wythnos diwethaf ynghylch rhaglenni a dargedir yn ddaearyddol, a'r angen iddynt fod yn gydgysylltiedig. Ble ydych chi'n gweld synergeddau'n dod i'r amlwg o ran parthau twf Powys, a sut ydych chi'n gweld trefi fel Llanidloes a'r Drenewydd yn elwa o'r dull fframwaith newydd hwn?

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's comments, although perhaps I will not miss him badgering me on certain items, as he used to in the past. However, he raises a very interesting point. We have already had Cabinet discussions about how we can take forward 'Vibrant and Viable Communities', working across Government. In the previous position that I held, I held regular discussions with the previous Minister about taking forward Communities First involvement in town and community council and local government regeneration, and how they can be joined up. This document is very live and is an opportunity for the regeneration of our communities through partnership and strategic and sustainable development, and the guidance is being produced as we speak.

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelod, er efallai na fyddaf hiraeth ar ei ôl yn fy holi'n dwll ar eitemau penodol, fel yr oedd yn arfer ei wneud yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n codi pwynt diddorol iawn. Rydym eisoes wedi cynnal trafodaethau Cabinet ar sut y gallwn fwrw ymlaen â 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', gan weithio ar draws y Llywodraeth. Yn fy swydd flaenorol, cynhaliais drafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog blaenorol ar gynyddu cyfranogiad Cymunedau yn Gyntaf mewn gwaith adfywio cynghorau tref a chymuned a llywodraeth leol, a sut y gellir eu cydgysylltu. Mae'r ddogfen hon yn fyw iawn ac yn gyfle i adfywio ein cymunedau trwy bartneriaeth a datblygiad strategol a chynaliadwy, ac mae'r canllawiau'n cael eu cynhyrchu ar y funud hon.

14:40 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you will know, Minister, I welcomed the framework launched by your predecessor, Huw Lewis, in his statement last week. This bold approach offers radical opportunities to transform our communities, especially, in terms of my constituency, those parts that are not under the Heads of the Valleys strategy. Your predecessor was supportive of plans and ideas to regenerate the former Lady Windsor site in Ynysybwl. While I know that it is early days, will you continue to support this initiative? What further ideas would you have for taking forward the regeneration that the local community wants?

Fel y gwyddoch, Weinidog, rhoddais groeso i'r fframwaith a lansiwyd gan eich rhagflaenydd, Huw Lewis, yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf. Mae'r dull beiddgar hwn yn cynnig cyfleoedd radical i weddnewid ein cymunedau, yn enwedig, o ran fy etholaeth i, y rhannau hynny nad ydynt yn rhan o strategaeth Blaenau'r Cymoedd. Roedd eich rhagflaenydd yn cefnogi cynlluniau a syniadau i adfywio cyn-safle'r Arglwyddes Windsor yn Ynysybwl. Er fy mod yn gwybod mai dyddiau cynnar yw'r rhain, a wnewch chi barhau i gefnogi'r fenter hon? Pa syniadau eraill sydd gennych i fwrw ymlaen â'r adfywio y mae'r gymuned leol ei eisiau?

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question. She is quite right to refer to these being early days. However, the weekend has been a very interesting one, not only with the rugby result for Wales, but in my reading of planning and regeneration documents over Saturday and Sunday. This document, which was launched last week, has been warmly welcomed across communities. I offer one response from Action for Market Towns. In its commentary, it stated that

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Mae'n hollol iawn i gyfeirio at y ffaith mai dyddiau cynnar yw'r rhain. Fodd bynnag, mae'r penwythnos wedi bod yn un diddorol iawn, nid yn unig o ran y canlyniad rygbi i Gymru, ond o ran fy ngwaith o ddarllen dogfennau cynllunio ac adfywio ddydd Sadwrn a dydd Sul. Mae'r ddogfen hon, a lansiwyd yr wythnos diwethaf, wedi cael croeso cynnes ar draws cymunedau. Cynigaf un ymateb gan Gweithredu dros Drefi Marchnad. Yn ei sylwebaeth, dywedodd fod

'any reference to a £30 million per year investment as "limited funding" needs to be viewed in the context that the much heralded Portas Pilots in England were only allocated a one-off £3 million funding package'.

angen ystyried unrhyw gyfeiriad at fuddsoddiad o £30 miliwn y flwyddyn fel "ariannu cyfyngedig" yng nghyd-destun y ffaith y dyrannwyd pecyn cyllido un-tro o £3 miliwn yn unig i gynlluniau peilot Portas yn Lloegr, sydd wedi derbyn clod mawr'.

We are committed to making changes in our communities, and that will be about working across Government. You can rely on the document that was delivered last week to make some significant changes in all our communities.

Rydym wedi ymrwymo i wneud newidiadau yn ein cymunedau, a bydd hynny'n ymwneud â gweithio ar draws y Llywodraeth. Gallwch ddibynnu ar y ddogfen a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf i wneud rhai newidiadau sylweddol yn ein holl gymunedau.

14:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r ddogfen fframwaith adfywio, sydd wedi cael ei chroesawu ym mhob man, yn sôn am ddau beth yn benodol: canolbwytnio ar nifer llai o ardaloedd adfywio, a chydlynu gwahanol elfennau o'r portffolio blaenorol, sef tai a threftadaeth, ag agweddau eraill o bortffolios eraill. Beth yw eich gweledigaeth chi?

The regeneration framework document, which has been welcomed everywhere, mentions two things specifically: concentrating on a smaller number of regeneration areas, and co-ordinating different elements of the previous portfolio, namely housing and heritage, with other aspects of other portfolios. What is your vision?

14:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I support the document fully. This is about the Welsh Government's response to what has happened in our communities, and it is not only about the regeneration aspect of this, but about making sure that the economy is being driven forward. We can use this document to join up what is happening across Government, and, as I have indicated, discussions have already taken place between Ministers when the former Minister was leading on this document. That will continue while I lead on it.

Wrth gwrs, rwy'n cefnogi'r ddogfen yn llawn. Mae hyn yn ymwneud ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r hyn sydd wedi digwydd yn ein cymunedau, ac nid yw'n ymwneud â'r agwedd adfywio ar hyn yn unig, ond am wneud yn siŵr bod yr economi yn cael ei sbarduno. Gallwn ddefnyddio'r ddogfen hon i gydgysylltu'r hyn sy'n digwydd ar draws y Llywodraeth, ac, fel y dywedais, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Gweinidogion eisoes, pan roedd y cyn-Weinidog yn arwain ar y ddogfen hon. Bydd hynny'n parhau tra fy mod i'n arwain arni.

14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you have a second question, Alun Ffred Jones? I see that you do not. I call Andrew R.T. Davies.

A oes gennych chi ail gwestiwn, Alun Ffred Jones? Gwelaf nad oes gennych. Galwaf ar Andrew R.T. Davies.

14:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, while I welcome 'Vibrant and Viable Places', which your predecessor brought forward, as it contains much of what we put forward in our high street regeneration and night time strategy with regard to high street management, car parking, et cetera, I am more interested to know how you will take forward proposals to make sure that towns such as Barry in my region do not lose out under the new strategy, given the new template for regeneration that this document will bring forward, and the thinking that the Welsh Government will have in supporting towns such as Barry, which have enjoyed support previously from the Welsh Government.

Weinidog, er fy mod yn croesawu 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', a gyflwynwyd gan eich rhagflaenydd, gan ei fod yn cynnwys llawer o'r hyn i ni ei gyflwyno yn ein strategaeth adfywio'r stryd fawr a chyda'r nos o ran rheoli'r stryd fawr, parcio ceir, ac ati, mae gen i fwy o ddiddordeb mewn gwybod sut y byddwch yn bwrw ymlaen â chynigion i wneud yn siŵr nad yw trefi fel y Barri yn fy rhanbarth i yn dioddef dan y strategaeth newydd, o ystyried y templed newydd ar gyfer adfywio y bydd y ddogfen hon yn ei gyflwyno, a'r syniadau fydd gan Lywodraeth Cymru wrth gefnogi trefi fel y Barri, sydd wedi elwa ar gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru o'r blaen.

14:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise that all Members will be making a bid for their own region or constituency. This is about working in partnership with local authorities to make the right bid for their communities. Where areas were supported, such as Barry in the past, they will continue to be supported, subject to their bids. This gives the opportunity for all areas across Wales to make equal bids with regard to changing the way their community operates.

Rwy'n cydnabod y bydd pob Aelod yn gwneud cais ar ran ei ranbarth neu etholaeth ei hun. Mae hyn yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i wneud y cais cywir ar gyfer eu cymunedau. Pryd y cefnogwyd ardaloedd, fel y Barri yn y gorffennol, byddant yn parhau i gael eu cefnogi, yn amodol ar eu ceisiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i bob ardal yng Nghymru wneud ceisiadau cyfartal o ran newid y ffordd y mae eu cymunedau'n gweithredu.

14:44 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Businesses in Aberystwyth were disappointed to learn that the Welsh Government intended to bring an end to the strategic regeneration package for Aberystwyth. It has been of great benefit to Aberystwyth, and, in fact, I would guess that, at this point in time, there is more scaffolding on businesses in Aberystwyth than in any other town in Wales. Will you commit to ensuring that the effort and plans in Aberystwyth will not be lost in light of your predecessor's framework announcement last week? I would just like to draw to your attention, in making my own bid for my own area, to the fact that Aberystwyth is a coastal community.

Roedd busnesau yn Aberystwyth yn siomedig i glywed bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi terfyn ar y pecyn adfywio strategol ar gyfer Aberystwyth. Mae wedi bod o fudd mawr i Aberystwyth, ac, yn wir, byddwn yn tybio ar hyn o bryd, bod mwy o sgaffaldiau ar fusnesau yn Aberystwyth nag mewn unrhyw dref arall yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo i sicrhau na fydd yr ymdrech a'r cynlluniau yn Aberystwyth yn cael eu colli yng ngoleuni cyhoeddiad fframwaith eich rhagflaenydd yr wythnos diwethaf? Hoffwn dynnu eich sylw, gan wneud fy nghais fy hun ar ran fy ardal fy hun, at y ffaith bod Aberystwyth yn gymuned arfordirol.

14:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question, but if it had been presented in a slightly different way, it would get a very different response. Instead of a cup half empty, she may consider thinking about the cup as being half full. The agreements and commitments made with the seven regeneration areas will be met. There is no reason why any regeneration area cannot bid for future investment. It is a myth that the seven regeneration areas are being scrapped. They are part of the programme and there is still opportunity, beyond the programme, to make sure that there is potential future investment for those communities.

Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiwn, ond pe bai wedi ei gyflwyno mewn ffordd ychydig yn wahanol, byddai'n cael ymateb gwahanol iawn. Yn hytrach na chwpan sy'n hanner gwag, efallai y dylai ystyried meddwl am y gwpan fel bod yn hanner llawn. Bydd y cytundebau a'r ymrwymiadau a wnaed gyda'r saith ardal adfywio yn cael eu cyflawni. Nid oes unrhyw reswm pam na all unrhyw ardal adfywio wneud cais am fuddsoddiad yn y dyfodol. Nid yw'n wir bod y saith ardal adfywio yn cael eu diddymu. Maen nhw'n rhan o'r rhaglen, ac mae cyfle o hyd, y tu hwnt i'r rhaglen, i wneud yn siŵr bod buddsoddiad posibl i'r cymunedau hynny yn y dyfodol.

## Bil Treftadaeth

## Heritage Bill

14:45 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil treftadaeth arfaethedig. OAQ(4)0237(HRH)*

*4. Will the Minister provide an update on the proposed Heritage Bill. OAQ(4)0237(HRH)*

14:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

During the last year, Cadw has been undertaking a series of events and meetings with stakeholders to inform the development of options for inclusion in the heritage Bill.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cadw wedi bod yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau a chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid i lywio'r broses o ddatblygu opsiynau i'w cynnwys yn y Bil treftadaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response and congratulate him on his new role.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb yna a'i longyfarch ar ei swydd newydd.

Local heritage lists play a very important part in the community, reinforcing a sense of local character and historical distinctiveness. The Cow and Snuffers in my constituency in Llandaff North, where Disraeli used to stay when he was meeting his paramour from Tongwynlais, has great historical significance but is currently being refurbished into flats. It is that sort of history we want to capture. Does the Minister have any plans to review the status of the local lists system in Wales?

Mae rhestrau treftadaeth leol yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn yn y gymuned, gan atgyfnerthu ymdeimlad o gymeriad lleol a natur hanesyddol unigryw. Mae tafarn y Cow and Snuffers yn fy etholaeth i yn Ystum Taf, lle'r oedd Disraeli yn arfer aros pan roedd yn cyfarfod â'i gariad o Dongwynlais, o arwyddocâd hanesyddol pwysig, ond mae'n cael ei droi'n fflatiau ar hyn o bryd. Dyna'r math o hanes rydym am ei ddathlu. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu statws y system rhestrau lleol yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for a very interesting question. With regret, that portfolio element of heritage rests with the Minister for Culture and Sport. I am sure that he will write to you accordingly. I welcome and continue to support the Member in her continued passion for supporting heritage in her constituency.

Diolchaf i'r Aelod am gwestiwn diddorol iawn. Yn anffodus, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon sy'n gyfrifol am yr elfen bortffolio yna o dreftadaeth. Rwy'n siŵr y bydd yn ysgrifennu atoch yn unol â hynny. Rwy'n croesawu ac yn parhau i gefnogi'r Aelod yn ei hangerdd parhaus i gefnogi treftadaeth yn ei hetholaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Last week, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science said that she would look at the relationship between large heritage operators, which are publicly funded, and smaller heritage tourism operators, which are not but could have a role in local regeneration, such as the South Wales Miners' Museum in the Afan valley. Would you consider that the heritage Bill is a suitable vehicle for introducing, shall we say, public funding that is conditional on providing an associated benefit to a non-funded operator?

Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yr wythnos diwethaf y byddai'n edrych ar y berthynas rhwng gweithredwyr treftadaeth mawr, sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, a gweithredwyr twristiaeth treftadaeth llai, nad oes ganddynt swyddogaeth mewn adfywio lleol, ond y gallai fod swyddogaeth iddynt, fel Amgueddfa Glowyr De Cymru yng Nghwm Afan. A fyddech chi'n ystyried bod y Bil treftadaeth yn gyfrwng addas ar gyfer cyflwyno arian cyhoeddus sy'n amodol, gadewch i ni ddweud, ar ddarparu budd cysylltiedig i weithredwr nad yw'n cael ei ariannu?

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The heritage Bill's strategy and supporting activity frameworks are three pillars that define the strategic focus of the Government's approach to the historic environment. If there is anything in terms of that in relation to regeneration, I will work very closely with my colleagues in taking that forward.

Mae strategaeth a fframweithiau gweithgarwch ategol y Bil treftadaeth yn dri philer sy'n diffinio canolbwynt strategol dull y Llywodraeth o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol. Os oes unrhyw beth yn hynny yn ymwneud ag adfywio, byddaf yn gweithio'n agos iawn gyda fy nghydweithwyr i fwrw ymlaen â hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Possible apprenticeships in traditional craft skills are mentioned in the document. What assurances can be given that these will feature in the newly agreed agreement with Plaid Cymru to increase the number of applications in those traditional crafts over the next three years?

Caiff prentisiaethau posibl mewn sgiliau crefft draddodiadol eu crybwyll yn y ddogfen. Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cytundeb newydd â Phlaid Cymru i gynyddu nifer y ceisiadau yn y crefftau traddodiadol hynny dros y tair blynedd nesaf?

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Discussions are under way, I believe.

Mae trafodaethau wedi cychwyn, rwy'n credu.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 5, OAQ(4)0234(HRH), has been withdrawn.

Mae Cwestiwn 5, OAQ (4) 0234 (HRH), wedi ei dynnu'n ôl.

### Adfywio Môn a Menai

### Môn a Menai Regeneration

14:48 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cynllun adfywio Môn a Menai. OAQ(4)0232(HRH)*

*6. Will the Minister make a statement on the future of the Môn a Menai regeneration scheme. OAQ(4)0232(HRH)*

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Ynys Môn for his question. Môn a Menai has successfully funded a range of projects since 2008 and we are fully committed to fulfilling our obligations that are scheduled to end in March 2014.

Diolchaf i'r Aelod dros Ynys Môn am ei gwestiwn. Mae Môn a Menai wedi ariannu amrywiaeth o brosiectau yn llwyddiannus ers 2008 ac rydym yn gwbl ymroddedig i fodloni ein rhwymedigaethau y disgwylir iddynt ddod i ben ym mis Mawrth 2014.

14:48 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, and may I also welcome you to your new responsibilities.

Diolch i chi, Weinidog, ac a gaf i eich croesawu i'ch cyfrifoldebau newydd hefyd.

Minister, I am sure that you will recall that your predecessor rather proudly announced funding for what he then described as six very exciting schemes, totalling £0.25 million, in the Môn and Menai strategic regeneration area on 15 February this year. The aims of those programmes were to improve infrastructure, build on key heritage and natural assets, develop sustainable communities and promote innovation and skills. However, less than a month later, he announced that the scheme is ending in 2014. The First Minister sought to reassure me today that things would get better under the new arrangements, but is that not a bit of an uphill task when one balances the certainty of a budget against the uncertainty of the bidding process?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cofio eich rhagflaenydd yn cyhoeddi, gyda chryn falchder, cyllid ar gyfer yr hyn a ddisgrifiwyd ganddo wedyn fel chwe chynllun cyffrous iawn, gwrth cyfanswm o £0,25 miliwn, yn ardal adfywio strategol Môn a Menai ar 15 Chwefror eleni. Amcanion y rhaglenni hynny oedd gwella seilwaith, adeiladu ar asedau treftadaeth a naturiol allweddol, datblygu cymunedau cynaliadwy a hyrwyddo arloesedd a sgiliau. Fodd bynnag, llai na mis yn ddiweddarach, cyhoeddodd bod y cynllun yn dod i ben yn 2014. Ceisiodd y Prif Weinidog fy sicrhau heddiw y byddai pethau'n gwella dan y trefniadau newydd, ond onid yw honno'n dasg sydd braidd yn anodd pan fydd rhywun yn cydbwyso sicrwydd cyllideb yn erbyn ansicrwydd y broses ymgeisio?

14:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not agree with the Member's thought process. He was aware, as were others, of the programme's timescales. If we were just to commit to the programme's timescale and finish in 2014, without presenting anything else, then the Member would have a real opportunity to criticise. The fact of the matter is that we have now produced a document that not only gives regeneration areas but the whole of Wales an opportunity to take part in a bidding process for regeneration.

Nid wyf yn cytuno â ffordd yr Aelod o feddwl. Roedd yn ymwybodol, fel roedd pobl eraill, o amserlenni'r rhaglen. Pe bawn yn ymrwymo i amserlen y rhaglen ac yn gorffen yn 2014, heb gyflwyno unrhyw beth arall, yna byddai gan yr Aelod gyfle go iawn i feirniadu. Y ffaith amdani yw ein bod bellach wedi llunio dogfen sydd nid yn unig yn rhoi cyfle i ardaloedd adfywio gymryd rhan mewn proses ymgeisio ar gyfer adfywiad, ond i Gymru gyfan.

I am grateful for the Member's comments as regards recognising the great work that the Môn a Menai board has delivered in terms of making real changes to the community that he represents.

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelod o ran cydnabod y gwaith gwych y mae bwrdd Môn a Menai wedi ei gyflawni o ran gwneud newidiadau gwirioneddol i'r gymuned y mae'n ei chynrychioli.

14:50 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, Môn a Menai is a geographically targeted programme. The Minister will be aware that last week's statement on the Welsh Government's new regeneration framework noted that geographically targeted programmes will be joined up. These programmes include Communities First, enterprise zones and—I fully endorse this—those that recognise the importance of housing and heritage as drivers and enablers of regeneration. Given the continuing separation in the new Cabinet between responsibility for communities, tackling poverty, economic development and your key role, Minister, with regard to housing and regeneration, how will you ensure that the levers at your disposal will be pushing the solutions that can help people out of deprivation into positive lives?

Mae Môn a Menai yn amlwg yn rhaglen sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod datganiad yr wythnos diwethaf ar fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd rhaglenni sydd wedi'u targedu'n ddaearyddol yn cael eu cydgysylltu. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, parthau menter ac—rwy'n cefnogi hyn yn llwyr—y rhai sy'n cydnabod pwysigrwydd tai a threftadaeth fel gyrwyr a galluogwyr adfywio. O ystyried y gwahaniad parhaus yn y Cabinet newydd rhwng cyfrifoldeb am gymunedau, mynd i'r afael â thlodi, datblygu economaidd a'ch swyddogaeth allweddol chi, Weinidog, o ran tai ac adfywio, sut y gwnewch chi sicrhau y bydd y dulliau sydd ar gael i chi yn gwthio'r atebion a all helpu pobl allan o amddifadedd i fywydau cadarnhaol?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cross-Cabinet working is not something that is new with this document; we have practised it in the past, and will continue to do so in future.

Nid yw gweithio traws-Gabinet yn rhywbeth sy'n newydd o ran y ddogfen hon; rydym wedi ei wneud yn y gorffennol, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

## Pobl sy'n Prynu Tŷ am y Tro Cyntaf

## First-Time Home Buyers

14:51 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu ty am y tro cyntaf yng Nghymru. OAQ(4)0229(HRH)*

*7. Will the Minister provide an update on increasing the number of first time home buyers in Wales. OAQ(4)0229(HRH)*

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are committed to supporting increasing the number of first-time buyers through various schemes including homebuy, intermediate rent, and Rent First, as one our newest schemes.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cynyddu nifer y prynwyr tro cyntaf trwy gynlluniau amrywiol, gan gynnwys cymorth prynu, rhent canolradd, a Rhent Gyntaf, fel un o'n cynlluniau diweddaraf.

14:51 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for your response, Minister. I join those congratulating you on our new portfolio.

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Ymunaf â'r rhai sy'n eich llongyfarch ar eich portffolio newydd.

One of the biggest problems that first-time buyers in Wales face is the ability to gather a large enough deposit; deposits to be able to purchase a house are far larger than they were five or 10 years ago. What action is the Government taking to try to address this problem?

Un o'r problemau mwyaf y mae prynwyr tro cyntaf yng Nghymru yn ei wynebu yw'r gallu i gasglu blaendal digon mawr; mae blaendaliadau i allu prynu tŷ yn llawer mwy nag yr oeddent bum neu 10 mlynedd yn ôl. Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The NewBuy Cymru scheme will tackle this crucial problem currently faced by many people looking for the large upfront deposits required by lenders. The NewBuy Cymru scheme will assist up to 3,000 potential buyers to get onto the property ladder, or to move up it.

Bydd cynllun NewBuy Cymru yn mynd i'r afael â'r broblem hollbwysig hon a wynebir gan lawer o bobl sy'n chwilio am y blaendaliadau mawr y mae benthycwyr yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd. Bydd cynllun NewBuy Cymru yn cynorthwyo hyd at 3,000 o ddarpar brynwyr i ymuno â'r ysgol dai, neu ei dringo.

14:52 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, welcome you to your new role, Minister.

Rwyf innau hefyd yn eich croesawu i'ch swydd newydd, Weinidog.

We welcome news that the number of first-time buyers has risen to its highest point since 2007. However, we also know that more must, and can, be done. There is a vast difference between local authorities across Wales in how they apply proactive mechanisms to bring empty properties back into use. We know that good-quality property is a commodity that could make a difference.

Rydym yn croesawu newyddion bod nifer y prynwyr tro cyntaf wedi codi i'w bwynt uchaf ers 2007. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod yn rhaid, ac y gellir, gwneud mwy. Ceir gwahaniaeth mawr rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru o ran sut y maent yn defnyddio dulliau rhagweithiol i ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Rydym yn gwybod bod eiddo o ansawdd da yn elfen a allai wneud gwahaniaeth.

Conwy County Borough Council returned 182 empty houses into use, out of a total of 1,506, yet Rhondda Cynon Taf County Borough Council has returned only 16 out of nearly 3,000 properties. Minister, will you consider bringing forward a fresh approach and a more proactive initiative by setting some individual targets for those local authorities that are currently making little or no effort in bringing this good-quality housing stock back into use, to allow the thousands of people across Wales who are desperately awaiting their chance to buy, or even rent, their own affordable homes?

Ailddechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddefnyddio 182 o dai gwag, o gyfanswm o 1,506, ac eto dim ond 16 o bron i 3,000 o dai y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ailddechrau eu defnyddio. Weinidog, a wnewch chi ystyried cyflwyno dull newydd a menter fwy rhagweithiol trwy osod rhai targedau unigol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n gwneud dim neu fawr ddim ymdrech ar hyn o bryd i ailddechrau defnyddio'r stoc tai o ansawdd da hwn, er mwyn caniatáu i'r miloedd o bobl ledled Cymru sy'n disgwyl yn eiddgar am eu cyfle i brynu, neu hyd yn oed i rentu eu cartrefi fforddiadwy eu hunain, allu gwneud hynny?

14:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her kind words at the start of the question. However, despite my change of portfolio, the Member continues to play the same old tune and still considers the glass to be half empty. I can tell the Member that we are making great progress on the empty homes scheme. The Welsh Government should be proud of working with partners on the delivery of that scheme. The real question that the Member should consider is what she is going to do with her Government when it is putting people out of homes completely.

Diolch i'r Aelod am ei geiriau caredig ar ddechrau'r cwestiwn. Fodd bynnag, er gwaethaf y newid i'm portffolio, mae'r Aelod yn parhau i ganu'r un hen gân ac yn dal i ystyried bod y gwydr yn hanner gwag. Gallaf hysbysu'r Aelod ein bod yn gwneud cynnydd gwych o ran y cynllun cartrefi gwag. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn falch o weithio gyda phartneriaid ar ddarparu'r cynllun hwnnw. Y gwir gwestiwn y dylai'r Aelod ei ystyried yw beth y mae'n bwriadu ei wneud gyda'i Llywodraeth hi pan fod honno'n troi pobl allan o gartrefi yn gyfan gwbl.

14:53 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gan ddilyn cwestiwn Janet Finch-Saunders, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cydnabod bod tai gwag yn broblem, ac eto eu bod cynnig potensial o ran eu haddasu ar gyfer rhoi tai i bobl sy'n chwilio am y cyfle i brynu tŷ am y tro cyntaf, neu'r rhai sy'n chwilio am gyfle i symud i fyny'r ysgol dai. Pa asesiad ydych yn ei wneud, o sir i sir, o nifer y tai gwag sydd ar gael pan edrychwch ar y caniatâd a roddir ar gyfer datblygiadau mawr o dai newydd yn y siroedd hynny?

Following on from Janet Finch-Saunders's question, I am sure that the Minister acknowledges that empty homes are a problem, but that they also offer a potential for adaptation for people who are seeking an opportunity to become first-time buyers, or those who are looking for an opportunity to move up the property ladder. What assessment are you doing, from county to county, of the number of vacant homes available when you look at the consents given for major housing developments in those counties?

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises a very important question with regard to making the best use of properties that are already available. I am very happy to meet with him to discuss any concepts or ideas that he may have in relation to empty homes schemes. As I said earlier, the empty homes scheme that we have in Wales is running extremely well, but we can always do better, of course.

Mae'r Aelod yn codi cwestiwn pwysig iawn o ran gwneud y defnydd gorau o eiddo sydd ar gael eisoes. Rwy'n hapus iawn i gyfarfod ag ef i drafod unrhyw gysyniadau neu syniadau sydd ganddo o ran cynlluniau cartrefi gwag. Fel y dywedais yn gynharach, mae'r cynllun cartrefi gwag sydd gennym yng Nghymru yn rhedeg yn hynod o dda, ond gallwn bob amser wneud yn well, wrth gwrs.

14:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the Minister to his new responsibilities.

Rwy'n croesawu'r Gweinidog i'w gyfrifoldebau newydd.

Minister, on 5 March, the First Minister said that we would have a launch date for the NewBuy Cymru scheme—the mortgage guarantee scheme—within seven to 10 days. That was 14 days ago. Given that this scheme was first announced by the Minister for Finance in May last year, and that 10 months have elapsed since that announcement, when do you now propose to launch the scheme?

Weinidog, ar 5 Mawrth, dywedodd y Prif Weinidog y byddai gennym ddyddiad lansio ar gyfer cynllun NewBuy Cymru—y cynllun gwarantu morgeisi—o fewn saith i 10 diwrnod. Roedd hynny 14 diwrnod yn ôl. O ystyried y cyhoeddwyd y cynllun hwn gyntaf gan y Gweinidog Cyllid fis Mai y llynedd, a bod 10 mis wedi mynd heibio ers y cyhoeddiad hwnnw, pryd ydych chi'n cynnig lansio'r cynllun bellach?

14:55

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tomorrow. [Laughter.]

Yfory. [Chwerthin.]

14:55

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I am pleased to see that the change of responsibilities has led to a concrete answer, at long last, as to when this scheme is going to be announced. Given that you are launching it tomorrow, how many building companies and lenders are involved in the scheme, as part of the launch, and when do you envisage the first applications coming in?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Rwy'n falch o weld bod y newid cyfrifoldebau wedi arwain at ateb pendant, o'r diwedd, o ran pryd y bydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi. Gan eich bod yn ei lansio yfory, faint o gwmnïau adeiladu a benthycwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun, yn rhan o'r lansiad, a phryd ydych chi'n rhagweld y bydd y ceisiadau cyntaf yn cael eu derbyn?

14:55

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question. My reply was probably a little too general, and I should have given him a little bit more information and be more specific. Tomorrow, I will launch the date of when the programme will officially launch which, I believe, is the first question that the Member asked me in this exchange. We have building societies ready to deliver this programme and I am sure that the Member will eagerly await my statement tomorrow.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Mae'n debyg bod fy ateb braidd yn rhy gyffredinol, ac y dylwn i fod wedi rhoi ychydig mwy o wybodaeth iddo a bod yn fwy penodol. Yfory, byddaf yn lansio'r dyddiad pan fydd y rhaglen yn cael ei lansio'n swyddogol a dyna, rwy'n credu, oedd cwestiwn cyntaf a ofynnodd yr Aelod i mi yn ystod y sgwrs hon. Mae gennym gymdeithasau adeiladu sy'n barod i ddarparu'r rhaglen hon ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn aros yn eiddgar am fy natganiad yfory.

14:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 8 was grouped with questions 3 and 11, so we will move to question 9, which is from Jenny Rathbone.

Grwpiwyd cwestiwn 8 gyda chwestiynau 3 ac 11, felly symudwn at gwestiwn 9, sydd gan Jenny Rathbone.

### Tai Rhent Preifat

### Private Rented Housing

14:56

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd tai rhent preifat er mwyn rhoi gwell gwerth am arian. OAQ(4)0235(HRH)*

*9. What is the Welsh Government doing to improve the quality of private rented housing to provide better value for money. OAQ(4)0235(HRH)*

14:56

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am finalising plans for mandatory registration and licensing schemes for all landlords and agents operating in the private rented sector. The conditions for licensing will include adherence to a code of practice to ensure that all properties are being maintained to a good standard.

Rwy'n cwblhau trefniadau ar gyfer cynlluniau cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer yr holl landlordiaid ac asiantau sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat. Bydd yr amodau ar gyfer trwyddedu yn cynnwys cydymffurfio â chod ymarfer er mwyn sicrhau bod pob eiddo yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda.

14:56 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the Minister's announcement that he is continuing with the licensing scheme started by his predecessor. One of my constituents has had a leaking roof for nine months and despite paying £700 per month, nothing has been done. The landlords are now being taken to court by the environmental health people, and I am delighted to read that another bad landlord was fined nearly £2,000 for similar neglect. As the bedroom tax is going to drive many more people into the private rented sector, is there anything else that the Welsh Government can do to provide a better deal for privately renting tenants? For example, under what circumstances might you consider rent controls if rents spiral as a result of the chaos of the bedroom tax and the increase in the numbers forced into the private rented sector?

Rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ei fod yn parhau â'r cynllun trwyddedu a ddechreuwyd gan ei ragflaenydd yn fawr iawn. Mae gan un o'm hetholwyr do sy'n gollwng ers naw mis, ac er ei fod yn talu £700 y mis, ni wnaed unrhyw beth ynglŷn â'r mater. Mae pobl iechyd yr amgylchedd yn mynd â'r landlordiaid i'r llys bellach, ac rwy'n falch iawn o ddarllen bod landlord gwael arall wedi cael dirwy o bron i £2,000 am esgeulustod tebyg. Gan fod y dreth ystafell wely yn mynd i yrru llawer mwy o bobl i mewn i'r sector rhentu preifat, a oes unrhyw beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynnig bargen well i denantiaid sy'n rhentu'n breifat? Er enghraifft, dan ba amgylchiadau fyddech chi'n ystyried mesurau rheoli rhent os bydd rhenti'n cynyddu o ganlyniad i anhrefn y dreth ystafell wely a'r cynnydd yn y niferoedd a orfodir i mewn i'r sector rhentu preifat?

14:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Member raises issues that many Members across the Chamber will be familiar with. That is why we are introducing these licensing and mandatory registration schemes for landlords and agents in the private rented sector. This will be taken through in the housing Bill, and I have noted the Member's comments in terms of making sure that this works effectively. I will continue to work to make sure that the housing Bill is fit for purpose for the future.

Mae'r Aelod yn codi materion y bydd llawer o Aelodau ar draws y Siambr yn gyfarwydd â nhw. Dyna pam rydym yn cyflwyno'r cynlluniau cofrestru a thrwyddedu gorfodol hyn ar gyfer landlordiaid ac asiantau yn y sector rhentu preifat. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno drwy'r Bil tai, ac rwyf wedi nodi sylwadau'r Aelod o ran gwneud yn siŵr bod hyn yn gweithio'n effeithiol. Byddaf yn parhau i weithio i wneud yn siŵr bod y Bil tai yn addas i'w ddiben ar gyfer y dyfodol.

14:58 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In 2011, the Communities and Culture Committee report on making the most of the private rented sector in Wales recommended unanimously that the Welsh Government actively seeks to promote a positive public image of the private rented sector as a tenure of choice in Wales, safeguarded through social lettings agencies and landlord accreditation. Do you share the positive response that the then Welsh Government gave to that recommendation?

Yn 2011, argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar wneud y defnydd gorau o'r sector rhentu preifat yng Nghymru yn unfrydol, y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n ymarferol i geisio hyrwyddo delwedd gyhoeddus gadarnhaol o'r sector rhentu preifat fel deiliadaeth o ddewis yng Nghymru, wedi ei ddiogelu trwy asiantaethau gosod cymdeithasol ac achredu landlordiaid. A ydych chi'n rhannu'r ymateb cadarnhaol a roddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd i'r argymhelliad hwnnw?

14:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As I have said, we recognise that there are some fantastic landlords within our communities who treat their tenants very well. However, there are also rogue landlords. We must therefore put legislation in place to protect the most vulnerable in our communities from those landlords who charge extreme prices for category-1 shambolic accommodation. That is not acceptable, and we will produce legislation to protect those people.

Fel rwyf wedi dweud, rydym yn cydnabod bod rhai landlordiaid gwych yn ein cymunedau sy'n trin eu tenantiaid yn dda iawn. Fodd bynnag, ceir landlordiaid diegwyddor hefyd. Rhaid i ni roi deddfwriaeth ar waith felly i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau rhag y landlordiaid hynny sy'n codi prisiau eithafol am lety categori-1 gwarthus. Nid yw hynny'n dderbyniol, a byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn y bobl hynny.

14:59

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The problem is that the enforcement that exists in law has not been applied. The danger is that additional legal measures will not be enforced either. It is two years since private landlord representatives told me that the supply of properties would only adjust if we did something then, and that that would require true partnership with the public sector; it is a year since they told me that the Welsh Government must work with them to do something quickly, or face even more homelessness; and only two weeks since they told me that they are keen to explore with the Welsh Government and local authorities ways in which they can help deliver more quality housing at affordable rents that meet social need. Therefore, how do you respond to the concern that they also expressed to me two weeks ago that the Welsh Government is increasing enforcement and regulation rather than starting the engagement and true partnership working needed to deliver change and the outcomes that we all need?

Y broblem yw nad yw'r camau gorfodi sy'n bodoli yn y gyfraith wedi eu dilyn. Y perygl yw na fydd mesurau cyfreithiol ychwanegol yn cael ei gorfodi chwaith. Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i gynrychiolwyr landlordiaid preifat ddweud wrthyf y byddai'r cyflenwad o dai yn addasu dim ond pe baem yn gwneud rhywbeth bryd hynny, ac y byddai hynny'n gofyn am bartneriaeth wirioneddol gyda'r sector cyhoeddus; mae blwyddyn wedi mynd heibio ers iddynt ddweud wrthyf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda nhw i wneud rhywbeth yn gyflym, neu wynebu mwy o ddigartrefedd fyth; a dim ond pythefnos sydd ers iddynt ddweud wrthyf eu bod yn awyddus i archwilio ffyrdd y gallant helpu i ddarparu mwy o dai o ansawdd da am renti fforddiadwy sy'n diwallu angen cymdeithasol, gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Felly, sut ydych chi'n ymateb i'r pryder a fynegwyd ganddynt i mi bythefnos yn ôl hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynyddu mesurau gorfodi a rheoleiddio yn hytrach na dechrau'r ymgysylltiad a'r gwaith partneriaeth gwirioneddol sydd eu hangen i sicrhau newid a'r canlyniadau y mae pob ohonom eu hangen?

15:00

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am grateful for the Member's questions, but I will not be having too many more discussions about this. We will be introducing legislation to protect the most vulnerable people in our communities. I want to work with the private sector in delivering that. There are some good models out there, but it is too late for talking; it is time for action and the delivery of this.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiynau'r Aelod, ond ni fyddaf yn cael llawer mwy o drafodaethau am hyn. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rwy'n dymuno gweithio gyda'r sector preifat i gyflawni hynny. Mae rhai modelau da ar gael, ond mae'n rhy hwyr i siarad; mae'n amser gweithredu a chyflwyno hyn.

15:00

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I, too, congratulate the Minister on his new portfolio.

Rwyf innau hefyd yn llongyfarch y Gweinidog ar ei bortffolio newydd.

One way in which we can drive up the quality of the private-rented sector is through the Green Deal announced by the UK Government, which, as you know, provides loans and grants to home owners, including landlords of rented properties, to improve the energy efficiency of homes, improve the quality and help to tackle fuel poverty. What plans does you department have to increase the uptake of the Green Deal in the private-rented sector in Wales?

Un ffordd y gallwn wella ansawdd y sector rhentu preifat yw drwy'r Fargen Werdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, sydd, fel y gwyddoch, yn darparu benthyciadau a grantiau i berchnogion cartrefi, gan gynnwys landlordiaid eiddo rhent, i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, i wella'r ansawdd ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Pa gynlluniau sydd gan eich adran i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y Fargen Werdd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru?

15:00

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will be having several meetings with private sector landlords and social housing bodies to make sure that we can get the best value for our investment across the Welsh Government, in terms of creating decent homes for decent communities. This is what we need to do to ensure that we work collectively across the Cabinet to get the best value for money.

Byddaf yn cael sawl cyfarfod gyda landlordiaid sector preifat a chyrff tai cymdeithasol i wneud yn siŵr y gallwn gael y gwerth gorau am ein buddsoddiad ar draws Llywodraeth Cymru, o ran creu cartrefi gweddus i gymunedau gweddus. Dyma y mae angen i ni ei wneud i sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd ar draws y Cabinet i gael y gwerth gorau am arian.

### Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

### Regeneration Investment Fund for Wales

15:01

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am adolygiadau Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. OAQ(4)0240(HRH)*

*10. Will the Minister update the Assembly on the reviews of the Regeneration Investment Fund for Wales. OAQ(4)0240(HRH)*

15:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Further to the written statement of 7 February, I am pleased to report that work on both of the reviews is under way.

Yn dilyn y datganiad ysgrifenedig ar 7 Chwefror, rwy'n falch o hysbysu bod y gwaith ar y ddau adolygiad wedi cychwyn.

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb a llongyfarchiadau i chi ar eich penodiad.

Thank you for your response and congratulations on your appointment.

A oes unrhyw amserlen gennych chi ynghylch pryd fydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau? Ar hyn o bryd, faint o geisiadau sy'n ddibynnol ar gyflawni'r adolygiad?

Do you have any timetable as to when the review will be completed? At present, how many bids are dependent upon completing this review?

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I understand that the completion of this review will be within the next few weeks. I have not had sight of the number of activities that are on pause currently.

Rwy'n deall y bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf. Nid wyf wedi cael golwg ar nifer y gweithgareddau sydd ar saib ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, what discussions has your department had with your European counterparts in relation to this fund and, in particular, have you had a request to return the European contributions to this fund, given that it has failed to do what it was set up to do? Will you comment on whether the Neath Port Talbot project funding through RIFW can go ahead if the European funding contribution is returned?

Weinidog, pa drafodaethau mae eich adran wedi'u cynnal â'ch cymheiriaid Ewropeaidd ar y gronfa hon ac, yn benodol, a ydych chi wedi derbyn cais i ddychwelyd y cyfraniadau Ewropeaidd i'r gronfa hon, o ystyried ei bod wedi methu â gwneud yr hyn y'i sefydlwyd i'w wneud? A wnewch chi gynnig sylwadau ar ba un a all y cyllid i brosiect Castell-nedd Port Talbot trwy Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio fynd yn ei flaen os dychwelir y cyfraniad o gyllid Ewropeaidd?

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I have had no conversations with my European colleagues on that matter.

Nid wyf wedi cael unrhyw sgyrsiau gyda fy nghydweithwyr Ewropeaidd ar y mater hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

15:02

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to make to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect Members to committee immediately after this business statement. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w wneud i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelodau i'r pwyllgor yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

15:03 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I congratulate the Minister on her appointment. The question I wish to ask is one that I and other Members have asked on many occasions in the past 13 years. I asked the Minister for transport to bring forward a statement on the M4 relief road around Newport. The Minister may be aware of the fatality last week. We have waited so long for this announcement as to what will happen. I notice the previous Minister indicating, and I hope that the new Minister will be able to announce something positive soon.

Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar ei phenodiad. Mae'r cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yn un rwyf i ac Aelodau eraill wedi ei ofyn ar sawl achlysur yn ystod y 13 mlynedd diwethaf. Gofynnais i'r Gweinidog trafnidiaeth gyflwyno datganiad ar ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd. Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r farwolaeth yr wythnos diwethaf. Rydym wedi aros cyhyd am y cyhoeddiad hwn ar yr hyn a fydd yn digwydd. Rwy'n sylwi bod y Gweinidog blaenorol yn amneidio, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog newydd yn gallu cyhoeddi rhywbeth cadarnhaol yn fuan.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your kind words, William. Any loss of life is a tragedy. I am aware that options are being considered in regard to the M4, and I am sure that the Minister for Economy, Science and Transport will make a statement in due course.

Diolch i chi am eich geiriau caredig, William. Mae unrhyw golled o fywyd yn drasiedi. Rwy'n ymwybodol bod opsiynau'n cael eu hystyried o ran yr M4, ac rwy'n siŵr y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad maes o law.

15:03 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Today marks the tenth anniversary of the Iraq invasion. With 179 UK troops killed in operation in Iraq, and countless other troops seriously injured, a very high price was paid for standing shoulder to shoulder with George W. Bush and embarking on an illegal war. We should never forget the devastation the invasion brought upon the Iraq population, with anything between 110,000 and 1 million people killed following the invasion, depending on which estimate you use.

Mae'n ddeng mlynedd heddiw ers yr ymosodiad ar Irac. Gan fod 179 o filwyr y DU wedi eu lladd wrth ymladd yn Irac, a bod milwyr eraill di-ri wedi eu hanafu'n ddifrifol, talwyd pris uchel iawn am sefyll ysgwydd yn ysgwydd gyda George W. Bush a dechrau rhyfel anghyfreithlon. Ni ddylem fyth anghofio'r dinistr a achoswyd i boblogaeth Irac gan yr ymosodiad, wrth i unrhyw ffigwr rhwng 110,000 a 1 miliwn o bobl gael eu lladd yn dilyn yr ymosodiad, gan ddibynnu ar ba amcangyfrif rydych chi'n ei ddefnyddio.

The impact of this war is still being felt, four years after the UK army's mission in Iraq officially ended. Given that Wales is responsible for treating Welsh veterans who have been injured mentally or physically in the aftermath of the Iraq war, it has had a big impact on public services. With that in mind, Minister, will you allow time for a debate on the impact of the war that has taken place, and will continue to take place, on Welsh public life?

Mae effaith y rhyfel hwn yn dal i gael ei deimlo, bedair blynedd ar ôl i genhadaeth byddin y DU yn Irac ddod i ben yn swyddogol. O ystyried bod Cymru yn gyfrifol am drin cyn-filwyr o Gymru sydd wedi cael eu hanafu'n feddyliol neu'n gorfforol yn dilyn rhyfel Irac, mae wedi cael cryn effaith ar wasanaethau cyhoeddus. O gofio hynny, Weinidog, a wnewch chi ganiatáu amser ar gyfer trafodaeth ar effaith y rhyfel sydd wedi digwydd, ac a fydd yn parhau i ddigwydd, ar fywyd cyhoeddus Cymru?

15:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our responsibility to veterans in relation to public services is a priority for the Welsh Government, but I do not think that it would be a good use of Assembly time to have a statement or a debate in relation to the Iraq war, which clearly is not a devolved issue.

Mae ein cyfrifoldeb i gyn-filwyr o ran gwasanaethau cyhoeddus yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond nid wyf yn meddwl y byddai'n ddefnydd da o amser y Cynulliad i gael datganiad neu drafodaeth ar ryfel Irac, y mae'n amlwg nad yw'n fater datganoledig.

15:05 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to congratulate the Minister very much on her new appointment. I would welcome a Government debate on the impact of last week's reshuffle with regard to the potential for delivering on our commitments to the environment and to sustainable economic development. There has been quite widespread concern expressed about the stripping away from the environment and natural resources portfolio of key areas. Indeed, they were flagged up, to some extent, in the questions to the Minister earlier. Areas that are critical, such as planning and, indeed, sustainable development, fall into other Ministers' portfolios. While other aspects of the new portfolio clearly are of benefit and are well-received, particularly among the farming community, having pulled together those aspects, there is very significant concern in terms of this, particularly as we are so close to the vesting date of natural resources Wales. I ask the Minister to consider allocating Government time so that these matters can be bottomed out and more fully understood.

Hoffwn longyfarch y Gweinidog yn fawr iawn ar ei phenodiad newydd. Byddwn yn croesawu trafodaeth Lywodraethol ar effaith yr ad-drefnu yr wythnos diwethaf o ran y potensial ar gyfer cyflawni ein hymrwymiadau i'r amgylchedd ac i ddatblygiad economaidd cynaliadwy. Mynegwyd pryder yn eithaf eang ynghylch y ffaith bod meysydd allweddol wedi eu tynnu oddi ar bortffolio'r amgylchedd ac adnoddau naturiol. Yn wir, tynnwyd sylw atynt, i ryw raddau, yn y cwestiynau i'r Gweinidog yn gynharach. Mae meysydd sy'n hollbwysig, fel cynllunio ac, yn wir, datblygu cynaliadwy, yn rhan o bortffolios Gweinidogion eraill. Er bod agweddau eraill ar y portffolio newydd yn amlwg o fudd ac yn cael derbyniad da, yn enwedig ymhlith y gymuned ffermio, ar ôl tynnu'r agweddau hynny at ei gilydd, ceir pryder sylweddol iawn o ran hyn, yn enwedig gan ein bod mor agos at ddyddiad breinio cyfoeth naturiol Cymru. Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried neilltuo amser y Llywodraeth fel y gellir rhoi ystyriaeth drylwyr i'r materion hyn a'u deall yn well.

15:06 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will have heard the First Minister say in his answers to questions that, clearly, the reshuffle will not have a major impact on our policies. Obviously, the Welsh Government is still very keen to deliver on all of our commitments and I know that the new Minister for Natural Resources and Food will certainly deliver on the key areas in his portfolio.

Byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud yn ei atebion i gwestiynau na fydd yr ad-drefnu, yn amlwg, yn cael effaith fawr ar ein polisïau. Yn amlwg, mae Llywodraeth Cymru yn dal yn awyddus iawn i fodloni pob un o'n hymrwymiadau ac rwy'n gwybod y bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd newydd yn sicr yn cyflawni ar y meysydd allweddol yn ei bortffolio.

15:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Congratulations, Minister, on your appointment as leader of the house. I ask for a statement in relation to Welsh Government support for route development out of Cardiff Airport. I appreciate that the purchase of the airport is a separate issue, but with the loss of the link between Cardiff and Zurich, we learned that £0.5 million of Welsh Government money had been put into that route to promote and develop it. I would be most grateful, as would people who depend on the airport, to understand exactly how the Welsh Government takes forward its support for the aviation industry, particularly with regard to the establishment of new routes, such as a route to North America.

Llongyfarchiadau, Weinidog, ar gael eich penodi'n arweinydd y tŷ. Gofynnaf am ddatganiad ar gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith datblygu llwybrau hedfan allan o Faes Awyr Caerdydd. Rwy’n gwerthfawrogi bod prynu’r maes awyr yn fater ar wahân, ond wrth golli’r cysylltiad rhwng Caerdydd a Zurich, darganfuom fod £0.5 miliwn o arian Llywodraeth Cymru wedi cael ei fuddsoddi yn y llwybr hwnnw i’w hyrwyddo a’i ddatblygu. Byddwn yn ddiolchgar iawn, fel y byddai pobl sy’n dibynnu ar y maes awyr, i ddeall yn union sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â’i chefnogaeth i'r diwydiant awyrennau, yn enwedig o ran sefydlu llwybrau newydd, fel llwybr i Ogledd America.

On a lighter note, with the Presiding Officer’s indulgence, I would like to inform the Chamber that the Assembly beat the House of Commons on Saturday with a score of 20-7. It was an excellent result, and it is always good to get one over on the House of Commons.

Ar nodyn ysgafnach, gyda goddefgarwch y Llywydd, hoffwn hysbysu’r Siambr bod y Cynulliad wedi curo Tŷ’r Cyffredin 20-7 ddydd Sadwrn. Roedd yn ganlyniad ardderchog, ac mae bob amser yn bleser maeddu Tŷ’r Cyffredin.

15:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Congratulations to the Assembly on beating Parliament in that match.

Llongyfarchiadau i'r Cynulliad ar guro’r Senedd yn y gêm honno.

I recognise the important point that you made and I will have a discussion with the Minister for Economy, Science and Transport on that issue. I am sure that she will write to you in due course.

Rwy'n cydnabod y pwynt pwysig a wnaethoch, a byddaf yn cynnal trafodaeth gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y mater hwnnw. Rwy’n siŵr y bydd yn ysgrifennu atoch maes o law.

15:08 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, welcome to your new post. I ask you for an urgent statement from the Government, even a written statement today, regarding the retrospective legislation going through Parliament today—where we can beat Parliament today, perhaps—which seeks to overturn the legal judgments on the payment of jobseeker’s allowance and the non-payment for work undertaken by those claiming jobseeker’s allowance. This is worth about £8 million to jobseekers in Wales, who would get this money retrospectively unless Parliament passes legislation quickly today to overturn that legal requirement and therefore to make it legal to work for no pay.

Weinidog, croeso i’ch swydd newydd. Gofynnaf i chi am ddatganiad brys gan y Llywodraeth, datganiad ysgrifenedig heddiw hyd yn oed, ar y ddeddfwriaeth ôl-weithredol sy’n mynd drwy'r Senedd heddiw—lle y gallwn guro’r Senedd heddiw, efallai—sy'n ceisio gwrthdroi’r dyfarniadau cyfreithiol ar dalu lwfans ceisio gwaith a'r methiant i dalu am waith a wnaed gan y rhai sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith. Mae hyn werth tua £8 miliwn i geiswyr gwaith yng Nghymru, a fyddai'n cael yr arian hwn yn ôl-weithredol oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo deddfwriaeth yn gyflym heddiw i ddiddymu'r gofyniad cyfreithiol hwnnw ac felly ei gwneud yn gyfreithlon i weithio yn ddi-dâl.

We hear reports that this will happen today because Labour MPs will abstain and will not oppose this retrospective measure. Setting aside the principles of the Bill itself, retrospective legislation is not good legislation, and legislating to overturn courts' judgments is not the way that a proper democracy goes about things. Can you inform us how the Labour MPs will move today and can you inform us what the Welsh Government is doing to protect jobseekers in Wales who will be affected by this legislation, if it goes through?

Rydym yn clywed adroddiadau y bydd hyn yn digwydd heddiw gan y bydd Aelodau Seneddol Llafur yn ymatal ac na fyddant yn gwrthwynebu'r mesur ôl-weithredol hwn. Ar wahân i egwyddorion y Bil ei hun, nid yw deddfwriaeth ôl-weithredol yn ddeddfwriaeth dda, ac nid deddfu i wrthdroi dyfarniadau llysoedd yw'r ffordd y mae democratiaeth go iawn yn gwneud pethau. A allwch chi ddweud wrthym sut y bydd yr ASau Llafur yn ymddwyn heddiw ac a allwch chi roi gwybod i ni beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i ddiogelu ceiswyr gwaith yng Nghymru a fydd yn cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth hon, os yw'n cael ei chymeradwyo?

15:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not here to answer for Labour Members of Parliament, but, in relation to the issue that you have raised, Huw Lewis, within his portfolio, is looking at this issue—and I see that the Minister is nodding. He has heard your questions and I am sure that he will write to you in due course.

Nid wyf yma i ateb ar ran Aelodau Seneddol Llafur, ond, o ran y mater rydych chi wedi ei godi, mae Huw Lewis, yn unol â'i bortffolio, yn ystyried y mater hwn—a gwelaf fod y Gweinidog yn amneidio. Mae wedi clywed eich cwestiynau ac rwy'n siŵr y bydd yn ysgrifennu atoch maes o law.

15:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Congratulations to the new leader of the house. I ask for a statement as well. Following the reshuffle, the Active Travel (Wales) Bill has moved from the transport portfolio to the sport and culture portfolio. While I am sure that the substance of the Bill will not change, I note that the Minister previously in charge of this was very keen to point out that this was about transport and moving people on normal journeys to work, rather than about leisure cycling and leisure walking in Wales. Can we have a statement to clarify whether there has been a change in policy direction following the move of this Bill to the sport portfolio?

Llongyfarchiadau i arweinydd newydd y tŷ. Gofynnaf innau am ddatganiad hefyd. Yn dilyn yr ad-drefnu, mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) wedi symud o'r portffolio trafnidiaeth i'r portffolio chwaraeon a diwylliant. Er fy mod i'n siŵr na fydd sylwedd y Bil yn newid, nodaf fod y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am hyn cynt yn awyddus iawn i nodi bod hyn yn ymwneud â thrafnidiaeth a symud pobl ar deithiau arferol i'r gwaith, yn hytrach na beicio hamdden a cherdded hamdden yng Nghymru. A allwn ni gael datganiad i egluro pa un a fu newid i gyfeiriad y polisi ar ôl symud y Bil hwn i'r portffolio chwaraeon?

15:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There has been no change in policy at all. John Griffiths will now be taking this Bill through the Assembly.

Ni fu unrhyw newid i'r polisi o gwbl. John Griffiths fydd yn mynd â'r Bil hwn drwy'r Cynulliad bellach.

15:10 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, welcome you to your new role as leader of the house and Minister for Local Government, and I look forward to many differences of opinion taking place on local government across the Chamber. [Laughter.]

Rwyf innau hefyd yn eich croesawu i'ch swydd newydd fel arweinydd y tŷ a'r Gweinidog Llywodraeth Leol, ac edrychaf ymlaen at lawer o achosion o anghytuno ar lywodraeth leol ar draws y Siambr. [Chwerthin.]

Minister, on a very serious note, you will no doubt be aware of the recent conviction of Mr Chris O'Neill on two counts of fraud as a result of a grant to the tune of £125,000 from this Welsh Government and distributed by Conwy County Borough Council. Minister, these funds were intended to provide vital accommodation and support for some of our brave ex-service personnel, whom we so often refer to in this Chamber. I have here a very damning internal report from Conwy County Borough Council's audit committee, which reports many significant errors in due process as to the distribution of the grant to this particular individual. Minister, will you make a statement and explain the criteria implemented by the Welsh Government when distributing funds such as this to local authorities, including the processes that you have in place to monitor the effectiveness and application of these grant funding bids? I will be referring the matter to the Public Accounts Committee, chaired by Darren Millar, because this issue has caused much unhappiness, anger and disappointment, and people are now starting to ask many questions.

Weinidog, ar nodyn difrifol iawn, mae'n sicr y byddwch yn ymwybodol i Mr Chris O'Neill ei gael yn euog o ddau gyhuddiad o dwyll o ganlyniad i grant o £125,000 gan y Llywodraeth Cymru hon ac a ddosbarthwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Weinidog, diben yr arian hwnnw oedd darparu llety a chefnogaeth hanfodol i rai o'n cyn-filwyr dewr, yr ydym yn cyfeirio atynt mor aml yn y Siambr hon. Mae gen i adroddiad mewnol damniol iawn yma gan bwyllgor archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n nodi llawer o wallau sylweddol yn y drefn briodol wrth ddosbarthu'r grant i'r unigolyn penodol hwn. Weinidog, a wnewch chi wneud datganiad ac esbonio'r meini prawf a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru wrth ddosbarthu arian fel hwn i awdurdodau lleol, gan gynnwys y prosesau rydych wedi eu sefydlu i fonitro effeithiolrwydd a gweithrediad y ceisiadau hyn am arian grant? Byddaf yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gadeirir gan Darren Millar, gan fod y mater hwn wedi achosi llawer o anhapusrwydd, dicter a siom, ac mae pobl yn dechrau gofyn llawer o gwestiynau erbyn hyn.

15:12

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your kind words. I am aware of the case as a north Wales Assembly Member. My understanding is that this is a matter for Conwy County Borough Council, but I will look into the processes and, if there is anything further to add, I will write to the Member.

Diolch yn fawr iawn am eich geiriau caredig. Rwy'n ymwybodol o'r achos fel Aelod o'r Cynulliad dros ogledd Cymru. Fy nealltwriaeth i yw mai mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw hwn, ond mi wnaf ymchwilio i'r prosesau ac, os oes unrhyw beth pellach i'w ychwanegu, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

15:12

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I also wish you good luck in your new role. Can we have a debate on plans for city regions in Wales? You may be aware that Sir Terry Matthews has called for south-east Wales to promote itself to the world as 'Cardiff, the brand'. This would entail Newport becoming a region of Cardiff. Can we have a debate on how to progress economic planning on a regional basis without threatening the identity of the city of Newport?

Weinidog, rwyf innau hefyd yn dymuno pob lwc i chi yn eich swydd newydd. A allwn ni gael trafodaeth ar y cynlluniau ar gyfer dinas-ranbarthau yng Nghymru? Efallai eich bod yn ymwybodol bod Syr Terry Matthews wedi galw ar dde-ddwyrain Cymru i hyrwyddo ei hun i'r byd fel 'Caerdydd, y brand'. Byddai hyn yn golygu y byddai Casnewydd yn rhanbarth o Gaerdydd. A allwn ni gael trafodaeth ar sut i fwrw ymlaen â chynllunio economaidd ar sail ranbarthol heb fygwth hunaniaeth dinas Casnewydd?

15:13

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I read Sir Terry Matthews's comments, which reminded me of a joke I was told a little while ago, namely that with Newport and Cardiff coming so close together, it should be called 'Carport', but I doubt that the Minister for Economy, Science and Transport would share that view. You raise an issue that I know the Minister is looking at, and I am sure that she will make a statement in due course.

Darllenais sylwadau Syr Terry Matthews, a oedd yn fy atgoffa o jôc a ddywedwyd wrthyf ychydig amser yn ôl, sef bod Casnewydd a Chaerdydd yn dod mor agos at ei gilydd, y dylid ei alw'n 'Carport', ond rwy'n amau a fyddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhannu'r farn honno. Rydych yn codi mater yr wyf yn gwybod bod y Gweinidog yn ei ystyried, ac rwy'n siŵr y bydd yn gwneud datganiad maes o law.

15:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The new agenda caught me out and I am afraid that I cut short questions to the Minister for Housing and Regeneration by a quarter of an hour. If the Minister is comfortable—I think that is the word—with this, we will go back to ask the questions that remained on his paper. Are Members agreed on that? I see that you are. It is unusual, but I accept that it was my fault today.

Diolch i chi, Weinidog. Mae'r agenda newydd wedi fy nrysu i ac mae arnaf ofn fy mod wedi byrhau cyfnod cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio o chwarter awr. Os yw'r Gweinidog yn gyfforddus—rwy'n credu mai dyna'r gair—gyda hyn, awn yn ôl i ofyn y cwestiynau a oedd ar ôl ar ei bapur. A yw'r Aelodau'n cytuno â hynny? Gwelaf eich bod. Mae'n anghyffredin, ond rwy'n derbyn mai fy mai i oedd hyn heddiw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio—Parhad

## Questions to the Minister for Housing and Regeneration—Continued

### Ymwelwyr â Safleoedd Treftadaeth yng Nghymru

### Visitors to Wales's Heritage Sites

15:14

**Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â safleoedd treftadaeth yng Nghymru. OAQ(4)0230(HRH)*

*13. What action will the Welsh Government take during 2013 to increase the number of visitors to Wales' heritage sites. OAQ(4)0230(HRH)*

15:14

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. At least 5.5 million people a year visit heritage sites in Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae o leiaf 5.5 miliwn o bobl y flwyddyn yn ymweld â safleoedd treftadaeth yng Nghymru.

15:14

**Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, and congratulations on your new role. The recent Communities, Equality and Local Government Committee report found that there is tremendous potential for a more joined-up approach to promoting our heritage sites to visitors. What action does the Minister intend to take to encourage greater co-operation between Cadw, the National Trust and local authorities to ensure that we improve the marketing and promotion of our historic sites in Wales?

Diolch i chi, Weinidog, a llongyfarchiadau ar eich swydd newydd. Canfu adroddiad diweddar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol bod potensial aruthrol ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o hyrwyddo ein safleoedd treftadaeth i ymwelwyr. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i annog mwy o gydweithredu rhwng Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn gwella marchnata a hyrwyddo ein safleoedd hanesyddol yng Nghymru?

15:15

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises a very important issue. Working across Government is extremely important. This matter rests with the Minister for Culture and Sport, but we will ensure, across Government, that local authorities, heritage and regeneration work very closely together.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig iawn. Mae gweithio ar draws y Llywodraeth yn hynod o bwysig. Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon sy'n gyfrifol am y mater hwn, ond byddwn yn sicrhau, ar draws y Llywodraeth, bod awdurdodau lleol, a meysydd treftadaeth ac adfywio yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd.

### Pedwerydd Cynulliad

### The Fourth Assembly

15:15

**Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bobl gartrefi o safon uchel sy'n gynnes, yn ddiogel ac yn defnyddio ynni'n effeithiol, ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0236(HRH)*

*14. Will the Minister make a statement on the success of the Welsh Government's commitment to ensuring that people have high quality, warm secure and energy efficient homes since the start of the 4th Assembly, as outlined in the Programme for Government. OAQ(4)0236(HRH)*

15:15

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Housing programmes are focused on this outcome, with 42% of social housing meeting the Welsh housing quality standard by 31 March 2012. Two local authorities and 17 housing associations report that they have achieved this standard.

Mae rhaglenni tai yn canolbwyntio ar y canlyniad hwn, ac roedd 42% o dai cymdeithasol yn cyflawni safon ansawdd tai Cymru erbyn 31 Mawrth 2012. Mae dau awdurdod lleol a 17 o gymdeithasau tai yn dweud eu bod wedi cyflawni'r safon hon.

15:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. One of the key drivers of quality in the housing stock is building regulations and their implementation. I appreciate that you are new to your portfolio, Minister, but I would suggest that this is a critical area for your consideration. How will you be taking forward enforcement of building regulations so that they are appropriate to the setting and that, above all, they drive up standards in the housing stock without discriminating against builders' ability to start new builds here in Wales?

Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Un o'r ffactorau allweddol i sicrhau ansawdd yn y stoc dai yw rheoliadau adeiladu a'u gweithrediad. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn newydd i'ch portffolio, Weinidog, ond byddwn yn awgrymu bod hwn yn faes hollbwysig i chi ei ystyried. Sut y byddwch chi'n bwrw ymlaen â gorfodi rheoliadau adeiladu fel eu bod yn briodol i'r lleoliad, ac yn anad dim, eu bod yn gwella safonau yn y stoc dai heb wahaniaethu yn erbyn gallu adeiladwyr i ddechrau adeiladu adeiladau newydd yma yng Nghymru?

15:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises an important issue. We do not want to place barriers in the way of development and opportunity for developing businesses in Wales. I will be reviewing business regulations internally, to consider whether there are new opportunities in working with the private sector to ensure that we have a collective view on taking the best way forward.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig. Nid ydym yn dymuno gosod rhwystrau i atal datblygiad a chyfleoedd ar gyfer datblygu busnesau yng Nghymru. Byddaf yn adolygu rheoliadau busnes yn fewnol, er mwyn ystyried a oes cyfleoedd newydd wrth weithio gyda'r sector preifat i sicrhau ein bod o'r un farn ar ddewis y ffordd orau ymlaen.

### Cadwraeth Henebion Hanesyddol

### Ancient Historic Monuments

15:17 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadwraeth henebion hanesyddol a hynafol yn Sir Drefaldwyn. OAQ(4)0238(HRH)*

*15. Will the Minister make a statement on the conservation of ancient historic monuments in Montgomeryshire. OAQ(4)0238(HRH)*

15:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, with its partners, is working to conserve and promote public appreciation of ancient and historic monuments throughout Wales, including in Montgomeryshire.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, yn gweithio i warchod a hyrwyddo gwerthfawrogiad y cyhoedd o henebion hynafol a hanesyddol ledled Cymru, gan gynnwys yn Sir Drefaldwyn.

15:17 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to hear that, Minister. There is real concern that the industrialisation of Montgomeryshire by way of onshore windfarms is going to have a detrimental impact on ancient historic sites. What recent discussions has the Government had with Cadw on this issue?

Rwy'n falch o glywed hynny, Weinidog. Ceir pryder gwirioneddol y bydd diwydiannu Sir Drefaldwyn trwy gyfrwng ffermydd gwynt ar y tir yn cael effaith andwyol ar safleoedd hanesyddol hynafol. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Llywodraeth wedi'u cynnal gyda Cadw ar y mater hwn?

15:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There have been many discussions on many issues by this Welsh Government with the UK Government. Up to now, I have had no discussions in this role with the UK Government.

Bu llawer o drafodaethau ar lawer o faterion rhwng y Llywodraeth Cymru hon a Llywodraeth y DU. Hyd yn hyn, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau yn y swydd hon gyda Llywodraeth y DU.

15:17

## Pwynt o Drefn

## Point of Order

Senedd.tv [Fideo] [Video]

### Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

I understand that it is difficult when transitioning to new ministerial responsibilities, but we have had to sit through 90 minutes of very unsatisfactory question time, during which Ministers have been unable to answer questions on portfolios that are new to them, while the Ministers formerly responsible have sat in silence and not answered those questions. I find that unsatisfactory, because it means that we have not been able to fulfil our role in scrutinising those Ministers and I would ask that the Business Committee, the Minister responsible for business and you review this experience, so that the next time that we change portfolios, we will not have to go through this again.

Rwy'n deall ei bod yn anodd wrth newid i gyfrifoldebau gweinidogol newydd, ond rydym ni wedi gorfod eistedd trwy 90 munud o amser cwestiynau anfoddhaol iawn, lle nad yw Gweinidogion wedi gallu ateb cwestiynau ar bortffolios sy'n newydd iddynt, tra bod y Gweinidogion a oedd yn gyfrifol amdanynt gynt wedi eistedd yn dawel gan beidio ag ateb y cwestiynau hynny. Rwy'n credu bod hynny'n anfoddhaol, gan ei fod yn golygu nad ydym wedi gallu cyflawni ein swyddogaeth o graffu ar y Gweinidogion hynny a byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes, y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes a chithau adolygu'r profiad hwn, fel na fydd yn rhaid i ni fynd drwy hyn eto y tro nesaf y byddwn yn newid portffolios.

15:18

### Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Some of the answers were better. [Laughter.]

Roedd rhai o'r atebion yn well. [Chwerthin.]

15:18

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

There is obviously a digression in opinion there. Thank you for raising the matter, but when Members tabled their questions, they would have expected to receive a substantive answer from the responsible Minister, as usual. However, I recognise that Ministers are responsible for their own replies and that Ministers have taken a pragmatic approach in answering these oral questions following the changes.

Mae'n amlwg bod anghytuno ar y mater yna. Diolch i chi am godi'r mater, ond pan gyflwynodd yr Aelodau eu cwestiynau, byddent wedi disgwyl derbyn ateb sylweddol gan y Gweinidog cyfrifol, yn ôl yr arfer. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod Gweinidogion yn gyfrifol am eu hatebion eu hunain a bod Gweinidogion wedi mynd ati mewn ffordd bragmatig i ateb y cwestiynau llafar hyn yn dilyn y newidiadau.

## Cynnig i Ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes

## Motion to Elect a Member to the Business Committee

Cynnig NNDM5196 Rosemary Butler

Motion NNDM5196 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lesley Griffiths (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jane Hutt (Llafur Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Lesley Griffiths (Welsh Labour) as a member of the Business Committee in place of Jane Hutt (Welsh Labour).

15:19

### William Graham [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:19

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013

## The Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013

Cynnig NDM5191 Jane Hutt

Motion NDM5191 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 yn cael ei gwneud yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Chwefror 2013.

Approves that the draft The Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 26 February 2013.

15:19

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I want to start by paying tribute to the work of John Griffiths, the previous Minister, and officials in the department for the work that has been done over the last few years to ensure that we have reached the stage that we are at today, where we are able to mark the final procedural stage and the culmination of a great deal of hard work in order to make the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order. It creates a powerful single environmental body, which I am convinced will play a major role in leading Wales to a more sustainable and progressive future. It is the integration of function and form. It is another impressive step in devolution. It means that we are able to bring together the different functions that we require in order to deliver our policy objectives and our visions for the future of Wales.

Hoffwn ddechrau drwy dalu teyrnged i waith John Griffiths, y Gweinidog blaenorol, a swyddogion yn yr adran am y gwaith sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau ein bod wedi cyrraedd y man lle'r ydym heddiw, lle gallwn nodi'r cam gweithdrefnol terfynol a phenllanw llawer iawn o waith caled i wneud Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau). Mae'n creu un corff amgylcheddol pwerus, ac rwyf yn argyhoeddedig y bydd yn chwarae rhan bwysig wrth arwain Cymru at ddyfodol mwy cynaliadwy a blaengar. Mae'n integreiddio ffurf a swyddogaethau. Mae'n gam da arall i ddatganoli. Mae'n golygu y gallwn ddwyn ynghyd y gwahanol swyddogaethau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein hamcanion polisi a'n gweledigaethau ar gyfer dyfodol Cymru.

This Order today builds on the earlier establishment Order, which was passed by the National Assembly in July last year. It will provide natural resources Wales with the functions necessary to become fully operational. This Order will enable decisions that affect our environment and economy to be taken in Wales by a body that is accountable to Welsh Ministers and this National Assembly. It will provide a one-stop shop for advice and regulatory decisions. It will improve planning and development processes. It will help provide the early clarity and certainty for decision makers that business and the public need and require.

Mae'r Gorchymyn hwn heddiw yn adeiladu ar y Gorchymyn sefydlu cynharach, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf y llynedd. Bydd yn rhoi'r swyddogaethau sydd eu hangen ar gyfoeth naturiol Cymru i ddod yn gwbl weithredol. Bydd y Gorchymyn hwn yn golygu y gall penderfyniadau sy'n effeithio ar ein hamgylchedd a'n heconomi yng Nghymru gael eu gwneud gan gorff sy'n atebol i Weinidogion Cymru ac i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn. Bydd yn siop un stop ar gyfer cynghori a phenderfyniadau rheoleiddio. Bydd yn gwella prosesau cynllunio a datblygu. Bydd yn helpu i roi'r eglurder a'r sicrwydd cynnar i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sydd eu hangen ar fusnesau a'r cyhoedd.

These proposals have widespread support from stakeholders and staff of the bodies themselves. I am also pleased to be able to confirm this afternoon that the necessary consents for the Order, the transfer scheme and the service agreements have now been obtained from the United Kingdom Government. This Order itself is a wide-ranging and complex piece of work. It transfers to the NRW each element of the current powers and responsibilities of the three predecessor bodies. I am, therefore, grateful for the extended scrutiny that the Order has gone through, and I particularly wish to thank the committees of this place for the work that they have undertaken, but also the many stakeholders who have taken the time to debate and discuss these matters. I believe that this process has led to a high-quality product. This new body will help us deliver a vision that we all want to see for Wales in the future. I commend it to you.

Mae cefnogaeth eang i'r cynigion hyn ymhlith rhanddeiliaid a staff y cyrff eu hunain. Rwyf hefyd yn falch o allu cadarnhau y prynhawn yma ein bod bellach wedi cael y cydsyniadau sydd eu hangen i'r Gorchymyn, y cynllun trosglwyddo a'r cytundebau gwasanaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Gorchymyn ei hun yn ddarn eang a chymhleth o waith. Mae'n trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru holl elfennau grymoedd a chyfrifoldebau presennol y tri chorff sy'n ei ragflaenu. Rwyf yn ddiolchgar, felly, am y craffu estynedig a fu ar y Gorchymyn, a hoffwn ddiolch yn arbennig i bwyllgorau'r lle hwn am y gwaith y maent wedi ei wneud, ond hefyd i'r rhanddeiliaid lu sydd wedi rhoi o'u hamser i ddadlau a thrafod y materion hyn. Credaf fod y broses hon wedi arwain at gynnyrch o ansawdd uchel. Bydd y corff newydd hwn yn ein helpu i gyflawni gweledigaeth yr ydym i gyd am ei gweld i Gymru yn y dyfodol. Fe'i cymeradwyaf i chi.

15:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

15:22 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will start by saying that the draft Order was subjected to the enhanced affirmative procedure, so, while considered for a longer period than is routine, we in fact discussed the draft Order on three separate occasions. We took evidence from the then Minister for Environment and Sustainable Development.

Dechreuaf drwy ddweud bod y Gorchymyn drafft yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol fanylach, ac felly, er iddo gael ei ystyried am gyfnod hirach nag sy'n arferol, trafodwyd y Gorchymyn drafft mewn gwirionedd ar dri achlysur gwahanol. Cawsom dystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd.

In our report on the draft Order, we drew the Assembly's attention to the following four points. First, we welcomed the Minister's intention to address the points raised by a number of environmental organisations regarding the wording of the nature conservation duty in the draft Order. Secondly, we welcomed the Minister's clarification that the draft Order would be amended to ensure that the Environment Agency will remain subject to the requirement to prepare a Welsh language scheme and that Welsh language standards will apply in future. Thirdly, we considered that, while a Bill would have been preferable as the legislative vehicle to deliver the Welsh Government's policy objectives, the use of an Order was a reasonable alternative on this occasion. Fourthly, we noted the Minister's view that it was not practicable for the drafting of an Order, setting out the functions of the new environmental body, to follow the Counsel General's preferred approach to drafting new legislation, namely that it should be drafted in a way that simplifies the statute book by consolidating Welsh legislation and separating it from legislation that also applies to England.

Yn ein hadroddiad ar y Gorchymyn drafft, tynnwyd sylw'r Cynulliad at y pedwar pwynt canlynol. Yn gyntaf, roeddem yn croesawu bwriad y Gweinidog i roi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan nifer o sefydliadau amgylcheddol ynghylch geiriad y ddyletswydd cadwraeth natur yn y Gorchymyn drafft. Yn ail, roeddem yn croesawu eglurhad y Gweinidog y byddai'r Gorchymyn drafft yn cael ei ddiwygio i sicrhau y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gofyniad i baratoi cynllun iaith Gymraeg ac y bydd safonau'r iaith Gymraeg yn berthnasol yn y dyfodol. Yn drydydd, roeddem o'r farn, er mai Bil fyddai'r cyfrwng deddfwriaethol gorau i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, fod defnyddio Gorchymyn yn ddewis amgen rhesymol ar yr achlysur hwn. Yn bedwerydd, nodasom farn y Gweinidog nad oedd yn ymarferol, wrth ddrafftio Gorchymyn i nodi swyddogaethau'r corff amgylcheddol newydd, arfer hoff ddull y Cwnsler Cyffredinol o ddrafftio deddfwriaeth newydd, sef ei ddrafftio mewn ffordd sy'n symleiddio'r llyfr statud drwy gyfnerthu deddfwriaeth Cymru a'i gwahanu oddi wrth ddeddfwriaeth sydd hefyd yn berthnasol i Loegr.

Having considered the reports of Assembly committees and others, the Minister revised the draft and laid it before the Assembly on 26 February; that is the instrument that we are considering today. We considered this revised Order on 11 March and have reported to the Assembly. Our report before you includes the Minister's letter of 13 March, responding to the issues that we raised and that I have just outlined. We were content with the Order, but draw the following issues to the attention of the Assembly. First, we had to note that the consent of the Secretary of State and relevant Ministers, required under section 17 of the Public Bodies Act 2011, had not been obtained at that time. I am grateful to hear from the Minister that that consent has now been forthcoming. We identify further technical reporting points, but note that it would be reasonable for them to be corrected on publication; they are not of a major nature. We note that no regulatory impact assessment accompanies the draft Order, but that paragraph 6 of the explanatory memorandum provides the reasons for this.

Ar ôl ystyried adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad ac eraill, diwygiodd y Gweinidog y drafft ac fe'i gosododd gerbron y Cynulliad ar 26 Chwefror; dyna'r offeryn yr ydym yn ei ystyried heddiw. Ystyriasom y Gorchymyn diwygiedig hwn ar 11 Mawrth ac rydym wedi adrodd i'r Cynulliad. Mae ein hadroddiad sydd ger eich bron yn cynnwys llythyr y Gweinidog dyddiedig 13 Mawrth, sy'n ymateb i'r materion a godwyd gennym, ac yr wyf newydd eu hamlinellu. Roeddem yn fodlon â'r Gorchymyn, ond hoffem dynnu sylw'r Cynulliad at y materion canlynol. Yn gyntaf, roedd yn rhaid inni nodi nad oedd cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion perthnasol, sy'n ofynnol dan adran 17 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011, wedi ei gael ar y pryd. Rwyf yn falch o glywed gan y Gweinidog fod y cydsyniad hwnnw wedi'i dderbyn erbyn hyn. Rydym yn nodi pwyntiau adrodd technegol pellach, ond yn nodi y byddai'n rhesymol eu cywiro wrth gyhoeddi; nid ydynt yn rhai sylweddol. Rydym yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Gorchymyn drafft, ond bod paragraff 6 y memorandwm esboniadol yn cynnig y rhesymau dros hyn.

15:25 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The process may be your inheritance, Minister, but it is disappointing that we only have 15 minutes for discussion on this Order today. Clearly, that is not enough time for proper scrutiny of the Order. While there has been scrutiny in committee, a number of last-minute concerns need to be discussed. That cannot be done properly in the time that we have. We have, again, been forced into a position by the Government in which we find that we cannot approve the second Order that is before us today. The way in which the Government has handled the entire process of creating the new body has not been satisfactory, and it is certainly not a model that should be adopted again to create a new public body, let alone one responsible for the management of our precious natural resources. There should have been a Bill, and we hold that position.

Efallai mai wedi etifeddu'r broses hon yr ydych, Weinidog, ond mae'n siom mai dim ond 15 munud sydd gennym i drafod y Gorchymyn hwn heddiw. Yn amlwg, nid yw hynny'n ddigon o amser i graffu'n briodol ar y Gorchymyn. Er y bu craffu yn y pwyllgor, mae angen trafod nifer o bryderon munud olaf. Ni ellir gwneud hynny'n iawn yn yr amser sydd gennym. Rydym unwaith eto wedi ein gorfodi i sefyllfa gan y Llywodraeth lle gwelwn na allwn gymeradwyo'r ail Orchymyn sydd ger ein bron heddiw. Nid yw'r Llywodraeth wedi trin holl broses creu'r corff newydd mewn ffordd foddhaol, ac yn sicr nid yw'n fodel y dylid ei fabwysiadu eto i greu corff cyhoeddus newydd, heb sôn am un sy'n gyfrifol am reoli ein hadnoddau naturiol gwerthfawr. Dylai Bil fod wedi'i gyflwyno, ac rydym yn dal i fod o'r farn honno.

In relation to this piece of legislation, the way that the consultation process was contrived as an addendum to the initial natural resources Wales Order was a mistake. It should have been completely separate and subject to the usual 12-week period. The Government did not provide the information and detail that such a significant subject matter deserves. We have already heard some of the concerns from the Constitutional and Legislative Affairs Committee today, and I hope that my colleague Suzy Davies will be able to address some further points on that area.

Mewn perthynas â'r darn hwn o ddeddfwriaeth, roedd y ffordd y trefnwyd bod y broses ymgynghori'n atodiad i'r Gorchymyn adnoddau naturiol Cymru cyntaf yn gamgymeriad. Dylai fod wedi bod yn gwbl ar wahân ac yn amodol ar y cyfnod 12 wythnos arferol. Ni ddarparodd y Llywodraeth y wybodaeth a'r manylion y mae pwnc mor bwysig yn eu haeddu. Rydym eisoes wedi clywed rhai o bryderon y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol heddiw, a gobeithiaf y bydd fy nghyd-Aelod Suzy Davies yn gallu ymdrin â rhai pwyntiau pellach yn hynny o beth.

On external stakeholder concerns, while progress has been made to allay some of the concerns that came from the consultation, there are still concerns around the statutory process, its transparency and accountability arrangements in terms of the separation of functions, particularly from inception. In relation to internal concerns, I have received a number of concerns from staff within the Forestry Commission in relation to the sizeable IT overspend, the shortfall in the new body's pension fund and the lack of communication with staff of the affected bodies about the future of their positions and whether there will be major redundancies.

O ran pryderon rhanddeiliaid allanol, er y cymerwyd camau i leddfu rhai o'r pryderon a oedd yn deillio o'r ymgynghoriad, mae pryderon o hyd ynghylch y broses statudol, ei thryloywder a threfniadau atebolrwydd o ran gwahanu swyddogaethau, yn enwedig o'r cychwyn cyntaf. O ran pryderon mewnol, mae nifer o bryderon wedi dod i law oddi wrth staff o fewn y Comisiwn Coedwigaeth am y gorwario sylweddol ar TG, y diffyg yng nghronfa bensiwn y corff newydd a'r diffyg cyfathrebu â staff y cyrff yr effeithir arnynt am ddyfodol eu swyddi ac a fydd diswyddiadau niferus ai peidio.

The position that we are in is that this new body will come into force on 1 April. We have always agreed with the principle of ensuring that, strategically, Wales is in a position to ensure that our environmental resources are put to the best and most sustainable use, and that we have a functioning organisation to achieve that. However, we are not convinced that it is ready to take up the significant roles and responsibilities that this Government has entrusted to it from day one, and we will be voting against the Order today.

Y sefyllfa yr ydym ynddi yw y bydd y corff newydd hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill. Rydym bob amser wedi cytuno â'r egwyddor o sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa strategol i sicrhau bod ein hadnoddau amgylcheddol yn cael eu defnyddio yn y modd gorau a mwyaf cynaliadwy, a bod gennym sefydliad gweithredol i gyflawni hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig ei fod yn barod i ymgymryd â'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sylweddol y mae'r Llywodraeth hon wedi eu rhoi iddo o'r diwrnod cyntaf, a byddwn yn pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn heddiw.

15:28

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

A gaf i ddechrau drwy ategu'r gydnabyddiaeth o waith y cyn Weinidog dros yr amgylchedd ar y mater hwn? Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny. Mae'n deg dweud nad yw'r broses wedi bod heb ei thrafferthion. Yn sicr, nid oedd cael dau Orchymyn, un i sefydlu'r corff ac un i amlinellu'r swyddogaethau, yn ddelfrydol, er fy mod yn deall bod rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, mae disgrifiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei ymateb—bod creu corff newydd cyn cael eglurder am ei swyddogaethau a'r hyn roedd i fod i'w gyflawni fel rhoi'r cart o flaen y ceffyl—yn dal i fod yn un teg a dilys.

May I start by echoing the acknowledgement of the work of the former Minister for the environment on this issue? It is important that we recognise that. It is fair to say that the process has not been without its difficulties. Certainly, having two Orders, one to establish the body and the other to outline its functions, was not ideal, although I understand that there are reasons for that. However, the Environment and Sustainability Committee's description in its response—that creating a new body before there was clarity on its functions and what it was supposed to achieve was like putting the cart before the horse—is still fair and valid.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cyflwyno newidiadau er mwyn creu'r Gorchymyn sydd o'n blaen, yn enwedig mewn perthynas â dyletswyddau cadwraeth natur y corff newydd. Mae mwy o amwysedd nag y byddwn yn ei hoffi ynghylch pwrpas statudol cyfoeth naturiol Cymru i fod yn bencampwr yr amgylchedd ac i fod yn lladmerydd annibynnol cryf dros yr amgylchedd yn ei rinwedd ei hun, ac nid dim ond pan fo budd uniongyrchol i bobl a'r economi, er bod hynny'n bwysig pan fo hynny'n addas. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y sylw a wnaeth y Gweinidog yn ei ymateb i'm cwestiwn yn gynharach a'r sicrwydd a roddodd ei ragflaenydd y byddai ymateb i'r mater hwnnw yn y canllawiau a fydd yn cael eu darparu i'r corff newydd. Rwyf hefyd yn hyderu y bydd sicrwydd yn cael ei roi ynglŷn â'r tryloywder ac atebolrwydd sydd eu hangen yn y drefn o hunan-drwyddedi a fydd gyda ni o hyn ymlaen, fel rhywbeth sydd wedi cael ei gydnabod yn eang fel consyrn, a rhywbeth, rwy'n siŵr, y bydd y corff yn delio ag e. Ar y ddealltwriaeth honno, rydym yn barod i gefnogi'r Gorchymyn hwn, ac er bod cwestiynau ynglŷn â gweithrediad ymarferol yr uniad a rhai o'r pwyntiau eraill sydd wedi cael eu cyfeirio atynt—a byddwn yn parhau i graffu ar y rheini yn agos iawn—rydym yn cytuno, ar y cyfan, bod manteision a buddion i'w gwireddu o sefydlu cyfoeth naturiol Cymru.

I welcome the fact that the Government has made amendments leading to the Order before us, particularly in relation to the nature conservation duties of the new body. There is more ambiguity than I would like in terms of the statutory purpose of natural resources Wales to be a champion for the environment, and to be a strong, independent advocate for the environment in its own right and not just when there are direct benefits for people and the economy, although that is important when appropriate. However, I accept the comment made by the Minister in response to my question earlier and the assurance that his predecessor gave that that issue would be addressed in the remit letter that will be provided to the new body. I am also confident that assurance will be given as to the transparency and accountability that are needed within the new regime of self-licensing that we will have from now on, as something that has been widely recognised as a concern and something that, I am sure, the body will deal with. Given that understanding, we are willing to support this Order, and whilst there are questions about the practicalities of the merger and some of the other points that have been mentioned—and we will continue to scrutinise those issues very closely—we agree, on the whole, that there are advantages and benefits to be realised from the establishment of natural resources Wales.

15:30

## William Powell [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I thank the Minister very much for bringing forward this functions Order today. In doing so, I also join in the tributes that have been paid to your predecessor, John Griffiths, for the contribution that he has made during the gestation of this important new body, which is vital for the future of Wales.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am gyflwyno'r Gorchymyn swyddogaethau hwn heddiw. Wrth wneud hynny, rwyf hefyd yn ymuno â'r teyrngedau a dalwyd i'ch rhagflaenydd, John Griffiths, am ei gyfraniad yn ystod esgoriad y corff newydd pwysig hwn, sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru.

In moving forward, however, I confirm that my colleagues and I will be supporting the Order today, despite some of the significant reservations that we have. We do this because we support the principle of a merger. Indeed, it was a Welsh Liberal Democrat manifesto commitment and we want it to be a success. Nevertheless, there are issues with the Order. NRW has experienced difficulties, particularly around the issues concerning business planning, as has already been outlined, the black hole in the pensions, and indeed the significant problems around the ICT costs that had not been anticipated at the time that this was being crafted together.

Wrth symud ymlaen, fodd bynnag, cadarnhaf y bydd fy nghyd-Aelodau a minnau'n cefnogi'r Gorchymyn heddiw, er gwaethaf rhai o'r amheuon sylweddol sydd gennym. Rydym yn gwneud hyn oherwydd ein bod o blaid egwyddor o uno. Yn wir, yr oedd yn un o ymrwymiadau maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac rydym am iddo fod yn llwyddiant. Serch hynny, mae rhai problemau'n gysylltiedig â'r Gorchymyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael anawsterau, yn enwedig ynghylch y materion sy'n ymwneud â chynllunio busnes, fel yr amlinellwyd eisoes, y twll du o ran pensiynau, ac yn wir y problemau sylweddol ynghylch y costau TGCh na chawsant eu rhagweld pan luniwyd hyn i gyd.

Given the limited time that I have available, I would, however, like to press for further clarification about the manner in which the shifted portfolios within the Cabinet will relate to the practical operations of natural resources Wales in the coming months and years. Given that NRW's statutory purpose in relation to sustainable development is absolutely central, we now have a problem in that sustainable development has been removed from the functions of the very Minister who is responsible for that body. Reassurance on that point is needed. NRW has a fundamental role in meeting our aspirations for sustainable development.

Ac ystyried yr amser prin sydd ar gael imi, hoffwn, fodd bynnag, bwyso am eglurhad pellach am y berthynas a fydd rhwng portffolios y Cabinet wedi'u haddasu a gweithrediadau ymarferol cyfoeth naturiol Cymru yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Ac ystyried bod diben statudol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygu cynaliadwy yn gwbl ganolog, mae gennym broblem nawr, sef bod datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddileu o swyddogaethau'r union Weinidog sy'n gyfrifol am y corff hwnnw. Mae angen sicrwydd ar y pwynt hwnnw. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru swyddogaeth hanfodol o ran cyflawni ein dyheadau o ran datblygu cynaliadwy.

I also draw attention to the aspiration that I have repeatedly expressed for greater transparency and accountability within the new body. I ask the Minister to commit himself to considering whether or not, in the time to come, NRW board meetings should be webcast and available to download for the interest of people the length and breadth of Wales.

Tynnaf sylw hefyd at y dyhead yr wyf wedi'i fynegi dro ar ôl tro am fwy o dryloywder ac atebolrwydd o fewn y corff newydd. Gofynnaf i'r Gweinidog ymrwymo i ystyried a ddylid, yn yr amser a ddêl, gwe-ddarlledu cyfarfodydd bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau eu bod ar gael i'w llwytho i lawr er diddordeb i bobl ledled Cymru.

Finally, I reiterate the concerns that have been expressed by my party leader, Kirsty Williams, with regard to the underrepresentation of the forestry sector, albeit with the reassurance of the Minister today, on which we will look to hold him, that forestry is key to his priorities within NRW. I know that it will not be news to him that members of the farming community are still significantly concerned about what they perceive to be underrepresentation within that body. This is something on which the jury is very much out, and we want to ensure that that vital sector is fully represented.

Yn olaf, hoffwn ailadrodd y pryderon a fynegwyd gan arweinydd fy mhlaid, Kirsty Williams, am ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol i'r sector coedwigaeth, er bod y Gweinidog wedi rhoi sicrwydd heddiw bod coedwigaeth yn allweddol i'w flaenoriaethau o fewn CNC; rydym yn bwriadu sicrhau ei fod yn cadw ei air yn hynny o beth. Gwn na fydd yn newyddion iddo fod aelodau o'r gymuned ffermio yn dal i bryderu'n fawr am yr hyn y maent yn ei ystyried yn ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol yn y corff hwnnw. Nid ydym yn gwybod eto a yw hynny'n wir, a hoffem sicrhau bod y sector hanfodol hwnnw'n cael ei gynrychioli'n llawn.

15:33

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In noting the comments made by the Chairman of the Constitutional and Legislative Affairs Committee earlier, we come back again to concerns reflected in the fact that this legislation should have been dealt with by a discrete Bill. It is, of course, permissible to make legislation by way of amending existing legislation, but I hope that you would agree that, however legislation is made, it should be as clear as possible, especially in determining a duty, function or power in the absence of an impact assessment.

Wrth nodi'r sylwadau a wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gynharach, down yn ôl eto at bryderon a adlewyrchir yn y ffaith y dylid bod wedi defnyddio Bil ar wahân i ymdrin â'r ddeddfwriaeth hon. Wrth gwrs, caniateir deddfu drwy ddiwygio deddfwriaeth bresennol, ond gobeithiaf y byddwch yn cytuno, sut bynnag y byddwn yn deddfu, y dylai fod mor eglur â phosibl, yn enwedig wrth benderfynu ar ddyletswydd, swyddogaeth neu bŵer yn absenoldeb asesiad o effaith.

I therefore regret that this Order has done nothing to improve easy access to Wales-only legislation or access to the understanding of the nature, duties, functions and powers of what you, Minister, called a very powerful body. In particular, it is virtually impossible to identify whether the Order prioritises the economic objectives, as required under article 5(3) of the establishment Order of 2012, or that the natural resources and environment are sustainably used, enhanced and maintained, as required by article 4(3) of that earlier Order.

Rwyf felly'n gresynu nad yw'r Gorchymyn hwn wedi gwneud dim i wella mynediad rhwydd at ddeddfwriaeth i Gymru yn unig neu fynediad at ddealltwriaeth o natur, dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau'r hyn yr ydych, Weinidog, wedi'i alw'n gorff pwerus iawn. Yn benodol, mae bron yn amhosibl canfod a yw'r Gorchymyn yn blaenoriaethu'r amcanion economaidd, fel sy'n ofynnol dan erthygl 5(3) Gorchymyn sefydlu 2012, neu fod yr adnoddau naturiol a'r amgylchedd yn cael eu defnyddio, eu gwella a'u cynnal yn gynaliadwy, fel sy'n ofynnol dan erthygl 4(3) y Gorchymyn cynharach hwnnw.

15:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I thank all Members who have taken part in the debate this afternoon. I reassure Suzy Davies at the beginning of my contribution that priorities will be set by me in a remit letter to natural resources Wales. The legislation to which you refer sets out, simply, the powers that are available to it, in order to deliver on those priorities.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Gallaf sicrhau Suzy Davies ar ddechrau fy nghyfraniad y caiff blaenoriaethau eu pennu gennyf fi mewn llythyr cylch gwaith i gyfoeth naturiol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth yr ydych yn cyfeirio ati'n nodi, yn syml, y pwerau sydd ar gael i'r corff, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny.

I do not know whether it is possible, but I would like to try to reassure Bill Powell as well. I know that you worry terribly about these matters, Bill. We discussed this last week, the week before, the week before, and the week before. It is possible—and, believe me, it has happened—that we can select and appoint a group of people to run the board of an organisation that is not necessarily based on a representational basis alone. It is possible to select a group of people who have the requisite skills, knowledge and experience to exercise their judgment in the running of a public body. That is what is being done here, and I ask Bill Powell and others to 'gan bwyll', as we would perhaps say in Welsh, and give it a chance to prove itself, because I am confident that it will be able to do so.

Nid wyf yn gwybod a yw'n bosibl, ond hoffwn geisio tawelu meddwl Bill Powell hefyd. Gwn eich bod yn poeni'n ofnadwy am y materion hyn, Bill. Buom yn trafod hyn yr wythnos diwethaf, yr wythnos cynt, yr wythnos cyn hynny, a'r wythnos cyn hynny. Mae'n bosibl—a chredwch fi mae wedi digwydd—y gallwn ddewis a phenodi grŵp o bobl i gynnal bwrdd sefydliad nad yw'n seiliedig o reidrwydd ar sail gynrychioliadol yn unig. Mae'n bosibl dewis grŵp o bobl a chanddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gofynnol i arfer eu crebwyll wrth redeg corff cyhoeddus. Dyna'r hyn sy'n cael ei wneud yma, a dywedaf wrth Bill Powell ac eraill 'gan bwyll', a rhowch gyfle iddo brofi ei hun, oherwydd rwyf yn hyderus y bydd yn gallu gwneud hynny.

I was pleased to hear David Melding, as the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, recognising the changes that the Government has made in this legislation, as a consequence of the enhanced affirmative process. I was surprised and bewildered, somewhat, to hear Russell George describing this as a disappointing process, and saying that he would be voting against the legislation. He then offered no substantive points whatsoever to sustain his argument and his case. His argument and his case were demolished, not simply by the Government's argument, but by the arguments that were pursued by his good friend—and the good friend of us all, indeed—David Melding, as the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. David Melding demonstrated that the increased scrutiny that is available to Members, via the enhanced affirmative process, is one that has been warmly welcomed on all sides of the Chamber. I know that, when I sat on that committee as a backbencher, it was something that we encouraged the Government to do time and again. I am disappointed that the opposition does not recognise the way that the Government has sought to bring this forward.

Roeddwn yn falch o glywed David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn cydnabod y newidiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud i'r ddeddfwriaeth hon, o ganlyniad i'r broses gadarnhaol fanylach. Cefais fy synnu a'm drysu, braidd, o glywed Russell George yn disgrifio hyn fel proses siomedig, ac yn dweud y byddai'n pleidleisio yn erbyn y ddeddfwriaeth. Ni chynigiodd ddim pwyntiau o sylwedd o gwbl i gynnal ei ddadl a'i achos. Cafodd ei ddadl a'i achos eu dymchwel, nid yn unig gan ddadl y Llywodraeth, ond gan y dadleuon a gyflwynodd ei ffrind da—ein ffrind da ni i gyd, yn wir—David Melding, fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Dangosodd David Melding fod y craffu manylach sydd ar gael i Aelodau, trwy'r broses gadarnhaol fanylach, yn un sydd wedi cael croeso cynnes ar bob ochr i'r Siambr. Gwn, pan oeddwn ar y pwyllgor hwnnw fel aelod o'r meinciau cefn, ei fod yn rhywbeth y buom yn annog y Llywodraeth i'w wneud dro ar ôl tro. Rwyf yn siomedig nad yw'r wrthblaid yn cydnabod y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ceisio cyflwyno hyn.

The points that were made in David Melding's substantive contribution ended with the consent of the Secretary of State now being granted; we received that consent yesterday afternoon. We now have an opportunity to pass this legislation, and to create this powerful new body, in order to achieve many of the ambitions that Llyr Huws Gruffydd well outlined. We now have the ability, through the processes that are available to us, to scrutinise what the Government is doing. I disagree with Suzy's points about the difficulty in understanding where this legislation lies, and about access to this legislation. In criticising some of these matters, she outlined where those powers lie, so I am somewhat surprised by that. I accept the points that were made by Russell George in terms of some of the concerns that have been expressed about IT and pensions. I have discussed these matters, during my first days in office, with senior officials—in the Welsh Government and in NRW—and we will seek to continue to have these conversations over the coming days and weeks.

Daeth y pwyntiau a wnaethpwyd yng nghyfraniad sylweddol David Melding i ben gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol bellach wedi ei roi; cawsom y cydsyniad hwnnw brynhawn ddoe. Bellach, mae cyfle inni basio'r ddeddfwriaeth hon, ac i greu'r corff newydd pwerus hwn, er mwyn cyflawni llawer o'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn dda gan Llyr Huws Gruffydd. Erbyn hyn, mae gennym y gallu, drwy'r prosesau sydd ar gael inni, i graffu ar yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Rwyf yn anghytuno â phwyntiau Suzy am yr anhawster o ran deall ymhle y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gorwedd, ac am fynediad at y ddeddfwriaeth hon. Wrth feirniadu rhai o'r materion hyn, amlinellodd ymhle y mae'r pwerau hynny, felly rwyf wedi fy synnu braidd gan hynny. Rwyf yn derbyn y pwyntiau a wnaeth Russell George am rai o'r pryderon a fynegwyd am TG a phensiynau. Rwyf wedi trafod y materion hyn, yn ystod fy nyddiau cyntaf yn y swydd, ag uwch swyddogion —yn Llywodraeth Cymru ac yng Nghyfoeth Naturiol Cymru—a byddwn yn ceisio parhau i gael y sgyrsiau hyn dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

I appeal to the Welsh Conservatives—and perhaps to the better nature of their Chief Whip, who is sitting on the opposition frontbench—and say to them that I hope that they will vote to support the establishment of this single body this afternoon. Members from across the Chamber have paid tribute to my very good friend and colleague John Griffiths, and to the work that he has done. I hope that the Conservatives will listen to the sage and good advice that was given to them by David Melding, and will reconsider their position on this matter this afternoon. It is important that we have a good, strong vote from all sides of the Chamber in order to establish this body. We can then scrutinise its work, its actions, and its priorities. Members can then scrutinise the decisions that I will take and the way in which I will deliver the new body's remit letter to it; they can also scrutinise its officials and its senior officers in the work that they do, day in, day out. However, let us establish this body this afternoon. Let us give it its functions and its powers, and let it get on with its work. I therefore ask the Welsh Conservatives, at this late stage, to reconsider their position. Otherwise, I thank Members for their support this afternoon.

Apeliaf ar Geidwadwyr Cymru—ac efallai ar natur hynaws eu Prif Chwip, sy'n eistedd ar fainc flaen yr wrthblaid—a dywedaf wrthynt fy mod yn gobeithio y byddant yn pleidleisio o blaid sefydlu'r un corff hwn y prynhawn yma. Mae Aelodau ar draws y Siambr wedi talu teyrnged i'm ffrind da iawn a'm cydweithiwr John Griffiths, ac i'r gwaith y mae wedi'i wneud. Gobeithiaf y bydd y Ceidwadwyr yn gwrando ar y cyngor doeth a da a roddodd David Melding iddynt, ac yn ailystyried eu safbwynt ar y mater hwn y prynhawn yma. Mae'n bwysig bod gennym bleidlais dda, gref o bob ochr i'r Siambr er mwyn sefydlu'r corff hwn. Yna gallwn graffu ar ei waith, ei weithredoedd, a'i flaenoriaethau. Gall Aelodau graffu ar y penderfyniadau a wnaf a'r ffordd y byddaf yn cyflwyno llythyr cylch gwaith y corff newydd iddo; gallant hefyd graffu ar waith ei swyddogion a'i uwch swyddogion o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, dewch inni sefydlu'r corff hwn y prynhawn yma. Dewch inni roi ei swyddogaethau a'i bwerau iddo, a gadael iddo fynd ymlaen â'i waith. Gofynnaf felly i Geidwadwyr Cymru, yn hwyr yn y dydd, ailystyried eu safbwynt. Fel arall, hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth y prynhawn yma.

15:39

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is an objection. I will therefore defer all voting on this item until voting time.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12

## The Estyn Annual Report 2011-12

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 4, 5, 6, 7 ac 8 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 9, 10, 11, 12 a 13 yn enw William Graham.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies, amendments 4, 5, 6, 7 and 8 in the name of Aled Roberts, and amendments 9, 10, 11, 12 and 13 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5189 Jane Hutt

Motion NDM5189 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2011-12.

Notes the annual report for 2011-12 of Her Majesty’s Chief Inspector of Education and Training in Wales.

15:40

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I start by placing on record my thanks to Ann Keane and her team for their hard work in producing the report. This is the second report produced, based on inspections carried out under the new common inspection framework, which was introduced in 2010. It is adding rigour and robustness to the inspection system. We need to know our strengths and weaknesses to be able to build on our strengths and move forward.

Dechreuaf drwy roi ar gof a chadw fy niolch i Ann Keane a'i thîm am eu gwaith caled yn paratoi’r adroddiad. Dyma'r ail adroddiad a baratowyd, yn seiliedig ar arolygiadau wedi’u cynnal dan y fframwaith arolygu cyffredin newydd, a gyflwynwyd yn 2010. Mae'n gwneud y system arolygu’n fwy trylwyr a chadarn. Mae angen inni wybod beth yw ein cryfderau a’n gwendidau er mwyn gallu adeiladu ar ein cryfderau a symud ymlaen.

The picture for this year clearly shows a continued need for improvement. At primary level, of the 231 schools inspected, performance and standards are good or better in just under three quarters of schools. Of the 35 secondary schools inspected, performance in around 46% was judged as good or better. In other words, standards are good or better in fewer than 50% of schools.

Mae'r darlun ar gyfer eleni’n dangos yn glir bod angen parhau i wella. Ar lefel gynradd, roedd perfformiad a safonau yn dda neu'n well mewn ychydig dan dri chwarter y 231 o ysgolion a arolygwyd. O'r 35 o ysgolion uwchradd a arolygwyd, barnwyd bod perfformiad tua 46% ohonynt yn dda neu'n well. Mewn geiriau eraill, mae safonau’n dda neu'n well mewn llai na 50% o ysgolion.

Of the three colleges inspected this year, two were judged to have good performance and standards, and the third was adequate. The report notes that the two colleges judged as good have shown an upward trend in recent years despite much change brought about by mergers.

Barnwyd bod perfformiad a safonau dau o'r tri choleg a arolygwyd eleni yn dda, a'r trydydd yn ddigonol. Mae'r adroddiad yn nodi i’r tueddiad fod ar i fyny yn y ddau goleg y barnwyd eu bod yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf llawer o newid o ganlyniad i gyfuno.

In work-based learning, performance and standards are good in three of the five providers inspected, adequate in one and unsatisfactory in the other. Action is being taken to address the unsatisfactory provider and the situation is being closely monitored.

O ran dysgu seiliedig ar waith, mae perfformiad a safonau’n dda mewn tri o'r pum darparwr a arolygwyd, yn ddigonol mewn un ac yn anfoddhaol yn y llall. Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r darparwr anfoddhaol ac mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus.

This is only the second year of this new inspection framework, so it is difficult to draw any fundamental forward conclusions and comparisons. Next year’s report will mark the mid-point of the full inspection cycle and will be a more appropriate time to take stock of the findings to date.

Dim ond ail flwyddyn y fframwaith arolygu newydd hwn yw hon, felly mae'n anodd llunio unrhyw gasgliadau a chymariaethau sylfaenol. Bydd adroddiad y flwyddyn nesaf yn nodi man canol y cylch arolygu llawn ac yn adeg fwy priodol i ystyried y canfyddiadau hyd yn hyn.

In the meantime, the new follow-up system, introduced as part of this common inspection framework, is beginning to take effect. Where a particular area of weakness is identified in providers that otherwise make the grade overall, they are placed in either Estyn or local authority follow-up categories. This report shows that these new categories are, on the whole, proving to be effective, and that where follow-up visits have taken place, most of the schools and providers have made good progress against the recommendations.

Yn y cyfamser, mae'r system ddilynol newydd, a gyflwynwyd fel rhan o'r fframwaith arolygu cyffredin, yn dechrau cael effaith. Os canfyddir gwendid penodol mewn darparwyr sydd fel arall yn cyrraedd y targed yn gyffredinol, cânt eu rhoi mewn categori dilynol gyda naill ai awdurdod lleol neu Estyn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y categorïau newydd hyn, ar y cyfan, yn effeithiol, a phan fo ymweliadau dilynol wedi’u cynnal, bod y rhan fwyaf o'r ysgolion a’r darparwyr wedi gwneud gwaith da i gyflawni’r argymhellion.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair am 3.42 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.42 p.m.*

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

The framework also introduced a third new follow-up category: that of best practice. Some 30 primary schools, eight secondary schools, and two further education colleges were asked to provide best practice case studies this year. These case studies are on Estyn's website and provide an important resource for providers and local authorities. However, it remains the case—as I said last year—that ours is a fair system, aiming to be good.

Mae'r fframwaith hefyd yn cyflwyno trydydd categori dilynol newydd: categori arfer gorau. Gofynnwyd i tua 30 o ysgolion cynradd, wyth ysgol uwchradd, a dau goleg addysg bellach ddarparu astudiaethau achos arfer gorau eleni. Mae'r astudiaethau achos hyn ar wefan Estyn ac yn rhoi adnodd pwysig i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir—fel y dywedais y llynedd—bod ein system yn un weddol, ac mai'r nod yw iddi fod yn un dda.

The report acknowledges where our policies have been successful. For example, the foundation phase, which continues to be a success for pupils and teachers, is also encouraging parental and community involvement in schools. As the report states, the Welsh baccalaureate offers many benefits to learners, helping them to develop skills, such as research and analysis, and an understanding of topics that may not otherwise be covered in specific subjects. This in turn contributes to a more rounded education and helps develop learners' confidence. We need to replicate the success of policies like these across the board, to provide the best opportunities for our young people.

Mae'r adroddiad yn cydnabod ble mae ein polisïau wedi bod yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r cyfnod sylfaen, sy'n parhau i fod yn llwyddiant i ddisgyblion ac athrawon, hefyd yn annog rhieni a chymunedau i gyfranogi mewn ysgolion. Fel y dywed yr adroddiad, mae bagloriaeth Cymru yn cynnig llawer o fanteision i ddysgwyr, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau, megis ymchwilio a dadansoddi, a dealltwriaeth o bynciau na chânt o reidrwydd eu cynnwys fel arall mewn pynciau penodol. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu at addysg fwy cyflawn ac yn helpu i ddatblygu hyder dysgwyr. Mae angen ailadrodd llwyddiant polisïau fel y rhain ym mhob maes, i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'n pobl ifanc.

We are making progress, and policies are being put in place aimed at driving improvements at every level of the education system. The 'Improving schools' plan, introduced last October, sets out how we will deliver against the big challenges to improve literacy and numeracy and reduce the impact of deprivation on educational outcomes. This provides a route map to help to set clear objectives to drive up standards, and highlights the importance of good leadership skills throughout the system, which is something that we discussed at yesterday's national education conference.

Rydym yn symud yn ein blaenau, ac mae polisïau'n cael eu rhoi ar waith gyda'r nod o ysgogi gwelliannau ar bob lefel yn y system addysg. Mae'r cynllun 'Gwella ysgolion', a gyflwynwyd fis Hydref y llynedd, yn nodi sut y byddwn yn ymateb i'r heriau mawr i wella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol. Mae hwn yn darparu map i helpu i osod amcanion clir i godi safonau, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau arwain da drwy'r holl system, sy'n rhywbeth y gwnaethom ei drafod yn y gynhadledd addysg genedlaethol ddoe.

The national literacy and numeracy framework was published on the Learning Wales website in January and will be introduced on a statutory basis from September. We are determined to tackle the insidious effect of poverty and disadvantage on young people's life chances, and we are identifying good practice and drawing up case studies for schools to learn from. This will supplement the guidance already provided on effective strategies and complement Estyn's own best practice guide.

Cyhoeddwyd y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar wefan Dysgu Cymru ym mis Ionawr a chaiff ei gyflwyno ar sail statudol o fis Medi. Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael ag effaith andwyol tlodi ac anfantais ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc, ac rydym yn nodi arfer da ac yn llunio astudiaethau achos i ysgolion ddysgu oddi wrthynt. Bydd hyn yn ychwanegu at yr arweiniad a ddarparwyd eisoes ar strategaethau effeithiol ac yn ategu canllaw arfer gorau Estyn ei hun.

At post-16 level, as Members will be aware, we have broadly accepted the recommendations from the qualifications review. In doing so, we are setting a clear strategic direction and vision for qualifications in Wales. Our guiding principle is doing what is best for learners in Wales and for the Welsh economy.

Ar lefel ôl-16, fel y bydd Aelodau yn ymwybodol, rydym yn gyffredinol wedi derbyn argymhellion yr adolygiad o gymwysterau. Wrth wneud hynny, rydym yn pennu cyfeiriad strategol a gweledigaeth glir ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Ein hegwyddor arweiniol yw gwneud yr hyn sydd orau i ddysgwyr yng Nghymru ac i economi Cymru.

We have commissioned a review into the future delivery of education services in Wales. Members will be aware that I am concerned at the number of authorities identified as in need of remedial action. Of the eight local authority services that Estyn inspected in 2011-12, only three were judged to be good overall. The remaining five were in need of improvements. In total, Estyn has now inspected 18 of the 22 local authority services since the introduction of the common inspection framework in September 2010. Seven of those are in formal category, and particular action is being tailored to each authority to address these failings. Our overall review is currently under way and will report to me by the end of this month. Robert Hill's report will present me with options on how we can address some of the failings of local authorities and how we can improve the education system overall, and I will report to Members on that in the summer.

Rydym wedi comisiynu adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yn y dyfodol yng Nghymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod yn pryderu ynglŷn â nifer yr awdurdodau y nodwyd bod angen camau adfer arnynt. Barnwyd mai dim ond tri o'r wyth gwasanaeth awdurdod lleol a arolygodd Estyn yn 2011-12 oedd yn gyffredinol dda. Roedd angen gwelliannau ar y pump arall. Mae Estyn bellach wedi arolygu cyfanswm o 18 o'r 22 o wasanaethau awdurdod lleol ers cyflwyno'r fframwaith arolygu cyffredin ym mis Medi 2010. Mae saith o'r rheini mewn categori ffurfiol, ac mae camau penodol yn cael eu teilwra i bob awdurdod i fynd i'r afael â'r methiannau hyn. Mae ein hadolygiad cyffredinol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a byddaf yn derbyn adroddiad erbyn diwedd y mis hwn. Bydd adroddiad Robert Hill yn cynnig dewisiadau imi o ran sut y gallwn ymdrin â rhai o ddiffygion awdurdodau lleol a sut y gallwn wella'r system addysg yn gyffredinol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau ar hynny yn yr haf.

We know, therefore, that there is still a considerable amount to do, but we also know that our policies are starting to pay off. I thank Ann Keane and her team for this report.

Rydym yn gwybod, felly, bod llawer i'w wneud o hyd, ond rydym hefyd yn gwybod bod ein polisïau yn dechrau dwyn ffrwyth. Diolch i Ann Keane a'i thîm am yr adroddiad hwn.

15:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the 13 amendments to the motion, and I call on Simon Thomas to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Jocelyn Davies.

Rwyf wedi dethol y 13 gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies.

*Gwelliant 1—Jocelyn Davies*

*Amendment 1—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn nodi'n benodol gasgliad y Prif Arolygydd mai 'presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd'.*

*Notes in particular the conclusion of the Chief Inspector that 'attendance remains the weakest aspect of wellbeing for schools'.*

*Gwelliant 2—Jocelyn Davies*

*Amendment 2—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn nodi'r angen, a nodwyd gan y Prif Arolygydd, i roi mwy o gefnogaeth i athrawon wrth fynd ati i sicrhau bod safonau'n gwella.*

*Notes the need, identified by the Chief Inspector, for more support for teachers in delivering improvements in standards.*

Gwelliant 3—Jocelyn Davies

Amendment 3—Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar rannu arferion gorau mewn addysg ar gyfer torri'r cylch tlodi ac anfantais mewn ysgolion.

Calls on the Welsh Government to intensify its focus on sharing best practice in education on breaking the cycle of poverty and disadvantage in schools.

15:45

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

We have tabled these amendments to highlight three issues that we think are of particular concern in the annual report from Estyn. I also want to support the Minister in thanking Ann Keane for her report, and to say that this is another rigorous analysis of the education system in Wales. I would also like to say how delighted I am that, given his change of seat, I can now face the Minister at long last, rather than trying to attack him from the back—this is far preferable for the future. Let us each keep the other in his place.

Rydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn i dynnu sylw at dri mater y credwn eu bod yn destun pryder penodol yn yr adroddiad blynyddol gan Estyn. Hoffwn hefyd gefnogi'r Gweinidog wrth ddiolch i Ann Keane am ei hadroddiad, a dweud bod hwn yn ddadansoddiad trylwyr arall o'r system addysg yng Nghymru. Hoffwn hefyd ddweud pa mor hapus yr wyf, ac yntau wedi newid ei sedd, i allu wynebu'r Gweinidog o'r diwedd, yn hytrach na cheisio ymosod arno o'r cefn—mae hyn yn llawer gwell ar gyfer y dyfodol. Dewch i ni gadw'r naill a'r llall yn ein lle.

Moving to the actual debate itself and Estyn's report, it is clear that if the Welsh Government wants to fulfil its aim for Wales to be in the Programme for International Student Assessment top 20 by 2015—and we support it in that aim—then we need to do several things: improving attendance rates in schools is one, and focusing on breaking the cycle of poverty is another, along with supporting teachers in the way that they work in the class, which is the third one. That is what we try to address in our amendments. We do not do so thinking that the Government is completely wrong in these matters; we just want to see a refocus and a speedier set of results.

I droi at y ddadl ei hun ac at adroddiad Estyn, mae'n amlwg bod angen inni wneud llawer o bethau os yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflawni ei nod i Gymru fod yn 20 uchaf y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr erbyn 2015—ac rydym yn cefnogi'r nod hwnnw. Gwella cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yw un, a chanolbwyntio ar dorri'r cylch tlodi yw un arall, ynghyd â chefnogi athrawon yn y ffordd y maent yn gweithio yn y dosbarth, sef y trydydd peth. Dyna'r hyn yr ydym yn ceisio ymdrin ag ef yn ein gwelliannau. Nid ydym yn gwneud hynny gan feddwl bod y Llywodraeth yn gwbl anghywir yn hyn o beth; ein dymuniad yw gweld newid pwyslais a chyfres gyflymach o ganlyniadau.

The annual report finds clearly that attendance is the weakest point of wellbeing in schools. Furthermore, it finds that in half of the authorities inspected—the eight that the Minister mentioned—the strategies to improve attendance have not yet made enough of an impact. It also finds that additional funding intended for supporting disadvantaged pupils is often used to raise achievement generally, rather than to tackle the specific needs of disadvantaged pupils.

Mae'r adroddiad blynyddol yn canfod yn glir mai presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les mewn ysgolion. Ar ben hynny, mae'n canfod nad yw strategaethau gwella presenoldeb hanner yr awdurdodau a arolygwyd—yr wyth y soniodd y Gweinidog amdanynt—wedi cael digon o effaith eto. Mae hefyd yn canfod bod cyllid ychwanegol a fwriadwyd i gefnogi disgyblion dan anfantais yn aml yn cael ei ddefnyddio i wella cyrhaeddiad yn gyffredinol, yn hytrach nag i roi sylw i anghenion penodol disgyblion sydd dan anfantais.

15:47

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member therefore welcome the fact that the Welsh Government has included attendance as a factor in secondary school banding?

A wnaiff yr Aelod, felly, groesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys presenoldeb fel un o ffactorau bandio ysgolion uwchradd?

15:47

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the attention on attendance, but I do not welcome secondary school banding, as the Minister well knows. I think that he could have done it in a different way, and I will tell him how. It is to take a whole-school approach and support pupils and families to tackle absence, rather than penalise them. I do not want to steal a march on the report of the Children and Young People Committee, which is looking at attendance at the moment, but it is clear from the evidence in Estyn's report that supporting families is the key to improving attendance, including, for example, the use of home liaison officers, improved communication between schools and families, and early intervention with children and families who are struggling with key skills, such as literacy and numeracy, which, in turn, makes it more difficult for children to engage in school, which, in turn, leads to disaffection.

Rwyf yn croesawu'r sylw i bresenoldeb, ond nid wyf yn croesawu bandio ysgolion uwchradd, fel y mae'r Gweinidog yn gwybod yn iawn. Credaf y gallai fod wedi gwneud hynny mewn ffordd wahanol, ac rwyf am ddweud wrtho sut. Trwy ymdriniaeth sy'n canolbwyntio ar yr ysgol gyfan a thrwy gefnogi disgyblion a theuluoedd i ymdrin ag absenoldeb, yn hytrach na'u cosbi. Nid wyf am achub y blaen ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy'n edrych ar bresenoldeb ar hyn o bryd, ond mae'n amlwg o'r dystiolaeth yn adroddiad Estyn mai'r hyn sy'n allweddol i wella presenoldeb yw cefnogi teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio swyddogion cyswllt cartref, cyfathrebu'n well rhwng ysgolion a theuluoedd, ac ymyrryd yn gynnar â phlant a theuluoedd sy'n cael trafferthion ym maes sgiliau allweddol, megis llythrennedd a rhifedd, sydd, yn ei dro, yn ei gwneud yn anoddach i blant gymryd rhan yn yr ysgol, sydd, yn ei dro, yn arwain at ddadrithiad.

One of the positive advantages of Estyn's new style of report is the best practice guidance and examples given in the reports. One example given in this report is that of Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, which has been very successful in raising attendance rates. Boys' attendance rates in year 11 have gone up from 59% in 2004-05 to 92%, just about, in recent years. That has been done through a wide range of things, such as making the school curriculum more relevant, more specific measures to raise attendance levels, texting parents when their children are not in school, registering pupils in every class rather than just at the start of the day, on-the-spot truancy checks, and dedicated pastoral support officers. This is the wide range of measures that can be used by school to improve attendance, and the one particular fix of fixed penalties will not do that job in full.

Un o fanteision cadarnhaol arddull adroddiadau newydd Estyn yw'r canllawiau arfer gorau a'r enghreifftiau a roddir yn yr adroddiadau. Un enghraifft a roddwyd yn yr adroddiad hwn yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth godi cyfraddau presenoldeb. Mae cyfraddau presenoldeb bechgyn ym mlwyddyn 11 wedi codi o 59% yn 2004-05 i 92%, bron â bod, yn y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethpwyd hynny drwy amrywiaeth eang o ffyrdd, megis gwneud cwricwlwm yr ysgol yn fwy perthnasol, sefydlu mesurau mwy penodol i godi lefelau presenoldeb, anfon negeseuon testun at rieni pan nad yw eu plant yn yr ysgol, cofrestru disgyblion ym mhob dosbarth yn hytrach na dim ond ar ddechrau'r dydd, cynnal archwiliadau triwantiaeth ar hap, a phenodi swyddogion cymorth bugeiliol pwrpasol. Dyma'r ystod eang o fesurau y gall ysgolion eu defnyddio i wella presenoldeb, ac ni fydd cosbau penodedig yn unig yn gwneud y gwaith yn llawn.

15:49

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cefn Hengoed school, in my constituency, has also had a new building, thanks to the Welsh Government.

Mae ysgol Cefn Hengoed, yn fy etholaeth, hefyd wedi cael adeilad newydd, diolch i Lywodraeth Cymru.

15:49

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am delighted to hear that, Mike, and I am sure that that is also part of the attraction, which is why we would support the twenty-first century schools programme, which, as you well know, started under the One Wales Government.

Rwyf wrth fy modd o glywed hynny, Mike, ac rwyf yn siŵr bod hynny hefyd yn rhan o'r atyniad, a dyna pam y byddem yn cefnogi'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a ddechreuodd, fel y gwyddoch yn iawn, dan Lywodraeth Cymru'n Un.

The second aspect that we need to address is that of skills. We are improving skills in Wales—we have to say that, but we are not improving them at a rate that will allow us to deal with the PISA results by 2015. The Government has already written off achievement by 2013 for this year's PISA results, but if you examine Estyn's report—

Yr ail agwedd y mae angen ymdrin â hi yw sgiliau. Rydym yn gwella sgiliau yng Nghymru—rhaid inni ddweud hynny, ond nid ydym yn eu gwella'n ddigon cyflym i allu ymdrin â'r canlyniadau PISA erbyn 2015. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi anghofio am gyflawni canlyniadau PISA erbyn 2013, ond os archwiliwch adroddiad Estyn—

15:49

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way on that point? The target that was announced in respect of PISA was announced by the One Wales Government. We said explicitly in February 2011 in the speech I gave then and the statement I gave then that we would look for improvement in the 2015 PISA results.

A wnaiff yr Aelod ildio ar y pwynt hwnnw? Llywodraeth Cymru'n Un a gyhoeddodd y targed o ran PISA. Gwnaethom ni ddweud yn benodol ym mis Chwefror 2011 yn yr araith a roddais a'r datganiad a roddais y byddem yn chwilio am welliant yng nghanlyniadau PISA 2015.

15:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is not a speech.

Trefn. Nid araith yw hon.

15:50

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was a statement made on behalf of his party as well. Does he still agree with that?

Roedd hwnnw'n ddatganiad a wnaed ar ran ei blaid hefyd. A yw'n dal i gytuno â hynny?

15:50 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very much looking forward to those results. You are responsible for delivering them, Minister. I will hold you to account if you deliver in 2015, but this report shows that you are not on track to deliver in 2015, because the level 2 threshold, including English, Welsh and mathematics, is not on track to reach those PISA results in 2015. You have three years to do it—no, two years to do it; I am showing my own mathematics up. You have two years to do it, Minister, which is even less than I just gave you. The Welsh Government needs to be very clear, therefore, that it will concentrate on and use best practice and establish a culture of sharing best practice to achieve this.

Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at y canlyniadau hynny. Chi sy'n gyfrifol am eu cyflawni, Weinidog. Byddaf yn eich dwyn i gyfrif os byddwch yn cyflawni yn 2015, ond mae'r adroddiad hwn yn dangos nad ydych ar y trywydd iawn i gyflawni yn 2015, oherwydd nad yw trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a mathemateg, ar y trywydd iawn i gyrraedd y canlyniadau PISA hynny yn 2015. Mae gennych dair blynedd i wneud hynny—na, dwy flynedd i wneud hynny; dyna pa mor dda yw fy mathemateg i. Mae gennych ddwy flynedd i wneud hynny, Weinidog, sydd hyd yn oed yn llai nag yr wyf newydd ei roi i chi. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir iawn, felly, y bydd yn canolbwyntio ar arfer gorau ac yn ei ddefnyddio, ac yn sefydlu diwylliant o rannu arfer gorau i gyflawni hyn.

My final point is to look at what Professor David Reynolds said in the conference on policies beyond PISA on 9 March—he stated clearly that intervention in the classroom will make the greatest difference, but that teachers need advice and guidance as well as the direct provision of systems to transmit good practice. That is what we want to see the Government focusing on. He also said that sharing good practice is difficult between schools due to competition. I want to make sure that the Minister does not dally any further with private provision in Wales.

Fy mhwynt olaf yw edrych ar yr hyn a ddywedodd yr Athro David Reynolds yn y gynhadledd ar bolisïau y tu hwnt i PISA ar 9 Mawrth—dywedodd yn glir mai ymyrraeth yn yr ystafell ddosbarth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ond bod ar athrawon angen cyngor ac arweiniad yn ogystal â systemau uniongyrchol i drosglwyddo arfer da. Dyna beth yr hoffem weld y Llywodraeth yn canolbwyntio arno. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd rhannu arfer da rhwng ysgolion oherwydd cystadleuaeth. Hoffwn wneud yn siŵr nad yw'r Gweinidog yn chwarae ymhellach â'r syniad o ddarpariaeth breifat yng Nghymru.

15:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to move amendments 4 to 8 tabled in his name.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 4-8 a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth y canfyddiadau yn yr adroddiad fod y gyfran o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2011-12 y barnwyd eu bod yn rhagorol neu'n dda yn is na'r flwyddyn flaenorol, gyda mwy o ysgolion uwchradd yn y pegynau perfformiad rhagorol neu anfoddhaol.*

*Regrets the findings within the report that the proportion of schools inspected in 2011-12 that were judged excellent or good was lower than the previous year, with more secondary schools at the extremes of excellent or unsatisfactory performance.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau a roddwyd i ysgolion er mwyn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu'r cyfraddau uchel o absenoldeb ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, er mwyn codi lefelau cyflawniad disgyblion o gefndiroedd tlotach gymaint â phosibl.*

*Calls on the Welsh Government to review guidance issued to schools to ensure the Pupil Deprivation Grant is used to effectively target the high absenteeism rates of pupils on free school meals, to maximise the achievement levels of pupils from poorer backgrounds.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn adrodd am ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy cefnog.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that Estyn reports on how effectively the Pupil Deprivation Grant is being used by schools to narrow the attainment gap between pupils from disadvantaged and more affluent backgrounds.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn mynegi pryder bod 54 y cant o ysgolion uwchradd a 48 y cant o ysgolion cynradd wedi cael eu nodi ar gyfer ymweliadau dilynol, sy'n fwy na'r llynedd.*

*Expresses concern that 54% of secondary schools and 48% of primary schools have been identified for follow up visits, which is an increase on last year.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu meincnodau a thargedau cenedlaethol i fonitro'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad.*

*Calls on the Welsh Government to establish national targets and benchmarks to monitor the progress being made to tackle the gap between deprivation and attainment.*

15:51

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 4, 5, 6, 7 and 8 in my name.

Cynigiaf welliannau 4, 5, 6, 7 ac 8 yn fy enw i.

I also begin by thanking the chief inspector and the team at Estyn for the report. There is really no need for us to repeat the issues that caused concern for Estyn and the chief inspector, as outlined by the Minister. However, it is important that we acknowledge that these are issues that we have heard raised over many years, with the same recommendations and, yes, Minister, promises of improvement, and yet the outcomes are frustratingly unsatisfactory.

Rwyf hefyd yn dechrau trwy ddiolch i'r prif arolygydd a thîm Estyn am yr adroddiad. Nid oes dim angen inni ailadrodd y materion a oedd yn achosi pryder i Estyn a'r prif arolygydd, fel yr amlinellodd y Gweinidog. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y rhain yn faterion yr ydym wedi clywed amdanynt dros lawer o flynyddoedd, gyda'r un argymhellion ac, ie, Weinidog, addewidion o welliant, ac eto mae'r canlyniadau yn rhwystredig o anfoddhaol.

Amendments 4 and 7 speak for themselves and contradict the views expressed in the morning's press by educationist Sir Michael Barber that developments in Wales have been really impressive. Of course, it is not surprising that Sir Michael believes that they have been impressive, given that, in the period to which he refers, he has been the adviser to the Welsh Government. I also think that the number of amendments that have been tabled today shows that we are fully engaged as opposition parties with the work that Estyn undertakes, and there is a growing consensus that more needs to be done to improve the outcome for pupils in Wales.

Mae gwelliannau 4 a 7 yn hunanesboniadol ac yn gwrthddweud y farn a fynegwyd yn y wasg fore heddiw gan yr addysgwr Syr Michael Barber fod datblygiadau yng Nghymru wedi gwneud argraff dda iawn. Wrth gwrs, nid yw'n syndod bod Syr Michael yn credu i'r datblygiadau fod yn dda, o gofio iddo fod yn ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru yn y cyfnod y mae'n cyfeirio ato. Rwyf hefyd yn credu bod nifer y diwygiadau sydd wedi'u cyflwyno heddiw yn dangos ein bod yn ymgysylltu'n llawn fel gwrthbleidiau â gwaith Estyn, ac y ceir consensws cynyddol bod angen gwneud mwy i wella canlyniadau i ddisgyblion yng Nghymru.

The Welsh Liberal Democrats will be supporting the majority of the amendments today, but, unfortunately, we will not be able to support amendments 11 and 12 from the Welsh Conservatives. We believe that, while the report does make reference to the need for headteachers to address mediocre teaching performance, the wording of the amendment misinterprets the issue. Additionally, we know that recent press articles have drawn attention to the failure of Estyn to produce answers to freedom of information requests, and may very well have contributed to the thinking behind amendment 12, but we cannot take the press report as failure and a recognition or even an explicit assertion of influence by the Welsh Government or its officials.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r gwelliannau heddiw, ond, yn anffodus, ni fyddwn yn gallu cefnogi gwelliannau 11 a 12 gan Geidwadwyr Cymru. Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod angen i benaethiaid ymdrin â pherfformiad addysgu sydd o safon gyffredin, rydym yn credu bod geiriad y gwelliant yn camddehongli'r mater. Rydym hefyd yn gwybod bod erthyglau diweddar yn y wasg wedi tynnu sylw at fethiant Estyn i ateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, ac mae hi'n bosibl iawn bod hynny wedi cyfrannu at y meddylfryd y tu ôl i welliant 12. Er hynny, ni allwn ystyried bod yr adroddiad yn y wasg yn gyfystyr â methiant a chydnabyddiaeth, neu hyd yn oed honiad penodol, o ddylanwad gan Lywodraeth Cymru neu ei swyddogion.

As the Minister has said, the report does acknowledge some successes, and it is only right as opposition parties that we acknowledge those successes, particularly with regard to the foundation phase and the Welsh baccalaureate. However, it also shows that improvement, albeit that the Minister refers to it, is frustratingly slow. It shows that more secondary schools are delivering an unsatisfactory performance, particularly with regard to the transition from primary to secondary education. On 30 May, this Assembly voted unanimously in favour of our amendments calling on the Welsh Government to ensure that spending on the pupil deprivation grant was monitored more effectively, so that some of the issues with regard to our most deprived children were addressed. Since then, I acknowledge that the Government has published revised draft guidance on how to use the pupil deprivation grant, and it has been shared with regional consortia.

Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'r adroddiad yn cydnabod rhai llwyddiannau, ac mae'n ddigon teg ein bod ni fel gwrthbleidiau'n cydnabod y llwyddiannau hynny, yn enwedig o ran y cyfnod sylfaen a bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos bod y gwelliant, er i'r Gweinidog gyfeirio at hyn, yn rhwystredig o araf. Mae'n dangos bod perfformiad mwy o ysgolion uwchradd yn anfoddhaol, yn enwedig o ran pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Ar 30 Mai, pleidleisiodd y Cynulliad hwn yn unfrydol o blaid ein gwelliannau i alw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwariant ar y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei fonitro'n fwy effeithiol, fel bod rhai o'r materion yn ymwneud â'n plant mwyaf difreintiedig yn cael sylw. Ers hynny, rwyf yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau drafft diwygiedig ynglŷn sut i ddefnyddio'r grant amddifadedd disgyblion, gan eu rhannu â'r consortia rhanbarthol.

The guidance recommends an approach based on the quality of teaching in classrooms and schools, rather than the quantity of teachers and teaching assistants. I welcome the Minister's recent responses on this matter whereby he has indicated that monitoring and guidance will be formalised. It was an issue that we referred to in the Children and Young People Committee last week.

Mae'r canllawiau'n argymell ymdriniaeth sy'n seiliedig ar ansawdd yr addysgu mewn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion, yn hytrach nag ar nifer yr athrawon a chynorthwywyr addysgu. Rwyf yn croesawu ymatebion diweddar y Gweinidog ar y mater hwn lle mae wedi nodi y bydd yr arweiniad a'r gwaith monitro yn cael ei ffurfioli. Roedd yn fater y gwnaethom gyfeirio ato yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wythnos diwethaf.

Our amendments 5, 6 and 8 call on the Government to maximise the scope for improvement that the pupil deprivation grant offers. Amendment 6 specifically calls on Estyn to report on how the pupil deprivation grant is being used to narrow and eliminate the attainment gap.

Mae ein gwelliannau 5, 6 ac 8 yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau y gall y grant amddifadedd disgyblion gynnig cymaint â phosibl o le i wella. Mae gwelliant 6 yn galw yn benodol ar Estyn i hysbysu sut y mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio i gulhau a dileu'r bwlch cyrhaeddiad.

In England last year, Ofsted conducted a review of how effectively schools were using their pupil premium funding. Its survey of 68 primary and secondary schools identified a range of positive and negative practices that affected attainment. Similarly, the Estyn report highlights that, in a minority of primary schools, and in over half of secondary schools, some teacher expectations are too low. In contrast, the Ofsted report showed that achievement improved most when targeting, monitoring and evaluation of disadvantaged pupils was effective.

Yn Lloegr y llynedd, cynhaliodd Ofsted arolwg o ba mor effeithiol yr oedd ysgolion yn defnyddio eu cyllid premiwm disgyblion. Dangosodd ei arolwg o 68 o ysgolion cynradd ac uwchradd amrywiaeth o arferion cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar gyrhaeddiad. Yn yr un modd, mae adroddiad Estyn yn pwysleisio bod disgwyliadau rhai athrawon yn rhy isel, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, ac mewn dros hanner yr ysgolion uwchradd. Ar y llaw arall, dangosodd adroddiad Ofsted fod cyflawniad wedi gwella fwyaf pan gafodd disgyblion dan anfantais eu targedu, eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol.

In Wales, Estyn finds that leadership needs to improve across the board and progress in regional consortia has been uneven. The Minister has been consistent in his desire for evidence-based approaches. It is important that, where practices are seen to be working and raising attainment for individual pupils, not just for schools, that best practice is monitored and shared.

Yng Nghymru, mae Estyn yn canfod bod angen gwell arweinyddiaeth yn gyffredinol a bod datblygiad ymhlith y consortia rhanbarthol wedi bod yn anghyson. Mae'r Gweinidog wedi galw'n gyson am ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Lle gwelir bod arferion yn gweithio ac yn gwella cyrhaeddiad disgyblion unigol, ac nid cyrhaeddiad ysgolion yn unig, mae'n bwysig bod arfer gorau yn cael ei fonitro a'i rannu.

*Gwelliant 9—William Graham*

*Amendment 9—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu nad yw'r 'disgyblion mwy galluog a thalentog yn cyflawni gystal yng Nghymru ag yn Lloegr', yn ôl yr adroddiad.*

*Regrets that 'more able and talented pupils achieve less well in Wales than in England', according to the report.*

*Gwelliant 10—William Graham*

*Amendment 10—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn mynegi cryn bryder bod angen gwella safonau llythrennedd dros hanner yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn ôl yr adroddiad.*

*Expresses deep concern that there is a need to achieve better literacy standards in over half of Wales' primary and secondary schools, according to the report.*

*Gwelliant 11—William Graham*

*Amendment 11—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth ganfyddiadau Estyn sy'n awgrymu bod 'perfformiad addysgu sydd o safon gyffredin' yn bodoli.*

*Regrets Estyn's findings which suggest the existence of 'mediocre teaching performance'.*

*Gwelliant 12—William Graham*

*Amendment 12—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn annog y Gweinidog i egluro sut y gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar yr adroddiad hwn gan gorff hyd braich annibynnol.*

*Urges the Minister to explain what influence Welsh Government officials exerted on this report from an independent arm's length body.*

*Gwelliant 13—William Graham*

*Amendment 13—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r methiannau yn system addysgol Cymru a nodwyd gan Estyn.*

*Calls on the Welsh Government to undertake urgent action to address the failings in the Welsh educational system identified by Estyn.*

15:56

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 9, 10, 11, 12 and 13 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 9, 10, 11, 12 a 13 yn enw William Graham.

I am grateful for the chance to speak in this debate, in the absence of our education spokesman.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon, yn absenoldeb ein llefarydd ar addysg.

Members always value the opportunity to read and debate reports by independent bodies. It gives us hope that this Government may feel obliged to listen to someone. Estyn's 2010 six-year inspection cycle in now well underway and the new method of inspecting has drawn our attention to some very worrying findings, including those reflected in the amendments. It is especially disturbing that our more able and talented pupils, including those from disadvantaged backgrounds, are still not being encouraged to fulfil their potential.

Mae Aelodau bob amser yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddarllen adroddiadau gan gyrff annibynnol a dadlau amdanynt. Mae'n rhoi gobaith inni y gallai'r Llywodraeth deimlo bod rhaid iddi wrando ar rywun. Mae cylch arolygu chwe blynedd Estyn, a gychwynnodd yn 2010, yn mynd rhagddo ers cryn amser bellach ac mae'r dull arolygu newydd wedi tynnu ein sylw at rai canfyddiadau sy'n peri pryder mawr, gan gynnwys y rhai a adlewyrchir yn y gwelliannau. Mae'n peri pryder arbennig nad yw ein disgyblion mwy galluog a dawnus, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial o hyd.

Estyn is independent of, but funded by, the Welsh Government. As an independent body, it commands great respect. It works in partnership with other regulators and inspectorates and gives advice on specific matters to the Welsh Government. The report says:

Mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Fel corff annibynnol, mae'n uchel ei barch. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill ac yn rhoi cyngor am faterion penodol i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn dweud:

'Our advice provides evidence of the effect of the Welsh Government's strategies, policies and initiatives on the education and training of learners.'

'Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.'

We take it that it gives advice to, and does not take instruction from, the Government and we take it that its evidence is gathered independently.

Rydym yn tybio ei fod yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth, yn hytrach na chymryd cyfarwyddiadau ganddi, ac rydym yn tybio ei fod yn casglu ei dystiolaeth yn annibynnol.

In recent months, the Assembly has had reason to look at the issue of independence. We had the unhappy episode with the Longley report into health reforms. We looked at the steps that the Welsh Government took in relation to the development of the Welsh Language Commissioner's recommendations on standards. We had the inevitable question about conflict of interest around the Minister's role as exam regulator, and we have a question mark over how the independence of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales would be preserved if it merged within an executive arm of Government.

Yn y misoedd diwethaf, bu gan y Cynulliad reswm i edrych ar fater annibyniaeth. Cawsom achos anhapus adroddiad Longley ar ddiwygiadau iechyd. Edrychwyd ar y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygu argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar safonau. Cawsom y cwestiwn anochel ynglŷn â gwrthdaro buddiannau o ran swyddogaeth y Gweinidog fel rheoleiddiwr arholiadau, ac mae gennym farc cwestiwn dros sut i gadw annibyniaeth y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru pe bai'n cael ei gyfuno ag un o ganghennau gweithredol y Llywodraeth.

We rely on independent material to help scrutinise the Government. That material needs to be seen to be independent if it is to retain its gravitas. So, Minister, in connection with our amendment 12, we will need some clarity from you on the nature of your department's relationship with Estyn, so that we may have full confidence in its findings.

Rydym yn dibynnu ar ddeunydd annibynnol i helpu i graffu ar y Llywodraeth. Mae angen gallu gweld bod y deunydd hwnnw'n annibynnol er mwyn iddo barhau i gael ei barchu. Felly, Weinidog, mewn cysylltiad â'n gwelliant 12, bydd angen rhywfaint o eglurder gennych am natur perthynas eich adran ag Estyn, er mwyn inni allu bod â hyder llawn yn ei ganfyddiadau.

15:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I sometimes wonder if the Member has ever met the chief inspector of Estyn, Ann Keane. Has she met her and does she accept that she is an independent person?

Byddaf yn meddwl weithiau tybed a yw'r Aelod erioed wedi cwrdd â phrif arolygydd Estyn, Ann Keane. A yw hi wedi cwrdd â hi ac a yw hi'n derbyn ei bod hi'n unigolyn annibynnol?

15:59

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Minister. I have spoken to Ann Keane as a member of the Children and Young People Committee. However, it may well be that she is not aware, as you may also not be, of some the information that I am about to present to the Assembly.

Ydw, Weinidog. Rwyf wedi siarad ag Ann Keane fel aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl nad yw hi, ac nad ydych chithau ychwaith, yn ymwybodol o rywfaint o'r wybodaeth yr wyf ar fin ei chyflwyno i'r Cynulliad.

In October 2012, the Welsh Government asked for key findings to be shared with it in advance of the report's publication. In the same e-mail, the official said that

Ym mis Hydref 2012, gofynnodd Llywodraeth Cymru am i ganfyddiadau allweddol gael eu rhannu â hi cyn cyhoeddi'r adroddiad. Yn yr un e-bost, dywedodd y swyddog

'we are all acutely aware that the general picture for 2011/12 is likely to be worse than 2010/11 so it would be as well to be forearmed. Hopefully there is some good news you can share too!'

rydym i gyd yn ymwybodol iawn bod y darlun cyffredinol ar gyfer 2011/12 yn debygol o fod yn waeth na 2010/11 felly byddai'n beth da paratoi ymlaen llaw. Gobeithio y bydd rhywfaint o newyddion da y gallwch ei rannu hefyd!

Being forearmed is one thing. Maybe the cosy-toned exultation to share some good news can be put down to a hopeful plea, rather than a massive hint. However, in terms of helping to preserve the integrity of an arm's-length relationship, perhaps those words would have been better avoided.

Mae paratoi ymlaen llaw yn un peth. Efallai y gellid ystyried mai ple obeithiol yw'r erfyniad gor-gyfeillgar am rannu rhywfaint o newyddion da, yn hytrach nag awgrym enfawr. Fodd bynnag, o ran helpu i gadw unplygrwydd perthynas hyd braich, efallai y byddai wedi bod yn well osgoi'r geiriau hynny.

On 5 November, Estyn sent the Welsh Government draft sections of the report, but the covering e-mail stated:

Ar 5 Tachwedd, anfonodd Estyn adrannau drafft o'r adroddiad at Lywodraeth Cymru, ond mae'r e-bost esboniadol yn datgan:

'I appreciate that you will need 10 working days to review these sections. Please would you return your comments to me by Monday 19th November'.

Rwyf yn sylweddoli y bydd arnoch angen 10 diwrnod gwaith i adolygu'r adrannau hyn. A fyddech cystal â dychwelyd eich sylwadau imi erbyn dydd Llun 19 Tachwedd.

There is a difference between sending a draft report to forewarn someone and sending a draft report and inviting comments on it, especially when the Welsh Government subsequently sent tracked changes to the draft that proposed amendments to this independent report. Some of the interesting comments from the Welsh Government's tracked changes include, 'This doesn't sound quite right', 'We use the term "such-and-such" ... also should the measure be inclusive of "such-and-such"?', 'badly worded', 'You may want to add the impact of "this particular Government scheme" ', 'I'm not sure why unverified provider data is being used here', 'I'm not sure on what basis the rates are being judged here but I think the official figure ... should be used', 'This is not the case', and 'This section is very misleading'. In one case, an Estyn value judgment of 'poor', in reference to a trainee programme, was directly challenged by the Government official, who stated, 'We don't think this is particularly poor given the newness of the programme'. The draft was changed as a result of these Government comments.

Mae gwahaniaeth rhwng anfon adroddiad drafft i roi gwybod i rywun ymlaen llaw ac anfon adroddiad drafft a gwahodd sylwadau amdano, yn enwedig pan anfonodd Llywodraeth Cymru newidiadau wedi'u marcio i'r drafft wedi hynny, gan gynnig gwelliannau i'r adroddiad annibynnol hwn. Mae rhai o'r sylwadau diddorol o'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u marcio yn cynnwys, 'Nid yw hyn yn swnio'n hollol iawn', 'Rydym yn defnyddio'r term "hyn a hyn" ... hefyd a ddylai'r mesur gynnwys "hyn a hyn" ?', 'wedi'i eirio'n wael', 'Efallai yr hoffech ychwanegu effaith "y cynllun penodol hwn gan y Llywodraeth" ', 'Nid wyf yn siŵr pam mae data darparwr heb ei gadarnhau'n cael ei ddefnyddio yma', 'Nid wyf yn siŵr ar ba sail y mae'r cyfraddau'n cael eu barnu yma, ond rwy'n credu y dylid defnyddio'r ffigur swyddogol ...', 'Nid yw hyn yn wir', a 'Mae'r adran hon yn gamarweiniol iawn'. Mewn un achos, mae un o swyddogion y Llywodraeth yn herio'n uniongyrchol ddyfarniad Estyn bod rhaglen hyfforddiant yn 'wael', gan ddweud, 'Nid ydym yn meddwl fod hyn yn arbennig o wael o ystyried pa mor newydd yw'r rhaglen'. Cafodd y drafft ei newid o ganlyniad i'r sylwadau hyn gan y Llywodraeth.

Estyn went on to make further revisions of its own. Minister, it must be of concern to you that this independently prepared report was changed at all as a result of contact with your department, that your department directly criticised evidence adduced by Estyn, and suggested links and references to evidence that put the Government in a good light. This independent body's publication is now different as a result of that contact.

Aeth Estyn ymlaen i wneud diwygiadau ychwanegol eu hunain. Weinidog, nid oes bosibl nad yw'n destun pryder ichi bod yr adroddiad hwn a baratowyd yn annibynnol wedi'i newid o gwbl o ganlyniad i gysylltiad â'ch adran, bod eich adran yn uniongyrchol wedi beirniadu tystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn, ac wedi awgrymu cysylltiadau a chyfeiriadau at dystiolaeth sy'n rhoi darlun ffafriol o'r Llywodraeth. Mae cyhoeddiad y corff annibynnol hwn nawr yn wahanol o ganlyniad i'r cyswllt hwnnw.

You may say to me that these changes were small in the context of the whole report. However, this was no consultation exercise, where your department could have contributed its views; it was a closed conversation, which has done nothing to improve your Government's reputation for transparency and has cast a doubt as to the strength of Estyn's defences against Government intervention into its work. With education in such a mess, and with the Welsh Government weighing in so heavily against some local authorities, we needed to be confident that this report was an unsullied reflection of education and education reforms. Your interference has made it more difficult for us to have that confidence in a report by an independent body, and in Ann Keane, who has commanded the respect of us all.

Efallai y dywedwch wrthyf mai mân newidiadau oedd y rhain yng nghyd-destun yr adroddiad cyfan. Fodd bynnag, nid ymarfer ymgynghori oedd hwn lle y gallai eich adran gyfrannu ei barn; sgwrs gaeedig ydoedd, ac nid yw wedi gwneud dim i wella enw da eich Llywodraeth am dryloywder. Mae wedi bwrw amheuaeth ynghylch cryfder amddiffynfeydd Estyn yn erbyn ymyrraeth gan y Llywodraeth yn ei waith. Gydag addysg yn y fath lanastr, a chyda Llywodraeth Cymru yn pwyso mor drwm yn erbyn rhai awdurdodau lleol, roedd angen inni fod yn hyderus bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad pur o addysg a diwygiadau ym maes addysg. Mae eich ymyrraeth wedi ei gwneud yn anoddach inni fod â'r hyder hwnnw mewn adroddiad gan gorff annibynnol, ac yn Ann Keane, sydd wedi ennyn ein parch ni i gyd.

16:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

A point of order should be raised.

Dylid codi pwynt o drefn.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am not taking a point of order, unless it is—

Nid wyf yn cymryd pwynt o drefn, oni bai ei fod—

16:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It is a point of order.

Mae'n bwynt o drefn.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Under what Standing Order?

O dan ba Reol Sefydlog?

16:02

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member said that I had interfered in the Estyn report. She produced no evidence for that claim.

Dywedodd yr Aelod fy mod wedi ymyrryd yn adroddiad Estyn. Ni chyflwynodd ddim tystiolaeth o'r honiad hwnnw.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not grounds for a point of order; it is a matter for debate, and you will have a full chance to respond when you wind up, as I initially instructed. If I ask for a Standing Order, I expect a Standing Order to be quoted. Please note that for next time.

Nid yw hynny'n rheswm am bwynt o drefn; mater i'w drafod yw hynny, a chewch gyfle llawn i ymateb wrth ddirwyn i ben, fel y cyfarwyddais yn wreiddiol. Os wyf yn gofyn am Reol Sefydlog, rwyf yn disgwyl i Reol Sefydlog gael ei dyfynnu. Nodwch hynny ar gyfer y tro nesaf, os gwelwch yn dda.

16:02

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was going to start with amendment 12, because I thought that it was a nonsense. Having listened to Suzy Davies, I still think that it is a nonsense, because I do not understand what the problem is with the Minister and Estyn having a dialogue about the important subject of education. I feel that the Tories must be missing their education spokesperson, to whom I wish a speedy recovery.

Roeddwn yn bwriadu dechrau gyda gwelliant 12, oherwydd fy mod yn meddwl ei fod yn nonsens. Ar ôl gwrando ar Suzy Davies, rwyf yn dal i feddwl ei fod yn nonsens, oherwydd nad wyf yn deall pam mae'n broblem bod y Gweinidog ac Estyn yn cael deialog ynglŷn â phwnc pwysig addysg. Mae'n rhaid gennyf fod y Torïaid yn gweld eisiau eu llefarydd addysg; dymunaf wellhad buan iddi.

As a former lay inspector for Estyn, I am completely familiar with the framework under which all inspections are conducted. That is to say that all school inspection reports are signed off by the chief inspector, Ann Keane, to ensure consistency and rigour of approach. As Ann Keane says in the annual report, it is entirely proper for the Minister for education to seek advice from Estyn on education and training matters because it is the expert.

Fel cyn arolygydd lleyg i Estyn, rwyf yn gwbl gyfarwydd â'r fframwaith y cynhelir pob arolygiad yn unol ag ef. Hynny yw, caiff pob adroddiad arolygu ysgol ei lofnodi gan y prif arolygydd, Ann Keane, er mwyn sicrhau dull gwaith cyson a thrylwyr. Fel y mae Ann Keane yn ei ddweud yn yr adroddiad blynyddol, mae'n gwbl briodol bod y Gweinidog addysg yn gofyn am gyngor gan Estyn ar faterion addysg a hyfforddiant oherwydd mai Estyn yw'r arbenigwyr.

One particular issue on which it was a pity that Suzy Davies did not focus, because I think that it is something that the Conservative party ought to be focusing on, was the remarks that Estyn made about the weaknesses in many of our local education authorities, which are themselves found to be in need of follow-up. Estyn says that

Un mater penodol yr oedd yn drueni na wnaeth Suzy Davies ganolbwyntio arno, sef rhywbeth yr wyf yn meddwl y dylai'r blaid Geidwadol fod yn canolbwyntio arno, oedd y sylwadau a wnaeth Estyn am y gwendidau yn llawer o'n hawdurdodau addysg lleol; mae angen cymryd camau dilynol ynglŷn â'r rheini. Mae Estyn yn dweud mai'r diffygion mwyaf

'local authorities causing concern are often symptoms of limited capacity and capability among officers as well as symptoms of failure in how well elected members challenge performance.'

'yn yr awdurdodau lleol sy'n achosi pryder yw: arwyddion o ddiffyg capasiti a gallu yn y swyddogion; ac arwyddion nad yw'r aelodau etholedig yn mynd ati'n ddigon da i herio perfformiad.'

These are very serious matters. Also of concern is that a few schools and local authorities—[Interruption.]

Mae'r rhain yn faterion difrifol iawn. Mater arall sy'n achosi pryder yw bod rhai ysgolion ac awdurdodau lleol—[Torri ar draws.]

16:04

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for taking my intervention. You are quite right that these are very serious points that are being raised. That was my point—if you are going to have an independent report that is making recommenations, it needs to have 1,000% support and confidence from the Assembly.

Diolch i'r Aelod am gymryd fy ymyriad. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod y pwyntiau hyn sy'n cael eu codi yn rhai difrifol iawn. Dyna oedd fy mhwynt i—os ydych yn mynd i gael adroddiad annibynnol sy'n gwneud argymhellion, mae angen iddo gael cefnogaeth a hyder 1,000% gan y Cynulliad.

16:04

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, and I have no reason to doubt any of the messages that Ann Keane is delivering to us.

Yn wir, ac nid oes gennyf reswm i amau dim o'r negeseuon y mae Ann Keane yn eu cyfleu inni.

Also of concern are the under-developed safeguarding procedures in some local authorities and a few schools, and the fact that a few staff are not aware of how to respond to a disclosure. These are significant strategic issues, and we have to ask ourselves as Assembly Members what we can do to urge our elected colleagues in local government to pay more attention to their schools, which is the biggest area of spending in local authorities, apart from the housing revenue account. Why are we not making appointments of officers with full capacity and capability to support schools? Why do some not have the arrangements in place to implement the all-Wales safeguarding procedures, and how much effort and energy are they putting into appointing to schools LEA governors who, in Estyn's words, need to develop more expertise and be more challenging.

Mae'r gweithdrefnau diogelu nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol mewn rhai awdurdodau lleol a rhai ysgolion hefyd yn destun pryder, ynghyd â'r ffaith nad yw rhai staff yn gwybod sut i ymateb pan fo gwybodaeth yn cael ei datgelu. Mae'r rhain yn faterion strategol pwysig, a rhaid inni ofyn i ni'n hunain fel Aelodau'r Cynulliad beth y gallwn ei wneud i annog ein cydweithwyr etholedig mewn llywodraeth leol i roi mwy o sylw i'w hysgolion, sef maes gwariant mwyaf awdurdodau lleol, heblaw'r cyfrif refeniw tai. Pam nad ydym yn penodi swyddogion â chapasiti a gallu llawn i gefnogi ysgolion? Pam nad oes gan rai awdurdodau drefniadau ar waith i weithredu gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan, a faint o ymdrech ac egni y maent yn eu rhoi i benodi llywodraethwyr ysgolion AALl y mae angen iddynt, yng ngeiriau Estyn, ddatblygu mwy o arbenigedd a chynnig mwy o her.

In my view, LEA governors, as critical friends to the head and senior management, have a special position in providing a truly independent challenge. That is much easier for them to do than the governors who are there as staff governors or parent governors, who might worry about the impact that their challenge to senior management would have, either on their jobs or on their own children who are pupils. LEA governors are crucial in making sure that governing bodies are addressing the issues that may be lacking in terms of the way in which the senior management is delivering education for their children.

Yn fy marn i, mae llywodraethwyr AALl, fel ffrindiau beirniadol i'r pennaeth a'r uwch reolwyr, mewn sefyllfa arbennig o ran darparu her wirioneddol annibynnol. Mae'n llawer haws iddynt hwy wneud hynny na'r llywodraethwyr sydd yno fel llywodraethwyr staff neu riant-lywodraethwyr, a allai boeni am effaith bosibl eu her i uwch reolwyr, naill ai ar eu swyddi neu ar eu plant eu hunain sy'n ddisgyblion. Mae llywodraethwyr AALl yn hollbwysig o ran gwneud yn siŵr bod cyrff llywodraethu'n ymdrin â'r materion a allai fod yn ddiffygiol o ran sut y mae'r uwch reolwyr yn darparu addysg i'w plant.

Other important messages in Estyn's report focus on the link between poverty and low attainment. We have to be clear that we cannot accept the excuse that we cannot expect the high results that many schools achieve just because a school is in an area of high deprivation. Cathays High School in Cardiff is one of the successful schools that Estyn highlights for bucking the trend. It has nearly 300 people on free school meals, but it has a track record of celebrating diversity and is successful in engaging with parents and developing the partnerships that are necessary to meet the needs of all its pupils. I am delighted that Cathays school will be able to do even more with the nearly £127,000 in pupil deprivation grant that it will receive. It is quite right that we focus on exactly how schools are spending that money. For example, Estyn highlights the Communities First pupil deprivation match fund, which Communities First clusters can access if they can demonstrate how they will work with schools to improve the outcomes of young people who are living in poverty. We need to make sure that all our schools are enabling all our children to achieve to the best of their ability.

Mae negeseuon pwysig eraill yn adroddiad Estyn yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel. Rhaid inni fod yn glir na allwn dderbyn yr esgus nad oes modd disgwyl y canlyniadau uchel y mae llawer o ysgolion yn eu cyflawni dim ond oherwydd bod ysgol mewn ardal â llawer o amddifadedd. Mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd yn un o'r ysgolion llwyddiannus y mae Estyn yn tynnu sylw atynt am fynd yn groes i'r duedd. Mae ganddi bron i 300 o bobl sy'n cael prydau ysgol am ddim, ond mae ganddi hanes o ddathlu amrywiaeth ac mae'n llwyddo i ymgysylltu â rhieni a datblygu'r partneriaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion ei holl ddisgyblion. Rwyf wrth fy modd y bydd ysgol Cathays yn gallu gwneud mwy fyth gyda'r grant amddifadedd disgyblion o bron i £127,000 y bydd yn ei dderbyn. Mae'n ddigon teg ein bod yn canolbwyntio ar sut yn union y mae ysgolion yn gwario'r arian hwnnw. Er enghraifft, mae Estyn yn tynnu sylw at gronfa arian cyfatebol amddifadedd disgyblion Cymunedau yn Gyntaf, sydd ar gael i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf os gallant ddangos sut y byddant yn cydweithio ag ysgolion i wella canlyniadau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein holl ysgolion yn galluogi pob un o'n plant i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

16:08 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Children and Young People Committee, which I chair, recently scrutinised this report and took evidence from the chief inspector and strategic directors. A number of points have been made by other Members, but one of the issues highlighted by Estyn that I wanted to raise was the need for schools and local authorities to share best practice, particularly in terms of raising standards and achievement in literacy and numeracy. This is critical if all our young people are to achieve their potential. This is of obvious benefit to them as individuals, but also to Welsh society as a whole. We know that there are many examples of schools and local authorities doing some very inspiring and innovative work with young people, but this is not consistent across Wales, and that must change.

Yn ddiweddar, craffodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, yr wyf yn gadeirydd arno, ar yr adroddiad hwn a chlywodd dystiolaeth gan y prif arolygydd a chyfarwyddwyr strategol. Mae Aelodau eraill wedi gwneud nifer o bwyntiau, ond un o'r materion y tynnodd Estyn sylw atynt ac yr oeddwn i am ei godi oedd yr angen i ysgolion ac awdurdodau lleol rannu arfer gorau, yn enwedig o ran codi safonau a chyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'n holl bobl ifanc gyflawni eu potensial. Mae hyn o fudd amlwg iddynt hwy fel unigolion, ond hefyd i gymdeithas Cymru yn ei chyfanrwydd. Rydym yn gwybod bod llawer o enghreifftiau o ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gwneud gwaith ysbrydoledig ac arloesol iawn gyda phobl ifanc, ond nid yw hyn yn gyson ar draws Cymru, a rhaid i hynny newid.

However, I am pleased by the strong measures that the Welsh Government has taken to meet these challenges: the Minister has outlined his 20-point action plan; we have the literacy and numeracy framework; the school effectiveness framework; and an increase in funding to Welsh schools above and beyond the block grant. All these are important. I also look forward to the results of the lead practitioners' school project. I believe that its peer-to-peer system will make a useful contribution in this area.

Fodd bynnag, rwyf yn falch o'r mesurau cryf y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i'r heriau hyn: mae'r Gweinidog wedi amlinellu ei gynllun gweithredu 20 pwynt; mae gennym y fframwaith llythrennedd a rhifedd; y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion; a chynnydd mewn cyllid i ysgolion Cymraeg y tu hwnt i'r grant bloc. Mae'r rhain i gyd yn bwysig. Edrychaf ymlaen hefyd at ganlyniadau'r prosiect ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol. Rwyf yn credu y bydd ei system cymheiriaid yn gwneud cyfraniad defnyddiol yn y maes hwn.

The second point that I want to raise is the effects of deprivation on educational attainment. Estyn identifies the poverty gap as a central challenge to school leaders. My colleague Jenny Rathbone has raised this issue. As Estyn stated in its report, poverty leads to poorer outcomes, greater risks of absenteeism or exclusion and can result in a bleaker set of opportunities for adult life. The pupil deprivation grant is useful in challenging the links that exist, but Estyn found that some schools were inappropriately using it to deal with low attainment, instead of focusing on disadvantage. It is vital that low attainment is to be tackled, however I believe that students from poorer backgrounds will miss out if this is not addressed. I therefore seek the Minister's observations on that.

Yr ail bwynt yr wyf am ei godi yw effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Mae Estyn yn nodi bod y bwlch tlodi'n her ganolog i arweinwyr ysgolion. Mae fy nghydweithiwr Jenny Rathbone wedi codi'r mater hwn. Fel y nododd Estyn yn ei adroddiad, mae tlodi'n arwain at ganlyniadau gwaeth, a mwy o berygl o absenoldeb neu eithrio cymdeithasol, a gall arwain at gyfleoedd mwy llwm mewn bywyd fel oedolyn. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn ddefnyddiol i herio'r cysylltiadau sy'n bodoli, ond canfu Estyn fod rhai ysgolion yn ei ddefnyddio'n amhriodol i ymdrin â chyrhaeddiad isel, yn hytrach na chanolbwyntio ar anfantais. Mae'n hanfodol ymdrin â chyrhaeddiad isel, ond credaf y bydd myfyrwyr o gefndiroedd tlotach ar eu colled oni roddir sylw i hyn. Rwyf felly yn gofyn am sylwadau'r Gweinidog am hynny.

The Minister and I both spoke recently at a conference on poverty and attainment. At the conference, the young researchers from the Save the Children 'Small Voice: Big Story' project gave testimony to the ways in which poverty had affected their attainment. The point I want to make is how powerful it is to include young people's own experiences and voices as part of the solution. In this conference and in the report, the young researches said how poverty affects their ability to take part in school activities, their confidence and self-worth and prevents them from having a quiet place to study, for example. Lots of practical barriers were mentioned. In short, if it is not addressed, poverty stops Welsh young people from achieving their potential. Therefore, I hope that some of these hurdles can be overcome by the development of a life chances fund.

Siaradodd y Gweinidog a minnau yn ddiweddar mewn cynhadledd ar dlodi a chyrhaeddiad. Yn y gynhadledd, rhoddodd yr ymchwilwyr ifanc o brosiect Achub y Plant 'Llais Bach: Stori Fawr' dystiolaeth o'r ffyrdd yr oedd tlodi wedi effeithio ar eu cyrhaeddiad. Y pwynt yr hoffwn ei wneud yw pa mor bwerus yw cynnwys profiadau a lleisiau pobl ifanc eu hunain fel rhan o'r ateb. Yn y gynhadledd hon, ac yn yr adroddiad, dywedodd yr ymchwilwyr ifanc sut y mae tlodi'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol, ar eu hyder a'u hunanwerth, a sut y mae'n eu hatal rhag cael lle tawel i astudio, er enghraifft. Soniwyd am lawer o rwystrau ymarferol. Yn fyr, oni roddir sylw i hyn, bydd tlodi'n atal pobl ifanc Cymru rhag cyflawni eu potensial. Felly, gobeithiaf y gellir goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn drwy ddatblygu cronfa cyfleoedd mewn bywyd.

The final point I want to make is on Estyn's valuable reminder that there is no absolute way that we can apply principles in a vacuum. Tackling these challenges, to raise standards, overcome deficiencies in literacy and numeracy and to eradicate the effects of poverty on attainment, is really about having a team effort among all educational professionals. We must help our young people to achieve their potential and give them the future that they deserve.

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei wneud yn ymwneud â'r pwynt gwerthfawr gan Estyn i'n hatgoffa nad oes ffordd absoliwt o ddilyn egwyddorion mewn gwactod. Rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol ym maes addysg ymdrechi fel tîm i fynd i'r afael â'r heriau hyn, codi safonau, goresgyn diffygion o ran llythrennedd a rhifedd a dileu effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad. Rhaid inni helpu ein pobl ifanc i gyflawni eu potensial a rhoi'r dyfodol y maent yn ei haeddu iddynt.

16:12

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwyf i hefyd yn croesawu adroddiad Estyn 2011-12. Nid wyf yn derbyn bod pethau mor wael ag rydym wedi clywed y prynhawn yma. Rwy'n derbyn, mewn ambell ysgol, mae'n fater o 'nid da lle gellir gwell'. Fodd bynnag, rwy'n croesawu yn arbennig ragair cynhwysfawr y prif arolygydd, Ann Keane. O'r diwedd, dyma roi terfyn ar y syniad mai rhyw fath o lun sydyn, 'snapshot', yw ymweliad arolygwyr i ysgol.

I, too, welcome the the Estyn report for 2011-12. I do not accept that things are as bad as has been made out this afternoon. I accept that, in some schools, it is a case of always being room for improvement. However, I especially welcome the comprehensive foreword of the chief inspector, Ann Keane. This dispels, at last, the idea that inspectors' visits to schools only provide a snapshot.

Mae'n rhestru pum pwynt allweddol yn ei rhagair. Y trydydd yw monitro'r gwelliannau lle mae angen rhaglen o welliannau yn sgîl yr ymweliad gwreiddiol. Hynny yw, nid 'snapshot' yn unig yw'r ymweliad. Mae disgwyl gwelliant, ac mae'r gwelliannau yn cael eu monitro. Pan gychwynnodd y Gweinidog Addysg, fel dywedodd Christine Chapman, rhestrwyd 20 pwynt strategol lle bu angen gweithredu pellach. Mae angen amser i'r broses hynny gychwyn.

In the foreword, she lists five key points. The third is the monitoring of improvements when there is a programme of improvements following an initial visit; that is, the visit provides more than a snapshot. There is an expectation of improvement, and that is monitored. When the Minister for Education took up his post, as Christine Chapman said, a list of 20 strategic points was drawn up for further action. That process needs time to establish itself.

Mae'n gwbl naturiol ac yn angenrheidiol bod Estyn yn cynnal arolygiadau ac yn adrodd yn ôl i gydymffurfio â democratiaeth a'r angen i ddal i gyfrif, ac er mwyn bwydo i mewn i waith a blaenoriaethau'r Llywodraeth. Rhan o'r broses ydyw, a gwelaf mai'r themâu a godir gan Estyn, sef llythrennedd, rhifedd a chryfhau arweinyddiaeth, yw union flaenoriaethau'r Gweinidog.

It is completely natural and necessary that Estyn conducts inspections and reports back, in line with democratic principles and in order to hold to account, as well as to feed in to Government work and priorities. It is part of the process, and I see that the themes mentioned by Estyn—literacy, numeracy and improving leadership—are exactly the same as the Minister's priorities.

Yn wahanol i Lywodraeth Lloegr, mae Gweinidog Cymru yn gwrando ar randdeiliaid ac yn cymryd sylw o'u barn. Mae Michael Gove, ar y llaw arall, yn dangos agwedd hollol gyferbyniol yn ei ddiwygiadau addysg ef.

Unlike the Government in England, the Minister in Wales is listening to stakeholders and taking their views into account. Michael Gove, on the other hand, is doing completely the opposite in his educational reforms.

Ceir hefyd nodweddion da, ac mae'n bwysig eu cofio. Dywed y prif arolygydd nad oes angen monitro pellach ar 87% o ysgolion cynradd. Mae cryfder yn ein cyfnod sylfaen ac ym magloriaeth Cymru. Mae'r nifer sy'n gadael ysgolion Cymru heb gymwysterau ar y ffigur isaf erioed, gyda dim ond 152 o blant 15 oed yn gadael y llynedd heb gymhwyster. Mae 21 o'r 22 awdurdod lleol wedi gwella'u cyfraddau presenoldeb, ac mae cynnydd o 0.8% ar gyfartaledd yn yr ysgolion uwchradd. Mae'r lefelau presenoldeb uchaf ers cychwyn casglu data i'w gweld yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd.

There are also good points, and it is important to bear that in mind. The chief inspector says that no further monitoring is required in 78% of our primary schools. Our foundation phase and Welsh baccalaureate are strong. The figure for those leaving Welsh schools without qualifications is at a record low, with only 152 15-year-olds leaving without a qualification last year. Of the 22 local authorities, 21 have improved their attendance rates, and there is an average improvement of 0.8% in secondary schools. The highest attendance figures since records began are to be seen in our primary and secondary schools.

Mae gwaith da mewn sawl ysgol. Rhaid gwneud yn siŵr bod arfer ardderchog yn dod yn arfer gyffredin. Mae helpu athrawon ac ysgolion i wella yr un mor bwysig â nodi'r gwendidau yn y lle cyntaf. Helpu ysgolion i wella yw nod pwysig gwaith yr arolygwyr. Mae rhagoriaeth i gael yng Nghymru, ond mae angen cysondeb arnom. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd ffaeleddau strwythur sydd wedi rhoi 22 awdurdod addysg i ni, fel y soniodd rhywun yn barod y prynhawn yma. Canlyniad diwygio gan y Llywodraeth Dorïaidd yng nghanol y 1990au yw hwnnw. Dyna enghraifft o'r gwrthwyneb i fantais economaidd, pan aethom o wyth cyfarwyddwr addysg i 22. Wedi methu â chael gwared â llywodraeth leol yng Nghymru, penderfynodd y Ceidwadwyr wanhau'r trefniant.

Good work is done in many schools. We must ensure that excellent practice becomes common practice. Helping teachers and schools to improve is just as important and recognising the weaknesses in the first place. Hepling shools to improve is the important aim of the inspectors' work. There is excellence to be found in Wales, but we meed consistency. I am not going to repeat the mention of the failures that gave us 22 education authorities, as has already been mentioned this afternoon. That is a result of the Tory Government's restructuring in the middle of the 1990s. That is an example of the opposite of economic advantage, when we went from eight directors of education to 22. Having failed to get rid of local government in Wales, the Conservatives decided to weaken the arrangements.

Fel yr wyf wedi dweud yn barod, mae gennym ysgolion sydd yn ardderchog yng Nghymru. Yn anffodus, mae gennym hefyd ddiwylliant sy'n geidwadol. Mae rhai ysgolion yn rhy fewnblyg. Mae'n rhaid iddynt agor y ffenestri i adael yr awyr iach i mewn i fod yn agored i ddulliau newydd o wneud pethau ac efallai hefyd i newid eu blaenoriaethau. Rwy'n ddiolchgar am allu'r Gweinidog i ddarparu arweinyddiaeth ar hyd y ffordd a gwella'r sefyllfa.

As I have said already, we do have excellent schools in Wales. Unfortunately, we also have a culture that is conservative in nature. Some schools are too inward looking. They have to open the windows to allow the fresh air in and be open to new ways of doing things and perhaps also change their priorities. I am grateful for the Minister's ability to provide leadership along the way and to improve the situation.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:15

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I will start with the comments from the Plaid Cymru spokesperson. I was slightly surprised that he led off on attendance because, as my colleague the Member for Llanelli has pointed out, we have had record primary attendance figures published—the best figures since evidence has been collected on attendance—and, indeed, record figures on secondary attendance as a result of our determined attempt to include attendance figures within the secondary banding process. This is something that we were commended for, of course, by Professor Ken Reid, who is one of the leading experts on attendance and behaviour.

Dechreuaf gyda sylwadau llefarydd Plaid Cymru. Roeddwn yn synnu braidd ei fod wedi dechrau trwy sôn am bresenoldeb oherwydd bod y ffigurau presenoldeb cynradd a gyhoeddwyd, fel y dywedodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Lanelli, y ffigurau gorau ers y dechreuwyd casglu tystiolaeth am bresenoldeb—ac, yn wir, mae'r ffigurau ar gyfer presenoldeb uwchradd hefyd yn well nag erioed o ganlyniad i'n hymdrech benderfynol i gynnwys ffigurau presenoldeb yn y broses bandio uwchradd. Mae hyn yn rhywbeth y cawsom ein canmol amdano, wrth gwrs, gan yr Athro Ken Reid, sy'n un o'r arbenigwyr blaenllaw ar bresenoldeb ac ymddygiad.

I am glad that the Plaid Cymru spokesperson drew attention to Cefn Hengoed Community School in the constituency of my colleague, Mike Hedges. That is an excellent school and we have been using it to demonstrate the good practice that exists across Wales with regard not only to attendance issues, but to many other issues as well.

Rwyf yn falch bod llefarydd Plaid Cymru wedi tynnu sylw at Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn etholaeth fy nghydweithiwr, Mike Hedges. Mae hi'n ysgol ragorol ac rydym wedi bod yn ei defnyddio i ddangos yr arfer da sy'n bodoli ledled Cymru nid yn unig o ran presenoldeb, ond o ran nifer o faterion eraill hefyd.

I was slightly surprised, but perhaps I should not have been too surprised, that the Plaid Cymru spokesperson did not refer to the significant improvements we have seen in the GCSE performance of schools in bands 4 and 5. With regard to the percentage of young people getting five good GCSEs, including either English or Welsh and mathematics, there has been a very significant increase in the number of pupils achieving that in schools in both bands 4 and 5 and, in respect of five good GCSEs, we are, indeed, closing the gap.

Roeddwn yn synnu braidd, ond efallai na ddylwn fod wedi fy synnu'n ormodol, na wnaeth llefarydd Plaid Cymru gyfeirio at y gwelliannau sylweddol yr ydym wedi'u gweld ym mherfformiad TGAU ysgolion ym mandiau 4 a 5. Bu cynnydd sylweddol iawn yng nghanran y bobl ifanc sy'n cael pum gradd TGAU dda, gan gynnwys naill ai Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mewn ysgolion ym mandiau 4 a 5 ac, o ran cael pum gradd TGAU dda, rydym, yn wir, yn cau'r bwlch.

I welcome the fact that, in broad terms, the Plaid Cymru spokesperson endorsed a number of the other initiatives that we have taken, some of which date back to the One Wales Government. I remind the Plaid Cymru spokesperson of the policies that we adopted during the One Wales Government, because I am sure that some of his colleagues who were Ministers at that time would want to have their achievements remembered. I am a generous politician, and I would want to do that.

Croesawaf y ffaith fod llefarydd Plaid Cymru, yn fras, wedi cymeradwyo nifer o'r mentrau eraill yr ydym wedi'u sefydlu, a rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i Lywodraeth Cymru'n Un. Atgoffaf lefarydd Plaid Cymru o'r polisïau a fabwysiadwyd gennym yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un, oherwydd fy mod yn siŵr y byddai rhai o'i gydweithwyr a oedd yn Weinidogion ar y pryd am i'w llwyddiannau gael eu cofio. Rwyf yn wleidydd hael, a hoffwn wneud hynny.

16:18

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say to the Minister that all we are concerned about is that delivery is now in his hands and not in ours?

A gaf ddweud wrth y Gweinidog mai'r oll yr ydym yn pryderu amdano yw mai ef ac nid ni sy'n gyfrifol am gyflawni erbyn hyn?

16:18

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In that case, I would like to see some consistency from the Member. Will he continue in his support for policies that we adopted during the One Wales Government? He gives very little credit to the achievements of that Government in the speeches that he makes in the Chamber.

Os felly, hoffwn weld rhywfaint o gysondeb gan yr Aelod. A wnaiff barhau i gefnogi'r polisïau a fabwysiadwyd gennym yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un? Nid yw'n rhoi llawer o glod o gwbl i lwyddiannau Llywodraeth honno yn ei areithiau yn y Siambr.

My colleague, the Member for Cardiff Central, Jenny Rathbone, from her own experience rightly stressed that, of course, Ministers will take advice from Estyn and it is entirely appropriate for them to do so. I found the comments of the acting shadow education spokesperson today to be completely and utterly absurd. Of course officials give commentary on a factual basis on drafts that are submitted to them by Estyn. I meet the chief inspector of Estyn on a roughly quarterly basis. She informs me of how progress is developing; I ask her questions, but her conclusions, of course, are absolutely her own. I am now in some doubt as to whether the Welsh Conservatives will accept that anybody who advises the Welsh Government is capable of being independent, unless, perhaps, their name is Dylan Jones-Evans. This is a deliberate strategy to try to undermine the people who give advice—very often, on an unpaid basis—to this Government. That is deeply disappointing.

Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, Jenny Rathbone, yn gywir wrth bwysleisio, yn ei phrofiad ei hun, y bydd Gweinidogion, wrth gwrs, yn cymryd cyngor gan Estyn a'i bod yn gwbl briodol iddynt wneud hynny. Roedd sylwadau llefarydd dros dro'r wrthblaid ar addysg heddiw'n gwbl hurt imi. Wrth gwrs bod swyddogion yn rhoi sylwadau ar sail ffeithiol am adroddiadau drafft a gyflwynir iddynt gan Estyn. Rwyf yn cyfarfod â phrif arolygydd Estyn tuag unwaith bob chwarter blwyddyn. Mae hi'n rhoi gwybod imi sut y mae pethau'n datblygu; rwyf yn gofyn cwestiynau iddi, ond mae hi, wrth gwrs, yn llunio ei chasgliadau ei hun. Mae gennyf rywfaint o amheuaeth nawr a fydd Ceidwadwyr Cymru'n derbyn bod unrhyw un sy'n cynghori Llywodraeth Cymru'n gallu bod yn annibynnol, oni bai, efallai, mai ei enw yw Dylan Jones-Evans. Mae hon yn strategaeth fwriadol i geisio tanseilio'r bobl sy'n rhoi cyngor—a hynny'n ddi-dâl yn aml iawn—i'r Llywodraeth hon. Mae hynny'n siomedig dros ben.

My colleague, Chris Chapman, rightly raised the importance of literacy and numeracy—

Roedd yn ddigon teg i'm cydweithiwr, Chris Chapman, grybwyll pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd—

16:19

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for taking an intervention; I appreciate that you may not be able to see me from your seat. You mentioned that it was in order for Estyn and the Government to speak to each other on factual issues. I raised in my contribution that changes were made on value judgments, which is quite a different thing. Do you have anything to say on that?

Diolch, Weinidog, am gymryd ymyriad; rwyf yn sylweddoli na allwch fy ngweld o'ch sedd o bosibl. Rydych wedi cyfeirio at y ffaith ei bod yn gwbl briodol i Estyn a'r Llywodraeth siarad â'i gilydd am faterion ffeithiol. Nodais yn fy nghyfraniad fod newidiadau wedi eu gwneud yn seiliedig ar ddyfarniadau ynglŷn â gwerth, sy'n beth eithaf gwahanol. A oes gennych unrhyw beth i'w ddweud am hynny?

16:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that you proved that. You made a series of assertions and failed to complete the sentences on a number of occasions. I thought that this was a deliberate attempt to undermine an independent body, and I reject absolutely what you said.

Nid wyf yn credu eich bod wedi profi hynny. Gwnaethoch gyfres o honiadau gan fethu â chwblhau'r brawddegau ar nifer o achlysuron. Roeddwn yn meddwl bod hyn yn ymgais fwriadol i danseilio corff annibynnol, ac rwyf yn gwrthod yn llwyr yr hyn a ddywedasoch.

My colleague, Chris Chapman, the Member for Cynon Valley, raised a number of very important issues in relation to literacy and numeracy, and about the impact of poverty on attainment. I very much pay tribute to the work that she has done as Chair of the Children and Young People Committee and the depth of the inquiries that it has held, particularly most recently on attendance and behaviour. I think that there is very good practice in a number of these areas in Wales, and we are building on that good practice. I think that the points that she and my colleague, the Member for Cardiff Central, made in respect of the pupil deprivation grant reflect the fact that it is an important element of the funding that we are giving, and the practice and guidance that we are providing to schools around that grant are also important. I was very pleased to hear what my colleague, the Member for Cardiff Central, had to say about the way in which the pupil deprivation grant is being used in Cathays, which is a very good example.

Cododd fy nghydweithiwr, Chris Chapman, yr Aelod dros Gwm Cynon, nifer o faterion pwysig iawn o ran llythrennedd a rhifedd, ac am effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Hoffwn dalu teyrnged wirioneddol i'r gwaith y mae wedi'i wneud fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac i ddyfnder yr ymchwiliadau y maent wedi'u cynnal, yn enwedig yr un diweddaraf ar bresenoldeb ac ymddygiad. Credaf fod arfer da iawn yn bodoli mewn nifer o'r meysydd hyn yng Nghymru, ac rydym yn adeiladu ar yr arfer da hwnnw. Credaf fod y pwyntiau a wnaeth hi a’m cydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, am y grant amddifadedd disgyblion yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn elfen bwysig o'r cyllid yr ydym yn ei roi, a bod yr arfer a'r arweiniad yr ydym yn eu rhoi i ysgolion yn gysylltiedig â’r grant hwnnw hefyd yn bwysig. Roeddwn yn falch iawn o glywed yr hyn a ddywedodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, am y modd y mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio yn Cathays, sy'n enghraifft dda iawn.

My colleague, the Member for Llanelli, spoke specifically about the problems of 22 local education authorities. As he is well aware, we have commissioned work from Robert Hill, which will be with me in the next week or so. I have had some interim presentations on that work, and we will bring forward a statement to the Assembly before the summer recess on how we intend to take that work forward.

Siaradodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Lanelli, yn benodol am broblemau 22 o awdurdodau addysg lleol. Fel y mae’n gwybod yn iawn, rydym wedi comisiynu gwaith gan Robert Hill, a byddaf yn ei dderbyn yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf. Rwyf wedi cael rhai cyflwyniadau interim ar y gwaith hwnnw, a byddwn yn cyflwyno datganiad i'r Cynulliad cyn toriad yr haf am sut yr ydym yn bwriadu datblygu'r gwaith hwnnw.

We have set out a number of initiatives to give support to what goes on in the most important place, which is, of course, the classroom. That includes a more robust, high-quality and consistent induction process for newly qualified teachers; introducing the Masters in educational practice qualification this year; launching the new online resources on Learning Wales, with examples of best practice in teaching and the high-quality content now also available on Hwb; introducing revised performance management to bring greater rigour and consistency; and, of course, we have commissioned a review of the quality and consistency of teaching, training and assessment in initial teacher training. All of these things are important.

Rydym wedi nodi nifer o fentrau i gefnogi’r hyn sy'n digwydd yn y man pwysicaf, sef, wrth gwrs, yr ystafell ddosbarth. Mae hynny'n cynnwys cyflwyno proses ymsefydlu fwy cadarn, o safon uwch a mwy cyson i athrawon sydd newydd gymhwyso; cyflwyno'r cymhwyster Meistr mewn ymarfer addysgol eleni; lansio'r adnoddau ar-lein newydd ar Dysgu Cymru, gydag enghreifftiau o arfer gorau mewn addysgu a’r cynnwys o ansawdd uchel sydd bellach hefyd ar gael ar Hwb; diwygio’r drefn rheoli perfformiad i’w gwneud yn fwy trylwyr a chyson; ac, wrth gwrs, rydym wedi comisiynu adolygiad o ansawdd a chysondeb addysgu, hyfforddi ac asesu mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae pob un o'r pethau hyn yn bwysig.

Our new literacy and numeracy framework, which has been widely welcomed by the entire sector, is supported by a £7 million national support programme, offering additional specialist support.

Caiff ein fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd, sydd wedi cael croeso eang gan y sector cyfan, ei ategu gan raglen gymorth genedlaethol gwerth £7 miliwn, sy’n cynnig cymorth arbenigol ychwanegol.

My colleague, the Member for Cynon Valley, asked about lead practitioner schools. Leadership is an important part of our implementation plan. A number of schools have applied to be lead practitioner schools in the secondary and primary sectors, I am pleased to say. A number have been selected, and they will work with emerging schools to develop that good practice. We have adopted a new and more rigorous approach to the national professional qualification for headship, which will provide a robust qualification in the future. As I said yesterday, we will be looking to establish a leadership development board alongside that. Therefore, many specific activities are under way to drive up performance in the Welsh education system.

Gofynnodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, am ysgolion sy’n ymarferwyr arweiniol. Mae arweinyddiaeth yn rhan bwysig o'n cynllun gweithredu. Mae’n bleser gennyf ddweud bod nifer o ysgolion wedi gwneud cais i fod yn ysgolion sy’n ymarferwyr arweiniol yn y sectorau uwchradd a chynradd. Mae nifer wedi cael eu dethol, a byddant yn cydweithio ag ysgolion sy'n gwella i ddatblygu’r arferion da hynny. Rydym wedi mabwysiadu dull newydd a mwy trwyadl ar gyfer y cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer prifathrawiaeth, a fydd yn gymhwyster cadarn yn y dyfodol. Fel y dywedais ddoe, ein bwriad fydd sefydlu bwrdd datblygu arweinyddiaeth ochr yn ochr â hynny. Felly, mae llawer o weithgareddau penodol ar y gweill i wella perfformiad yn system addysg Cymru.

The Liberal Democrats' spokesperson referred to Sir Michael Barber. Sir Michael Barber has not been an adviser to the Welsh Government for the last two to three years, contrary to what he said. He gave advice in January 2010, during my first month in post, and he came yesterday to review the progress that we have made in Wales. He gave examples of international performance that he has seen, and he was very positive about the developments that we have made in Wales over the last two to three years.

Cyfeiriodd llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol at Syr Michael Barber. Nid yw Syr Michael Barber wedi bod yn cynghori Llywodraeth Cymru yn y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf, yn groes i'r hyn a ddywedodd. Rhoddodd gyngor ym mis Ionawr 2010, yn ystod fy mis cyntaf yn fy swydd, a daeth ddoe i adolygu'r camau yr ydym wedi'u cymryd yng Nghymru. Rhoddodd enghreifftiau o berfformiad rhyngwladol y mae wedi'i weld, ac roedd yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r datblygiadau yr ydym wedi'u gwneud yng Nghymru dros y ddwy i dair blynedd ddiwethaf.

We will support amendments 1, 2, 3, 4, 6, 7 and 11, and oppose the others. I believe that this is an excellent report from the chief inspector, and it is a wholly independent report.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1, 2, 3, 4, 6, 7 ac 11, ac yn gwrthwynebu'r lleill. Credaf fod hwn yn adroddiad ardderchog gan y prif arolygydd, ac mae'n adroddiad cwbl annibynnol.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 1 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is no objection, therefore amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36 Gorchymyn.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that there is no objection, therefore amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? I see that there is no objection, therefore amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 4 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? I see that there is objection. I defer all further voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Byddaf yn gohirio pob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Llais y Cleifion—Cryfhau Rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned

## The Patients' Voice—Strengthening the Role of Community Health Councils

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham, gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts. Tynnwyd gwelliant 7 yn ôl.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham, amendment 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts. Amendment 7 has been withdrawn.*

Cynnig NDM5193 Jane Hutt

Motion NDM5193 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned i ymgymryd â'u rôl yn y GIG yn yr unfed ganrif ar hugain.

Notes the proposals of the Welsh Government to transform, strengthen and empower Community Health Councils to undertake their role in the 21st Century NHS.

16:25

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford, i gynnig y cynnig.

I call on the Minister for Health, Mark Drakeford, to move the motion.

16:25

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Cynigiaf y cynnig

I move the motion.

Ddirprwy Lywydd, diolch yn fawr. Rwy'n hapus iawn bod fy nghyfle cyntaf i siarad yn y Cynulliad fel Gweinidog Iechyd yn canolbwyntio ar gynghorau iechyd cymuned. Rwyf wedi awgrymu sawl gwaith yn ystod cyfnod datganoli fod goroesiad cynghorau iechyd cymuned a'r ffaith eu bod wedi cael eu cryfhau yn 2003 yn cynrychioli carreg filltir gynnar yn natblygiad agwedd newydd tuag at greu polisi yma yng Nghymru.

Deputy Presiding Officer, thank you very much. I am very pleased that my first opportunity to speak in the Assembly as the Minister for Health is to concentrate on community health councils. I have suggested several times since devolution that the survival of community health councils and the fact that they were made more robust in 2003 represents an early milestone in the development of a new attitude towards the creation of policy in Wales.

Yn sgîl cyhoeddiad ymholiad Francis, roedd nifer o ofidiau ynghylch diflaniad cynghorau iechyd cymuned yn Lloegr, ac mae'r ddadl heddiw, ar y cyfan, yn pwysleisio'r manteision sydd gennym yng Nghymru o'u cadw yn rhan o wasanaethau iechyd. Mae'r ddadl yn gyfle hefyd i ni ddysgu gwersi dros gyfnod datganoli a sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn gwasanaethu pobl Cymru i'w llawn botensial.

In light of the Francis inquiry, a number of concerns about the disappearance of community health councils in England were highlighted, and today's debate, for the most part, has emphasised the advantages that we have in Wales after retaining them as part of our health service. The debate is also an opportunity for us to learn the lessons of the period since devolution and to ensure that the community health councils serve the people of Wales to their full potential.

The report that was published under the name of Professor Marcus Longley and his team began by saying that it is very likely that, having survived for 38 years, community health councils are now probably the longest lasting organisation in the history of the national health service. That report drew our attention to a whole series of strengths that CHCs bring to the NHS landscape here in Wales. The report also pointed to a number of areas where further improvements could be made; that is the purpose of this afternoon's debate. If we look at the 17 recommendations of the Longley review, there are a series of potential actions that flow from them. The Welsh Government has already consulted on those actions and, last week, Lesley Griffiths, as the Minister for health at the time, published those consultation responses.

Dechreuodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd dan enw'r Athro Marcus Longley a'i dîm, drwy ddweud ei bod yn debygol iawn, ar ôl goroesi am 38 mlynedd, mai cynghorau iechyd cymuned bellach yw'r sefydliad sydd wedi para hiraf yn hanes y gwasanaeth iechyd gwladol. Tynnodd yr adroddiad ein sylw at lawer iawn o gryfderau y mae'r cynghorau iechyd cymuned yn eu cyfrannu at dirwedd y GIG yma yng Nghymru. Tynnodd yr adroddiad hefyd sylw at nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach; dyna yw diben y ddadl y prynhawn yma. Os edrychwn ar yr 17 o argymhellion adolygiad Longley, mae cyfres o gamau gweithredu posibl sy'n deillio ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar y camau hynny a chyhoeddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog dros iechyd ar y pryd, yr ymatebion i'r ymgynghoriad yr wythnos diwethaf.

I hope that Assembly Members will have had some time to reflect on them, because today's debate is an important opportunity for us to share views on the overall direction that the report and its proposals sets out. Fundamental to them is a belief that there is a set of actions that can be taken to strengthen the operation of community health councils. They need a stronger centre to ensure that the work of every person on the front line of community health councils across Wales is focused on patients' needs.

Rwyf yn gobeithio y bydd Aelodau'r Cynulliad wedi cael rhywfaint o amser i fyfyrio arnynt, gan fod y ddadl heddiw yn gyfle pwysig inni rannu barn ar y cyfeiriad cyffredinol y mae'r adroddiad a'i gynigion yn ei nodi. Wrth wraidd y rhain mae cred fod set o gamau gweithredu y gellir eu cymryd i gryfhau gweithrediad cynghorau iechyd cymuned. Mae angen canol cryfach arnynt i sicrhau bod gwaith pawb sydd ar reng flaen cynghorau iechyd cymuned ledled Cymru yn canolbwyntio ar anghenion cleifion.

Through the Welsh Government, the public invests nearly £4 million every year in community health councils, with about 100 employees. The distribution of the funding between the councils is a matter for them as an essential part of their core independence, but that distribution has, of course, been a matter of debate and discussion. I know that the board of community health councils has commissioned an independent review of distribution and will be producing proposals for the future.

Drwy Lywodraeth Cymru, mae'r cyhoedd yn buddsoddi bron i £4 miliwn bob blwyddyn mewn cynghorau iechyd cymuned, a chaiff tua 100 o bobl eu cyflogi. Mater i'r cynghorau yw dosbarthiad y cyllid rhyngddynt ac mae hynny'n rhan hanfodol o'u hannibyniaeth graidd, ond mae'r dosbarthiad hwnnw, wrth gwrs, wedi bod yn destun dadl a thrafodaeth. Gwn fod bwrdd y cynghorau iechyd cymuned wedi comisiynu adolygiad annibynnol o ddosbarthu ac y bydd yn llunio cynigion ar gyfer y dyfodol.

Completing that work and extracting the maximum value from the money available for CHC work will need strong leadership. That is why the Welsh Government's proposals are to enhance the roles of the board of community health councils, its chair and its director.

Bydd yn rhaid wrth arweiniad cryf er mwyn cwblhau'r gwaith hwnnw a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith y cynghorau iechyd cymuned. Dyna pam y mae cynigion Llywodraeth Cymru'n ceisio gwella rôl bwrdd y cynghorau iechyd cymuned, ei gadeirydd a'i gyfarwyddwr.

CHCs are independent of each other, of health boards and of the Welsh Government, but they must work together cohesively and strategically across Wales to ensure that the voice of the health service users is fully heard, while achieving economies of scale and improving their overall efficiency.

Mae cynghorau iechyd cymuned yn annibynnol ar ei gilydd, ar fyrddau iechyd ac ar Lywodraeth Cymru, ond mae'n rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd yn gydlynol ac yn strategol ar draws Cymru i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau iechyd yn cael ei glywed yn llawn, a sicrhau ar yr un pryd y ceir arbedion maint a'u bod yn gweithio'n fwy effeithlon yn gyffredinol.

We need effective community health councils able to make their contribution to a health service evolving into what it will be expected to provide during the twenty-first century. Helping to make that happen is a cornerstone of the proposals that we are discussing this afternoon.

Mae angen cynghorau iechyd cymuned effeithiol arnom sy'n gallu gwneud eu cyfraniad i'r gwasanaeth iechyd wrth iddo ddatblygu o ran yr hyn y bydd disgwyl iddo ei ddarparu yn ystod yr unfed ganrif ar hugain. Mae helpu i wneud i hynny ddigwydd yn un o gonglfeini'r cynigion yr ydym yn eu trafod heddiw.

It is against that background that I want to turn briefly to a series of the more specific areas outlined in the Longley review. I will not be able to refer to them all, but I want to highlight some of the most significant. The advocacy service is an important part of community health council work in Wales. Many people expressed wide appreciation of this work during the review. They take up cases on behalf of those who either cannot or do not wish to do so themselves. An audit of advocacy services across Wales is currently being undertaken and will report in the summer. While CHCs already provide a high-quality service, I believe that they can do even better, especially to ensure a consistent approach, and we will be taking that forward.

Yn y cyd-destun hwnnw rwyf am droi yn fyr at gyfres o feysydd mwy penodol a amlinellwyd yn adolygiad Longley. Ni fyddaf yn gallu cyfeirio at bob un ohonynt, ond rwyf am dynnu sylw at rai o'r meysydd mwyaf arwyddocaol. Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn rhan bwysig o waith cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru. Dywedodd llawer o bobl yn ystod yr adolygiad eu bod yn gwerthfawrogi'r gwaith hwn yn fawr. Maent yn ymgymryd ag achosion ar ran y rhai hynny nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny drostynt eu hunain. Mae archwiliad o wasanaethau eiriolaeth ar draws Cymru'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yn adrodd yn yr haf. Mae cynghorau iechyd cymuned eisoes yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ond rwyf o'r farn y gallant wneud hyd yn oed yn well, yn enwedig o ran sicrhau ymagwedd gyson, a byddwn yn bwrw ymlaen â hynny.

16:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for taking an intervention. I raised with the First Minister recently the appointment of board members after 1 April. There has been some confusion around that. Are you able to clarify the position as to how the boards will man themselves, given the six-month delay that has been in place?

Diolch ichi, Weinidog, am dderbyn ymyriad. Codais gyda'r Prif Weinidog yn ddiweddar fater penodi aelodau'r bwrdd ar ôl 1 Ebrill. Bu peth dryswch ynghylch hynny. A allwch egluro'r sefyllfa o ran sut y bydd y byrddau yn eu staffio eu hunain, o ystyried yr oedi o chwe mis sydd wedi digwydd?

16:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the general matter of membership, I am very keen to ensure that the membership of CHCs represents the diverse communities in which we live. It has never been easy to recruit members, and the public appointments process can put people off. It is clear that a single approach does not fit the whole of Wales, and that local CHCs need to have more flexibility to put in place the structures that they need. I have asked for recommendations on this matter to be with me by May. I fully accept that the recruitment process needs to be speeded up and have made it clear that we will now fund ways in which this can be made to happen.

O ran mater cyffredinol yr aelodaeth, rwyf yn awyddus i sicrhau bod aelodaeth y cynghorau iechyd cymuned yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol lle'r ydym yn byw. Nid yw erioed wedi bod yn hawdd recriwtio aelodau, a gall y broses penodiadau cyhoeddus ddigalonni pobl. Mae'n amlwg nad oes un dull sy'n addas i Gymru gyfan, a bod angen rhoi mwy o hyblygrwydd i gynghorau iechyd cymuned lleol i osod y strwythurau sydd eu hangen arnynt. Rwyf wedi gofyn am argymhellion ar y mater hwn erbyn mis Mai. Derbyniaf yn llawn fod angen cyflymu'r broses recriwtio ac rwyf wedi ei gwneud yn glir y byddwn yn awr yn ariannu ffyrdd a fydd yn sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

In relation to the specific point that the leader of the opposition has raised about those current members of CHCs whose appointments need to be extended, it is the case that CHCs have not always provided the full information needed to make that happen. I hope that they are listening to this debate. I want that to happen and I have made it clear that I want letters to go out—I will sign those letters by the end of this week—making sure that those appointments are extended where that is the right thing to do.

O ran y pwynt penodol y mae arweinydd yr wrthblaid wedi'i godi am aelodau presennol y cynghorau iechyd cymuned y mae angen estyn eu penodiadau, mae'n wir nad yw cynghorau iechyd cymuned bob amser wedi darparu'r wybodaeth lawn sydd ei hangen i wneud i hynny ddigwydd. Rwyf yn gobeithio eu bod yn gwrando ar y ddadl hon. Rwyf am i hynny ddigwydd, ac rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod am i lythyrau gael eu hanfon—byddaf yn llofnodi'r llythyrau hynny erbyn diwedd yr wythnos hon—a fydd gwneud yn siŵr bod y penodiadau'n cael eu hestyn lle mae hynny'n beth priodol i'w wneud.

The consultation exercise that the Welsh Government undertook also exposed a debate about the naming of CHCs and of concerns that their independence might be blurred by the fact that they use the same name as their local health boards. It is, of course, essential that people know that CHCs are independent bodies. I have asked for further thought to be given to whether changing names will indeed strengthen that understanding of independence. If I am convinced of that case, we will move forward on that too.

Amlygodd y broses ymgynghori a gynhaliodd Llywodraeth Cymru ddadl hefyd am enwau'r cynghorau iechyd cymuned a phryderon y gallai'r ffaith eu bod yn defnyddio'r un enw â'u byrddau iechyd lleol beri nad yw eu hannibyniaeth yn glir. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, fod pobl yn gwybod bod cynghorau iechyd cymuned yn gyrff annibynnol. Rwyf wedi gofyn am ystyriaeth bellach i p'un a fydd newid enwau mewn gwirionedd yn cryfhau'r ddealltwriaeth o annibyniaeth. Os caf fy argyhoeddi yn hynny o beth, byddwn yn bwrw ymlaen â hynny hefyd.

There is another change that the Longley review proposed and that has met with general support in the consultation exercise. When community health councils were restructured in 2010, because there were uncertainties over whether the Powys health board and the local authority would form one body, separate CHCs were retained in the north and south of Powys. The review suggests that now is the right time to have one CHC covering the whole of the health board area. I intend to carry that proposal forward, but I will ensure that it is done in a way that is properly sensitive to local views and circumstances.

Cynigiwyd newid arall gan adolygiad Longley a gafodd gefnogaeth gyffredinol yn y broses ymgynghori. Pan gafodd y cynghorau iechyd cymuned eu had-drefnu yn 2010, oherwydd bod ansicrwydd a fyddai bwrdd iechyd Powys a'r awdurdod lleol yn ffurfio un corff, cadwyd cynghorau iechyd cymuned ar wahân yng ngogledd a de Powys. Mae'r adolygiad yn awgrymu mai nawr yw'r amser iawn i gael un cyngor iechyd cymuned sy'n cwmpasu ardal gyfan y bwrdd iechyd. Rwyf yn bwriadu symud y cynnig hwnnw ymlaen, ond byddaf yn sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd sy'n briodol sensitif i safbwyntiau ac amgylchiadau lleol.

Many of the proposals arising from the review can be implemented without the need for new legislation, and, in some areas, the board of the CHC has already started that work. Other areas, such as having one CHC to cover the whole of Powys, will need changes to regulations and I intend to lay these before the Assembly during the autumn. This afternoon's discussion is all about strengthening the role of community health councils, giving patients and other users a strong voice as an important part of securing the sort of health service that we want here in Wales. I look forward to hearing other Members' views about the best ways in which we can carry that forward.

Gellir rhoi llawer o'r cynigion sy'n codi o'r adolygiad ar waith heb fod angen deddfwriaeth newydd, ac, mewn rhai meysydd, mae bwrdd y cynghorau iechyd cymuned eisoes wedi dechrau'r gwaith hwnnw. Mewn meysydd eraill, megis cael un cyngor iechyd cymuned i Bowys gyfan, bydd angen newid y rheoliadau ac rwyf yn bwriadu dod â'r newidiadau hynny gerbron y Cynulliad yn ystod yr hydref. Mae trafodaeth y prynhawn yma'n ymwneud â chryfhau rôl y cynghorau iechyd cymuned, gan roi llais cryf i gleifion a defnyddwyr eraill fel rhan bwysig o sicrhau'r math o wasanaeth iechyd yr ydym am ei gael yma yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau eraill am y ffyrdd gorau o fwrw ymlaen â hynny.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Dileu 'i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned' a rhoi yn ei le 'ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn eu cynorthwyo'.*

*Delete 'to transform, strengthen and empower Community Health Councils' and insert 'for Community Health Councils to assist them'.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn credu mai aelodau'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned sydd yn y sefyllfa orau i benodi eu Cadeirydd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru.*

*Believes that members of the Board of Community Health Councils are best placed to appoint their Chair, rather than Welsh Ministers.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r canllawiau ynghylch rôl Cynghorau Iechyd Cymuned i fod yn 'llais i gleifion' yn y broses o ad-drefnu gwasanaethau.*

*Calls on the Welsh Government to clarify guidance on the role of Community Health Councils in providing the 'patients' voice' in the process of service reconfiguration.*

16:35

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

I will start my contribution to this afternoon's debate by welcoming Mark Drakeford to his new post as Minister for Health. It is a very welcome appointment, and I look forward to working with him in a positive way during his years at the helm of this very important brief in Welsh public life. I extend my hand to say to you, Mark, that we will work constructively with you during your tenure in post.

Rwyf am ddechrau fy nghyfraniad i'r ddadl y prynhawn yma drwy groesawu Mark Drakeford i'w swydd newydd fel Gweinidog Iechyd. Mae'n benodiad i'w groesawu'n fawr, ac edrychaf ymlaen at weithio gydag ef mewn ffordd gadarnhaol yn ystod ei flynyddoedd wrth lyw'r briff pwysig iawn hwn ym mywyd cyhoeddus Cymru. Estynnaf fy llaw a dweud wrthych, Mark, y byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda chi yn ystod eich cyfnod yn y swydd.

Turning to the subject matter of the debate, and the future of community health councils, the Minister is absolutely right: they are a longstanding feature of the Welsh NHS landscape. In fact, they are a critical component in ensuring that patients have a voice within the Welsh NHS. I also commend them for their excellent advocacy work, in terms of the work that they do on behalf of my constituents up in north Wales. So, I fully endorse recommendation 6 in Marcus Longley's report, on the need to expand that and to properly resource it for the future. It is important that, with £4 million of taxpayers' money being spent on these important community health council functions, they have the resources to be able to do that important advocacy work.

A throi at bwnc y ddadl, a dyfodol cynghorau iechyd cymuned, mae'r Gweinidog yn hollol gywir: maent yn nodwedd hirsefydlog o dirwedd y GIG yng Nghymru. Yn wir, maent yn elfen hollbwysig o sicrhau bod cleifion yn cael llais o fewn y GIG yng Nghymru. Rwyf hefyd yn eu canmol am eu gwaith eiriolaeth rhagorol, o ran y gwaith y maent yn ei wneud ar ran fy etholwyr i fyny yng ngogledd Cymru. Felly, rwyf yn llwyr gefnogi argymhelliad 6 yn adroddiad Marcus Longley, sef bod angen ehangu hynny a darparu adnoddau priodol ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig, gyda gwerth £4 miliwn o arian trethdalwyr yn cael ei wario ar swyddogaethau pwysig y cynghorau iechyd cymuned, fod ganddynt yr adnoddau i allu gwneud y gwaith eiriolaeth pwysig hwnnw.

I made reference to the need for CHCs to be the voice of patients, but I am a little concerned about their vocal cords having been damaged somewhat during the current reorganisation proposals. We know that one of the last acts of the former Minister for Health and Social Services in post was to write to the Hywel Dda Community Health Council, telling it that its voice was not to be heard effectively and that it needed to change its voice and articulate a different narrative on service change in its area. I wonder whether that is the right attitude for a Minister to take, given that the voice of patients and service users being heard is so important. Community health councils do not need to be cheerleaders, necessarily, for change, but they need to be critical friends of the NHS in the areas that they serve, so that there can be a proper dialogue between service users and those who deliver services to make sure that the needs of patients are fully understood and articulated to decision makers.

Rwyf wedi cyfeirio at yr angen i gynghorau iechyd cymuned fod yn llais i gleifion, ond rwyf braidd yn bryderus fod eu tannau lleisiol wedi eu niweidio ychydig yn ystod y cynigion ad-drefnu cyfredol. Rydym yn gwybod mai un o'r pethau diwethaf a wnaeth y cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y swydd oedd ysgrifennu at Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, yn dweud wrtho nad oedd ei lais yn cael ei glywed yn effeithiol a bod angen iddo newid ei lais a mynegi naratif gwahanol ar newid gwasanaethau yn ei ardal. Tybed ai dyna'r agwedd iawn i Weinidog ei chymryd, o ystyried ei bod mor bwysig sicrhau bod llais cleifion a defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei glywed. Nid oes angen i gynghorau iechyd cymuned o reidrwydd fod yn godwyr hwyl dros newid, ond mae angen iddynt fod yn ffrindiau beirniadol i'r GIG yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, er mwyn sicrhau y ceir deialog briodol rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu deall yn llawn ac yn cael eu cyfleu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

We will be supporting Plaid's amendment 4 and the Liberal Democrat's amendment 5 for the purpose of ensuring that this independent voice within the NHS is heard and in ensuring that people are properly equipped to fulfil their roles as members of community health councils. However, we will be rejecting the Government's proposal to move forward with recommendation 10 in Marcus Longley's report, which refers to the appointment of a chair and two of the non-executive members of the board of community health councils. We feel that there are too many political appointees in Wales already and that board members themselves are best placed to make the decision as to who is most competent among them to fulfil the role of chair. I very much hope that you will reconsider your position on that, as a new Minister in post, to see whether an alternative method can be taken forward to appoint chairs.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 4 Plaid Cymru a gwelliant 5 y Democratiaid Rhyddfrydol er mwyn sicrhau bod y llais annibynnol hwn o fewn y GIG yn cael ei glywed a sicrhau bod pobl yn cael eu paratoi'n briodol i gyflawni eu rolau fel aelodau o gynghorau iechyd cymuned. Fodd bynnag, byddwn yn gwrthod cynnig y Llywodraeth i fwrw ymlaen ag argymhelliad 10 yn adroddiad Marcus Longley, sy'n cyfeirio at benodi cadeirydd a dau o aelodau anweithredol bwrdd y cynghorau iechyd cymuned. Rydym o'r farn fod gormod o benodiadau gwleidyddol yng Nghymru eisoes ac mai aelodau'r bwrdd eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pwy yw'r mwyaf cymwys yn eu plith i gyflawni rôl y cadeirydd. Gobeithiaf yn fawr y byddwch yn ailystyried eich safbwynt ar hynny, fel Gweinidog newydd yn y swydd, i weld a ellir bwrw ymlaen â dull gwahanol o benodi cadeiryddion.

I welcome the Minister's comments regarding the name of community health councils. It is important that there is a clear distinction between community health councils and the local health boards for which they are watchdogs; that is not always clear to members of the public at present. We all know that many members of the public still refer to health boards as trusts and when you talk about the Betsi Cadwaladr or the Hywel Dda community health council, for example, they immediately think of their local health board. It is important that that distinction is made, and I look forward to engaging with you, Minister, to take forward recommendation 16 and to consider that in more detail.

Rwyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ynghylch enwau'r cynghorau iechyd cymuned. Mae'n bwysig bod gwahaniaeth clir rhwng y cynghorau iechyd cymuned a'r byrddau iechyd lleol y maent yn gyrff gwarchod iddynt; nid yw hynny bob amser yn glir i aelodau'r cyhoedd ar hyn o bryd. Rydym i gyd yn gwybod bod llawer o aelodau'r cyhoedd yn dal i gyfeirio at fyrddau iechyd fel ymddiriedolaethau a phan fyddwch yn siarad am Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr neu Hywel Dda, er enghraifft, maent yn meddwl yn syth am eu bwrdd iechyd lleol. Mae'n bwysig fod y gwahaniaeth yn glir, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi, Weinidog, i fwrw ymlaen ag argymhelliad 16 ac i ystyried hynny'n fwy manwl.

We recognise that CHCs have the potential to make a positive contribution. It is important that that independent role is maintained. We look forward to working with you to ensure that that is the case in the future. Diolch yn fawr.

Rydym yn cydnabod bod gan gynghorau iechyd cymuned botensial i wneud cyfraniad cadarnhaol. Mae'n bwysig fod y rôl annibynnol yn cael ei chynnal. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau bod hynny'n digwydd yn y dyfodol. Diolch yn fawr.

*Gwelliant 4—Jocelyn Davies*

*Amendment 4—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn llais annibynnol i gleifion.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that Community Health Councils are an independent voice for patients.*

16:40 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 4 yn enw Jocelyn Davies.

I move amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

Rwy'n teimlo bod angen y gwelliant hwn achos bod nifer o gwestiynau wedi codi am rôl y cynghorau iechyd cymuned yn sgîl y datblygiadau diweddaraf, yn enwedig ynglŷn â sut y dylai'r cynghorau iechyd cymuned adlewyrchu barn y cyhoedd, barn cleifion ac aelodau cynghorau iechyd cymuned lleol. Rydym wedi gweld gwrthryfel bron yn y gogledd wrth i'r cyhoedd, y cleifion a'r aelodau lleol deimlo nad oedd eu llais wedi cael ei glywed. Mae cwestiwn yn y fan hon ynglŷn â sut mae'r grym wedi ei ganoli o gwmpas grŵp reit fach ar y pwyllgor gwaith neu'r grŵp gweithredol ac yn benodol yn swyddi'r cadeirydd a'r prif swyddog. Ein profiad yn y gogledd yw eu bod mewn sefyllfa bwerus iawn. Nhw oedd yn cwrdd â swyddogion y bwrdd iechyd ac yn bwydo yn ôl i weddill aelodau'r cyngor iechyd cymuned, felly roedd ganddynt ddylanwad allweddol ar natur y drafodaeth yn y gogledd a'r canfyddiad o'r cynlluniau a oedd yn cael eu dwyn gerbron.

I feel that this is necessary because a number of questions have been raised about the role of the community health councils in light of recent developments, particularly in terms of how the CHCs should reflect the views of the public, of patients and of their members. We have almost seen an uprising in north Wales as patients and local members felt that their voice was not heard. There is a question here as to how power is centralised around a relatively small group on the executive and specifically on the role of the chair and chief officer. Our experience in north Wales was that they were in a very powerful position. They were the ones who met with health board officials before feeding back to other members of the CHC, so they had a key influence on the nature of the debate in north Wales and on the perception of the plans being brought forward.

Nid wyf yn siŵr pa mor addas yw hi bod cynghorau iechyd cymuned yn cael eu tynnu i mewn i ddadleuon or-dechnegol; nid arbenigwyr iechyd ydynt—lleygwyr ydynt yn aml. Wrth gwrs, mae angen dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa ond roeddwn yn nodi bod y cyn Weinidog wedi gofyn i Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, er enghraifft, gynnig datrysiadau amgen i'r hyn a oedd yn cael ei roi gerbron. Rwy'n meddwl bod hynny'n ddisgwyliad cwbl annheg.

I am not sure how appropriate it is that CHCs should be brought into overly technical debates; they are not health experts—they are very often lay people. Obviously, they need a thorough understanding of the situation but I noted that the former Minister asked Hywel Dda Community Health Council to offer alternative solutions to what had been proposed. I think that that is a wholly unfair expectation.

In the guidance for engagement and consultation on changes to health services, there is a section on objections by CHCs and it states that:

Yn y canllawiau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd, mae adran ar wrthwynebiadau gan gynghorau iechyd cymuned ac mae'n dweud:

'In referring a matter to the Minister, the CHC should make clear the grounds on which it has reached its conclusion.'

Wrth gyfeirio mater at y Gweinidog, dylai'r cyngor iechyd cymuned ei gwneud yn glir ar ba sail y daeth i'r casgliad hwnnw.

That is perfectly fair, but that is very different to demanding that the CHC must propose alternative solutions for providing safe and sustainable services to its local community. I think that that is wholly unfair, given the lack of specialisms and, particularly, the lack of resources that are available to those community health councils.

Mae hynny'n berffaith deg, ond mae'n wahanol iawn i fynnu bod yn rhaid i'r cyngor iechyd cymuned gynnig atebion amgen ar gyfer darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i'r gymuned leol. Credaf fod hynny'n hollol annheg, o ystyried y diffyg arbenigedd ac, yn arbennig, y diffyg adnoddau sydd ar gael i'r cynghorau iechyd cymuned hynny.

The proposals for strengthening the support that can be given to CHCs are therefore welcome, as long as they do not compromise their ability to remain independent. I join with Hywel Dda CHC, Diverse Cymru, the Royal College of Nursing and other respondents that were particularly worried about the proposal that the CHC board should be able to direct CHCs to take certain actions. It is essential that local community health councils reflect the views and concerns of their local population—I nearly said politicians. [Laughter.] I would be extremely concerned if their actions were directed in some way to prevent such activity.

I am also concerned at the prospect of the Welsh Government appointing the chairs. It is important that both the national leadership of the board arises from the views of the collective CHC membership and that the leadership is independent of, and seen to be robustly independent of, the Welsh Government. The proposals risk compromising this independence; Minister, you referred to the Francis report, which reaffirms the importance of independent organisations.

The Welsh Government has made CHCs an important part of service reconfiguration—some would say in the hope that they will approve plans for change so that Ministers can be protected from unpopular decisions. I think that it would be fair to say that CHC members have felt under pressure to rubber-stamp some of these changes. The CHC in north Wales has suffered in the popularity stakes, particularly for not referring neonatal changes to the Minister. However, Hywel Dda CHC's decision to refer the changes to the Minister led to the Minister telling it to reconsider. The Welsh Government's plans for changes for CHCs could be seen, in the above context, as wanting an organisation perceived to be independent to be able to approve changes without a Minister having to become involved. This would become increasingly significant if further reconfiguration were proposed in the future. We do not want a situation of the Welsh Government leaving any question marks over whether the CHC really is an independent voice for patients. I urge the Government to ensure that it uses this opportunity to make sure that the organisations truly are independent and are able to represent the concerns of patients not to be perceived as something that is there to manage dissent.

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn credu bod yn rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned chwarae rhan allweddol wrth fod yn llais cryf i gleifion a'r cyhoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o ad-drefnu GIG Cymru yn y dyfodol.*

Felly, mae'r cynigion ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth y gellir ei rhoi i gynghorau iechyd cymuned i'w croesawu, ar yr amod nad ydynt yn amharu ar eu gallu i aros yn annibynnol. Rwyf yn ymuno â Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, Diverse Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol ac ymatebwyr eraill a oedd yn arbennig o bryderus ynghylch y cynnig y dylai bwrdd y cynghorau iechyd cymuned allu cyfeirio cynghorau iechyd cymuned i gymryd camau penodol. Mae'n hollbwysig fod cynghorau iechyd cymuned lleol yn adlewyrchu barn a phryderon eu poblogaeth leol—bu bron i mi â dweud gwleidyddion. [Chwerthin.] Byddwn yn bryderus iawn pe byddai eu gweithredoedd yn cael eu cyfeirio mewn rhyw ffordd er mwyn atal gweithgaredd o'r fath.

Rwyf hefyd yn bryderus am y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru benodi'r cadeiryddion. Mae'n bwysig fod arweinyddiaeth genedlaethol y bwrdd yn deillio o farn aelodaeth y cyngorau iechyd cymuned gyda'i gilydd a bod yr arweinyddiaeth yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a'i bod yn cael ei gweld yn gwbl annibynnol arni. Gallai'r cynigion hyn beryglu'r annibyniaeth honno; Weinidog, cyfeiriasoch at adroddiad Francis, sy'n cadarnhau pwysigrwydd sefydliadau annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynghorau iechyd cymuned yn rhan bwysig o ad-drefnu gwasanaethau—byddai rhai yn dweud ei bod yn gobeithio mai nhw fydd yn cymeradwyo cynlluniau ar gyfer newid fel y gellir gwarchod Gweinidogion rhag penderfyniadau amhoblogaidd. Credaf y byddai'n deg dweud bod aelodau'r cynghorau iechyd cymuned wedi teimlo dan bwysau i roi sêl bendith i rai o'r newidiadau hyn. Mae'r cyngor iechyd cymuned yng ngogledd Cymru wedi dioddef yn y ras am boblogrwydd, yn enwedig oherwydd iddo beidio â chyfeirio newidiadau i wasanaethau newydd-anedig i'r Gweinidog. Fodd bynnag, pan benderfynodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda gyfeirio'r newidiadau i'r Gweinidog, dywedodd y Gweinidog wrtho am ailystyried. Yn y cyd-destun uchod, gellid ystyried bod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau i gynghorau iechyd cymuned yn fodd o sicrhau y gallai sefydliad, yr ystyrir ei fod yn annibynnol, gymeradwyo newidiadau heb i Weinidog orfod bod yn rhan o'r broses. Byddai hyn yn dod yn fwyfwy arwyddocaol pe bai ad-drefnu pellach yn cael ei gynnig yn y dyfodol. Nid ydym am fod mewn sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru'n gadael unrhyw farc cwestiwn o ran p'un a yw'r cyngor iechyd cymuned yn llais annibynnol mewn gwirionedd i gleifion. Galwaf ar y Llywodraeth i sicrhau ei bod yn defnyddio'r cyfle hwn i wneud yn siŵr fod y sefydliadau yn wirioneddol annibynnol ac yn gallu cynrychioli pryderon y cleifion ac na chânt eu gweld fel rhywbeth sydd yno i ymdrin ag anghydweld.

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Add new point at end of motion:*

*Believes that Community Health Councils must play a vital role in providing a strong voice for patients and the public and calls on the Welsh Government to ensure that Community Health Councils have the funding and training needed to engage effectively in the future reorganisation of NHS Wales.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Gymuned, yn seiliedig ar fodel yr Alban, er mwyn gwella rôl Cynghorau Iechyd Cymuned o ran sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol am ein GIG.*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Add new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to adopt National Standards on Community Engagement, based on the Scottish model, to improve the role of Community Health Councils in ensuring that the views of the public are properly taken into account in the future decisions about our NHS.*

16:45

**Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 5 and 6 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 5 a 6 yn enw Aled Roberts.

I begin my comments by also congratulating Mark Drakeford on his appointment to the Cabinet. The Health and Social Care Committee's loss is the Government's gain. Mark is probably better placed than most Members to fulfil this role. Indeed, it is somewhat ironic, Mark, that your first contribution here in your new role is on the issue of community health councils. As you alluded to, the decision by the then Labour Government in Westminster to abolish the CHCs in England, when it announced its NHS plan of 2000, came as a great surprise to all of us. You, in your particular role at that time as an adviser to the Minister for health, moved quickly to develop plans here in Wales to ensure that our CHCs were kept. I think that that was the right decision.

Rwyf innau hefyd am ddechrau fy sylwadau drwy longyfarch Mark Drakeford ar ei benodi i'r Cabinet. Mae colled y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn golygu bod y Llywodraeth ar ei hennill. Mae Mark yn ôl pob tebyg mewn gwell sefyllfa na'r rhan fwyaf o Aelodau i gyflawni'r rôl hon. Yn wir, mae braidd yn eironig, Mark, fod eich cyfraniad cyntaf yma yn eich rôl newydd yn ymwneud â chynghorau iechyd cymuned. Fel y soniasoch, roedd penderfyniad y Llywodraeth Lafur ar y pryd yn San Steffan i ddiddymu'r cynghorau iechyd cymuned yn Lloegr, pan gyhoeddodd gynllun y GIG yn 2000, yn syndod mawr i bob un ohonom. Aethoch ati ar fyrder, yn eich rôl ar y pryd fel ymgynghorydd i'r Gweinidog dros iechyd, i ddatblygu cynlluniau yma yng Nghymru i sicrhau bod ein cynghorau iechyd cymuned yn cael eu cadw. Rwyf yn credu mai dyna oedd y penderfyniad cywir.

However, it is appropriate now to look at the role of those organisations, whether they are indeed fit for purpose and whether they are constituted in such a way so that they can truly be the independent voice that reflects the patient's wishes, experiences, hopes and aspirations for NHS services in their own areas. They have an important role to play, but it is often a complex one that needs resources—not just financial resources, but resources within the organisation to carry out that complex role.

Fodd bynnag, mae'n briodol yn awr edrych ar rôl y sefydliadau hynny, p'un a ydynt yn addas at y diben mewn gwirionedd ac a yw'r ffordd y cânt eu ffurfio'n golygu y gallant mewn gwirionedd fod yn llais annibynnol sy'n adlewyrchu dymuniadau, profiadau, gobeithion a dyheadau'r cleifion ar gyfer gwasanaethau GIG yn eu hardaloedd eu hunain. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae, ond mae'n aml yn un gymhleth y mae angen adnoddau ar ei chyfer—nid dim ond adnoddau ariannol, ond adnoddau o fewn y sefydliad i gyflawni'r rôl gymhleth honno.

It struck home recently, when I was in a meeting with my own CHC representatives, when I saw the vast amount of work that was being placed upon them. They were being asked to help to organise consultations on some very local and specific plans for Powys local health board, while, at the same time, being asked to actively engage in the consultation processes in Hywel Dda and Betsi Cadwaladr health boards and the consultation process on the south Wales plan, given the fact that patients from Powys and Brecon and Radnorshire travel to services in all those areas. It was a nigh on impossible task for that organisation to respond adequately to all the demands that were being placed upon it.

Fe'm trawyd yn ddiweddar, pan oeddwn mewn cyfarfod â chynrychiolwyr fy nghyngor iechyd cymuned innau, pan welais faich enfawr y gwaith a oedd arnynt. Gofynnwyd iddynt helpu i drefnu ymgynghoriadau ar rai cynlluniau lleol a phenodol iawn ar gyfer bwrdd iechyd lleol Powys, ac ar yr un pryd, gofynnwyd iddynt gymryd rhan weithredol yn y prosesau ymgynghori ym myrddau iechyd Hywel Dda a Betsi Cadwaladr a'r broses ymgynghori ar gynllun de Cymru, oherwydd bod cleifion o Bowys a Brycheiniog a Sir Faesyfed yn teithio i gael gwasanaethau ym mhob un o'r ardaloedd hynny. Roedd yn dasg amhosibl bron i'r sefydliad ymateb yn ddigonol i'r holl alwadau oedd yn cael eu gosod arno.

Therefore, it needs to have the right financial resources. I note what the Minister says, that it is for the CHCs to decide upon it themselves, but we have to be satisfied whether the envelope that they are working within is appropriate for the demands that are being placed upon them. We also need to make sure that those engaged in the process have adequate training to fulfil what is a complex role.

Felly, mae angen iddo gael yr adnoddau ariannol cywir. Nodaf yr hyn a ddywed y Gweinidog, sef mai mater i'r cynghorau iechyd cymuned ei benderfynu drostynt eu hunain yw hyn, ond rhaid inni fod yn fodlon fod yr amlen y maent yn gweithio ynddi yn briodol ar gyfer y galwadau sy'n cael eu gosod arnynt. Mae angen inni hefyd wneud yn siŵr fod y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni'r rôl gymhleth hon.

I note the comments made by the Minister with regard to issues around filling vacancies on boards and having permanent members. It is a matter of regret, I believe, that we have ended up in a situation where people were appointed for one year—rightly so—because of potential changes, but that the Government has not been able, to date, to move forward and make some permanent arrangements. I appreciate that that is partly the responsibility of some CHCs not submitting information to the Government, but it is a matter of regret to me that we have reached a situation where bodies that are charged with such an important role do not have full and complete boards.

Nodaf y sylwadau a wnaed gan y Gweinidog mewn perthynas â materion yn ymwneud â llenwi swyddi gwag ar fyrddau a chael aelodau parhaol. Mae'n resyn, yn fy marn i, ein bod mewn sefyllfa lle'r oedd pobl yn cael eu penodi am flwyddyn—yn ddigon priodol—oherwydd newidiadau posibl, ond nad yw'r Llywodraeth wedi gallu, hyd yma, symud ymlaen a gwneud trefniadau parhaol. Rwyf yn sylweddoli bod hynny'n rhannol am na chyflwynodd rhai cynghorau iechyd cymuned wybodaeth i'r Llywodraeth, ond mae'n resyn gennyf ein bod wedi cyrraedd sefyllfa lle nad oes gan gyrff y mae iddynt rôl mor bwysig fyrddau llawn a chyflawn.

Liberal Democrat amendment 6 talks about some of the basic principles about public engagement. We have seen two CHCs—Hywel Dda and Betsi Cadwaladr—approach the task of engaging with their communities in very different ways. We might not like the decisions that some of the boards have come up with, or maybe even how the CHCs have reacted to them, but the fact that they have approached those consultation exercises in such fundamentally different ways suggests to me that we need to look again at how we support them in carrying out that function. I would draw the Government's attention to the national standards for community engagement that have been drawn up by the Scottish Government, which set out broad principles by which community engagement should take place. It is worth while looking at those standards and at whether we could incorporate them into Welsh Government policy to aid the CHCs with how they carry out their own community engagement, to avoid some of the issues that we have seen recently about dissatisfaction with the way in which CHCs, and certainly Betsi Cadwaladr CHC, have carried out some of their consultation exercises.

Mae gwelliant 6 y Democratiaid Rhyddfrydol yn sôn am rai o'r egwyddorion sylfaenol o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym wedi gweld dau gyngor iechyd cymuned—Hywel Dda a Betsi Cadwaladr—yn ymdrin ag ymgysylltu â'u cymunedau mewn ffyrdd gwahanol iawn. Efallai nad ydym yn hoffi'r penderfyniadau y mae rhai o'r byrddau wedi eu gwneud, nac efallai hyd yn oed y ffordd y mae'r cynghorau iechyd cymuned wedi ymateb iddynt, ond mae'r ffaith eu bod wedi ymdrin â'r prosesau ymgynghori mewn ffyrdd mor sylfaenol wahanol yn awgrymu i mi fod angen i ni edrych eto ar y ffordd yr ydym yn eu cefnogi wrth gyflawni'r swyddogaeth hon. Hoffwn dynnu sylw'r Llywodraeth at y safonau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a luniwyd gan Lywodraeth yr Alban, sy'n nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n werth edrych ar y safonau hynny ac ystyried a allem eu cynnwys ym mholisi Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r cynghorau iechyd cymuned o ran y ffordd y maent hwythau'n ymgysylltu â'r gymuned, er mwyn osgoi rhai o'r materion yr ydym wedi'u gweld yn ddiweddar ynghylch anfodlonrwydd â'r ffordd y mae'r cynghorau iechyd cymuned, ac yn sicr Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, wedi cynnal rhai o'u prosesau ymgynghori.

I welcomed very much what the Minister had to say about Powys, and his recognition of the sensitivities involved in the Powys situation and his desire to reflect those in any new organisation that comes forward. That is very much the feeling from the CHCs in Powys.

Roeddwn yn croesawu'n fawr yr hyn oedd gan y Gweinidog i'w ddweud am Bowys, a'i gydnabyddiaeth o'r materion sensitif sy'n ymwneud â sefyllfa Powys a'i awydd i adlewyrchu'r rheiny yn unrhyw sefydliad newydd sy'n datblygu. Dyna'n union yw teimlad y cynghorau iechyd cymuned ym Mhowys.

Finally, it is important, I believe, that CHCs do not just see their role as being one that comes to the fore when there is a formal consultation to be done. For me, the most important role for the CHC is an ongoing dialogue with and involvement in the community, that talks about their wishes and aspirations for the NHS in the future. It is too late just to leave it to times of consultation.

Yn olaf, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig nad yw cynghorau iechyd cymuned yn gweld eu rôl fel un nad yw ond yn dod yn amlwg pan fydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal. I mi, rôl bwysicaf y cynghorau iechyd cymuned yw deialog barhaus a chyfranogiad yn y gymuned, sy'n sôn am eu dymuniadau a'u dyheadau ar gyfer y GIG yn y dyfodol. Mae'n rhy hwyr gadael hyn at adegau o ymgynghori.

16:50 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to comment on the findings and recommendations, following Professor Longley's review of CHCs.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad yr Athro Longley o gynghorau iechyd cymuned.

Community health councils have a huge role to play in representing the interests of patients and the public in the NHS. Of course, as the Minister has mentioned, they were set up to ensure that the best services possible are delivered by local health boards and that patient concerns regarding these services are properly addressed. As has already been said, health boards are currently pursuing a reconfiguration agenda across Wales. Indeed, my local health board is looking to implement a series of highly controversial plans, including the closure of Withybush hospital's special care baby unit and the closure of Tenby and Pembroke Dock minor injuries units. Therefore, the role of community health councils is crucial in ensuring that, during times like these, the views of the people that the health board serves are fully represented. In the case of west Wales, I believe that the local community health council has been courageous and persistent in standing up for patients and the local community, originally by referring the health board's plans to the Minister for health, despite the referral being passed back to the CHC for further consideration. Quite simply, it has done exactly what it was meant to do: to take on board the views of the people of Pembrokeshire.

Mae gan gynghorau iechyd cymuned rôl enfawr i'w chwarae o ran cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y GIG. Wrth gwrs, fel y soniodd y Gweinidog, cawsant eu sefydlu i sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu gan fyrddau iechyd lleol a bod pryderon cleifion ynghylch y gwasanaethau hyn yn cael sylw priodol. Fel y dywedwyd eisoes, mae byrddau iechyd ar hyn o bryd yn mynd ar drywydd agenda ad-drefnu ar draws Cymru. Yn wir, mae fy mwrdd iechyd lleol innau'n awyddus i roi cyfres o gynlluniau dadleuol iawn ar waith, gan gynnwys cau uned babanod gofal arbennig ysbyty Llwyn Helyg a chau unedau mân anafiadau Dinbych-y-pysgod a Doc Penfro. Felly, mae rôl y cynghorau iechyd cymuned yn hanfodol er mwyn sicrhau, ar adegau fel hyn, fod safbwyntiau'r bobl y mae'r bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn cael eu cynrychioli'n llawn. Yn achos gorllewin Cymru, credaf fod y cyngor iechyd cymuned lleol wedi bod yn ddewr ac wedi dangos dyfalbarhad wrth sefyll dros gleifion a'r gymuned leol, yn wreiddiol drwy gyfeirio cynlluniau'r bwrdd iechyd at y Gweinidog dros iechyd, er i'r atgyfeiriad gael ei drosglwyddo'n ôl i'r cyngor iechyd cymuned i'w ystyried ymhellach. Yn syml iawn, mae wedi gwneud yn union yr hyn yr oedd i fod i'w wneud: ystyried safbwyntiau pobl Sir Benfro.

This leads me to our amendment 2, which looks to retain the independence of CHCs. I would urge the Minister to preserve the independence of community health councils. After all, they should be the patients' champions, there to speak up for local communities, not for the Government of the day. Indeed, the strength of the CHC lies in its independent status as a representative body of patients. The CHC must remain independent to maintain the trust of patients and the public. If it were not for Hywel Dda CHC's independence, maybe the local health board's proposals would not have been referred to the Minister for health in the first place.

Mae hyn yn fy arwain at welliant 2 sy'n ymwneud â chadw annibyniaeth cynghorau iechyd cymuned. Byddwn yn annog y Gweinidog i gadw annibyniaeth y cynghorau iechyd cymuned. Wedi'r cyfan, dylent fod yn eiriolwyr dros y cleifion, yno i siarad dros gymunedau lleol, nid dros Lywodraeth y dydd. Yn wir, mae cryfder y cyngor iechyd cymuned yn ei statws annibynnol fel corff cynrychioli cleifion. Mae'n rhaid i'r cyngor iechyd cymuned aros yn annibynnol er mwyn cynnal ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd. Oni bai am annibyniaeth Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, efallai na fyddai cynigion y bwrdd iechyd lleol wedi cael eu cyfeirio at y Gweinidog dros iechyd yn y lle cyntaf.

Passing the authority to appoint the chair of the board of community health councils to the Welsh Government also, in my opinion, begins to politicise the system. While I am not suggesting that the Welsh Government would exploit CHCs for its own agenda, allowing the board of community health councils to appoint a CHC chair would at least retain its independence.

Mae trosglwyddo awdurdod i benodi cadeirydd bwrdd y cynghorau iechyd cymuned i Lywodraeth Cymru hefyd, yn fy marn i, yn dechrau gwleidyddoli'r system. Er nad wyf yn awgrymu y byddai Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cynghorau iechyd cymuned at ddibenion ei hagenda ei hun, byddai caniatáu i fwrdd y cynghorau iechyd cymuned benodi cadeirydd cyngor iechyd cymuned o leiaf yn cadw ei annibyniaeth.

Secondly, I would like to raise the issue of my own CHC's geography and the potential impact of some of these recommendations. For example, recommendation 14 looks at minimising the bureaucratic burdens of separate local committees. In theory, this principle makes a lot of sense and while I very much believe that it is admirable to attempt to reduce bureaucratic burdens, there are potential risks associated with moving away from local committees, especially in large geographical areas such as Hywel Dda. In many cases, local committees provide the best forum to capture local experience and knowledge from members, and their importance needs to be valued. Hywel Dda Local Health Board is organised around county teams and, as I understand it, the current CHC locality committees generally maintain good working relationships with county directors. I am sure that Members will agree that this is especially important for overview, monitoring and visits, and that it also provides an appropriate forum for addressing the smaller operational concerns that arise from one month to the next. I accept that, perhaps in areas like Cardiff and Vale, a movement away from local committees would be much easier to facilitate; however, given the rurality of west Wales and the poor transport network in the area, it is imperative, I think, to see the local committees continuing to exist as they currently do.

Yn ail, hoffwn godi mater daearyddiaeth fy nghyngor iechyd cymuned fy hun ac effaith bosibl rhai o'r argymhellion hyn. Er enghraifft, mae argymhelliad 14 yn edrych ar leihau beichiau biwrocrataidd pwyllgorau lleol ar wahân. Yn ddamcaniaethol, mae'r egwyddor hon yn gwneud llawer o synnwyr ac er fy mod yn credu'n gryf ei bod yn beth rhagorol ceisio lleihau beichiau biwrocrataidd, mae risgiau posibl yn gysylltiedig â symud oddi wrth bwyllgorau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol mawr fel Hywel Dda. Yn aml iawn, y pwyllgorau lleol yw'r fforwm gorau ar gyfer manteisio ar brofiad a gwybodaeth leol aelodau, ac mae angen rhoi gwerth ar eu pwysigrwydd. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cael ei drefnu'n dimau sir ac, fel y deallaf, mae pwyllgorau ardal cyfredol y cynghorau iechyd cymuned at ei gilydd yn cynnal perthynas waith dda gyda chyfarwyddwyr sirol. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod hyn yn arbennig o bwysig o ran bwrw trosolwg, monitro ac ymweliadau, a'i fod hefyd yn darparu fforwm priodol ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon gweithredol llai sy'n codi o fis i fis. Rwyf yn derbyn, efallai, mewn ardaloedd fel Caerdydd a'r Fro, y byddai symud oddi wrth bwyllgorau lleol yn llawer haws i'w hwyluso; fodd bynnag, o ystyried natur wledig gorllewin Cymru a'r rhwydwaith trafnidiaeth gwael yn yr ardal, mae'n hanfodol, yn fy marn i, fod y pwyllgorau lleol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

I would also like to talk about recommendation 16, which considers changing community health council names. I believe that this would be a very good thing, as there may be a public perception that the local CHC may be a branch of the local health board, as the names of both are in reference to the area that they represent and serve. Marcus Longley is therefore correct to highlight that confusion can arise from CHCs sharing the name of their local health board. I am sure that a future name change would help the public properly to identify CHC functions and that it would further emphasise its independence. I am therefore pleased that the Minister is going to give this recommendation further thought and consideration, and I hope that he will adopt this particular proposal.

Hoffwn hefyd siarad am argymhelliad 16, sy'n ystyried newid enwau cynghorau iechyd cymuned. Rwyf yn credu y byddai hyn yn beth da iawn, gan y gall fod canfyddiad gan y cyhoedd fod y cyngor iechyd cymuned lleol yn gangen o'r bwrdd iechyd lleol, gan fod enwau'r ddau'n cyfeirio at yr ardal y maent yn ei chynrychioli ac yn ei gwasanaethu. Mae Marcus Longley felly'n gywir i dynnu sylw at y dryswch a all godi pan fydd cynghorau iechyd cymuned yn rhannu enw eu bwrdd iechyd lleol. Rwyf yn siŵr y byddai newid enw yn y dyfodol yn helpu'r cyhoedd i wybod beth yw swyddogaethau'r cyngor iechyd cymuned ac y byddai'n pwysleisio ei annibyniaeth ymhellach. Rwyf yn falch, felly, fod y Gweinidog yn mynd i feddwl am yr argymhelliad hwn a'i ystyried ymhellach, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn mabwysiadu'r cynnig penodol hwn.

In closing, I look forward to seeing some of Professor Longley's recommendations being introduced, but it is important that the fundamental function of a community health council as a patient watchdog is not compromised by any changes. Above all else, CHCs much remain independent so that they are in the best possible position to represent the interests of local people.

Wrth gloi, edrychaf ymlaen at weld rhai o argymhellion yr Athro Longley yn cael eu cyflwyno, ond mae'n bwysig na pheryglir swyddogaeth sylfaenol cyngor iechyd cymuned fel corff gwarchod cleifion yn sgîl unrhyw newidiadau. Yn anad dim arall, rhaid i gynghorau iechyd cymuned aros yn annibynnol er mwyn iddynt fod yn y sefyllfa orau bosibl i gynrychioli buddiannau pobl leol.

16:55 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I just start by adding my congratulations to Mark Drakeford on his appointment as Minister for Health? Mark has been a first-class Chair of the Health and Social Care Committee and I am very much looking forward to working with him as we face up to a whole range of challenges in the health service.

A gaf i ddechrau drwy ychwanegu fy llongyfarchiadau i Mark Drakeford ar ei benodiad fel Gweinidog Iechyd? Mae Mark wedi bod yn gadeirydd o'r radd flaenaf ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gydag ef wrth inni wynebu amryw helaeth o heriau yn y gwasanaeth iechyd.

This is clearly an opportune moment to be discussing the future shape of community health councils in Wales, not just because we are entering a period of major reconfiguration, but as today's amendments reflect, CHCs clearly have an important yet potentially very difficult role to play in that process. Even more significantly, for me at least, it is timely because we are still taking stock of the fallout from the inquiry at the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust, and the collective failure there over many years to recognise the deep-seated professional, organisational and cultural shortcomings that cost so many lives and have done such tremendous reputational damage to the NHS. It is worth highlighting one line from the Mid Staffs report, which among its many findings concluded that,

Dyma adeg amserol, wrth reswm, i drafod ffurf cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru yn y dyfodol, nid dim ond am ein bod yn cychwyn ar gyfnod o ad-drefnu mawr, ond fel y mae gwelliannau heddiw yn ei adlewyrchu, mae gan gynghorau iechyd cymuned yn amlwg rôl bwysig ond un a allai fod yn anodd iawn yn y broses honno. Hyd yn oed yn fwy arwyddocaol, i mi o leiaf, mae'n amserol oherwydd ein bod yn dal i bwyso a mesur canlyniadau'r ymchwiliad i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, a'r methiant casgliadol yno dros flynyddoedd lawer i gydnabod y diffygion proffesiynol, cyfundrefnol a diwylliannol dwfn a gostiodd gynifer o fywydau ac a wnaeth gymaint o niwed i enw da'r GIG. Mae'n werth tynnu sylw at un llinell o adroddiad Canol Swydd Stafford, sydd ymhlith ei ganfyddiadau lawer yn dod i'r casgliad bod

'Community Health Councils (CHCs) were almost invariably compared favourably in the evidence with the structures which succeeded them',

cynghorau iechyd cymuned bron yn ddieithriad yn cymharu'n ffafriol yn ôl y dystiolaeth â'r strwythurau a'u holynodd,

structures that,

strwythurau sydd,

'failed to produce an improved voice for patients and the public, but achieved the opposite'.

wedi methu â sicrhau llais gwell i gleifion a'r cyhoedd, ond wedi cyflawni'r gwrthwyneb.

While a strong community health council presence may not have prevented those appalling events at Mid Staffs, for me it serves to vindicate that decision to maintain CHCs in Wales when they were scrapped in England over a decade ago. Indeed, in the light of that conclusion, the starting point of this debate must surely be that CHCs remain the most effective channel for the patient voice in Wales.

Er efallai na fyddai presenoldeb cyngor iechyd cymuned cryf wedi atal y digwyddiadau gwarthus hynny yng Nghanol Swydd Stafford, i mi mae'n cyfiawnhau'r penderfyniad i gadw'r cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru pan gawsant eu diddymu yn Lloegr dros ddegawd yn ôl. Yn wir, yn sgîl y casgliad hwn, oni ddylai'r ffaith mai'r cynghorau iechyd cymuned yw'r sianel fwyaf effeithiol ar gyfer llais y claf yng Nghymru o hyd fod yn fan cychwyn i'r ddadl hon heddiw?

I have to say that my own experience of working with Aneurin Bevan Community Health Council in recent years has been overwhelmingly positive. It has taken on a number of complex cases that I have referred to it where I have needed its involvement and the level of expertise that it can bring when acting on behalf of patients, particularly those struggling to gain access to treatments for cancer, for instance. I have also worked collaboratively with it in the past on a more proactive basis—for example, on a survey of local maternity services, which it undertook at my suggestion the summer before last. On a more basic level, I have always found it helpful and reassuring to know that I can turn to the CHC when potentially worrying trends start appearing in my casework, or when problems begin to emerge in a particular speciality or at a ward or department within a hospital. I was pleased to see that synergy apparent within its current programme of activity, which shows that it has just completed a significant piece of work on the provision of NHS dentistry locally. This was an issue that was raised with me time and again by constituents towards the end of last year, and CHC intervention has led directly to the health board increasing investment and building capacity locally, which is very welcome.

Rhaid imi ddweud bod fy mhrofiad o weithio gyda Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae wedi ymdrin â nifer o achosion cymhleth yr wyf wedi eu cyfeirio ato lle bu cyfraniad y cyngor a lefel yr arbenigedd y gall ei ddarparu wrth weithredu ar ran cleifion yn hollbwysig i mi, ac yn enwedig felly'r cleifion hynny sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar driniaethau ar gyfer canser, er enghraifft. Rwyf hefyd wedi cydweithio â'r cyngor iechyd cymuned yn y gorffennol ar sail fwy rhagweithiol—er enghraifft, ar arolwg o wasanaethau mamolaeth lleol, a gynhaliwyd ganddo yn sgîl awgrym gennyf fi yr haf cyn diwethaf. Ar lefel fwy sylfaenol, mae bob amser wedi bod o gymorth imi ac yn galondid gwybod y gallaf droi at y cyngor iechyd cymuned pan fydd tueddiadau sy'n peri pryder yn dechrau ymddangos yn fy ngwaith achos, neu pan fydd problemau'n dechrau dod i'r amlwg mewn maes arbenigol penodol neu mewn ward neu adran o fewn ysbyty. Roeddwn yn falch o weld bod synergedd amlwg o fewn ei raglen gyfredol o weithgareddau, sy'n dangos ei fod newydd gwblhau darn sylweddol o waith ar ddarpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG yn lleol. Roedd hwn yn fater a godwyd gyda mi dro ar ôl tro gan etholwyr tua diwedd y llynedd, ac o ganlyniad uniongyrchol i ymyrraeth y cyngor iechyd cymuned mae'r bwrdd iechyd wedi buddsoddi mwy ac wedi meithrin gallu yn lleol, sydd i'w groesawu'n fawr.

Of course, I recognise that what may be true of the CHC in my patch may not be reflective of the situation in other parts of Wales, and I do not think that anyone, least of all the staff and CHC members themselves, would argue that there is not room for improvement within the current system. I believe that the review commissioned by the Welsh Government and conducted by the Welsh Institute for Health and Social Care provides us with that kind of clear blueprint for change that we need: a change that will help to ensure that CHCs are fit for purpose in the twenty-first century and ready to respond to the many complex challenges that we face. So, I agree, for example, that there is a very strong case for strengthening and clarifying the role of the board of community health councils so that it can better provide that national voice for patients on health policy and its delivery on the ground. I am also supportive of moves towards a more consistent, outcome-focused and proactive approach to working on the part of individual CHCs, driven by that strengthened national board, building on the kind of excellent practice that I have spoken about at Aneurin Bevan, and provided we are careful to avoid the toxic approach to targets that was so heavily criticised in relation to Mid Staffs.

Wrth gwrs, rwyf yn cydnabod na fydd yr hyn a all fod yn wir am y cyngor iechyd cymuned yn fy ardal i efallai yn adlewyrchiad o'r sefyllfa mewn rhannau eraill o Gymru, ac nid wyf yn meddwl y byddai unrhyw un, yn enwedig staff ac aelodau'r cynghorau iechyd cymuned eu hunain, yn dadlau nad oes lle i wella o fewn y system bresennol. Credaf fod yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi inni y math o lasbrint clir ar gyfer newid y mae ei angen arnom: newid a fydd yn helpu i sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn addas at y diben yn yr unfed ganrif ar hugain ac yn barod i ymateb i'r llu o heriau cymhleth sy'n ein hwynebu. Felly, rwyf yn cytuno, er enghraifft, fod achos cryf iawn dros gryfhau ac egluro rôl bwrdd y cynghorau iechyd cymuned fel y gall ddarparu llais cenedlaethol yn well i gleifion ar bolisi iechyd a'i ddarpariaeth ar lawr gwlad. Rwyf hefyd yn cefnogi symud tuag at ddull mwy cyson a rhagweithiol o weithio gan y cynghorau iechyd cymuned unigol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'i yrru gan y bwrdd cenedlaethol cryfach hwnnw, ac yn adeiladu ar y math o arfer ardderchog yr wyf wedi siarad llawer amdano yn Aneurin Bevan, a bwrw ein bod yn gofalu ein bod yn osgoi'r ymagwedd wenwynllyd at dargedau a feirniadwyd mor llym mewn perthynas â Chanol Swydd Staffs.

Finally, I am also very sympathetic to the idea of changing the names of CHCs. I know that this might seem like a relatively trivial move, but I believe that it could make a real difference. I am sure that we have all seen the look of confusion on the faces of constituents when we have asked if they are happy for their case to be referred to the community health council; they wonder why we are referring them back to either the health board or the local authority. For me, it would make a tremendous difference all round if community health councils had a name more akin to the vital role they play in our NHS—the patient's voice in the Welsh NHS.

Yn olaf, mae gennyf lawer o gydymdeimlad â'r syniad o newid enwau cynghorau iechyd cymuned. Gwn y gall hyn ymddangos yn rhywbeth cymharol ddibwys, ond credaf y gallai wneud gwahaniaeth go iawn. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd wedi gweld yr olwg ddryslyd ar wynebau etholwyr pan ofynnwn iddynt a ydynt yn fodlon i'w hachos gael ei gyfeirio at y cyngor iechyd cymuned; maent yn meddwl tybed pam ein bod yn eu cyfeirio yn ôl naill ai at y bwrdd iechyd neu at yr awdurdod lleol. I mi, byddai'n gwneud gwahaniaeth aruthrol drwyddi draw pe byddai gan gynghorau iechyd cymuned enw sy'n fwy cydnaws â'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae yn ein GIG—llais y claf yn y GIG yng Nghymru.

17:00

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf hefyd yn croesawu'r Gweinidog newydd i'w swydd ac yn dymuno'n dda iddo wrth iddo ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn. Ar ran Plaid Cymru, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gydweithio ag ef yn ei rôl newydd, er cymaint yw fy siom na fydd bellach yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I also welcome the new Minister to his role and wish him well as he undertakes this important work. On behalf of Plaid Cymru, I am looking forward to working with him in his new role, although I am disappointed that he will no longer be Chair of the Health and Social Care Committee.

Gan gyfeirio at y ddadl y prynhawn yma, o ran gwelliant Plaid Cymru, yr hyn rydym eisiau ei weld yn fwy na dim arall, a'r hyn rwyf yn credu bod pobl Cymru eisiau gweld, yw bod ein cynghorau iechyd yn llais annibynnol i gleifion yn lleol. Mae hynny'n arbennig o wir o ran eu rôl fel eiriolwr ar ran cleifion unigol a'u gwaith yn arolygu gwasanaethau lleol.

To refer to the debate this afternoon, in terms of the Plaid Cymru amendment, what we want to see above all, and what I think that the people of Wales want to see, is that our health councils are an independent voice for patients locally. That is particularly true with regard to their role as an advocate for individual patients and their work in overseeing local services.

Fel y soniodd Paul Davies yng nghyd-destun ardal wledig a chyngor iechyd gwledig, mae rôl y pwyllgorau lleol yn hollbwysig fel eiriolwr lleol ar gyfer cleifion unigol ac yn arolygu gwasanaethau yn lleol, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

As Paul Davies mentioned in the context of a rural area and a rural health council, the role of the local committees is vital as a local advocate for individual patients and in overseeing services locally, either in the hospital or in the community.

Wrth gwrs, rôl fwyaf cyfarwydd y cynghorau iechyd, yn enwedig yn ddiweddar, yw eu rôl wrth ymateb i argymhellion i newid gwasanaethau gan fyrddau iechyd. Wrth i'r cynghorau iechyd ymgymryd â'r rôl hon yn ardaloedd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda, mae'n hollbwysig eu bod yn annibynnol ar y bwrdd iechyd, ac yn cael eu gweld i fod felly.

Of course, the most familiar role of the health councils, particularly recently, is their role in responding to recommendations to change services by health boards. As the health councils undertake this role in the Betsi Cadwaladr and Hywel Dda areas, it is vital that they are independent of the health board, and are seen to be such.

Cyfeiriaf at enwau'r cynghorau iechyd, gan fod siaradwyr eraill hefyd wedi ei wneud. Rwy'n cytuno bod yr enwau presennol siŵr o fod yn arwain at rywfaint o gymhlethdod. Os bydd y Gweinidog yn edrych ar newid enwau'r cynghorau iechyd yn y gwahanol ardaloedd, gallai, o bosibl, ystyried rhoi enwau daearyddol, yn hytrach nag enwau pobl, i'r cynghorau iechyd yn y dyfodol.

I will refer to the names of health councils, seeing as other speakers have done so. I agree that the current names probably do lead to some confusion. If the Minister is going to look at changing the names of health councils in different areas, perhaps he could consider giving geographical names, rather than people's names, to the health councils in future.

Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cyrraedd sefyllfa lle mae'r cynghorau iechyd yn gwbl annibynnol—yn ddigon annibynnol i leisio barn statudol yn erbyn unrhyw newid gwasanaeth gan fwrdd iechyd, ond hefyd yn ddigon annibynnol i beidio â theimlo pwysau lleol i wrthwynebu pob argymhelliad gan y bwrdd iechyd lleol.

What is important is that we reach a position whereby the health councils are completely independent—sufficiently independent to voice a statutory opinion against any change in service by a health board, but also sufficiently independent so as not to feel local pressure to oppose every recommendation by the health board.

Mae un o argymhellion yr adroddiad yn nodi bod eisiau i'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned cenedlaethol weithio'n agosach gyda'r NHS Confederation. I mi, mae hynny'n rhyfedd. Mae'n swnio braidd yn gyfyng gan fod cyfres o gyrff cenedlaethol y dylai'r bwrdd cenedlaethol fod yn gweithio â hwy: y cyrff sy'n cynrychioli'r gweithlu—yr RCN a'r BMA—y ddeoniaeth a'r colegau brenhinol, er enghraifft. Ni fyddwn eisiau i'r bwrdd cenedlaethol gydweithio â'r NHS Confederation yn unig. Hoffwn glywed fod y Gweinidog yn barod i edrych yn fwy eang ar y berthynas honno o ran cydweithio.

One of the recommendations in the report notes that the national Board of Community Health Councils needs to work more closely with the NHS Confederation. To me, that is strange. It sounds a bit restrictive because there is a series of national bodies that the national board should be working with: the bodies that represent the workforce—the RCN and the BMA—the deanery and the royal colleges, for example. I would not want the national board to work with the NHS Confederation only. I would like to hear that the Minister is willing to look more widely at that relationship in terms of collaboration.

Yn fy marn i, ar y lefel leol mae gwaith y cynghorau iechyd ar ei bwysicaf a chryfaf. Cawsom ein hatgoffa'r wythnos diwethaf, yn y ddadl ar adroddiad Francis, o'r rôl bwysig sydd gan gorff lleol annibynnol i'w chwarae ar ran cleifion sydd wedi cael gwasanaeth annerbyniol a'u teuluoedd. Felly, mae annibyniaeth yn bwysig, ac mae'r gwelliant yn enw Aled Roberts sy'n sôn am gyllid a hyfforddiant digonol i gynghorau iechyd hefyd yn bwysig. Rydym yn disgwyl i gynghorau iechyd fod yn fwy agored ac atebol i bobl yn lleol, ac mae angen adnoddau i wneud hynny. Mae'r adroddiad yn cyfeirio, er enghraifft, at ddefnydd technoleg gwybodaeth y cynghorau iechyd a darparu mwy o wybodaeth ar y we. Mae angen adnoddau cyhoeddus i ganiatáu i hynny ddigwydd.

In my opinion, it is at the local level that the work of the health councils is at its most important and strongest. We were reminded last week, in the debate on the Francis report, of the important role that independent local bodies have to play on behalf of patients who have received unacceptable services and their families. Therefore, independence is important, and the amendment in the name of Aled Roberts that mentions funding and adequate training for health councils is also important. We expect health councils to be more open and accountable to people locally, and resources are needed to do that. The report refers, for example, to the use of information technology by health councils and providing more information on the internet. Public funds are needed to allow that to happen.

Yn olaf, hoffwn gyfeirio at syniad da a glywsom o'r meinciau cefn yr wythnos diwethaf ynglŷn ag annibyniaeth apwyntiadau cyhoeddus a chadeiryddion byrddau iechyd. Clywsom ddadl arbennig o'r meinciau cefn yn sôn am wrandawiadau cyhoeddus ar gyfer apwyntiadau cyhoeddus, a'r syniad, o bosibl, y gellid rhoi rôl, er mwyn sicrhau annibyniaeth cynghorau iechyd, i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad gynnal gwrandawiad cyhoeddus ar apwyntiadau cyhoeddus, fel cadeiryddion y cynghorau iechyd, er mwyn cadarnhau eu hannibyniaeth.

Finally, I would like to refer to a good idea that we heard from the backbenches last week with regard to the independence of public appointments and chairs of health boards. We heard a particular argument from the backbenches that talked about public hearings for public appointments, and the idea, possibly, that there could be a role, in order to ensure the independence of health councils, for the Assembly's Health and Social Care Committee in relation to public appointments, such as chairs of health councils, in order to confirm their independence.

17:05 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In also congratulating Mark Drakeford on his appointment as the new Minister for Health, I must thank him for his statement pledging to see through the controversial reorganisation of health services and hospitals across Wales and to bring the process to a conclusion, because, in so doing, he has removed any pretence that the responsibility lies with health boards rather than the Welsh Government's policy. This reorganisation has attracted huge opposition, and the patient's voice should be heard, yet this Welsh Government follows the pattern set by its predecessors in proposing changes that could be used to further community health council compliance with Welsh Government policy.

Hoffwn innau hefyd longyfarch Mark Drakeford ar ei benodi'n Weinidog Iechyd newydd, a rhaid imi ddiolch iddo am ei ddatganiad yn addo goruchwylio'r ad-drefnu dadleuol ar wasanaethau iechyd ac ysbytai ledled Cymru a chau pen y mwdwm ar y broses, oherwydd, wrth wneud hynny, mae wedi cael gwared ar unrhyw esgus mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd yw hynny yn hytrach na pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r ad-drefnu wedi ennyn gwrthwynebiad mawr, a dylai llais y claf gael ei glywed, ac eto mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y patrwm a osodwyd gan ei rhagflaenwyr o ran cynnig newidiadau y gellid eu defnyddio i sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn cydymffurfio ymhellach â pholisi Llywodraeth Cymru.

Community health councils had been protecting patients' rights in the NHS for over 28 years when the UK Labour Government abolished the Association of Community Health Councils for England and Wales, and all English community health councils, on 1 December 2003. To its credit, the Welsh Government kept them in Wales. However, to its discredit, it has sought to tame and control them ever since. Speaking here in April 2010, I stated that the Welsh Government had compromised the patient's voice through a micromanaged reorganisation of community health councils. The then Minister for health's dismissal of concerns raised by community health councils left them feeling 'frustrated, disappointed and downright angry'. At the time, community health councils in north Wales advised that the Minister's changes would seriously inhibit the ability of community health councils to represent patients and scrutinise local NHS services.

Mae cynghorau iechyd cymuned wedi bod yn diogelu hawliau cleifion yn y GIG ers dros 28 mlynedd pan ddiddymodd Llywodraeth Lafur y DU Gymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Lloegr, a phob cyngor cymuned iechyd yn Lloegr, ar 1 Rhagfyr 2003. Er clod iddi, mae Llywodraeth Cymru wedi eu cadw yng Nghymru. Fodd bynnag, er anghlod iddi, mae wedi ceisio eu dofi a'u rheoli byth ers hynny. Wrth siarad yma ym mis Ebrill 2010, dywedais fod Llywodraeth Cymru wedi gwanhau llais y claf trwy ad-drefnu meicroreoledig ar gynghorau iechyd cymuned. Diystyrodd y Gweinidog dros iechyd ar y pryd bryderon a godwyd gan y cynghorau iechyd cymuned, ac oherwydd hynny roeddent yn teimlo'n rhwystredig, yn siomedig ac yn ddig dros ben. Ar y pryd, dywedodd cynghorau iechyd cymuned yng ngogledd Cymru y byddai newidiadau'r Gweinidog yn amharu'n ddifrifol ar allu cynghorau iechyd cymuned i gynrychioli cleifion a chraffu ar wasanaethau lleol y GIG.

I also quoted responses by applicants to the senior roles in the new community health councils, into which I had been copied, which included such statements as:

Dyfynnais hefyd ymatebion gan ymgeiswyr i'r rolau uwch yn y cynghorau iechyd cymuned newydd, yr oeddwn wedi cael copi ohonynt, a oedd yn cynnwys datganiadau megis:

'the most unpleasant experience of my whole life…I've never been made to feel so uncomfortable… I felt intimidated…the whole experience has put me off volunteering for any organisation.'

y profiad mwyaf annifyr a gefais erioed… ni wnaethpwyd imi deimlo mor anghyfforddus erioed… roeddwn yn teimlo dan fygythiad ... mae'r profiad cyfan wedi fy nigalonni rhag gwirfoddoli ar gyfer unrhyw sefydliad.

To add insult to injury, the last Welsh Government, under this First Minister, scrapped the independent review forming the second stage of the complaints procedure, which ensured that complaints made by patients and relatives could be scrutinised properly. Speaking in the Assembly in March 2011, I stated that 'independent' is defined as something that is not influenced or controlled by others in matters of opinion and conduct, and not subject to another's authority or jurisdiction, or influenced by the thoughts or action of others. By definition, therefore, scrapping independent reviews threatens the opposite. I quoted the Association of Personal Injury Lawyers, which believed that those regulations represented a serious conflict of interest for NHS Wales. The association, a not-for-profit organisation, said that it was vital that any investigation was independent of the body under scrutiny. It added that the proposed new system did not appear to have independence, as the NHS would decide the level of complexity in every case, investigate each concern and then decide whether it was liable. It said that the potential for serious conflict of interest was obvious.

I roi halen ar y briw, cafodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru, o dan y Prif Weinidog hwn, wared ar yr adolygiad annibynnol a oedd yn ail gam i'r drefn gwyno, a oedd yn sicrhau bod modd craffu'n briodol ar gwynion gan gleifion a pherthnasau. Wrth siarad yn y Cynulliad ym mis Mawrth 2011, dywedais fod 'annibynnol' yn cael ei ddiffinio fel rhywbeth nad yw eraill yn dylanwadu arno nac yn ei reoli mewn materion o farn nac ymddygiad, ac nad yw'n ddarostyngedig i awdurdod neu awdurdodaeth un arall, ac nad yw syniadau neu weithredoedd pobl eraill yn dylanwadu arno. Yn ei hanfod, felly, mae cael gwared ar adolygiadau annibynnol yn bygwth y gwrthwyneb. Dyfynnais Gymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol, a oedd o'r farn fod y rheoliadau'n golygu y byddai gwrthdaro buddiannau difrifol ar gyfer GIG Cymru. Dywedodd y gymdeithas, sefydliad di- elw, ei bod yn hanfodol fod unrhyw ymchwiliad yn annibynnol ar y corff dan sylw. Ychwanegodd nad oedd yn ymddangos bod y system newydd arfaethedig yn annibynnol, gan mai'r GIG fyddai'n penderfynu ar lefel y cymhlethdod ym mhob achos, yn ymchwilio i bob pryder, ac yna'n penderfynu a oedd yn atebol. Dywedodd fod y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau difrifol yn amlwg.

The 35 independent reviewers based throughout Wales said that scrapping independent review was misplaced in principle and likely to lead to a much worse scenario for complainants about the NHS, adding that, given the demands that the NHS faced, this further change would be bad news for patients. Contrast this with the situation in England, where, in order to strengthen the collective voice of patients and public, the Health and Social Care Act 2012 made provision for the establishment of Healthwatch England as a new independent consumer champion and patient voice, supporting individuals who want to make a complaint and constantly challenging on behalf of local people.

Dywedodd y 35 o adolygwyr annibynnol ledled Cymru fod cael gwared ar adolygiadau annibynnol yn gyfeiliornus mewn egwyddor ac yn debygol o arwain at sefyllfa lawer gwaeth i achwynwyr am y GIG, gan ychwanegu, o ystyried y galwadau a oedd yn wynebu'r GIG, y byddai'r newid pellach hwn yn newyddion drwg i gleifion. Cymharwch hynny â'r sefyllfa yn Lloegr, lle gwnaeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, er mwyn cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd ar y cyd, ddarpariaeth ar gyfer sefydlu Healthwatch England fel eiriolwr annibynnol newydd i'r cleifion a llais i'r cleifion, i gefnogi unigolion sydd am wneud cwyn a herio'n gyson ar ran pobl leol.

When Hywel Dda Community Health Council wrote to the Welsh Government outlining its objections to its local health board's current proposals for changes to NHS services in its area, the previous Minister for health rejected the patient's voice and instead told the health council to resume its dialogue with the health board. After Betsi Cadwaladr Community Health Council's executive committee gave its support to unpopular proposals to change health services in north Wales, it faced the threat of a vote of no confidence by Denbighshire County Council and votes of no confidence from town councils, including Flint Town Council and Buckley Town Council. Only then did it write to the Minister for health setting out objections. Presumably, failure to achieve community health council compliance has led to the Welsh Government proposals now that could be used to bring them further into line. We seek assurances, but we also seek concrete measures to ensure that that cannot be the case.

Pan ysgrifennodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ei wrthwynebiadau i gynigion cyfredol ei fwrdd iechyd lleol ar gyfer newidiadau i wasanaethau'r GIG yn ei ardal, gwrthododd y Gweinidog blaenorol dros iechyd lais y claf a dywedodd yn hytrach wrth y cyngor iechyd am ailddechrau ei ddeialog â'r bwrdd iechyd. Ar ôl i bwyllgor gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr gefnogi'r cynigion amhoblogaidd i newid gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru, roedd yn wynebu bygythiad pleidlais o ddiffyg hyder gan Gyngor Sir Ddinbych a phleidleisiau o ddiffyg hyder gan gynghorau tref, gan gynnwys Cyngor Tref y Fflint a Chyngor Tref Bwcle. Dim ond bryd hynny yr ysgrifennodd at y Gweinidog dros iechyd yn nodi gwrthwynebiadau. Cymeraf felly mai methiant i sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned yn cydymffurfio sydd wedi arwain yn awr at gynigion Llywodraeth Cymru, y gellid eu defnyddio i wneud iddynt gydymffurfio. Rydym yn ceisio sicrwydd, ond rydym hefyd yn ceisio mesurau pendant i sicrhau na all hynny ddigwydd.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to reply to the debate.

17:10 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Running right through this afternoon's debate have been contributions that emphasise the independent collective nature of community health councils as the voice of patients in Wales. I will say again that I sign up entirely to that agenda. In thanking Darren Millar for his kind words in opening his contribution to the debate and his offer for constructive engagement on the health agenda, which I take entirely at face value, I will also say that I accept competely his description of the role of CHCs as being critical friends of the NHS in Wales. That is what I hope that the report by Marcus Longley and the actions that will flow from it will achieve. I understand why Members have wanted to use the opportunity of this debate to focus on reconfiguration. I thank the members and staff of the community health councils in Wales for their continuing work on that agenda. It is not easy work, and I put on record that their hard work is recognised and valued.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Yn gyson drwy'r ddadl y prynhawn yma cafwyd cyfraniadau sy'n pwysleisio natur gyfunol annibynnol cynghorau iechyd cymuned fel llais i gleifion yng Nghymru. Dywedaf eto fy mod yn cytuno'n llwyr â'r agenda honno. Wrth ddiolch i Darren Millar am ei eiriau caredig wrth agor ei gyfraniad i'r ddadl a'i gynnig ar gyfer ymgysylltu adeiladol ar yr agenda iechyd, yr wyf yn eu derbyn yn gyfan gwbl ar eu golwg, dywedaf hefyd fy mod yn derbyn yn llwyr ei ddisgrifiad o rôl y cynghorau iechyd cymuned fel ffrindiau beirniadol i'r GIG yng Nghymru. Dyna'r hyn yr wyf yn gobeithio y bydd adroddiad Marcus Longley a'r camau gweithredu a fydd yn deillio ohono yn ei gyflawni. Rwyf yn deall pam y mae'r Aelodau wedi bod yn awyddus i fanteisio ar gyfle'r ddadl hon i ganolbwyntio ar ad-drefnu. Diolch i aelodau a staff y cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru am eu gwaith parhaus ar yr agenda honno. Nid yw'n waith hawdd, ac rwyf am gofnodi bod eu gwaith caled yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

Dyna pam yr ydym yn hapus i gefnogi gwelliant 4, fel yr oedd Llyr Huws Gruffydd ac Elin Jones yn ei esbonio, a'r hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud yng ngwelliant 5.

That is why we are happy to support amendment 4, as Llyr Huws Gruffydd and Elin Jones explained it, and what the Liberal Democrats state in amendment 5.

I am reluctantly going to oppose amendment 6 from the Liberal Democrats. That is not because I disagree with the sentiments in the amendment. It is really important that we learn the lessons from the exercises that the CHCs are currently engaged in. I will want to do that and to look at the experience in Scotland, which is genuinely interesting and where there are things that we can learn from. It is just a bit premature at this point, with these things still going on, to be sure that we would want to do it in exactly the way that that amendment sets out.

Rwyf am wrthwynebu'n gyndyn welliant 6 gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid wyf yn gwneud hynny am fy mod yn anghytuno â'r syniadau sydd wrth wraidd y gwelliant. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dysgu gwersi o'r ymarferion y mae'r cynghorau iechyd cymuned yn rhan ohonynt ar hyn o bryd. Byddaf yn awyddus i wneud hynny ac i edrych ar y profiad yn yr Alban, sydd yn wirioneddol ddiddorol a lle mae pethau y gallwn ddysgu ohonynt. Ond mae braidd yn gynnar ar hyn o bryd, gyda'r pethau hyn yn dal i fynd rhagddynt, i fod yn sicr y byddem am ei wneud yn yr union ffordd y mae'r gwelliant hwnnw yn ei nodi.

In saying that, I would like to draw together a couple of specific things that a number of Members have mentioned. I have heard very clearly what Members have to say on the issue of the name. Those views will be very influential in the way that I will now take that forward. I listened carefully to what Members have said about the chair of the board, and I will think about that too. It might get me into trouble, but I agree with what Elin Jones said, that, if we were to go ahead with an appointment of the sort that I outlined to you earlier, a pre-appointment hearing by the Health and Social Care Commitee would have all the advantages that we explored in our debate here last week.

Wedi dweud hynny, hoffwn sôn am un neu ddau o bethau penodol y mae nifer o Aelodau wedi'u crybwyll. Rwyf wedi clywed yn glir iawn yr hyn sydd gan yr Aelodau i'w ddweud ar fater yr enw. Bydd y safbwyntiau hynny yn ddylanwadol iawn yn y ffordd y byddaf yn awr yn bwrw ymlaen â hyn. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd yr Aelodau am gadeirydd y bwrdd, a byddaf yn meddwl am hynny hefyd. Efallai y byddaf yn mynd i drwbl, ond rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Elin Jones, sef, pe baem yn parhau â phenodiad o'r math a grybwyllais yn gynharach, y byddai gan wrandawiad cyn penodi gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr holl fanteision a archwiliwyd gennym yn ein dadl yma yr wythnos diwethaf.

I will end by going back to something that Kirsty Williams said at the beginning of her contribution—and thanks to her as well for her kind words—because what Kirsty was doing was pointing on the one hand to the complexity of the job that CHCs have to do, but also making it clear that their job is far more than just being involved in consultation. It is a point that Lynne Neagle made effectively as well in drawing on her own experience in the Torfaen area. The debate this afternoon encompasses the role of CHCs in reconfiguration, but goes far beyond that. We need a continuous conversation with people in Wales about their health service, not one that starts at the most difficult point in the process. CHCs have to be a key place where that conversation takes place. So, having said all of that, I end by reaffirming the Government's commitment to CHCs that are independent, representative of the communities that they operate within, and effective in the work that they do. I will think hard about this afternoon's contributions.

Rwyf am ddirwyn i ben drwy fynd yn ôl at rywbeth a ddywedodd Kirsty Williams ar ddechrau ei chyfraniad—a diolch iddi hithau hefyd am ei geiriau caredig—oherwydd yr hyn yr oedd Kirsty yn ei wneud oedd pwyntio ar y naill law at gymhlethdod y gwaith sydd gan gynghorau iechyd cymuned i'w wneud, ond hefyd ei gwneud yn glir fod eu gwaith yn llawer mwy na dim ond cymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Mae'n bwynt a wnaed yn effeithiol gan Lynne Neagle hefyd wrth dynnu ar ei phrofiad ei hun yn ardal Torfaen. Mae'r ddadl y prynhawn yma'n cwmpasu rôl y cynghorau iechyd cymuned yn yr ad-drefnu, ond mae'n mynd ymhell y tu hwnt i hynny. Mae angen trafodaeth barhaus gyda phobl yng Nghymru am eu gwasanaeth iechyd, nid un sy'n dechrau ar yr adeg fwyaf anodd yn y broses. Rhaid i gynghorau iechyd cymuned fod yn lle allweddol lle mae'r sgwrs honno'n digwydd. Felly, wedi dweud hynny i gyd, rwyf yn cloi drwy ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i gynghorau iechyd cymuned sy'n annibynnol, yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt, ac yn effeithiol yn y gwaith y maent yn ei wneud. Byddaf yn meddwl yn galed am gyfraniadau'r prynhawn yma.

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gyfrannu at y ddadl.

Thank you all very much for contributing to the debate.

We will aim to build on the recommendations that we have in front of us to make sure that CHCs are confident and capable of doing the job that we all want to see them carrying out in Wales.

Byddwn yn ceisio adeiladu ar yr argymhellion sydd gennym o'n blaenau i wneud yn siŵr fod cynghorau iechyd cymuned yn hyderus ac yn gallu gwneud y gwaith yr ydym i gyd am eu gweld yn ei gyflawni yng Nghymru.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Rwy'n gweld bod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Cyfnod 1 ar Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Cynnig NDM5192 Mick Antoniw

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

## Stage 1 Debate on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Motion NDM5192 Mick Antoniw

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Agrees to the general principles of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill.

17:15

### Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

I am pleased to respond to the Stage 1 reports of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Health and Social Care Committee. However, before I do so, I thank the committees for their detailed work in scrutinising the Bill, members of all parties for their support of me in pursuing this Bill and various trade unions, GMB and Unite in particular, for their support. I also thank my colleague Vaughan Gething, and the Assembly staff who have supported me with the Bill, and Lesley Griffiths, in her capacity as Minister for health.

Since I was given leave to progress this Bill, more than 200 persons in Wales will have died of mesothelioma and other asbestos-related diseases. I mention that because it is important not to forget the reason the Bill is being brought forward, which is to recover the medical costs incurred by the Welsh Government from the party responsible for the disease and to apply those costs to providing additional support and assistance to asbestos victims and their families.

I will now respond to the various recommendations arising from the reports. In the Health and Social Care Committee report, recommendation 1 is that the Welsh Government should consider implementing the polluter-pays principle for all industrial diseases. Whereas there is considerable merit in the recommendation, it goes beyond the remit for which I have been given leave to bring an individual Member's Bill. Therefore, I will leave that recommendation to the Minister for Health to respond to during the debate.

Recommendation 2 proposes an affirmative resolution regulation-making power be included in the Bill that would provide for the costs of primary and community services to be added in the future to those services for which costs can be recovered. I have no objection to that recommendation, and I will consider that further as part of the preparation for Stage 2.

Cynigiaf y cynnig.

Rwyf yn falch o ymateb i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, cyn imi wneud hynny, hoffwn ddiolch i'r pwyllgorau am eu gwaith manwl yn craffu ar y Bil, i aelodau o bob plaid am eu cefnogaeth i mi wrth fynd ar drywydd y Bil hwn ac i undebau llafur amrywiol, undeb y GMB ac Unite yn arbennig, am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i'm cydweithiwr Vaughan Gething, a staff y Cynulliad sydd wedi fy nghefnogi gyda'r Bil, ac i Lesley Griffiths, yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog dros iechyd.

Ers imi gael caniatâd i fwrw ymlaen â'r Bil hwn, bydd dros 200 o bobl yng Nghymru wedi marw o mesothelioma a chlefydau eraill sy'n gysylltiedig ag asbestos. Soniaf am hynny oherwydd y mae'n bwysig peidio ag anghofio'r rheswm dros ddwyn y Bil ymlaen, sef adennill y costau meddygol a achosir i Lywodraeth Cymru oddi wrth y parti sy'n gyfrifol am y clefyd a defnyddio'r costau hynny i ddarparu cefnogaeth a chymorth ychwanegol i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd.

Rwyf yn awr am ymateb i'r argymhellion amrywiol sy'n deillio o'r adroddiadau. Yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, argymhelliad 1 yw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu egwyddor y llygrwr sy'n talu ar gyfer pob clefyd diwydiannol. Er bod cryn rinwedd i'r argymhelliad, mae'n mynd y tu hwnt i'r cylch gwaith yr wyf wedi cael caniatâd i ddod â Bil Aelod unigol ar ei gyfer. Felly, byddaf yn gadael yr argymhelliad hwnnw i'r Gweinidog Iechyd ymateb iddo yn ystod y ddadl.

Mae argymhelliad 2 yn cynnig bod grym i wneud rheoliadau drwy benderfyniad cadarnhaol yn cael ei gynnwys yn y Bil a fyddai'n darparu ar gyfer ychwanegu yn y dyfodol wasanaethau sylfaenol a chymunedol at y gwasanaethau hynny y gellir adennill eu costau. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhelliad hwnnw, a byddaf yn ystyried hynny ymhellach fel rhan o'r paratoi ar gyfer Cyfnod 2.

Recommendation 3 proposes further consideration be given to including the cost of palliative care in the tariff. Again, I have no objection in principle to that, and it was always the intention to endeavour to recover all medical costs incurred, subject only to practicality and cost-effectiveness. In my view, the tariff system proposed will, in effect, recover palliative cost, but in a broad-brush manner, dependent on the tariff set. However, work is being done on cost, and I will discuss that further with the Minister as part of the preparation for Stage 2.

Mae argymhelliad 3 yn cynnig y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys cost gofal lliniarol yn y tariff. Unwaith eto, nid oes gennyf wrthwynebiad mewn egwyddor i hynny, ac roedd yn fwriad bob amser i ymdrechu i adennill yr holl gostau meddygol, yn amodol ar ymarferoldeb a chost-effeithiolrwydd yn unig. Yn fy marn i, bydd y system tariff arfaethedig, i bob pwrpas, yn adennill cost gofal lliniarol, ond mewn modd bras, yn dibynnu ar y tariff a bennir. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud ar gost, a byddaf yn trafod hynny ymhellach gyda'r Gweinidog fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Cyfnod 2.

Recommendation 4 asks for further consideration of the stop-the-clock mechanism for non-mesothelioma asbestos diseases. I am happy to look at that again and to discuss it with the Government as further work on cost progresses. However, it may be impracticable and non-cost-effective. Too great a diversion from the tariff system operated by the compensation recovery unit could result in considerable additional costs being incurred administratively. I have always given assurance to the Assembly that the system will be simple and cost-effective to administer. I would also draw attention to the fact that, where there is a provisional damages compensation award, and the asbestos victim goes back to court for further damages because of a deterioration in condition, the Welsh Government will be able to achieve a further recovery of medical costs. Again, I will respond to that in more detail at Stage 2.

Mae argymhelliad 4 yn gofyn am ystyriaeth bellach i'r mecanwaith stopio'r cloc ar gyfer clefydau asbestos nad ydynt yn mesothelioma. Rwyf yn hapus i edrych ar hynny eto ac i'w drafod â'r Llywodraeth wrth i waith pellach ar gost fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, gallai fod yn anymarferol ac efallai na fydd yn gost-effeithiol. Gallai tynnu gormod o sylw oddi wrth y system tariff a weithredir gan yr uned adfer iawndal olygu y bydd costau ychwanegol sylweddol o safbwynt gweinyddol. Rwyf bob amser wedi rhoi sicrwydd i'r Cynulliad y bydd y system yn syml ac yn gost-effeithiol i'w gweinyddu. Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru, pan fydd dyfarniad iawndal dros dro am niwed, a bod y sawl a ddioddefodd effeithiau asbestos yn mynd yn ôl i'r llys am iawndal pellach oherwydd dirywiad yn ei gyflwr, yn gallu adennill costau meddygol eilwaith. Unwaith eto, byddaf yn ymateb i hynny'n fwy manwl yng Nghyfnod 2.

Recommendation 5 deals with one of the most important issues raised during the scrutiny process. I intend to circulate a further paper, expanding upon the evidence that I have previously given. A note has gone out today that provides quite a bit more information. The question raised is this: given that, in some cases, the paying party will be the public sector, will there just be a re-circulation of public money? The Association of British Insurers, in its evidence, suggested that 40% of cases were of this type. However, I believe that this was an off-the-cuff remark. It was not substantiated by any other evidence, and certainly no further evidence to justify this comment has been submitted. With the greatest of respect to the association, I am of the view that it is substantially inaccurate. However, in order to respond to this point, I asked Thompsons Solicitors to do an analysis of asbestos cases. It analysed 165 settlements and the results were that just under 10% were public sector cases. Since then, I have obtained analysis of the last five years' mesothelioma cases from the compensation recovery unit, and this is the most accurate information available. This is, I think, the information that has been circulated to Members today separately.

Mae argymhelliad 5 yn ymdrin ag un o'r materion pwysicaf a godwyd yn ystod y broses graffu. Rwyf yn bwriadu dosbarthu papur pellach, yn ymhelaethu ar y dystiolaeth yr wyf wedi'i rhoi o'r blaen. Anfonwyd nodyn heddiw sy'n darparu cryn dipyn yn fwy o wybodaeth. Dyma'r cwestiwn sy'n codi: o gofio, mewn rhai achosion, mai'r sector cyhoeddus fydd y parti sy'n talu, ai dim ond cylchdroi arian cyhoeddus fydd hyn? Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain, yn ei thystiolaeth, yn awgrymu bod 40% o achosion yn rhai o'r math hwn. Fodd bynnag, credaf mai sylw wrth fynd heibio oedd hwn. Ni chafodd ei gadarnhau gan unrhyw dystiolaeth arall, ac yn sicr nid oes rhagor o dystiolaeth wedi'i chyflwyno sy'n cyfiawnhau'r sylw hwn. Gyda phob parch at y gymdeithas, rwyf o'r farn ei bod yn sylweddol anghywir. Fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r pwynt hwn, gofynnais i Thompsons Solicitors wneud dadansoddiad o achosion o asbestos. Dadansoddodd 165 o setliadau a'r canlyniad oedd bod ychydig yn llai na 10% yn achosion sector cyhoeddus. Ers hynny, rwyf wedi cael dadansoddiad o achosion mesothelioma y pum mlynedd diwethaf gan yr uned adfer iawndal, a dyma'r wybodaeth fwyaf cywir sydd ar gael. Dyma, rwyf yn meddwl, yw'r wybodaeth sydd wedi ei dosbarthu ar wahân i Aelodau heddiw.

This further information from the CRU indicates that 15% of mesothelioma cases registered with it were against public sector bodies. It should be noted that, in both sets of figures, a number of the cases categorised as public sector will relate to UK public sector bodies, such as the Ministry of Defence. I accept the recommendation in principle and refer Members to the Research Service note that has been circulated. Further work is ongoing and more detailed analysis will be available during the course of Stage 2.

Mae'r wybodaeth bellach gan yr Uned Adfer Iawndal yn dangos bod 15% o achosion mesothelioma oedd wedi'u cofrestru â'r uned yn achosion yn erbyn cyrff sector cyhoeddus. Dylid nodi, yn y ddwy set o ffigurau, y bydd nifer o'r achosion sydd wedi'u categoreiddio fel rhai sector cyhoeddus yn ymwneud â chyrff sector cyhoeddus y DU, megis y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ac yn cyfeirio Aelodau at nodyn y Gwasanaeth Ymchwil sydd wedi ei ddosbarthu. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo a bydd dadansoddiad mwy manwl ar gael yn ystod Cyfnod 2.

Recommendation 6 was that there should be an amendment to require Welsh Ministers to report annually to the Assembly on the costs recovered and the use to which those funds have been put. This is a recommendation that I accept.

Argymhelliad 6 oedd y dylai fod gwelliant i fynnu bod Gweinidogion Cymru'n cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y costau a adenillir a'r defnydd a wneir o'r arian hwnnw. Mae hwn yn argymhelliad yr wyf yn ei dderbyn.

Recommendation 7 was to include research as one of the specific uses of the recovered funds. Once again, this is a recommendation that I accept and will deal with, along with the others, during the course of Stage 2.

Argymhelliad 7 oedd y dylid cynnwys gwaith ymchwil fel un o ddefnyddiau penodol yr arian a adenillir. Unwaith eto, mae hwn yn argymhelliad yr wyf yn ei dderbyn ac y byddaf yn ymdrin ag ef, ynghyd ag eraill, yn ystod Cyfnod 2.

Recommendation 8 requests further clarification from the CRU that it will administer a tariff system on behalf of the Welsh Government. I accept this and I accept that further meetings are, in fact, taking place between the Welsh Government and the CRU. I am confident that it will be able to perform this task. This further information is not automatically available from me, but I believe that it will be available during the Stage 2 process.

Mae argymhelliad 8 yn gofyn am eglurhad pellach gan yr Uned Adfer Iawndal y bydd yn gweinyddu system tariff ar ran Llywodraeth Cymru. Rwyf yn derbyn hyn, ac rwyf yn derbyn bod cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Uned Adfer Iawndal. Rwy'n ffyddiog y bydd yn gallu cyflawni'r dasg hon. Nid yw'r wybodaeth bellach hon ar gael yn awtomatig gennyf fi, ond rwyf yn credu y bydd ar gael yn ystod proses Cyfnod 2.

Recommendations 9, 10 and 11 relating to various royal and ministerial consents are in hand, where such consents are required. In respect of the Secretary of State, I am advised that it is not required as the Bill does not impinge on the powers of the Secretary of State. He has, of course, been notified of the tabling and course of the Bill on two occasions, however, and there has been no indication of any concern or objections at this stage.

Mae argymhellion 9, 10 ac 11 sy'n ymwneud â chydsyniadau brenhinol a gweinidogol amrywiol ar y gweill, lle mae cydsyniad o'r fath yn ofynnol. O ran yr Ysgrifennydd Gwladol, dywedir wrthyf nad yw'n ofynnol gan nad yw'r Bil yn effeithio ar bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae, wrth gwrs, wedi cael gwybod am gyflwyno'r Bil, ynghyd â'i hynt, ar ddau achlysur; fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd o bryder neu wrthwynebiad ar hyn o bryd.

Turning to the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, recommendations 1 to 5 and 7 relate to the list of excluded services in section 3(6) of the Bill and to applying the affirmative procedure to the power to make regulations. In principle, I have no objection to recommendations 1 to 5, but I recognise the need to look carefully at the practicality of the recommendations. Therefore, I will discuss these with the Minister for further consideration during Stage 2. Recommendation 7 raises particular procedural issues, which, once again, I will look into further.

A throi at argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae argymhellion 1 i 5 a 7 yn ymwneud â'r rhestr o wasanaethau sydd wedi'u heithrio yn adran 3(6) y Bil ac â chymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r grym i wneud rheoliadau. Mewn egwyddor, nid oes gennyf wrthwynebiad i argymhellion 1 i 5, ond rwyf yn cydnabod bod angen edrych yn ofalus ar ymarferoldeb yr argymhellion. Felly, byddaf yn trafod y rhain gyda'r Gweinidog i'w hystyried ymhellach yn ystod Cyfnod 2. Mae argymhelliad 7 yn codi materion gweithdrefnol penodol, y byddaf, unwaith eto, yn ymchwilio ymhellach iddynt.

I accept recommendation 6 in principle, and will clarify the position of insurers and compensators at Stage 2.

Rwyf yn derbyn argymhelliad 6 mewn egwyddor, a byddaf yn egluro sefyllfa yswirwyr a digolledwyr yng Nghyfnod 2.

I hope that that is a fairly full response to each of the individual recommendations that have been made. I look forward to receiving any comments during the course of today's debate on, hopefully, the process of the Bill to Stage 2.

Gobeithiaf fod hynny'n ymateb gweddol lawn i bob un o'r argymhellion unigol sydd wedi eu gwneud. Edrychaf ymlaen at glywed unrhyw sylwadau yn ystod y ddadl heddiw a fydd, rwyf yn gobeithio, yn ymdrin â hynt y Bil i Gyfnod 2.

17:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Lynne Neagle to speak on behalf of the Health and Social Care Committee.

Galwaf ar Lynne Neagle i siarad ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

17:24 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to contribute to this debate today to outline the main conclusions and recommendations of the Health and Social Care Committee following its Stage 1 consideration of the Bill. The main principle underlying the Bill is that those responsible for causing harm should also be responsible for meeting the costs of that harm—the so-called polluter-pays principle. In practical terms, this means that those who have accepted liability or agreed to pay compensation to victims of asbestos-related diseases should also be asked to bear a proportion of the cost to the NHS of treating those victims.

Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon heddiw i amlinellu prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn ei ystyriaeth Cyfnod 1 o'r Bil. Y brif egwyddor sy'n sail i'r Bil yw y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am achosi niwed hefyd fod yn gyfrifol am dalu costau'r niwed hwnnw—egwyddor y llygrwr sy'n talu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylid gofyn i'r rhai sydd wedi derbyn atebolrwydd neu wedi cytuno i dalu iawndal i ddioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos hefyd dalu cyfran o gost trin y dioddefwyr hynny i'r GIG.

In the round, the committee was content with this general polluter-pays principle in relation to asbestos-related diseases. However, there was a feeling among committee members that the principle should be applied more widely to other industrial diseases. So, while not opposing the general principles of the Bill, the committee recommended that the Welsh Government should look at the wider application of the polluter-pays principle, and should consider bringing forward a Government Bill to give it wider effect. However, in some ways, that is a debate for another day.

Ar y cyfan, roedd y pwyllgor yn fodlon ag egwyddor gyffredinol y llygrwr sy'n talu mewn perthynas â chlefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Fodd bynnag, roedd teimlad ymysg aelodau'r pwyllgor y dylai'r egwyddor gael ei chymhwyso'n fwy eang i glefydau diwydiannol eraill. Felly, er nad oedd yn gwrthwynebu egwyddorion cyffredinol y Bil, argymhellodd y pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar gymhwyso egwyddor y llygrwr sy'n talu yn ehangach, ac y dylai ystyried cyflwyno Bil Llywodraeth i roi effaith ehangach iddi. Fodd bynnag, mewn rhai ffyrdd, mae honno'n ddadl ar gyfer diwrnod arall.

The committee also identified a number of practical issues about the way in which the Bill is intended to work. These will need further consideration if the Bill proceeds to line-by-line scrutiny by the committee and the Assembly. If the polluter-pays principle is to apply, the polluter should pay a realistic and reasonable proportion of the costs incurred by the NHS. However, the committee has concerns that some significant costs of treating asbestos-related diseases may not be recovered. This is because of the Bill's stop-the-clock approach, where only costs incurred before a compensation settlement has been agreed are recovered. Clearly, there is a trade-off between ease of administration and ensuring that all relevant costs are recovered. The committee was not entirely convinced that the Bill has yet struck the right balance on this point. Therefore, the committee asked that more work be done to see if a way can be found to adjust the stop-the-clock mechanism to maximise the costs that can be recovered.

Mae'r pwyllgor hefyd yn nodi nifer o faterion ymarferol ynglŷn â'r ffordd y bwriedir i'r Bil weithio. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i hynny os bydd y Bil yn symud ymlaen i graffu llinell wrth linell gan y pwyllgor a'r Cynulliad. Os yw egwyddor y llygrwr sy'n talu yn berthnasol, dylai'r llygrwr dalu cyfran realistig a rhesymol o'r costau a ysgwyddir gan y GIG. Fodd bynnag, mae gan y pwyllgor bryderon efallai na fydd modd adennill rhai o gostau arwyddocaol trin clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae hyn oherwydd dull stopio'r cloc y Bil, lle dim ond costau a gododd cyn i setliad iawndal gael ei gytuno sy'n cael eu hadennill. Yn amlwg, mae'n rhaid cadw cydbwysedd rhwng gallu gweinyddu'n rhwydd a sicrhau bod yr holl gostau perthnasol yn cael eu hadennill. Nid oedd y pwyllgor yn gwbl argyhoeddedig fod y Bil wedi taro ar y cydbwysedd cywir ar y pwynt hwn. Felly, gofynnodd y pwyllgor am fwy o waith i weld a ellir dod o hyd i ffordd o addasu'r mecanwaith stopio'r cloc er mwyn gallu adennill cymaint o gostau â phosibl.

Whatever costs are recovered, some of them will be from bodies within the Welsh public sector. If this amount was significant enough, you would need to question whether it made sense to recover funds from one part of the public sector in Wales simply to recirculate it to another part. Although this is a legitimate question, we did not receive any compelling evidence that it should be a major concern at the moment. However, we believe that more needs to be done to scope the issue and to address the concerns raised in evidence to the committee.

Pa bynnag gostau a gaiff eu hadennill, bydd rhai ohonynt oddi wrth gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Pe bai'r swm hwn yn ddigon arwyddocaol, byddai angen i chi holi a yw'n gwneud synnwyr adennill arian o un rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru dim ond i'w gylchdroi i ran arall. Er bod hwn yn gwestiwn dilys, ni chlywsom unrhyw dystiolaeth gref y dylai fod yn bryder mawr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy i ystyried y mater hwn ac i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth i'r pwyllgor.

The preferred option for administering the recovery of funds is to use the compensation recovery unit in the Department for Work and Pensions, which carries out a similar role with road traffic accidents. However, there is a degree of uncertainty about the willingness and ability of the CRU to carry out the work. While this is by no means a fatal flaw, we believe that it is important for the Assembly to have greater clarity on this point, and for the Member in charge and the Welsh Government to secure this clarity before Stage 2 consideration.

Yr opsiwn a ffefrir ar gyfer gweinyddu adennill yr arian yw defnyddio'r uned adfer iawndal yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n cyflawni rôl debyg gyda damweiniau traffig ar y ffyrdd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch parodrwydd a gallu'r Uned Adfer Iawndal i wneud y gwaith. Er nad yw hwn yn wendid angheuol mewn unrhyw ffordd, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i'r Cynulliad gael mwy o eglurder ar y pwynt hwn, ac i'r Aelod sy'n gyfrifol a Llywodraeth Cymru sicrhau'r eglurder hwn cyn ystyriaeth Cyfnod 2.

The committee also made a number of other recommendations, which I can only briefly touch on in the time that I have available. For example, there was widespread support for the Bill to be amended to include a duty on Welsh Ministers to report annually to the Assembly on the costs recovered, and the use to which they are put. I am pleased that the Member in charge and the then Minister supported that proposal; indeed, the Minister undertook to table amendments to give effect to the recommendation. Given that the Bill currently excludes the cost of primary care, we recommended future-proofing it so that it can be adapted in future to include primary care if needed. As the Bill will recover costs based on a tariff of typical costs of the disease concerned, the committee was concerned that there should be somewhat greater clarity about whether and how the costs of palliative care are included in this tariff.

Gwnaeth y pwyllgor hefyd nifer o argymhellion eraill, na allaf ond eu crybwyll yn fyr yn yr amser sydd ar gael imi. Er enghraifft, roedd cefnogaeth eang i wella'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar y costau a adenillir, a'r defnydd a wneir ohonynt. Rwyf yn falch fod yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog bryd hynny wedi cefnogi'r cynnig hwnnw; yn wir, ymrwymodd y Gweinidog i gyflwyno gwelliannau er mwyn rhoi effaith i'r argymhelliad. O ystyried nad yw'r Bil ar hyn o bryd yn cynnwys cost gofal sylfaenol, rydym yn argymell y dylid ei ddiogelu at y dyfodol fel y gellir ei addasu yn y dyfodol i gynnwys gofal sylfaenol os oes angen. Bydd y Bil yn adennill costau yn seiliedig ar dariff o gostau sy'n nodweddiadol o'r clefyd dan sylw, ac felly roedd y pwyllgor yn awyddus i weld mwy o eglurder ynghylch a yw costau gofal lliniarol wedi eu cynnwys yn y tariff, ac os felly sut y gwneir hynny.

Finally, a number of witnesses were very keen that part of any funding recovered should go towards research into asbestos-related diseases. We agree that the Bill should be amended to include research as one of the specific uses of recovered funds.

Yn olaf, roedd nifer o dystion yn awyddus iawn i weld cyfran o unrhyw arian a adenillir yn mynd tuag at ymchwil i glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Rydym yn cytuno y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys ymchwil fel un o ddefnyddiau penodol yr arian a adenillir.

Despite our concerns about these issues, we do not believe that they amount to an insurmountable challenge to the overall aim of the Bill, or to the general principle that it seeks to enshrine. Stage 2 is the appropriate point at which to give consideration to detailed changes that can address the issues that we have identified. On this basis, the committee was content for the Bill to proceed to Stage 2 for detailed consideration.

Er gwaethaf ein pryderon am y materion hyn, nid ydym yn credu eu bod yn her anorchfygol i nod cyffredinol y Bil, nac i'r egwyddor gyffredinol y mae'n ceisio ei hymgorffori. Cyfnod 2 yw'r adeg briodol i roi ystyriaeth i newidiadau manwl a all fynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi. Ar sail hynny, roedd y pwyllgor yn fodlon i'r Bil symud ymlaen i Gyfnod 2 i'w ystyried yn fanwl.

In conclusion, I thank all those who gave evidence to the committee, to committee members and to the staff who helped to produce our support.

I gloi, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, i aelodau'r pwyllgor ac i'r staff a fu'n ein cynorthwyo.

17:29

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Fel Lynne Neagle, rwyf hefyd yn dirprwyo ar ran Cadeirydd y pwyllgor rwy'n eistedd arno, sydd hefyd wedi edrych ar y Bil hwn, ac sydd wedi ystyried tystiolaeth gan y Gweinidog ar y pryd a'r Aelod sydd yng ngofal y Bil hwn. Mae'r pwyllgor yn edrych ar y pwerau a roddir mewn unrhyw Fil i Weinidogion wneud rheoliadau neu Orchmynion. Dyna'r man cychwyn i'r pwyllgor wrth edrych ar y Bil hwn, ond roeddem hefyd yn edrych ar y cwestiwn ehangach ynglŷn â chymhwysedd y Bil a hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at y ffaith bod y Bil hwn yn cael ei ystyried i fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

As Lynne Neagle, I am also speaking on behalf of the committee on which I sit, which has also looked at this Bill, and which has also given consideration to evidence from the then Minister and the Member in charge of this Bill. The committee looks at the powers that are provided in any Bill to Ministers to make regulations or Orders. That was the committee's starting point in relation to this Bill, but we were also looking at the wider question in relation to the competence of the Bill and I would like to draw the Assembly's attention to the fact that this Bill is considered to be within the competence of the Assembly.

Serch hynny, daeth hynny yn sgîl y Llywydd yn ysgrifennu llythyr hirfaith yn esbonio pam y mae o fewn cymhwysedd. Mae'n anodd i Aelod ar y meinciau cefn sy'n gyfrifol am Fil i negodi gyda San Steffan neu Lywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwysedd unrhyw Fil. Felly, rydym yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar y mater hwn, ond hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at rai o'r ardaloedd mwy llwyd o gwmpas y Bil. Rydym yn derbyn dyfarniad y Llywydd, wrth gwrs, fod y Bil o fewn cymhwysedd.

However, that came within the context of the Presiding Officer writing a long letter explaining why it is within competence. It is difficult for a backbench Member in charge of a Bill to negotiate with Westminster or with the Welsh Government on the competence of any Bill. Therefore, we acknowledge the work undertaken in relation to this issue, but I would like to draw the Assembly's attention to some of the grey areas surrounding this Bill. We accept the Presiding Officer's ruling, of course, that the Bill is within competence.

O ran y pwerau yn y Bil sydd wedi eu dirprwyo i Weinidogion, fe wnaethom sawl argymhelliad, sef, yn bennaf, argymhellion 1 i 5. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wedi cydnabod heddiw ei fod yn mynd i edrych ar yr argymhellion hynny mewn ffordd bositif. Dywedodd nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r hyn yr ydym yn ei awgrymu. Yn fras, rydym yn awgrymu symud o ddefnyddio'r weithdrefn negyddol i gymeradwyo bod hawl yn cael ei rhoi i Weinidogion wneud rheoliadau, i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn enwedig yn y lle cyntaf, er enghraifft yn adran 10(7) mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn tystysgrifau ffioedd. Dylai rhywbeth felly, lle mae system apeliadau yn ymwneud â'r cyhoedd, ym marn y pwyllgor, fod yn un lle mae'r weithdrefn yn gadarnhaol yn y lle cyntaf, ac efallai y byddai'n briodol i unrhyw newidiadau gael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol yn nes ymlaen. Ond, dylai hyn fod yn gadarnhaol yn y lle cyntaf fel bod y Cynulliad yn gallu gweld yn glir pa rymoedd sy'n cael eu dirprwyo i Weinidogion. Mae'r Aelod wedi dweud ei fod yn fodlon edrych mewn ffordd bositif ar yr argymhellion hynny, felly cawn weld, wrth i'r system fynd rhagddo, os caiff y Bil ei wella yn y modd hwn.

As regards the powers in the Bill that are delegated to Ministers, we made several recommendations, which are recommendations 1 to 5. The Member in charge of the Bill has today acknowledged that he will look at those recommendations in a positive manner and said that he had no opposition to what we propose. Broadly, we suggest moving from using the negative resolution procedure to give Ministers the right to make regulations, to using the affirmative procedure, particularly in the first instance, such as in relation to section 10(7) on appeals against certificates of charges. It is the committee's opinion that it would be appropriate for something of this nature, where the appeals system involves the public, to be dealt with under the affirmative procedure in the first instance, and it could then be appropriate for any changes to be made under the negative procedure later on. However, this should first be affirmative so that the Assembly can see clearly what powers are being delegated to Ministers. The Member has said that he is willing to look at the recommendations in a positive manner, so we will see, as the system develops, whether the Bill is amended in this way.

Mae hynny'n gadael argymhellion 6 a 7 a wnaethpwyd gan y pwyllgor. Mae gwelliant 6 yn ymwneud â'r mater penodol o sut i ymdrin ag atebolrwydd yswirwyr. Rydym wedi ei gwneud yn glir yn ein hadroddiad nad yw'n glir pam mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i yswirwyr ac nid i bob person sy'n digolledu. Felly, rydym wedi gofyn am eglurhad gan yr Aelod yn ystod y ddadl hon, ond dywedodd fod y mater bach yn dechnegol, felly, rwy'n cymryd y byddwn yn dod yn ôl at eglurhad yn ystod y broses wrth i'r Bil fynd rhagddo.

That leaves the committee's recommendations 6 and 7. Recommendation 6 relates to the specific issue of how the accountability of compensators is dealt with. We state in our report that it is not clear why the power is limited to insurers rather than applying to all compensators. Therefore, we have asked for clarification from the Member during this debate, but he said that this matter was somewhat technical in nature, therefore, I take it that we will come back to a clarification as the Bill progresses.

Mae ein pwynt olaf ar argymhelliad 7. Mae gwendid yn y Bil fel y mae. Dywedodd y Gweinidog ei fod am esbonio hyn ac edrych arno eto. Mae'r Gorchymyn sy'n rhoi cychwyn i'r Bil hefyd yn galluogi unrhyw Weinidog i wneud sawl Gorchymyn arall. Nid yw'n arferol bod y rhan o Fil sy'n rhoi cychwyn iddo hefyd yn cynnwys pŵer i newid y Bil yn y lle cyntaf. Efallai fod gormod o bŵer, o bosibl, yn cael ei roi i Weinidogion yn y rhan honno o'r Bil.

Our final point relates to recommendation 7. There is a weakness in the Bill as it stands. The Minister said that he wants to provide an explanation and look at it again. The commencement Order for the Bill also enables any Minister to make several other Orders. It is not usual for the part of a Bill that contains the commencement powers to also contain powers to change the Bill in the first place. Perhaps there is too much power bestowed upon Ministers in that part of the Bill.

Yn fras, gyda rhai o'r awgrymiadau hyn am welliannau, roedd y pwyllgor yn gweld bod cydbwysedd priodol rhwng y lefel o fanylder ar wyneb y Bil a'r pwerau is-ddeddfwriaethol y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru. Mae hwn yn fater i Aelodau unigol, ac i nifer o bobl, gan fod pleidlais rydd, ond, gyda'r geiriau hynny, roedd y pwyllgor yn fodlon gyda gwneuthuriad y Bil.

Broadly speaking, in making its recommendations for amendments to the Bill, the committee considers that these would lead to an appropriate balance between the level of detail on the face of the Bill and the subordinate legislation provisions given to Welsh Ministers. That is a matter for individual Members, and for many people, given that there is a free vote, but, with those words, the committee was satisfied with the structure of the Bill.

17:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Health, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford.

17:34

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i Mick Antoniw am ei waith wrth ddod â'r Bil gerbron y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda'r Aelod wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon ac yn llwyr gefnogi'r Bil sydd ger eich bron heddiw.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I would like to start by thanking Mick Antoniw for his work in bringing this Bill before the Assembly. The Government has worked with the Member in developing this legislation and it fully supports the Bill before you today.

The Welsh Government has, from the outset, been keen to support this Bill, to work with the Member in charge, to learn from the work of the two committees involved in scrutinising the Bill, and to respond to the recommendations that those committees have made. I will concentrate on those that have been made directly to the Welsh Government. There are other recommendations that have been made to the Member in charge.

Mae Llywodraeth Cymru, o'r cychwyn, wedi bod yn awyddus i gefnogi'r Bil hwn, i weithio gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, i ddysgu o waith y ddau bwyllgor sy'n ymwneud â chraffu ar y Bil, ac i ymateb i'r argymhellion y mae'r pwyllgorau hynny wedi'u gwneud. Rwyf am ganolbwyntio ar y rhai hynny sydd wedi'u gwneud yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Mae argymhellion eraill sydd wedi'u gwneud i'r Aelod sy'n gyfrifol.

The first, as we have heard from Lynne Neagle, is a suggestion by the committee that the polluter-pays principle, which underpins this Bill, should be extended to apply to all industrial diseases where liability can be established. The difference between my position as a Minister and what some members of the committee might believe is more a matter of timing than of anything else. The choice before us is whether we want to move immediately to such a Bill. It would necessitate, as the committee recognises, a separate Government Bill to be brought forward on this matter. Is it right to do that now, setting aside the Bill in front of the Assembly, or is it better to learn from the experience of this Bill, particularly because it is one where a causal link between exposure to asbestos and the development of asbestos-related diseases is easier to established than is the case for many other industrial diseases, or should we move immediately to a position where we attempt to apply the principle across the board? I think that there are lots that we will learn from beginning with this Bill. If it succeeds, as we all hope it will, the proposed evaluation of the Bill, as set out in the explanatory memorandum, will certainly inform future policy consideration in this area, much in the way that those who have argued for that extended principle would like to see us move more immediately.

Yr argymhelliad cyntaf, fel yr ydym wedi clywed gan Lynne Neagle, yw awgrym gan y pwyllgor y dylai egwyddor y llygrwr sy'n talu, sy'n sail i'r Bil, gael ei hestyn i fod yn berthnasol i bob clefyd diwydiannol lle gellir pennu atebolrwydd. Mae'r gwahaniaeth rhwng fy safbwynt i fel Gweinidog a'r hyn y bydd rhai aelodau o'r pwyllgor efallai'n ei gredu yn ymwneud ag amseru'n fwy na dim byd arall. Y dewis ger ein bron yw a ydym am symud yn syth at Fil o'r fath. Byddai'n golygu bod angen, fel y mae'r pwyllgor yn cydnabod, cyflwyno Bil Llywodraeth ar wahân ar y mater hwn. A yw'n iawn gwneud hynny yn awr, gan osod o'r neilltu y Bil sydd gerbron y Cynulliad, neu a yw'n well dysgu o brofiad y Bil hwn, yn enwedig gan ei fod yn un lle mae cysylltiad achosol rhwng dod i gysylltiad ag asbestos a datblygu clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn haws i'w bennu nag ar gyfer clefydau diwydiannol eraill, neu a ddylem symud yn syth i sefyllfa lle'r ydym yn ceisio cymhwyso'r egwyddor drwyddi draw? Credaf y gallwn ddysgu llawer o ddechrau gyda'r Bil hwn. Os bydd yn llwyddo, ac rydym i gyd yn gobeithio y bydd, bydd gwerthusiad arfaethedig y Bil, fel y nodir yn y memorandwm esboniadol, yn sicr yn llywio ystyriaethau polisi yn y dyfodol yn y maes hwn, yn yr un modd ag y byddai'r rhai sydd wedi dadlau o blaid yr egwyddor estynedig honno yn hoffi ein gweld yn symud yn ddiymdroi.

I will now move to look at a number of other suggestions made by the committee. The Bill focuses on the recovery of NHS costs incurred by secondary care, as the evidence obtained, particularly in relation to mesothelioma, suggests that this is where the vast majority of costs are incurred. As the Member in charge has said, to extend the cost recovery scheme to include primary care providers at this point, when only a small amount of treatment takes place in primary care, would be complex on the one hand, and probably bring in very little money on the other. However, I am very well aware of the committee's recommendation to include a regulation-making power, enabling primary care costs to be recovered should patterns of care change at a later date. The Member in charge said that he had no objection to this in principle. I am persuaded by what the Health and Social Care that the power to extend the Bill to recover primary care costs via the affirmative procedure would be an appropriate safeguard against the potential for substantial changes to the patterns of care for victims of asbestos-related diseases in the future. I will look to bring forward an amendment at a later stage to achieve this.

Edrychaf yn awr ar nifer o awgrymiadau eraill a wnaed gan y pwyllgor. Mae'r Bil yn canolbwyntio ar adennill costau'r GIG sy'n codi o ofal eilaidd, gan fod y dystiolaeth a gafwyd, yn enwedig mewn perthynas â mesothelioma, yn awgrymu mai dyma ble y ceir mwyafrif helaeth y costau. Fel y mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi dweud, byddai estyn y cynllun adennill costau i gynnwys darparwyr gofal sylfaenol ar hyn o bryd, pan nad oes ond ychydig o driniaeth yn digwydd ym maes gofal sylfaenol, yn gymhleth ar y naill law, ac yn ôl pob tebyg yn dod ag ychydig iawn o arian ar y llaw arall. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol iawn o argymhelliad y pwyllgor i gynnwys grym i wneud rheoliadau, a fyddai'n golygu y gellid adennill costau gofal sylfaenol pe bai patrymau gofal yn newid yn nes ymlaen. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i hyn mewn egwyddor. Rwyf wedi fy argyhoeddi gan yr hyn a ddywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sef y byddai'r grym i estyn y Bil i adennill costau gofal sylfaenol drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn amddiffyniad priodol yn erbyn newidiadau sylweddol posibl i batrymau gofal ar gyfer dioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn y dyfodol. Byddaf yn ceisio cyflwyno gwelliant yn nes ymlaen i gyflawni hynny.

The Health and Social Care Committee has also drawn attention to the recovery of palliative care costs, and the Member in charge has dealt with that in the way that he explained the development of a tariff system. I will work with Mick Antoniw to ensure that any updated explanatory memorandum laid after Stage 2 takes account of this. The Member in charge also dealt with the issue of a stop-the-clock system. It is not perfect, but the principle of the Bill is not to recover every penny that has been spent on asbestos-related diseased by the NHS, regardless of the costs incurred by such a process. Rather, the focus is on improving the care and the treatment of sufferers of asbestos-related diseases and their families with a simple, effective and fair administrative system. At the moment, I feel that the Bill brings forward proposals that probably are the best we can manage to achieve this.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi tynnu sylw at adennill costau gofal lliniarol, ac mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi ymdrin â hynny yn y ffordd yr eglurodd y gwaith o ddatblygu system tariff. Byddaf yn gweithio gyda Mick Antoniw i sicrhau bod unrhyw femorandwm esboniadol wedi'i ddiweddaru a osodir ar ôl Cyfnod 2 yn ystyried hyn. Cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd at system stopio'r cloc. Nid yw'n berffaith, ond nid yw'n egwyddor gan y Bil i adennill pob ceiniog sydd wedi ei gwario ar glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos gan y GIG, beth bynnag fo'r costau sy'n codi o broses o'r fath. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar wella gofal a thriniaeth i'r rhai sy'n dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos a'u teuluoedd gyda system weinyddol syml, effeithiol a theg. Ar hyn o bryd, rwyf o'r farn fod y Bil, yn ôl pob tebyg, yn cyflwyno'r cynigion gorau y gallwn eu cynnig i gyflawni hyn.

You have also heard about the whole issue of liability that may be placed on the public sector. Just as the Member in charge is to publish further evidence, so are my officials are looking for further evidence on the balance of cases against private and public sectors. I remind Members, particularly those who heard very powerful evidence from individuals and organisations representing those who suffer from these conditions, that, in their view, the polluter-pays principle applies wherever the disease was caused. They saw little distinction between a disease that was caused by a public sector organisation and a private sector one.

Rydych wedi clywed hefyd am yr atebolrwydd a allai gael ei osod ar y sector cyhoeddus. Yn union fel y mae'r Aelod sy'n gyfrifol am gyhoeddi tystiolaeth bellach, felly hefyd y mae fy swyddogion innau'n chwilio am dystiolaeth bellach ar y cydbwysedd rhwng achosion yn erbyn y sectorau preifat a chyhoeddus. Rwyf yn atgoffa'r Aelodau, yn enwedig y rhai a glywodd dystiolaeth bwerus iawn gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sy'n dioddef o'r cyflyrau hyn, fod egwyddor y llygrwr sy'n talu, yn eu barn hwy, yn berthnasol lle bynnag y cafodd y clefyd ei achosi. Nid oeddent yn gweld fawr o wahaniaeth rhwng afiechyd a achoswyd gan sefydliad yn y sector cyhoeddus ac un yn y sector preifat.

The committee has recommended that a duty should be placed on Welsh Ministers to report annually to the Assembly on the costs recovered and the use to which those funds have been put. As Lynne Neagle said, that was a proposal already accepted by the previous Minister for Health and Social Services, and I will take it forward in that way. I am fully supportive as well of the intention of the committee to consider research specifically as a legitimate use for recovered funds.

Mae'r pwyllgor wedi argymell y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar y costau a adenillir a'r defnydd a wneir o'r arian hwnnw. Fel y dywedodd Lynne Neagle, roedd hwnnw'n gynnig a dderbyniwyd eisoes gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol, a byddaf yn bwrw ymlaen â hynny yn y ffordd honno. Rwyf yn gwbl gefnogol hefyd i fwriad y pwyllgor i ystyried ymchwil yn benodol fel defnydd dilys o'r arian a adenillir.

We have had a discussion already about the role of the compensation recovery unit, and Welsh Government officials visited the unit again on 12 March to meet with Department for Work and Pensions policy officials and members of their team. The purpose of the productive meeting was for further discussions about the practical operation and implementation of the Bill proposals. Both DWP and CRU officials indicated their continuing willingness to provide advice on the practical implementation of the Bill, and I will write to Lord Freud, the Minister for Welfare Reform, in the terms set out by the committee to seek his agreement in principle to progressing the formal business case process with the CRU. There are some aspects of that detailed case that cannot be outlined at this point, as amendments may yet arise during the Assembly's legislative proposals.

Rydym wedi cael trafodaeth eisoes am rôl yr uned adfer iawndal, ac ymwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru â'r uned unwaith eto ar 12 Mawrth i gwrdd â swyddogion polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau ac aelodau o'u tîm. Pwrpas y cyfarfod cynhyrchiol hwn oedd cael trafodaethau pellach ynglŷn â gweithredu a rhoi ar waith yn ymarferol gynigion y Bil. Nododd swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Uned Adfer Iawndal fel ei gilydd eu parodrwydd parhaus i roi cyngor ar weithredu'r Bil yn ymarferol, a byddaf yn ysgrifennu at yr Arglwydd Freud, y Gweinidog dros Ddiwygio Lles, yn y termau a nodwyd gan y pwyllgor i geisio ei gytundeb mewn egwyddor i symud y broses achos busnes ffurfiol ymlaen gyda'r Uned Adfer Iawndal. Mae rhai agweddau ar yr achos manwl hwnnw na ellir eu hamlinellu yn y fan hon, oherwydd gall gwelliannau godi eto yn ystod cynigion deddfwriaethol y Cynulliad.

I can assure Members that all necessary consents will be sought at the appropriate time. It would be premature, I am advised, to seek the consent of Her Majesty before the general principles of the Bill are agreed, but once we are at the right point, those consents will be sought.

Gallaf sicrhau'r Aelodau y bydd pob cydsyniad angenrheidiol yn cael ei geisio ar yr adeg briodol. Fe'm cynghorwyd y byddai'n gynamserol ceisio cydsyniad Ei Mawrhydi cyn i egwyddorion cyffredinol y Bil gael eu cytuno, ond unwaith y byddwn wedi cyrraedd y man iawn, byddwn yn ceisio'r cydsyniadau hynny.

Clywais yr hyn a ddywedodd Simon Thomas. Nid wyf wedi cael cyfle i ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a gododd y pwyllgor. Rwyf wedi clywed y fformiwla a awgrymodd Simon i ni'r prynhawn yma a byddaf yn cael sgwrs gyda'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i fynd drwy argymhellion y pwyllgor yn fanwl.

I heard what Simon Thomas had to say. I have not had an opportunity to respond in detail to the points raised by the committee. I heard the formula that Simon suggested this afternoon and I will be having a conversation with the Member in charge of the Bill in order to discuss the committee's recommendations in detail.

Having done that and when we come to report further on those discussions, I urge Members to vote in favour of the general principles of this Bill.

Ar ôl gwneud hynny a phan fyddwn yn adrodd ymhellach ar y trafodaethau hynny, anogaf yr Aelodau i bleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.

17:42

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to be able to contribute to this important debate, and I want to take this opportunity to thank Mick Antoniw and to congratulate him on the way in which he has conducted himself as an individual Member bringing forward this legislation. We on the Conservative benches have a great deal of sympathy for this piece of legislation. We agreed to let it go forward for scrutiny at Stage 1 of the legislative process and we feel that there is a great deal of merit in the principle behind the legislation that the Member is seeking to enact. However, we will be voting against the proposal on the agenda this afternoon, and we will do that with heavy hearts, because we believe that this principle is right but we feel that it ought to relate to a much wider range of industrial diseases. There is a range of diseases in the disabled benefit list of industrial diseases that this legislation, if it was wide enough in its scope, could usefully apply itself to. We agree with the principle of 'the polluter pays', and we all know of the tragic cases of people contracting asbestos-related disease in Wales and beyond. It was absolutely heartbreaking to listen to some of the personal stories of those who came before the committee to share their tragic experiences of asbestos-related disease with us. However, there are issues that we believe need to be addressed, and we would like to see the Welsh Government bringing forward a more comprehensive piece of legislation that is much wider in scope, rather than taking this particular piece of legislation forward. I wonder whether it would be possible to get an indication as to whether the Minister is able to do that at some point in the future as part of the Welsh Government's legislative programme, rather than taking forward this particular Bill.

Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl bwysig hon, ac rwyf am gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Mick Antoniw, a'i longyfarch ar y ffordd y mae wedi ymddwyn fel Aelod unigol wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Mae gennym ni ar feinciau'r Ceidwadwyr lawer iawn o gydymdeimlad â'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Cytunasom i adael iddo fynd ymlaen ar gyfer craffu yng Nghyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol ac rydym yn teimlo bod llawer iawn o rinwedd i'r egwyddor y tu ôl i'r ddeddfwriaeth y mae'r Aelod yn ceisio ei gwneud yn ddeddf. Fodd bynnag, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig ar yr agenda y prynhawn yma, a byddwn yn gwneud hynny gyda chalonnau trwm, oherwydd credwn fod yr egwyddor hon yn iawn, ond rydym o'r farn y dylai fod yn ymwneud ag ystod lawer ehangach o glefydau diwydiannol. Mae amryw o afiechydon yn y rhestr budd-dal anabledd o glefydau diwydiannol y gallai'r ddeddfwriaeth hon, pe bai'n ddigon llydan yn ei chwmpas, ei chymhwyso'i hun yn ddefnyddiol iddynt. Rydym yn cytuno ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', ac rydym i gyd yn gwybod am yr achosion trasig o bobl yn dal clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yng Nghymru a thu hwnt. Roedd yn hollol dorcalonnus gwrando ar rai o storïau personol y rhai a ddaeth gerbron y pwyllgor i rannu eu profiadau trasig o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos gyda ni. Fodd bynnag, mae materion y credwn fod angen mynd i'r afael â hwy, a hoffem weld Llywodraeth Cymru'n cyflwyno darn mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sy'n llawer ehangach ei chwmpas, yn hytrach na bwrw ymlaen â'r darn penodol hwn o ddeddfwriaeth. Tybed a fyddai'n bosibl cael gwybod a fydd y Gweinidog yn gallu gwneud hynny ar ryw adeg yn y dyfodol fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, yn hytrach na bwrw ymlaen â'r Bil penodol hwn?

A number of issues have been discussed by the Member in charge in his opening contribution. I share the concerns of the wider health committee about the stop-the-clock approach in terms of where it currently stops. I think that he has accepted that it may be appropriate to stop the clock much later in the process to recover the maximum costs to the taxpayer of the care that has been provided. It is important to have those formal agreements in place with the CRU before we move any further forward with this legislation. It is disappointing that, while there have been positive discussions, there are no concrete agreements with the CRU to take this forward, if and when it becomes legislation in Wales. That will have an impact on the finances required for the delivery of this piece of legislation and bringing it through into law.

Trafodwyd nifer o faterion gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn ei gyfraniad agoriadol. Rwyf yn rhannu pryderon y pwyllgor iechyd ehangach am y dull stopio'r cloc o ran ble mae'n stopio ar hyn o bryd. Rwyf yn credu ei fod wedi derbyn y gallai fod yn briodol stopio'r cloc yn llawer hwyrach yn y broses er mwyn adennill cymaint o gostau'r gofal a ddarparwyd â phosibl i'r trethdalwr. Mae'n bwysig sicrhau'r cytundebau ffurfiol hynny â'r Uned Adfer Iawndal cyn i ni symud ymhellach â'r ddeddfwriaeth hon. Mae'n siomedig, er y cafwyd trafodaethau cadarnhaol, nad oes unrhyw gytundebau pendant â'r Uned Adfer Iawndal er mwyn bwrw ymlaen â hyn, os daw'n ddeddfwriaeth yng Nghymru, a phan ddigwydd hynny. Bydd hynny'n effeithio ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni'r darn hwn o ddeddfwriaeth a sicrhau y daw'n ddeddf.

Another area that we may want to consider, as an Assembly, is that of cases where it is not the employee who has had an asbestos-related disease, or indeed an industrial injury, but someone in the employee's family. The case of Valerie Ward was in the news only last week of; she had washed her husband's overalls on a daily basis when he returned home from work in the 1970s and 1980s, had contracted an asbestos-related disease and, unfortunately, passed away at the age of 78. This Bill would, in no way, shape or form, account for that sort of eventuality, giving the employer of Eric, her husband, some sort of duty to ensure the safety of Eric's wife, Valerie.

Maes arall y byddwn efallai am ei ystyried, fel Cynulliad, yw'r achosion hynny lle nad y gweithiwr sydd wedi cael clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos, neu yn wir anaf diwydiannol, ond rhywun yn nheulu'r gweithiwr. Roedd achos Valerie Ward yn y newyddion yr wythnos diwethaf; roedd wedi golchi oferôls ei gŵr bob dydd ar ôl iddo ddod adref o'r gwaith yn y 1970au a'r 1980au, wedi dal clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos ac, yn anffodus, bu farw yn 78 oed. Ni fyddai'r Bil hwn, yn unrhyw ffordd, yn rhoi ystyriaeth i ddigwyddiad o'r math hwn, ac yn ei gwneud yn rhyw fath o ddyletswydd ar gyflogwr Eric, ei gŵr, i sicrhau diogelwch Valerie, gwraig Eric.

So, there are big issues. We believe that a piece of legislation needs to come forward in this respect—we have a great deal of sympathy—but, unfortunately, we think that it is inappropriate to take forward this legislation, given its narrow scope. We think that a more comprehensive piece of legislation should be brought forward by the Welsh Government, in due course, allowing for all industrial diseases to be incorporated, so that the Welsh Government can recover the costs of NHS care for a much wider range of diseases.

Felly, mae materion pwysig i'w trafod yma. Rydym o'r farn fod angen cyflwyno darn o ddeddfwriaeth yn y cyswllt hwn—mae gennym lawer iawn o gydymdeimlad—ond, yn anffodus, rydym o'r farn ei bod yn amhriodol bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon, o ystyried ei chwmpas cul. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno darn mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth, maes o law, a fydd yn peri bod modd cynnwys pob clefyd diwydiannol, fel y gall Llywodraeth Cymru adennill costau gofal y GIG ar gyfer ystod lawer ehangach o glefydau.

17:47

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i gychwyn drwy ganmol Mick Antoniw am lywio'r Bil hwn hyd yma drwy broses graffu'r pwyllgor? Mae darlun clir o effaith gwbl ddinistriol ac angheuol asbestos ar fywydau unigolion wedi'i beintio gan Mick Antoniw ac wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor gan dystion a oedd yn cynrychioli teuluoedd yr unigolion hynny sydd wedi dioddef o glefydau yn gysylltiedig ag asbestos ac sydd wedi marw o'r clefydau hynny.

May I start by applauding Mick Antoniw for steering this Bill through the committee scrutiny? A clear picture of the wholly destructive and fatal impact of asbestos on the lives of individuals has been painted by Mick Antoniw, which has also been presented to us as a committee by the witnesses who represented the families of those individuals who have suffered from asbestos-related diseases and who have died as a result of those diseases.

Mae'r cwmni sy'n gyfrifol am yr asbestos eisoes yn talu iawndal, wrth gwrs, ac mae'r Bil hwn yn mynd gam ymhellach, gan roi'r hawl i adennill costau NHS hefyd oddi wrth y llygrwr. Gwendid mwyaf y Bil, yn fy marn i, yw ei fod wedi'i gyfyngu o ran sgôp, o bosibl oherwydd ei fod yn ddeddfwriaeth o'r meinciau cefn a bod yr adnoddau ymchwil ac amser sydd ar gael i Aelod unigol o'i gymharu â Gweinidog Llywodraeth yn golygu bod rhai agweddau yn gorfod cael eu heithrio o Fil o'r fath. Er enghraifft, mae'r holl gostau sy'n ymwneud a thrin claf am glefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos a'r holl gostau yn y gymuned dan ofalaeth meddyg teulu yn cael eu heithrio rhag cael eu hadennill i'r NHS. Hefyd, mae cost gofal hosbis yn aneglur ar hyn o bryd, o ran yr hyn y gellir ei adennill yn llawn i'r NHS. Yn fy marn i, dylid gallu adennill holl gost hynny i'r NHS neu i'r darparwr hosbis.

The company responsible for the asbestos already pays compensation, of course, and this Bill takes that a step further and gives the right to recover NHS costs from the polluter. The Bill's main weakness, in my opinion, is that it is limited in scope, possibly because it is backbench legislation and because the research resources and time available to individual Members, as compared to a Government Minister, mean that some aspects had to be omitted from such a Bill. For example, the costs of treating a patient who has an asbestos-related disease, and the cost to the community and those costs under the care of a GP, are exempt from recovery by the NHS in this Bill. Hospice care is also ambiguous at present in terms of what can be fully recovered by the NHS. In my opinion, one should be able to recoup all of that cost to the NHS, or to the hospice provider.

Hefyd, gan fod y Bil yn defnyddio'r egwyddor o stopio'r cloc ac o adennill unrhyw gostau yn dilyn cytuno ar yr iawndal, mae canran sylweddol—o bosibl—o'r gost i'r NHS nad yw'n cael ei adennill o gwbl. Yn ystod y broses graffu, daeth yn gynyddol amlwg nad oedd cryn dipyn o'r gost i'r NHS am gael ei hadennill o gwbl o dan y Bil hwn fel y'i cyflwynwyd. Dyna pam y credaf fod lle i'r Llywodraeth ystyried cymryd yr egwyddor a'r ewyllys da yn y Bil hwn ac ymrwymo i greu deddfwriaeth fwy cynhwysfawr a fyddai'n creu mecanwaith i adennill yr holl gostau i'r NHS o drin clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos.

Also, as the Bill uses the stop-the-clock principle in terms of recovering any costs after a compensation agreement, a potentially substantial percentage of the cost for NHS care is not recovered at all. During the scrutiny process it became increasingly evident that much of the cost to the NHS would not be recovered at all under this Bill, as it is currently tabled. That is why I believe that there is scope for the Government to consider taking forward the principle and the goodwill contained within this Bill and to commit to create a more comprehensive piece of legislation that would provide a mechanism to recover all costs to the NHS in treating asbestos-related disease.

Er hyn, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedwyd gan yr Aelod y prynhawn yma, a chan y Gweinidog, yn cydweithio gyda'r Aelod, yn enwedig ar adnabod a oes dull mwy effeithiol na'r dull 'stop the clock' i gynyddu'r hyn y gellid ei adennill i'r NHS drwy broses y ddeddfwriaeth hon.

However, I welcome what the Member had to say this afternoon, as well as the comments made by the Minister, who worked in partnership with the Member, particularly in recognising whether there is a more effective method that the stop-the-clock method to increase would could be recovered to the NHS under this legislation.

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Yn ystod y broses graffu hefyd, codwyd mater arian yn cylchdroi o fewn y sector cyhoeddus, gan fod awdurdodau lleol, yr NHS ac adrannau'r Llywodraeth, ar adegau, yn gyfrifol am beidio â diogelu unigolion rhag effaith asbestos. Gan fod tipyn o'r sector cyhoeddus heb insiwrans, byddai Llywodraeth Cymru yn adennill costau'r NHS o'r sector cyhoeddus y mae'n ei ariannu yn y lle cyntaf, ac, ar adegau, gallai hyn fod o'r NHS yn uniongyrchol. Mae achos asbestos yn Ysbyty Bronglais, a monitro iechyd yr unigolion ddaeth ar draws yr asbestos hwnnw, yn dangos pa mor realistig mae'r sefyllfaoedd hyn yn gallu bod. Rwyf wedi gweld y nodyn esboniadol sydd wedi ei gyflwyno gan Mick Antoniw heddiw ynghylch yr amcangyfrifon posibl mai rhyw 15% o'r achosion fyddai yn y sector cyhoeddus. Ar lefel hanesyddol y mae'r amcangyfrifon hynny, wrth gwrs, ond rwy'n gobeithio y cawn fwy o wybodaeth eto am sut y gall y Bil hwn gylchdroi arian o fewn y sector cyhoeddus wrth inni symud ymlaen.

Another issue raised during the scrutiny process was the issue of money recirculating around the public sector, given that local authorities, the NHS and Government departments are sometimes responsible for not protecting individuals from asbestos. Given that a large part of the public sector does not have insurance, the Welsh Government would be recovering NHS costs from a public service that it is responsible for funding in the first place, and, on occasion, this could be directly from the NHS. The case of asbestos at Bronglais Hospital, and the monitoring of the health of the individuals who came across it, demonstrates how real a possibility that is. I have seen the explanatory memorandum presented by Mick Antoniw today on the estimate that only about 15% of cases would be in the public sector. Those estimates are based on historic figures, but I hope that more information will be forthcoming on how this Bill could recirculate money within the public sector as we move forward.

Er imi godi rhai amheuon y prynhawn yma ynglŷn â'r Bil, byddaf yn pleidleisio o'i blaid, i ganiatáu iddo fynd yn ei flaen i'r cam nesaf. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ystyried o ddifrif yr hyn rwyf wedi ei ddweud am a fyddai'r Bil hwn yn well fel deddfwriaeth fwy cynhwysfawr a fyddai'n adennill mwy o arian i'r sector cyhoeddus dan reolaeth y Llywodraeth. Mae'n Fil o'r meinciau cefn, ac felly mae gan Aelodau Plaid Cymru bleidlais rydd y prynhawn yma.

Despite raising some concerns about the Bill, I will be supporting it this afternoon, to allow it to progress to the next stage. I hope that the Government will give serious consideration to what I have said about its being better to take this Bill forward as a more comprehensive piece of Government legislation in order to recover more money for the public sector. It is a backbench Bill, so Plaid Cymru Members have a free vote this afternoon.

17:52

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have been an early supporter of this legislation and, unsurprisingly, I remain so. I welcome the Stage 1 report by the Health and Social Care Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I am pleased that the health committee is supportive of the Bill's underlying principle, namely that it is right that the NHS in Wales should recover the costs of medical treatments caused by asbestos-related disease. What matters is how we deliver the best piece of legislation to achieve that. The principle that the polluter pays is one that we can all sign up to; we need not worry about who the polluter is, because that will already have been dealt with for us by a civil court or a form of civil action.

Bûm yn gefnogwr cynnar o'r ddeddfwriaeth hon ac nid yw'n syndod fy mod yn dal i'w chefnogi. Rwyf yn croesawu adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwyf yn falch fod y pwyllgor iechyd yn gefnogol i egwyddor sylfaenol y Bil, sef ei bod yn briodol y dylai'r GIG yng Nghymru adennill costau triniaethau meddygol a achosir gan glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Yr hyn sy'n bwysig yw sut y gallwn ddarparu'r darn gorau o ddeddfwriaeth i gyflawni hynny. Mae'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn un y gallwn i gyd ei chefnogi; nid oes angen inni boeni pwy yw'r llygrwr, oherwydd bydd hynny eisoes wedi ei benderfynu ar ein rhan gan lys sifil neu gan ryw fath o achos sifil.

Recommendation 1 is a matter for Government to address. I know that there has been comment on it already, and I welcome the comments made by the Minister for Health about considering alternative and future Government legislation to cover other forms of occupational disease. I would not support amending this piece of legislation to cover other forms of occupational disease, because the permission that the Assembly has given is much narrower, and it would pose a real risk that the legislation could be struck down at a later point.

Mae argymhelliad 1 yn fater i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef. Gwn y cafwyd sylwadau arno eisoes, a chroesawaf y sylwadau a wnaed gan y Gweinidog Iechyd ynghylch ystyried deddfwriaeth amgen a deddfwriaeth yn y dyfodol gan y Llywodraeth i gynnwys mathau eraill o glefydau galwedigaethol. Ni fyddwn yn cefnogi diwygio'r darn hwn o ddeddfwriaeth i gynnwys mathau eraill o glefydau galwedigaethol, gan fod y caniatâd y mae'r Cynulliad wedi ei roi yn llawer culach, a byddai'n peri risg wirioneddol y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei tharo i lawr yn ddiweddarach.

It is perhaps worth correcting one point that Darren Millar made, which is about family exposure, in which a worker has been as exposed to asbestos, and then there has been secondary exposure, causing an asbestos-related condition. At present, those people can and do recover compensation. So, in the example that you gave, the wife, the husband or somebody else who has not gone into the workplace and is not employed there would still win a compensation claim and would still be able to recover NHS costs.

Efallai ei bod yn werth cywiro un pwynt a wnaeth Darren Millar, sydd yn ymwneud â chyswllt teuluol, lle mae gweithiwr wedi bod mewn cysylltiad ag asbestos, a lle bu cyswllt eilaidd wedyn, gan achosi cyflwr sy'n gysylltiedig ag asbestos. Ar hyn o bryd, gall y bobl hynny adennill iawndal ac maent yn gwneud hynny. Felly, yn yr enghraifft a roesoch, byddai'r wraig, y gŵr neu rywun arall nad yw wedi mynd i mewn i'r gweithle ac nad yw'n cael ei gyflogi yno yn dal i ennill cais am iawndal a byddai'n dal yn gallu adennill costau'r GIG.

17:54 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful for the clarification, as I was not aware of it; it was not an issue that we explored in any detail in the committee. I am not sure why it was not mentioned in the explanatory memorandum prepared by the Member either. If that is the case, it still does not take away the problem of this needing to apply more widely, to embrace all industrial disease.

Rwyf yn ddiolchgar am yr eglurhad, gan nad oeddwn yn ymwybodol o hynny; nid oedd yn fater a archwiliwyd yn fanwl yn y pwyllgor. Nid wyf yn siŵr pam na chafodd ei grybwyll yn y memorandwm esboniadol a baratowyd gan yr Aelod chwaith. Os yw hynny'n wir, nid yw'n cael gwared ar broblem yr angen i gymhwyso hyn yn fwy eang, i gynnwys pob clefyd diwydiannol.

17:54 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that there is a separate point in dealing with the general principle of the Bill. I appreciate that you have your view, but I am nevertheless disappointed that your group will vote against the Bill. I hope that we can persuade you otherwise during the rest of the course of the legislation.

Credaf fod pwynt ar wahân wrth ymdrin ag egwyddor gyffredinol y Bil. Rwyf yn deall bod gennych eich safbwynt, ond rwyf yn siomedig serch hynny y bydd eich grŵp yn pleidleisio yn erbyn y Bil. Gobeithiaf y gallwn ddwyn perswâd arnoch i wneud fel arall yn ystod gweddill cwrs y ddeddfwriaeth.

I want to deal with the practical arguments made about recirculating money in the public sector. Some opponents have pointed out—the Association of British Insurers being one—that you only recirculate money by recovering it for the NHS from other parts of the public sector, and that is correct, where there is a public sector employer. However, there is no logical or principled reason to exclude public sector employers who bear responsibility for causing asbestos-related disease. It is important to consider the previous legislation that this builds on. Legislation was introduced in 1999 to recover NHS costs in England and Wales from road traffic accidents, and then significantly expanded in the Health and Social Care Act 2003 to cover all other forms of personal injury apart from occupational disease. There was no exclusion for the public sector in either piece of legislation, and the same process of using a tariff with a stop-the-clock mechanism was also introduced with cross-party support in both those pieces of legislation.

Rwyf am ymdrin â'r dadleuon ymarferol a wnaed am gylchdroi arian yn y sector cyhoeddus. Mae rhai gwrthwynebwyr wedi nodi—Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn un—mai dim ond cylchdroi arian yr ydych drwy ei adennill i'r GIG o rannau eraill o'r sector cyhoeddus, ac mae hynny'n gywir, lle ceir cyflogwr sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes rheswm rhesymegol neu egwyddorol dros eithrio cyflogwyr yn y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am achosi clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae'n bwysig inni ystyried y ddeddfwriaeth flaenorol y mae hyn yn adeiladu arni. Cyflwynwyd deddfwriaeth yn 1999 i adennill costau'r GIG yng Nghymru a Lloegr o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd, ac yna cafodd ei hestyn yn sylweddol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003 i gynnwys pob math arall o anaf personol ar wahân i glefydau galwedigaethol. Nid oedd unrhyw eithriad ar gyfer y sector cyhoeddus yn y naill ddarn o ddeddfwriaeth na'r llall, a chafodd yr un broses o ddefnyddio tariff â mecanwaith stopio'r cloc ei chyflwyno hefyd gyda chefnogaeth drawsbleidiol yn y ddau ddarn hynny o ddeddfwriaeth.

I also want to deal with the claim made by the Association of British Insurers that 40% of these claims would be against the public sector. There is no objective foundation for that claim, and, in my view, it was mischievous. I appreciate that the ABI is opposed to this Bill, but it is disappointing that it is prepared to give that evidence without any credible foundation. The only reasonable statistical basis that we have is the 9% to 15% figures that have already been quoted by the Member in charge, and Members will by now have had a research briefing on this.

Rwyf hefyd yn awyddus i ddelio â'r honiad a wnaed gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain y byddai 40% o'r hawliadau hyn yn erbyn y sector cyhoeddus. Nid oes sail wrthrychol i'r honiad hwnnw, ac, yn fy marn i, roedd yn ddrygionus. Gwn fod Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn gwrthwynebu'r Bil hwn, ond mae'n destun siom ei bod yn barod i roi'r dystiolaeth honno heb unrhyw sail gredadwy. Yr unig sail ystadegol resymegol sydd gennym yw'r 9% i 15% sydd eisoes wedi eu dyfynnu gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a bydd yr Aelodau erbyn hyn wedi cael briff ymchwil ar hyn.

It is also worth reflecting on some of the evidence that was given about the time that it takes to fight and settle compensation claims. The ABI suggested that claims could be fought even harder and that victims could suffer if this Bill were enacted. However, lawyers who represent the insurance industry on one side, and lawyers who represent asbestos victims on the other, did not agree with that particular claim. They pointed out that, when the 1999 legislation was introduced, and the 2003 Act, it had no real impact on the time it took to settle compensation claims. To me, it appears that this feared unintended consequence does not have a real foundation in either principle or experience.

Mae hefyd yn werth ystyried rhywfaint o'r dystiolaeth a roddwyd am yr amser y mae'n ei gymryd i ymladd a setlo hawliadau iawndal. Awgrymodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain y gallai hawliadau gael eu hymladd hyd yn oed yn galetach ac y gallai dioddefwyr ddioddef pe bai'r Bil hwn yn dod yn ddeddf. Fodd bynnag, nid oedd cyfreithwyr sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant ar un ochr, a chyfreithwyr sy'n cynrychioli dioddefwyr asbestos ar y llaw arall, yn cytuno â'r honiad penodol hwnnw. Nodasant na fu unrhyw effaith go iawn ar yr amser yr oedd yn ei gymryd i setlo ceisiadau am iawndal pan gyflwynwyd deddfwriaeth 1999, a Deddf 2003. I mi, mae'n ymddangos nad oes sail go iawn i'r canlyniad anfwriadol hwn a ofnir, mewn egwyddor nac mewn profiad.

The tariff for recovering NHS costs is, in my view, essential. Without it the system would be too expensive to administer and deliver real value. Employers and insurers are used to this system and it has been shown to work. There is an annual uprating to take account of the reality of rising NHS costs year-on-year, and it is a system that, with some modification, admittedly, could be used by the compensation recovery unit. Looking to a system where there may need to be an individual review of medical records would be expensive and take up far too much money to deliver value. We also have good evidence that the tariff system already in use is robust and fair. I welcome the steps that the Welsh Government has announced that it will take to review the record of asbestos-related lung cancer victims to underpin the tariff arrangements for those cases.

Mae'r tariff ar gyfer adennill costau'r GIG, yn fy marn i, yn hanfodol. Hebddo byddai'r system yn rhy ddrud i'w gweinyddu ac i sicrhau gwerth go iawn. Mae cyflogwyr ac yswirwyr wedi arfer â'r system hon, a gwelwyd ei bod yn gweithio. Ceir uwchraddio blynyddol i ystyried realiti costau'r GIG sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'n system y gallai'r uned adfer iawndal, gyda rhai addasiadau, rhaid cyfaddef, ei defnyddio. Byddai edrych ar system lle gallai fod angen cynnal adolygiad unigol o gofnodion meddygol yn ddrud ac yn cymryd llawer gormod o arian i ddarparu gwerth. Mae gennym dystiolaeth dda hefyd fod y system tariff a ddefnyddir eisoes yn gadarn ac yn deg. Rwyf yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn eu cymryd i adolygu cofnod dioddefwyr canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos yn sail i'r trefniadau tariff ar gyfer yr achosion hynny.

I look forward to further consideration of the Bill in detail at Stage 2, and I look forward to working with both committees to try to ensure that we deliver a piece of legislation that delivers on the clear principles set out for the Bill.

Edrychaf ymlaen at roi ystyriaeth fanwl bellach i'r Bil yng Nghyfnod 2, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r ddau bwyllgor i geisio sicrhau ein bod yn darparu darn o ddeddfwriaeth sy'n cyflawni'r egwyddorion clir a nodwyd ar gyfer y Bil.

17:57

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will begin by acknowledging the devastating effect of asbestos-related diseases, and the testimony of those who have lost relatives to it. It is a testimony that is extremely moving and compelling, and my comments should not be judged as ones that are unmoved by their evidence. However, when assessing legislation, one has to be dispassionate and have regard for whether the legislation is correct, right and does what it intends to do.

Dechreuaf drwy gydnabod effaith ddinistriol clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, a thystiolaeth y rhai a gollodd berthnasau o'u herwydd. Mae'n dystiolaeth sy'n hynod deimladwy a grymus, ac ni ddylid barnu fy sylwadau fel rhai nad yw eu tystiolaeth wedi cyffwrdd â hwy. Fodd bynnag, wrth asesu deddfwriaeth, rhaid bod yn ddiduedd ac ystyried a yw'r ddeddfwriaeth yn briodol, yn gywir ac yn gwneud yr hyn mae'n bwriadu ei wneud.

The committee, as outlined by previous speakers, gave a great deal of consideration to the principle that the polluter pays, and there was a feeling that, while that was the right principle, the question then arose: why just this polluter in this particular case? Should not that principle be taken to include other fields? The Minister is right to be cautious in response to that recommendation, because the committee did not really and truly give due consideration to what the consequences may be should such an approach be pursued by the Welsh Government. I would urge caution in that particular case, because there could be a great deal of unintended consequences should the Government decide to move forward in that way without due consideration. Therefore, I think that the Minister is right to be cautious in the first regard. The question is: if the polluter pays, why only this polluter in these particular circumstances?

Rhoddodd y pwyllgor, fel yr amlinellwyd gan siaradwyr blaenorol, lawer iawn o sylw i'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, ac roeddem o'r farn, er bod yr egwyddor hon yn iawn, fod cwestiwn yn codi wedyn: pam mai dim ond y llygrwr hwn yn yr achos penodol hwn? Oni ddylai'r egwyddor honno gynnwys meysydd eraill? Mae'n briodol i'r Gweinidog fod yn ofalus wrth ymateb i'r argymhelliad hwnnw, oherwydd ni roddodd y pwyllgor ystyriaeth wirioneddol i ganlyniadau posibl hynny pe bai Llywodraeth Cymru'n cymryd ymagwedd o'r fath. Byddwn yn cymell gofal yn yr achos arbennig hwnnw, oherwydd gallai fod llawer iawn o ganlyniadau anfwriadol pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu symud ymlaen yn y ffordd honno heb ystyriaeth briodol. Felly, credaf fod y Gweinidog yn iawn i fod yn ofalus yn y lle cyntaf. Dyma'r cwestiwn: os mai'r llygrwr sy'n talu, pam mai dim ond y llygrwr hwn yn yr amgylchiadau penodol hyn?

When we come to the pay section, in reality what the Bill does is pay only for some of the costs associated with the illness. The Member in charge has been frank and upfront about why that is the case. The polluter pays in this case only for charges that have accrued primarily in secondary care. Issues around primary care and hospice care, and other costs incurred by public services, such as social services, are not covered by the Bill. We must ask ourselves why only this polluter and why only pay for some of the costs.

O ran yr adran ar daliadau, mewn gwirionedd yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud yw talu am ddim ond rhai o'r costau sy'n ymwneud â'r salwch. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi bod yn onest ac yn agored ynghylch y rheswm dros hynny. Y llygrwr sy'n talu yn yr achos hwn, ond dim ond am daliadau sydd wedi cronni mewn gofal eilaidd yn bennaf. Nid yw materion yn ymwneud â gofal sylfaenol a gofal hosbis, a chostau eraill a ysgwyddwyd gan y gwasanaethau cyhoeddus, megis y gwasanaethau cymdeithasol, wedi eu cynnwys yn y Bil. Mae'n rhaid inni ofyn inni ein hunain pam mai dim ond y llygrwr hwn a pham dim ond talu am rai o'r costau.

However, my real and genuine concerns are about the effects of potentially delaying the settlement of cases for individual victims and their families. I believe that that is a potential unintended consequence of the legislation. I am sure that the Member in charge and those supporting him would not want this legislation, in effect, to amount to little more—because, in effect, this recoups only approximately £2 million to the public purse, which is worth remembering—in recouping that £2 million, than a lawyers' charter to make more money. I acknowledge the point that Vaughan Gething made and I appreciate that, by reading his Member's register of interest, he is well placed to understand the system better than most of us in the Chamber. However, the issue is that that was a fear that was recognised by the organisations that represent families. They felt—I will give way.

Fodd bynnag, mae fy mhryderon gwirioneddol a dilys yn ymwneud ag effeithiau posibl oedi wrth setlo achosion ar ran dioddefwyr unigol a'u teuluoedd. Credaf fod hynny'n ganlyniad anfwriadol posibl i'r ddeddfwriaeth. Rwyf yn siŵr na fyddai'r Aelod sy'n gyfrifol a'r rhai sy'n ei gynorthwyo am i'r ddeddfwriaeth hon, i bob pwrpas, fod yn fawr mwy—oherwydd, mewn gwirionedd, dim ond tua £2 filiwn y bydd hyn yn ei adennill i'r pwrs cyhoeddus, sydd yn werth ei gofio—o ran adennill y £2 filiwn, na siarter i gyfreithwyr wneud mwy o arian. Rwyf yn cydnabod y pwynt a wnaeth Vaughan Gething, ac rwyf yn sylweddoli, o ddarllen ei gofrestr o fuddiannau, ei fod mewn sefyllfa dda i ddeall y system yn well na'r rhan fwyaf ohonom yn y Siambr. Fodd bynnag, y broblem yw fod hwn yn ofn a gydnabuwyd gan y sefydliadau sy'n cynrychioli teuluoedd. Roeddent yn teimlo—fe ildiaf.

18:01

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that point, the Forum of Insurance Lawyers and the Association of Personal Injury Lawyers both gave evidence that that potential unintended consequence was unlikely to happen. There is no evidence, from the two previous instances when this form of legislation was introduced, that that unintended consequence was made real.

Ar y pwynt hwnnw, rhoddodd Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant a Chymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol dystiolaeth fod y canlyniad anfwriadol posibl hwnnw'n annhebygol o ddigwydd. Nid oes unrhyw dystiolaeth, o'r ddau achos blaenorol pan gyflwynwyd y math hwn o ddeddfwriaeth, fod y canlyniad anfwriadol hwnnw wedi ei wireddu.

18:01

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Forgive me for having a slightly sceptical attitude to what lawyers might say in evidence. I did not expect those lawyers to come to the committee and say, 'Yes, actually, we're going to make more money out of this'. I do, however, give more credence to the voice of the victims' organisations that came to the committee and said that an unintended consequence of this legislation may be that they would have to fight harder and wait longer for the compensation that was due to them. However, I acknowledge that those organisations and family members went on to say that they felt that that was a price worth paying. Therefore, we have to balance the arguments about whether, in effect, this leads to lawyers being able to make more money, while also recognising that there is a principle of justice here for the families, and they say that they are willing to put up with that in pursuit of that principle. Having weighed up those considerations, I and the Liberal Democrat group will vote for the legislation to go forward to Stage 2. However, I hope that, in those Stage 2 deliberations, we can give further thought to whether those unintended consequences can be addressed and whether there is further evidence that can allay my concerns.

Maddeuwch imi am fy agwedd ychydig yn amheus at yr hyn y gallai cyfreithwyr ei ddweud mewn tystiolaeth. Nid oeddwn yn disgwyl i'r cyfreithwyr hynny ddod at y pwyllgor a dweud, 'Ydym, mewn gwirionedd, rydym yn mynd i wneud mwy o arian o hyn'. Rwyf yn rhoi mwy o goel, fodd bynnag, i lais sefydliadau'r dioddefwyr a ddaeth at y pwyllgor a dweud efallai mai un o ganlyniadau anfwriadol y ddeddfwriaeth hon fyddai bod yn rhaid iddynt ymladd yn galetach ac aros yn hirach am yr iawndal sy'n ddyledus iddynt. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod y sefydliadau hynny a'r teuluoedd wedi mynd ymlaen i ddweud eu bod yn teimlo bod hynny'n bris gwerth ei dalu. Felly, mae'n rhaid i ni gydbwyso'r dadleuon, i bob pwrpas, ynghylch a yw hyn yn golygu y bydd cyfreithwyr yn gallu gwneud mwy o arian, a chydnabod ar yr un pryd fod egwyddor o gyfiawnder yma i'r teuluoedd, ac maent yn dweud eu bod yn barod i oddef hynny er mwyn yr egwyddor honno. Ar ôl pwyso a mesur yr ystyriaethau hynny, byddaf i a grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn pleidleisio o blaid gweld y ddeddfwriaeth yn mynd ymlaen i Gyfnod 2. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y gallwn, yn y trafodaethau Cyfnod 2 hynny, ystyried ymhellach a oes modd ymdrin â'r canlyniadau anfwriadol hynny ac a oes tystiolaeth bellach a all leddfu fy mhryderon.

18:03 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want, with your permission, Member, to develop a point that Simon Thomas referred to earlier about recommendation 6 by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which relates to section 15(4) of the proposed Bill. The committee's report does not say an awful lot, but I want to develop this point at the Stage 1 debate in order that the Member is ready to deal with it at Stage 2, if that is acceptable.

Gyda'ch caniatâd, Aelod, rwyf am ddatblygu pwynt y cyfeiriodd Simon Thomas ato yn gynharach ynghylch argymhelliad 6 gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sy'n ymwneud ag adran 15(4) o'r Bil arfaethedig. Nid yw adroddiad y pwyllgor yn dweud rhyw lawer, ond rwyf am ddatblygu'r pwynt hwn yn y ddadl Cyfnod 1 er mwyn sicrhau bod yr Aelod yn barod i ymdrin ag ef yng Nghyfnod 2, os yw hynny'n dderbyniol.

I understand, from sitting on that committee, that the Assembly does not have competence to legislate directly with regard to insurance. The references to the insurance companies in the Bill are incidental to its main purpose. In effect, the Bill relates to an obligation on parties liable for the disease and insurance companies are incidental in as much as they step into the shoes of those compensators by virtue of contractual arrangements to make payment once liability of a compensator has been proven.

Rwyf ar ddeall, o eistedd ar y pwyllgor hwnnw, nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu'n uniongyrchol mewn perthynas ag yswiriant. Mae'r cyfeiriadau at y cwmnïau yswiriant yn y Bil yn atodol i'w brif bwrpas. Mae'r Bil yn ymwneud, i bob pwrpas, â rhwymedigaeth ar bartïon sy'n atebol am y clefyd ac mae cwmnïau yswiriant yn atodol oherwydd eu bod yn camu i esgidiau'r digolledwyr hynny yn rhinwedd trefniadau cytundebol i wneud taliadau unwaith y mae atebolrwydd digolledwr wedi ei brofi.

There is no attempt to directly legislate for insurance companies as such, with what appears to be one exception in section 15(4), which provides for the possibility of a maximum limit that an insurer would be expected to pay on behalf of a compensator. There is no such cap set for the compensator in the legislation as it stands at the moment, so it cannot be said that, in this specific instance, insurers are just stepping into the shoes of the compensator. The clause purports to legislate for insurers alone and unless you can rely on section 6(5), and that is a possibility, it is likely to be ultra vires as a result. It would be useful to hear, at this stage, if you are ready to face up to that potential argument, before we reach Stage 2 when we might have to revisit it.

Nid oes unrhyw ymgais i ddeddfu'n uniongyrchol ar gyfer cwmnïau yswiriant fel y cyfryw, ond ymddengys fod un eithriad yn adran 15(4), sy'n darparu ar gyfer posibilrwydd pennu uchafswm y byddai disgwyl i yswiriwr ei dalu ar ran digolledwr. Nid oes unrhyw uchafswm o'r fath wedi'i osod ar gyfer y digolledwr yn y ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd, felly ni ellir dweud, yn yr achos penodol hwn, fod yswirwyr yn gwneud dim ond camu i esgidiau'r digolledwr. Mae'r cymal yn honni deddfu ar gyfer yswirwyr yn unig, ac oni allwch chi ddibynnu ar adran 6(5), ac mae hynny'n bosibl, mae'n debygol felly o fod yn ultra vires. Byddai'n ddefnyddiol clywed, ar yr adeg hon, a ydych yn barod i wynebu'r ddadl bosibl honno, cyn inni gyrraedd Cyfnod 2 pan fydd yn rhaid inni ailedrych ar hynny efallai.

18:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mick Antoniw to reply to the debate.

Galwaf ar Mick Antoniw i ymateb i'r ddadl.

18:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the various points that have been made, which have been made seriously as part of a proper scrutiny process. I will not reply to the points where I think that there is a certain amount of common agreement, many of which I anticipated in my speech because I was responding specifically to the report. However, there are one or two areas upon which it might be worth expanding.

Rwyf yn ddiolchgar am y gwahanol bwyntiau sydd wedi eu gwneud, ac wedi eu gwneud o ddifrif fel rhan o broses graffu briodol. Nid wyf am ateb y pwyntiau hynny lle credaf fod rhywfaint o gytundeb cyffredin, ac yr oeddwn wedi rhagweld llawer ohonynt yn fy araith oherwydd fy mod yn ymateb yn benodol i'r adroddiad. Fodd bynnag, mae un neu ddau o feysydd y gallai fod yn werth ymhelaethu arnynt.

All I can say, Darren, in respect of expanding the Bill to cover all diseases on the polluter-pays principle, is that I am very limited in that regard, because I specifically wanted to bring this matter forward in respect of asbestos. In terms of the procedure for doing so, the leave that I have been given has tied me solely to the process with regard to asbestos. I have explained the reasons for that, and there are considerable limitations on me in terms of being able to broaden that out.

Y cyfan y gallaf ei ddweud, Darren, o ran ehangu'r Bil i ymdrin â'r holl glefydau ar yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, yw fy mod wedi fy nghyfyngu gryn dipyn yn hynny o beth, oherwydd roeddwn yn awyddus yn benodol i gyflwyno'r mater hwn o ran asbestos. O ran y weithdrefn ar gyfer gwneud hynny, mae'r caniatâd yr wyf wedi ei gael wedi fy nghlymu i'r broses o ran asbestos yn unig. Rwyf wedi esbonio'r rhesymau am hynny, ac mae cryn gyfyngiadau arnaf o ran gallu ehangu hynny.

There are also limitations in terms of where we are now in the scrutiny process, which again has focused essentially on asbestos itself. The Minister commented on the Government's consideration of this matter. All I can say is that if this is an area to explore further in a way that satisfies the particular concerns that you have raised, Darren, the Minister is here and is listening to what is being said.

Mae cyfyngiadau hefyd o ran lle'r ydym bellach yn y broses graffu sydd unwaith eto wedi canolbwyntio i bob pwrpas ar asbestos ei hun. Gwnaeth y Gweinidog sylw ar ystyriaeth y Llywodraeth o'r mater. Y cwbl y gallaf ei ddweud yw hyn: os yw hyn yn faes i'w archwilio ymhellach mewn ffordd sy'n bodloni'r pryderon penodol a godwyd gennych, Darren, mae'r Gweinidog yma ac yn gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud.

Being able to work with the Government has been extremely helpful and productive—in some ways, legislation like this would be almost impossible without a certain amount of that support—particularly in terms of research and access to information. As a Member bringing a Bill forward, I do not have any direct access to the compensation recovery unit, for example. The assistance that I have received from the previous Minister in that regard has been absolutely essential. In fact, work is going on not only in terms of the contacts with the compensation recovery unit to produce a system, but in respect of the consideration of the actual costings of other types of asbestos disease. That work is under way at the moment. It is quite specialised work, and I certainly anticipate and hope that, by the time that we get to Stage 2, quite a lot more information will be available to you that I hope will satisfy some of the concerns that have been raised. All I would say to you on this matter, Darren, is that, understanding the limitations that I have, I hope that you might give consideration to the limitations as to what I can produce. I would not like to see a situation where the baby is thrown out with the bathwater, if that is a reasonable analogy.

Mae gallu gweithio gyda'r Llywodraeth wedi bod yn hynod ddefnyddiol a chynhyrchiol—mewn rhai ffyrdd, byddai deddfwriaeth fel hon bron yn amhosibl heb rywfaint o'r gefnogaeth honno—yn enwedig o ran ymchwil a mynediad i wybodaeth. Fel Aelod sy'n cyflwyno Bil, nid oes gennyf fynediad uniongyrchol i'r uned adfer iawndal, er enghraifft. Mae'r cymorth yr wyf wedi'i gael gan y Gweinidog blaenorol yn hynny o beth wedi bod yn allweddol. Yn wir, mae gwaith yn mynd rhagddo, nid yn unig o ran y cysylltiadau â'r uned adfer iawndal i greu system, ond o ran ystyried costau gwirioneddol mathau eraill o glefydau asbestos. Mae'r gwaith hwnnw ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'n waith eithaf arbenigol, ac rwyf yn sicr yn rhagweld ac yn gobeithio, erbyn inni gyrraedd Cyfnod 2, y bydd llawer mwy o wybodaeth ar gael ichi, ac rwyf yn gobeithio y bydd y wybodaeth honno'n bodloni rhai o'r pryderon a godwyd. Y cyfan a ddywedaf wrthych ar y mater hwn, Darren, yw fy mod yn gobeithio, o ddeall y cyfyngiadau sydd arnaf, y byddwch yn ystyried y cyfyngiadau o ran yr hyn y gallaf ei gynhyrchu. Ni fyddwn yn hoffi gweld sefyllfa lle rydym yn taflu'r llo a chadw'r brych, os yw honno'n gyfatebiaeth resymol.

Vaughan dealt with the point that was raised about third-party claims, which was absolutely correct. I wish to deal with the very valid point that Kirsty raised, which is the issue of the delay of settlements and the impact that that might have on asbestos victims and their families. After the Road Traffic (NHS Charges) Act 1999 came in, there has been no evidence whatsoever that it has delayed the settlement of cases in any way. It was then expanded in 2003 to all types of cases involving accidents—or a considerable variety of different types—and there has not been a shred of evidence that that was the effect. There was obviously a perception that that might be the case, but I do not think that there is any evidence to support it.

Ymdriniodd Vaughan â'r pwynt a godwyd am hawliadau trydydd parti, a oedd yn hollol gywir. Rwyf am ddelio â'r pwynt dilys iawn a godwyd gan Kirsty, sef oedi wrth setlo a'r effaith y gallai hynny ei chael ar ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd. Ar ôl i Ddeddf Traffig Ffyrdd (Taliadau'r GIG) 1999 ddod i rym, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o gwbl ei bod wedi achosi oedi wrth setlo achosion yn unrhyw fodd. Cafodd ei hehangu wedyn yn 2003 i bob math o achosion sy'n ymwneud â damweiniau—neu gryn amrywiaeth o wahanol fathau—ac ni fu unrhyw dystiolaeth mai dyna oedd yr effaith. Yn amlwg, roedd canfyddiad y gallai hynny fod yn wir, ond nid wyf yn credu bod unrhyw dystiolaeth i'w gefnogi.

We have to realise that of the two organisations that were specifically referred to by Vaughan Gething, FOIL and APIL, the latter is a body representing lawyers who act on behalf of claimants while FOIL is its nemesis—it is the body that represents the insurance industry itself. The evidence that those two bodies gave, which I read quite carefully, was based on practical experience.

Mae'n rhaid inni sylweddoli o ran y ddau gorff y cyfeiriodd Vaughan Gething yn benodol atynt, FOIL ac APIL, fod APIL yn gorff sy'n cynrychioli cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran hawlwyr tra bo FOIL yn nemesis iddo—dyma'r corff sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant ei hun. Roedd y dystiolaeth a roddodd y ddau gorff hyn, ac rwyf wedi ei darllen yn eithaf gofalus, yn seiliedig ar brofiad ymarferol.

It is worth making a point that has not been raised specifically, but which arose incidentally during the scrutiny process, that this whole process of the recovery of costs for the Welsh Government does not have any impact whatsoever on the legal profession. No lawyers are going to make any money out of this; all that happens is that a settlement triggers an entitlement to recover costs.

Mae'n werth gwneud pwynt nad yw wedi cael ei godi'n benodol, ond a gododd wrth fynd heibio yn ystod y broses graffu, sef nad yw'r holl broses o adennill costau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw effaith o gwbl ar y proffesiwn cyfreithiol. Nid yw'r cyfreithwyr yn mynd i elwa'n ariannol o hyn; y cyfan sy'n digwydd yw bod setliad yn ysgogi hawl i adennill costau.

I will now respond to Suzy Davies's point. The point that you raise is perfectly valid: we need to ensure that those regulatory changes and potential issues relating to compensators and insurers are resolved. The best way to answer that, rather than go into detail now, is to say that I have been looking at that, and I will consult the Minister and Government on all those regulatory powers, particularly those where there are affirmative and negative implications, and also in respect of the cap, which needs to be explained in a bit more detail, because that was referred to in the explanatory memorandum, but was brought in specifically to provide certainty to the insurance industry so that it knows exactly where it stands, because of the way in which the industry operates. Therefore, it was a concession.

Rwyf am ymateb yn awr i bwynt Suzy Davies. Mae'r pwynt a godwch yn gwbl ddilys: mae angen inni sicrhau bod y newidiadau rheoleiddio a'r materion posibl yn ymwneud â digolledwyr ac yswirwyr yn cael eu datrys. Y ffordd orau o ateb hynny, yn hytrach na mynd i fanylder yn awr, yw dweud fy mod wedi bod yn edrych ar hynny, ac y byddaf yn ymgynghori â'r Gweinidog a'r Llywodraeth ar yr holl bwerau rheoleiddio hynny, yn enwedig y rhai hynny lle mae goblygiadau cadarnhaol a negyddol, a hefyd mewn perthynas â'r cap, y mae angen eu hesbonio mewn ychydig mwy o fanylder, oherwydd bod cyfeiriad at hynny yn y memorandwm esboniadol, ond cyflwynwyd hynny'n benodol i roi sicrwydd i'r diwydiant yswiriant er mwyn iddo wybod yn union ble y mae'n sefyll, oherwydd y ffordd y mae'r diwydiant yn gweithredu. Felly, roedd yn gonsesiwn.

I hope that I have answered most of the points, but a considerable amount of work still needs to be done for Stage 2. I thank all the Members here for the various comments that they have made today.

Gobeithiaf fy mod wedi ateb y rhan fwyaf o'r pwyntiau, ond mae cryn dipyn o waith y mae angen ei wneud o hyd ar gyfer Cyfnod 2. Diolch i'r holl Aelodau yma am y sylwadau amrywiol y maent wedi eu gwneud heddiw.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the general principles of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill. Does any Member object? I see that there is an objection. Therefore, I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn gohirio'r bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Cynnig NDM5190 Jane Hutt

# Financial Resolution on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

Motion NDM5190 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69(ii), arising in consequence of the Bill.

18:11

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Minister, I take it that you do not want to formally reply to the debate.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Weinidog, cymeraf nad ydych yn dymuno ymateb yn ffurfiol i'r ddadl.

18:11

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I do not.

Nac ydw, nid wyf yn dymuno gwneud hynny.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I have had to defer voting on the general principles of the Bill, voting on the financial resolution is also deferred. Voting time will now follow. Before I proceed to take the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Gan fy mod wedi gorfod gohirio'r bleidlais ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae pleidleisio ar y penderfyniad ariannol hefyd wedi'i ohirio. Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi gymryd y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5191.

Result of the vote on motion NDM5191.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 44, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 5 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 28, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 28, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 6 to NDM5189.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 0, Ymatal 20.*

*Motion agreed: For 32, Against 0, Abstain 20.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 7 to NDM5189.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 8 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 28, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 28, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 9 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 10 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 11 to NDM5189.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 12 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 11, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13 i NDM5189.

Result of the vote on amendment 13 to NDM5189.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 37, Abstain 0.*

Cynnig NDM5189 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5189 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2011-12.

Notes the annual report for 2011-12 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

Yn nodi'n benodol gasgliad y Prif Arolygydd mai 'presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd'.

Notes in particular the conclusion of the Chief Inspector that 'attendance remains the weakest aspect of wellbeing for schools'.

Yn nodi'r angen, a nodwyd gan y Prif Arolygydd, i roi mwy o gefnogaeth i athrawon wrth fynd ati i sicrhau bod safonau'n gwella.

Notes the need, identified by the Chief Inspector, for more support for teachers in delivering improvements in standards.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar rannu arferion gorau mewn addysg ar gyfer torri'r cylch tlodi ac anfantais mewn ysgolion.

Calls on the Welsh Government to intensify its focus on sharing best practice in education on breaking the cycle of poverty and disadvantage in schools.

Yn gresynu wrth y canfyddiadau yn yr adroddiad fod y gyfran o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2011-12 y barnwyd eu bod yn rhagorol neu'n dda yn is na'r flwyddyn flaenorol, gyda mwy o ysgolion uwchradd yn y pegynau perfformiad rhagorol neu anfoddhaol.

Regrets the findings within the report that the proportion of schools inspected in 2011-12 that were judged excellent or good was lower than the previous year, with more secondary schools at the extremes of excellent or unsatisfactory performance.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn adrodd am ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy cefnog.

Calls on the Welsh Government to ensure that Estyn reports on how effectively the Pupil Deprivation Grant is being used by schools to narrow the attainment gap between pupils from disadvantaged and more affluent backgrounds.

Yn mynegi pryder bod 54 y cant o ysgolion uwchradd a 48 y cant o ysgolion cynradd wedi cael eu nodi ar gyfer ymweliadau dilynol, sy'n fwy na'r llynedd.

Expresses concern that 54% of secondary schools and 48% of primary schools have been identified for follow up visits, which is an increase on last year.

Yn gresynu wrth ganfyddiadau Estyn sy'n awgrymu bod 'perfformiad addysgu sydd o safon gyffredin' yn bodoli.

Regrets Estyn's findings which suggest the existence of 'mediocre teaching performance'.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5189 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5189 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 43, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Motion as amended agreed: For 43, Against 0, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 1 to NDM5193.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 21, Yn erbyn 28, Ymatal 5.*

*Result of the vote on amendment 1 to NDM5193.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 2 to NDM5193.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 1.*

*Amendment not agreed: For 21, Against 28, Abstain 5.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 3 to NDM5193.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 37, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 4 to NDM5193.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 5 to NDM5193.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5193.

Result of the vote on amendment 6 to NDM5193.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5193 fel y'i diwygiwyd:

Amendment not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Motion NDM5193 as amended:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned i ymgymryd â'u rôl yn y GIG yn yr unfed ganrif ar hugain.

Notes the proposals of the Welsh Government to transform, strengthen and empower Community Health Councils to undertake their role in the 21st Century NHS.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn llais annibynnol i gleifion.

Calls on the Welsh Government to ensure that Community Health Councils are an independent voice for patients.

Yn credu bod yn rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned chwarae rhan allweddol wrth fod yn llais cryf i gleifion a'r cyhoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o ad-drefnu GIG Cymru yn y dyfodol.

Believes that Community Health Councils must play a vital role in providing a strong voice for patients and the public and calls on the Welsh Government to ensure that Community Health Councils have the funding and training needed to engage effectively in the future reorganisation of NHS Wales.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5193 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5193 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 43, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Motion as amended agreed: For 43, Against 0, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5192.

Result of the vote on motion NDM5192.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 43, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5190.

Result of the vote on motion NDM5190.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 43, Against 11, Abstain 0.*

18:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.21 p.m.*

*The meeting ended at 6.21 p.m.*